Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

a gynhelir yn

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 26 CHWEFROR 2015**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for a

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

to be held at the

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**THURSDAY
26 FEBRUARY 2015**

**at 2.00 pm**

## R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u harwyddo, gofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar :-

- 4 Rhagfyr, 2014 (Arbennig) (10.00 am)
- 4 Rhagfyr, 2014 (2.00 pm)
- 20 Ionawr, 2015 (Arbennig)
- 4 Chwefror, 2015 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

5. **CYLLIDEB 2015/16**

**(a) Cyllideb Refeniw**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**(b) Rhaglen Gyfalaf**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**(c) Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**(ch) Pennu'r Dreth Cyngor**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**(d) Newidiadau i'r Gyllideb**

Cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Gyllideb ac y cafwyd rhybudd ohonynt o dan Baragraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad.

**(Noder: Mae angen i'r holl bapurau uchod gael eu hystyried fel un pecyn).**

6. **NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR APELIADAU**

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

- Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2015 wedi **PENDERFYNU** argymell i'r Cyngor Sir fod :-

  - *"Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y cawsant eu cynnwys yn Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.*

  - *Bod y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) yn cael yr awdurdod i ddiwygio unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i adlewyrchu'r newidiadau dan sylw.*

  - *Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael yr awdurdodi i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau perthnasol."*

7. **YMESTYN TYMOR Y PWYLLGOR SAFONAU**

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

- Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2015 wedi **PENDERFYNU** argymell i'r Cyngor Sir fod :-

  - *"Bod y Cyngor yn cymeradwyo ailbenodi'r Aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau am dymor pellach o 4 blynedd, o 17 Rhagfyr 2015.*

  - *Bod y Cyngor yn dirprwyo'r awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud yr holl newidiadau dilyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor, ac i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau er mwyn ymestyn yn awtomatig yr holl benodiadau yn y dyfodol i ddau dymor i holl Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau."*

8. **STRATEGAETH DAI LEOL**

- I gyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

- Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2015 wedi **PENDERFYNU** fel a ganlyn :-

  - *"Argymell y Strategaeth Dai Leol a'r Cynllun Gweithredu ynghlwm ar gyfer eu mabwysiadu gan y Cyngor Sir.*
  - *Bod y Pwyllgor Gwaith yn cael diweddariad blynyddol ar gynnydd a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth."*

9. **ADOLYGIAD O BOLISI MASNACHU STRYD YR AWDURDOD**

Cyflwyno adroddiad y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd.

**10. RHESTR O GYFARFODYDD Y CYNGOR 2015/16**

I ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

**11. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD**

I ystyried mabwysiadu’r canlynol :-

*“Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm”.*

**12. POLISI TÂL 2015**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014 (10.00 am)

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) & Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro,<br>Rheolwr Trawsnewid Asedau Corfforaethol (CS),<br>Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau TGCh (NS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Jeff M. Evans, T.Ll. Hughes, Raymond Jones, Richard O. Jones. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r arfer pan mae eitem yn un masnachol sensitif neu'n effeithio ar staff, yw dilyn proses i ystyried a ddylai'r materion hynny gael eu trafod mewn cyfarfod agored neu gyfarfod caeëdig. Yn yr achos arbennig hwn, penderfynodd y Swyddogion y dylai'r mater hwn gael ei drafod yn breifat ond y gallai rhannau perthnasol o'r Prosiect Gweithio'n Gallach gael eu rhyddhau i'r parth cyhoeddus. Dywedodd ymhellach bod Swyddogion yn ystyried na ddylai'r Prosiect Gweithio'n Gallach gael ei drafod yn llawn mewn cyfarfod cyhoeddus oherwydd bod gwybodaeth wedi ei chynnwys sy'n fasnachol sensitif h.y. gwerth asedau'r Cyngor cyn iddynt gael eu rhoi ar y farchnad agored.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod y Prawf Budd Cyhoeddus oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn nodi'r rhesymau dros gynnal y drafodaeth yn gyhoeddus neu'n breifat. Wedi pwyso a mesur, daethpwyd i'r casgliad yn y Prawf Budd Cyhoeddus y dylid cynnal y drafodaeth mewn sesiwn breifat yn y lle cyntaf fel y gallai'r Aelodau gyfnewid eu safbwyntiau'n rhydd ac yn ddidwyll. Y pryderon cyfreithiol penodol oedd bod yna wybodaeth oedd yn fasnachol sensitif yn yr adroddiad. Roedd y wybodaeth yn disgyn i 3 chategori:-

- Gwerthu asedau i helpu i ariannu'r Prosiect hwn sy'n nodi mewn manylder beth yw'r derbyniadau a ddisgwylir.

- Gwybodaeth fanwl am y gwaith caffael sydd ei angen er mwyn cyflawni'r Prosiect h.y. cyflenwadau a gwasanaethau y bydd angen i'r Cyngor eu prynu.
- Cyfeiriadau at safbwyntiau Swyddogion ynglŷn â nodweddion penodol rhai contractwyr a enwir.

Felly roedd y cyngor cyfreithiol yn parhau, sef y dylid cynnal y drafodaeth mewn fforwm preifat. Fodd bynnag, fe ddywedodd y Swyddog Monitro os oedd y Cyngor yn bwriadu peidio â dilyn y cyngor hwnnw fel roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi bwriadu ei wneud yn y gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, nododd y dylai'r Cyngor gyfyngu'r risg fel a ganlyn:-

- Osgoi cyfeirio at y wybodaeth fasnachol sensitif yn y drafodaeth gan y Cyngor;
- Rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro, pe bai'r Cyngor yn penderfynu cynnal y drafodaeth yn gyhoeddus, i ryddhau'r papurau ac i olygu'r wybodaeth fasnachol sensitif yn dilyn y cyfarfod. Mae yna 12 set o olygiadau yn y ddogfen.

Nododd Arweinydd y Cyngor y cyngor manwl a gafwyd gan y Swyddog Monitro a chynigiodd pe na bai'r wybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei thrafod yn gyhoeddus, y dylai'r adroddiad ar y Prosiect Gweithio'n Gallach gael ei drafod yn gyhoeddus ac i olygu'r wybodaeth fasnachol sensitif o fewn yr adroddiad wedi hynny. Eiliodd y Cynghorydd Alwyn Rowlands y cynnig.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2014 wedi cymeradwyo'r Prosiect Gweithio'n Gallach ac i'r mater wedi hynny gael ei 'Alw i Mewn' i'w drafod ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac roedd y Pwyllgor hwnnw wedi gofyn i'r mater gael ei drafod yn gyhoeddus. Gohiriwyd y cyfarfod hwnnw ac yn dilyn y penderfyniad hwnnw, mae'r mater bellach wedi dod gerbron y Cyngor llawn. Dywedodd ymhellach y dylai sesiwn friffio ar y Prosiect Gweithio'n Gallach fod wedi cael ei chynnal cyn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2014 er mwyn caniatáu cynnal trafodaethau..

**PENDERFYNODD yr Aelodau yn unfrydol y dylid trafod y mater yn gyhoeddus ond gyda rhannau wedi'u golygu fel a nodwyd gan y Swyddog Monitro.**

**3. PROSIECT GWEITHIO'N GALLACH**

Roedd cais am gyfarfod Arbennig o'r Cyngor wedi ei wneud gan y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, John Griffith, Trevor Ll. Hughes, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Carwyn E. Jones, R. Meirion Jones, Alun W. Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees a Nicola Roberts yn unol ag Adran 4.1.3.1 y Cyfansoddiad, er mwyn ailystyried y penderfyniad a wnaeth y Pwyllgor Gwaith ar 20 Hydref, 2014 mewn perthynas â'r Prosiect Gweithio'n Gallach ac i ystyried y mater yn gyhoeddus. Roedd copi o'r rhesymau am y cais ynghlwm yn Rhaglen y cyfarfod.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Gwestiwn ynghylch y ffaith bod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu cymeradwyo'r Prosiect Gweithio'n Gallach ar 20 Hydref, 2014 yn amodol ar ryddhau adnoddau cyfalaf a refeniw. Cyfeiriodd at Gyfansoddiad y Cyngor 4.3.2.3 - Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r gyllideb a chwestiynodd a oedd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith o fewn rheoliadau'r Cyngor oherwydd bod Atodiad 6 yr adroddiad yn nodi y byddai'r Prosiect yn cael ei weithredu ar unwaith ym mis Rhagfyr. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â sut y byddai'r Prosiect hwn yn cael ei ariannu.

Dywedodd y Swyddog Monitro na all y Pwyllgor Gwaith ond gwneud penderfyniadau gwario lle mae'r cyllid ar gyfer y gwariant hwnnw eisoes wedi'i ddyrannu. Gan fod y Prosiect yn un aml-haenog, efallai bod peth o'r cyllid eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

Efallai na fydd rhai elfennau o'r y Prosiect angen cyllid e.e. gwerthu asedau; materion i'r Pwyllgor Gwaith fydd y rhain.  Bydd unrhyw beth arall yn benderfyniad i'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Y Swyddog Adran 151 Dros Dro ei bod yn bosib nad oedd unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd o fewn y flwyddyn hon yng nghyswllt Gweithio'n Gallach angen unrhyw gyllideb h.y. amser Swyddogion neu arian o gyllidebau adrannol oedd eisoes wedi ei neilltuo.  Fodd bynnag, os bydd angen unrhyw arian yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae gan y Cyngor arian wrth gefn wedi'i neilltuo a gellir ei ddefnyddio drwy'r prosesau cywir i ryddhau cyllid.  Dywedodd ymhellach nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfalaf yn ei lle ar hyn o bryd ar gyfer y Prosiect hwn ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cydnabod hynny drwy gytuno ag egwyddor y Prosiect yn unig. Dywedodd y Swyddog ei fod yn credu bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Hydref, 2014 wedi gwneud penderfyniad cyfreithlon o dan y ddarpariaeth gyfansoddiadol.

Rhoddodd Cadeirydd y Cyngor wahoddiad i'r Cynghorydd Bob Parry OBE, fel Arweinydd yr Wrthblaid i siarad gerbron y cyfarfod.  Mynegodd y Cynghorydd Parry mai prif bryderon Grŵp yr Wrthblaid i'r Prosiect Gweithio'n Gallach oedd y gwariant yng nghyswllt y Prosiect. Mae'r Prosiect yn ddibynnol ar werthu asedau'r Cyngor yn gyflym ar y farchnad agored. Dywedodd ymhellach ei fod yn gwerthfawrogi bod elfennau o'r Prosiect Gweithio'n Gallach yn dderbyniol ond nododd yn benodol na fyddai gwario dros £1m ar y Pencadlys yn dderbyniol i breswylwyr yr Ynys a'r adeg pan fo'r Awdurdod yn ystyried cynyddu'r Dreth Gyngor.  Roedd y mater o ad-drefnu llywodraeth leol hefyd yn ffactor yr oedd angen ei ystyried.

Y prif faterion a leisiwyd gan Grŵp yr Wrthblaid oedd:-

- Diswyddiadau posibl mewn swyddi gweinyddol;
- Roedd gwario dros £1.5m ar Bencadlys y Cyngor Sir yn annerbyniol;
- Mae angen gwella TGCh er mwyn moderneiddio'r Awdurdod gyda mwy o adnoddau yn cael eu rhoi i mewn i'r gyllideb TGCh o'r Prosiect Gweithio'n Gallach;
- Roedd angen  ymchwilio'n llawn i'r arbedion effeithlonrwydd ynni yn y Pencadlys h.y. goleuo LED, paneli heulol;
- Roedd y Prosiect yn dibynnu ar werthu asedau'r Cyngor;
- Materion parcio a iechyd a diogelwch gyda mwy o staff yn gweithio yn y Pencadlys.

Rhoddodd y Deilydd Portffolio (Trawsnewid) y cefndir manwl i'r Prosiect Gweithio'n Gallach gan sôn am y sesiwn friffio a gynhaliwyd â staff.  Mae'r Prosiect Gweithio'n gallach yn cael ei ddarparu fel ystod o arbedion fel oedd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.  Mae angen gwella Technoleg Gwybodaeth er mwyn annog a hyrwyddo gweithio'n hyblyg o fewn yr awdurdod.  Yn seiliedig ar gyngor a gafwyd gan y Swyddog Adran 151, mae'n annhebygol y ceir arbedion drwy fabwysiadu agwedd dameidiog.  Mae nifer o agweddau o fewn yr adroddiad yn  syniadau a roddwyd gerbron gan staff ac fe all y rheolwyr yn awr weithio i foderneiddio cyfleusterau, y ddarpariaeth o wasanaethau ac arferion gweithio o fewn y Cyngor.  Bydd derbyniadau cyfalaf yn cael eu defnyddio i gyfrannu at fuddsoddiad cyfalaf yng nghyswllt y Prosiect gyda hynny'n arwain at welliannau o fewn yr awdurdod.  Bydd yr arbedion £730k y flwyddyn yn deillio o'r Prosiect hwn.
Pwysleisiodd y Deilydd Portffolio mai Prosiect 'buddsoddi i arbed' yw'r Prosiect hwn.

Cyfeiriodd at y mater o ddiswyddiadau posibl mewn swyddi gweinyddol fel a nodwyd gan Grŵp yr Wrthblaid.  Eglurodd ei fod yn cael ei ragweld y byddai'r swyddi hyn yn cael eu colli drwy  broses naturiol h.y. diswyddiadau gwirfoddol ac ymddeoliadau.
Dywedodd Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid y dylid adolygu'r penderfyniad ynglŷn â'r Prosiect Gweithio'n gallach ac y dylid ei gyflwyno fesul cam.  Cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodion yn unol â darpariaethau rhan 4.1.18.5 y Cyfansoddiad.

Roedd y bleidlais wedi'i chofnodi fel a ganlyn:-

**Y dylid adolygu'r penderfyniad ar y Prosiect Gweithio'n Gallach ac ystyried symud ymlaen gyda'r Prosiect trwy broses cam wrth gam:-**

Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, John Griffith, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, Carwyn E. Jones, R. Meirion Jones, Alun W. Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts. **CYFANSWM 11**

**Yn erbyn y cynnig:-**

Cynghorwyr Jim Evans, R.A. Dew, D.R. Hughes, K.P. Hughes, T.V. Hughes, W.T. Hughes, A.M. Jones, G.O. Jones, H.E. Jones, J. Arwel Roberts, Alwyn Rowlands, D.R. Thomas, Ieuan Williams. **CYFANSWM 13**

**Atal pleidlais: DIM**

**PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig a datganodd y Cadeirydd nad oedd y cynnig wedi ei basio.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm

**CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014 (P.M.)

DRAFT

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, Ann Griffith, Derlwyn R. Hughes, Kenneth Hughes, Victor Hughes, W. T. Hughes, Aled M. Jones, Gwilym O. Jones, H. Eifion Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery, R. G. Parry, OBE, Dylan Rees, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd<br>Prif Swyddog Cynllunio (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Caniatadau Mawr (SO) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo Dros Dro (BO) (ar gyfer eitem 10)<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys (GR) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans, Carwyn Jones, Raymond Jones, Richard O. Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Ieuan Wyn Jones (Cyfarwyddwr Rhaglen Parc Gwyddoniaeth, Prifysgol Bangor), Yr Athro Sian Hope (Cyfarwyddwr Mentrau Strategol, Prifysgol Bangor), Pryderi ap Rhisiart (Rheolwr Prosiect), Emily Roberts (Gweinyddydd Prosiect) ( ar gyfer Eitem 1), Mr Gareth Hall (Rheolwr Darparu Rhaglen Ynni Fawr) (ar gyfer eitem 7) |

---

**1 CYFLWYNIAD – PARC GWYDDONIAETH**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Mr. Ieuan Wyn Jones, Cyfarwyddwr Rhaglen Parc Gwyddoniaeth Menai oedd yn y cyfarfod i annerch y Cyngor ynglŷn â'r Parc Gwyddoniaeth a'r hyn yr oedd yn ei olygu. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr, yng ngoleuni'r ffaith bod cais cynllunio ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio, y byddai'r cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Rhaglen yn un ffeithiol ei natur ac wedi ei gyfyngu i roi gwybodaeth yn unig ynglŷn â'r weledigaeth ar gyfer y Parc a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau y bydd yn eu darparu gan bod llawer iawn o ddiddordeb gan y cyhoedd ynddynt, ac ni fyddai'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r cais cynllunio.

Cadarnhaodd Pennaeth Busnes y Cyngor nad oedd unrhyw angen i'r Aelodau o'r Cyngor sydd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddatgan diddordeb gan nad oedd yn cael ei gydnabod fel diddordeb o dan y Côd Ymddygiad. Ymhelaethodd Mr. Ieuan Wyn Jones yn ei anerchiad wedi hynny ar yr agweddau canlynol o nodau ac amcanion Parc Gwyddoniaeth Menai gan ategu'r cyfan gyda chyflwyniad gweledol :-

- Clwstwr o fusnesau yn seiliedig ar wybodaeth yw Parc Gwyddoniaeth lle y darperir cefnogaeth a chyngor fel y gall cwmnïau dyfu a datblygu. Mae parciau gwyddoniaeth fel arfer yn cael eu cysylltu â chanolfan technoleg fel prifysgol neu sefydliad ymchwil.
- Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc wedi ei selio ar hyrwyddo twf o fewn gwyddoniaeth sy'n seiliedig ar wybodaeth gyda chyfeiriad arbennig at Ynni, Technoleg Gwybodaeth, Gwyddoniaeth Naturiol, Ynni Carbon Isel a Thechnolegau Glân fel sectorau twf allweddol.

- Y nod fydd ceisio hyrwyddo entrepreneuriaeth yn y meysydd hynny drwy ddarparu eiddo o ansawdd uchel, cefnogaeth i fusnesau, arweinyddiaeth ac anogaeth.
- Bydd y Parc yn ffitio i mewn gyda strategaeth arloesedd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddatblygu cyfleon busnes yn deillio o gapasiti ymchwil.
- Bydd y Parc yn ceisio cyfrannu tuag at dwf economaidd yr ardal trwy geisio â bodloni'r angen a nodwyd am gyflogaeth o ansawdd uchel yn deillio o ymchwil.
- Bydd Parc Gwyddoniaeth Menai yn rhoi pwyslais ar arloesedd a bod ar flaen y gad a bydd yn rhoi cefnogaeth i fusnesau reit o'u cychwyn hyd nes y byddant wedi aeddfedu.
- Bydd y Parc yn ceisio datblygu cysylltiadau cymunedol trwy ysgogi diddordeb pobl ifanc mewn gwyddoniaeth a bydd yn ceisio cynhyrchu manteision ehangach drwy hyrwyddo cyfleon cyflogaeth yn arbennig drwy ystod o wasanaethau ategol.

Cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb i ddilyn lle cafodd yr Aelodau gyfle i gael eglurhad a gwybodaeth bellach ynglyn â'r weledigaeth ar gyfer Parc Gwyddoniaeth Menai.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Ieuan Wyn Jones a'i gydweithwyr am eu hamser yn mynychu'r cyfarfod hwn ac am rannu gwybodaeth am y Parc Gwyddoniaeth.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir o'r gweithgareddau gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 30 Medi (Arbennig) a 9 Hydref 2014.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts ddiddordeb nad oedd yn un rhagfarnus yng nghyswllt eitem 9 ar y rhaglen. Datganodd Miss Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) ddiddordeb yng nghyswllt eitem 9 ar y rhaglen.

**4 CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn :-

- Estynnir ein llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus yn y ddwy Sioe Gaeaf ym Môn a Llanelwedd.
- Estynnir llongyfarchiadau i Ffermwyr Ifanc Ynys Môn fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Ffermwyr Ifanc ym mis Tachwedd.
- Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Aled Morris Jones ar ei benodiad yn Is-Gadeirydd pwyllgor Cadeiryddion Gorsafoedd Pwer Niwclear y DU.
- Estynnir llongyfarchiadau i'r Comodor Keith Andrew Becket ar dderbyn y CBE yn Anrhydeddau'r Frenhines.
- Estynnir ein dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Jeff Evans am adferiad buan yn dilyn ei lawdriniaeth.
- Estynnir ein diolchiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth Blaen y Coed a Chanolfan Heulfre am eu gwaith llawn dychymyg yn addurno coeden Nadolig y Cyngor yn y dderbynfa.
- Bydd Gwasanaeth Carolau Nadolig Blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal yn ardal y dderbynfa yn ystod amser cinio dydd Iau 13 Rhagfyr 2014.
- Cydymdeimlwyd â Mrs Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Cymuned yn dilyn marwolaeth ei thad yn ddiweddar ac i unrhyw aelod arall o staff all fod wedi dioddef profedigaeth.

  Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

  Gwnaeth y Prif Weithredwr y cyhoeddiad a ganlyn –

  Ei fod yn dymuno datgan ei fwriad i ymddeol o'i swydd fel Prif Weithredwr y Cyngor ar 31 Mai 2015. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor yn y cyfamser wneud trefniadau priodol i gael rhywun yn ei le. Barnodd bod yr amser yn briodol o ystyried y bydd, erbyn diwedd mis Mai, yr Asesiad Corfforaethol wedi ei gwblhau, cyllideb 2015/16 a'r Strategaeth Effeithlonrwydd wedi'u mabwysiadu ac y bydd yr Etholiad Seneddol wedi ei chynnal. Mae gan Ynys Môn ddyfodol cyffrous o'i blaen gyda'r tebygrwydd o ddatblygiadau mawr a rhaglenni buddsoddi

ond fe allai hefyd o bosibl wynebu'r her o ad-drefniad llywodraeth leol a byddir angen stiwardiaeth gadarn i'w harwain drwy'r newidiadau hyn. Roedd Arweinydd y Cyngor wedi gofyn iddo fel Prif Weithredwr roi cyfarwyddyd ac opsiynau yng nghyswllt ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth; a byddai'n gallu gwneud y rôl honno yn awr yn dilyn datgan ei fwriad a thrwy hynny ddatgysylltu ei hun yn bersonol oddi wrth y broses.

Roedd y Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor am gydnabod y penderfyniad gan ddweud y byddent yn cydnabod cyfraniad y Prif Weithredwr i'r Awdurdod a'r gwaith a wnaed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i roi'r cyngor ar sylfeini cadarn ar yr amser priodol.

**5 CYFLWYNO DEISEBAU**

Dim wedi'u derbyn.

**6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

**7 YMATEB Y CYNGOR SIR I HORIZON**

Cyflwynwyd i ystyriaeth y Cyngor adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy yn cynnwys ymateb manwl yr Awdurdod i Ymgynghoriad Rhag-Gais Cam Cyntaf Pwer Niwclear Horizon (PAC 1) yng nghyswllt prosiect Wylfa Newydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod ymgynghoriad cam cyntaf Horizon ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa (y Prosiect Wylfa Newydd) wedi cychwyn ar 29 Medi 2014 a bydd yn rhedeg hyd 8 Rhagfyr. Yn unol â gofynion Adran 42 Deddf Cynllunio, roedd y dogfennau a gyflwynwyd i'r Cyngor yn darparu ymateb ffurfiol yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ac roedd yn cynnwys y canlynol :-

- Llythyr sy'n nodi pryderon blaenoriaethol yr Awdurdod yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y dogfennau PAC 1 yn cael ei gefnogi gan
    - Drosolwg o ymatebion topigau
    - Taenlen gefnogol o ymatebion topig CSYM, a
    - Ymateb Ffurflen Adborth PAC 1 – Ymgynghoriad Prosiect Wylfa Newydd.

Aeth y Prif Swyddog Cynllunio ymlaen i egluro trwy gyflwyniad gweledol beth oedd statws y gwaith cyfredol a'r cam a gyrhaeddwyd mewn perthynas â'r llinell amser a ragamcanwyd ar gyfer y prosiect Wylfa Newydd yn cynnwys cyflwyno cynigion datblygu cysylltiol.

Ymhelaethodd Mr. Gareth Hall, Rheolwr Darparu Rhaglen Ynni Fawr ar yr agwedd a gymerwyd gan yr Awdurdod tuag at y dogfennau ymgynghori a ryddhawyd gan Horizon a maint yr ymgysylltiad drwy'r Cyngor cyfan a'r mewnbwn a'r cyngor proffesiynol. Roedd hyn wedi cynnwys dadansoddiad manwl a gofalus o gynnwys y dogfennau, gan gymhwyso system goleuadau traffig CAG i ddynodi'r lefel o ymateb ac i ba raddau yr oeddid yn cytuno â phob maes topig unigol.

Soniodd Mr. Steven Owen, Swyddog Caniatadau Mawr am yr ymateb fesul mater gan roi sylw i'r meysydd mwyaf arwyddocaol lle y bernir bod angen eglurhad pellach a mwy o wybodaeth.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn weledol ac yn ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle iddynt holi'r Swyddogion, ac i gyflwyno eu safbwyntiau ar yr ymateb ffurfiol ar materion oedd yn deillio ohono. Cynigiodd y Cynghorydd Aled Morris Jones welliant i lythyr y Prif Weithredwr sef bod y frawddeg olaf yn cael ei dileu. Yn y bleidlais a ddilynodd, cafodd y cynnig ei gario.

**Penderfynwyd cymeradwyo ymateb ffurfiol yr Awdurdod i Ymgynghoriad Rhag-Gais Cam Cyntaf Horizon (PAC 1) fel oedd wedi ei nodi yn y dogfennau a gyflwynwyd yn amodol ar newid peth o lythyr y Prif Weithredwr yn unol â'r cynnig.**

## 8 CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD

Cafwyd cwestiwn a gyflwynwyd trwy rybudd gan y Cynghorydd R. Llewelyn Jones ac a ofynnwyd i Arweinydd y Cyngor :-

"Mae ymgynghoriad Wylfa B bellach wedi cychwyn ac rydym ni, fel Cyngor Sir, wedi cael sawl cyfarfod gyda'r datblygwr yn egluro'r holl fanteision a ddaw i'r ynys hon yn ei sgil. Er bod trigolion lleol eisiau swyddi, maent yn parhau i fod yn bryderus iawn am y risgiau a'r angen i edrych ar ôl y gwastraff y bydd gorsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn yn ei gynhyrchu. Er mwyn cael cydbwysedd, rwy'n gofyn am gael trefnu Seminar rhwng y Cyngor hwn a chynrychiolwyr sy'n gwrthwynebu'r cynnig i adeiladu Wylfa B ac yn gofyn i chi a'ch grŵp mwyafrifol gefnogi hyn. Mae angen i drigolion lleol gael llais yn yr ymgynghoriad hwn a chael eu briffio'n llawn. Hyd yma, ymddengys mai dim ond datblygwyr tramor o'r Almaen, sydd bellach wedi tynnu allan, ac o Japan sydd wedi rhoi eu barn i ni. Nid oes yr un o'r gwledydd hyn eisiau adeiladu gorsafoedd niwclear yn eu gwledydd eu hunain."

Atebodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud bod y Cyngor fel un oedd yn cefnogi'r prosiect yn ogystal â'r rhai oedd yn gwrthwynebu Wylfa Newydd i gyd yn gydranddeiliaid o fewn y broses a'u bod felly yn rhan o'r ymgynghoriad a'r cyfarfodydd briffio sy'n cael eu cynnal gan Horizon. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn San Steffan. Roedd cyfarfod o'r Grŵp Cydranddeiliaid wedi ei gynnal y noson flaenorol lle roedd preswylwyr lleol yn cael eu cynrychioli gan nifer o sefydliadau. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ac mae gan wrthwynebwyr hawl i ymateb yn yr un ffordd â'r Cyngor. Roedd yn credu bod yr agwedd a gymerwyd yn un wastad ac yn trin pawb yn gyfartal. Tra roedd yn ymwybodol bod yna wahaniaeth barn ar draws yr Ynys ni allai weld y byddai Seminar yn darparu consensws. Y darparwr sy'n gallu darparu'r wybodaeth - i'r rhai sy'n gwrthwynebu yn ogystal ag i'r rhai sy'n cefnogi'r prosiect. Dywedodd na allai felly weld unrhyw fantais mewn cynnal Seminar ar wahân gyda gwrthwynebwyr.

Fel cwestiwn atodol dywedodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones bod mwy o bŵer yng Nghymru nac yn Lloegr i ddylanwadu ar adeiladau niwclear oherwydd y ffordd y mae'n gallu delio â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac fe all y cynlluniau hynny yng Nghymru gael eu herio cyn eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol. Dyma gyfle i'r Awdurdod i ddweud ei fod yn gwrthwynebu'r datblygiad yn gyfan gwbl hyd nes y ceir manylion ynglyn â sut y byddir yn delio â'r gwastraff. Cwestiynodd a oedd yn gyfreithlon a'i peidio i ganiatáu i gwmni ddechrau clirio safle i baratoi ar gyfer strwythur mawr cyn ei fod wedi cyflwyno tystiolaeth gredadwy ynglyn â sut y bydd yn cael gwared o wastraff niwclear diwydiannol hynod beryglus. Gofynnodd i'r Arweinydd gysylltu â'r Prif Weinidog a sefydlu beth y mae ef a'i lywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad yw Ynys Môn yn cael ei gadael ar ei phen ei hun yn galw am ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i wastraff niwclear presennol ac yn y dyfodol ar yr Ynys. Roedd y bobl leol yn haeddu a rhaid iddynt gael ateb clir i'r cwestiwn hwn cyn mynd yn rhy bell i lawr y llwybr niwclear.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad yw polisi ynni wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ond mae corum wedi dweud bod gan Lywodraeth Cymru yr hawl i ddatblygu polisi ar wastraff; nid oedd yn gwybod hyd yn hyn bod hynny wedi'i ddatblygu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy bod cynrychiolwyr Corum, fel y corff sy'n uniongyrchol gyfrifol am ddelio â gwastraff niwclear wedi ymweld â'r Cyngor. Mae angen rhoi sylw penodol i'r mater o wastraff niwclear o fewn yr ymgynghoriad ond mae yna hefyd rôl i Lywodraeth Cymru o ran ffurfio polisi i fynd â materion yn eu blaenau.

## 9 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD A MÔN AR Y CYD – AMSERLEN NEWYDD

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn cynnwys amserlen newydd ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel oedd wedi ei nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

**10 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS AC ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN**

Cyflwynwyd er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys adolygiad o'r sefyllfa canol blwyddyn o ran gweithgaredd rheoli'r trysorlys.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad adolygiad canol blwyddyn o Reoli'r Trysorlys.**

**11 CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn nodi'r cynigion yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2015/16 fel oedd wedi ei argymell gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2014 i sylw'r Cyngor.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r argymhellion oedd yn yr adroddiad yng nghyswllt y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2015/16.**

**12 DYDDIAD CYFARFOD O'R CYNGOR – MAI 2015**

Rhoddwyd ystyriaeth i ail drefnu'r cyfarfod o'r Cyngor Sir oedd wedi ei drefnu ar gyfer 7 Mai 2015 oherwydd yr Etholiad Seneddol.

**Penderfynwyd aildrefnu'r cyfarfod o'r Cyngor Sir ym Mai 2015 i ddydd Iau 14 Mai 2015.**

**Y Cynghorydd Vaughan Hughes**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M. Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr W T Hughes a Nicola Roberts |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Alun Mummery

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ddiddordeb yn eitemau 3 a 3.4(ch) yn yr adroddiad a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**3. PENODI PRIF WEITHREDWR NEWYDD AC AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr 2014 ar gais Arweinydd y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i restru gostyngiad yng nghapasiti rheolaeth lefel uwch y Cyngor ymysg yr arbedion effeithlonrwydd hynny a gafodd eu cynnwys yn y pecyn o gynigion ar gyfer cyllideb 2015/16.

Nodwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi argymell opsiwn 4 i'r Cyngor Sir fel yr un a ffefrir i gyflawni'r amcanion ac fel un y gellir ei weithredu, gyda golwg ar gomisiynu gwaith manylach i ddatblygu'r opsiwn ar gyfer ymgynghoriad gyda staff. Gofynnir i'r Pwyllgor Penodi weithredu'r broses recriwtio ar gyfer yr ailstrwythuro ac ystyried y strwythur tâl.

Mewn perthynas â'r Pwyllgor Penodi, roedd y Cynghorydd A.M. Jones yn dymuno nodi bod gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol ond nid o bob plaid wleidyddol.

Rhoddodd Aelodau'r Cyngor Sir sylw manwl i'r mater gan gymharu'r strwythurau uwch reolaeth a'r strwythurau tâl yn yr Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn trafodaethau maith **PENDERFYNWYD:-**

- **Mai Opsiwn 4 yn yr adroddiad yw'r opsiwn a ffefrir;**
- **Bwrw ymlaen i benodi Prif Weithredwr newydd i'r Cyngor fel blaenoriaeth;**
- **Dynodi swydd y Prif Weithredwr yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig ac yn Swyddog Canlyniadau i'r Cyngor;**
- **Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Penodi hysbysebu, asesu ymgeiswyr, llunio rhestr fer, cyfweld ymgeiswyr ac argymell unigolyn cymwys a benodir gan y Cyngor llawn;**
- **Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Penodi dderbyn cymorth ymgynghorol allanol, os yw'n dymuno, i roi cyngor ar y broses asesu ond gan gadw costau darpariaeth o'r fath cyn ised â phosib;**
- **Gofyn am arweiniad a sylwadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynglŷn â'r strwythur cyflog ar gyfer swydd y Prif Weithredwr;**
- **Bod swyddi statudol y Swyddog Cyllid Adran 151 a'r Swyddog Monitro yn cael eu hymgorffori o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeff M. Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, Victor Hughes, W. T. Hughes, Llinos Medi Huws, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr Raymond Jones, D. R. Hughes, T. Ll. Hughes, A. M. Jones, Carwyn Jones, Dylan Rees ac P. S. Rogers. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**3. PENODI PRIF WEITHREDWR NEWYDD AC AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Rhoddwyd sylw i argymhellion y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2015.

Cafwyd adroddiad manwl gan y Prif Weithredwr ar argymhellion y Pwyllgor Penodi i'r Cyngor Sir. Amlinellodd rôl Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol yn argymell lefel y cyflog ar gyfer Prif Weithredwyr yng Nghymru.

Yn dilyn trafodaethau maith **PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2015 gan gynnwys yr isod:**
    - *Argymell i'r Cyngor Sir mai £115k i £120k fydd cyflog y Prif Weithredwr newydd (yn amodol ar sylwadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol)*

- *Os ystyrir swydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn y dyfodol, dylai'r cyflog gael ei bennu ar lefel sy'n cyfateb i 90% o gyflog y Prif Weithredwr.*
- *Bydd disgrifiad swydd ar gyfer y Prif Weithredwr newydd yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Penodi a dirprwyo'r awdurdod i Gadeirydd y Pwyllgor Penodi i awdurdodi'r disgrifiad swydd ar gyfer ei hysbysebu oni cheir unrhyw newidiadau gan yr Aelodau;*
- *Y bydd yr hysbyseb ar gyfer swydd y Prif Weithredwr yn cael ei rhoddi ar wefan y Cyngor ac y bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol hefyd i hysbysebu'r swydd;*
- *Cytunwyd y bydd proses asesu'n rhan o'r broses recriwtio ac y bydd AD yn canfod cefnogaeth ymgynghorol ar gyfer asesu'r sawl sydd wedi ymgeisio am swydd y Prif Weithredwr newydd a dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd benodi ymgynghorydd allanol yn dilyn ymgynghori gyda Swyddogion.*

- **Bod y swydd y Prif Weithredwr wedi hynny yn cael ei hysbysebu cyn gynted ag y bo modd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **26 CHWEFROR 2015** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL Y TYMOR CANOLIG A'R GYLLIDEB 2015/16** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNG. HE JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>**EST 2663**<br>**bhofi** |
| **AELODAU LLEOL:** | |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A'R GYLLIDEB 2015/16**

**1.1 Pwrpas**

- Pwrpas yr adroddiad yma yw penderfynu y penderfyniadau ariannol priodol sydd eu hangen er mwyn gosod y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.

**1.2 Crynodeb**

- Nodir yn fanwl yn yr atodiadau sy'n cefnogi'r adroddiad yma y penderfyniadau a'r gwybodaeth cyllidebol sy'n ffurfio cefndir i'r argymhellion sy'n cael eu gwneud er mwyn gosod y Dreth Gyngor ar Gyllideb ar gyfer 2015/16.

- Y gyllideb o fewn yr atodiadau yw'r un a argymhellir i'w gymeradwyo.

2. **ARGYMHELLION CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2015/16**

**2.1** Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Chwefror 2015, lle penderfynwyd:-

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar gynigion y gyllideb a'r adborth ohonynt, fel yr amlinellir yn Adran 2 ac Atodiadau 1 a 2;

- Nodi'r crynodeb o asesiad effaith cydraddoldeb ar gynigion y gyllideb yn Adran 10;

- Gytuno fod ysgolion yn cael cynnydd yn y gyllideb sy'n cwrdd ag addewid Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu ysgolion, fel y nodir ym mharagraff 3.2;

- Nodi'r manylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, buddsoddiadau, pwysau ac arbedion, fel y dangosir yn Atodiadau 3 a 4;

- Nodi argymhellion y Swyddog Adran 151 bod isafswm Balansau Cronfa Gyffredinol yn cael eu cynnal ar £5m, cadarnhad o gadernid yr amcangyfrifon sy'n sail i'r cynigion a digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yng nghyd-destun y cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd;

- I gymeradwyo ac argymell cyllideb net i'r Cyngor Sir a'r Dreth Gyngor dilynol i'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol ar y Dreth Gyngor yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned;

- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud y fath addasiadau technegol a allai fod yn angenrheidiol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor;

- Cynnwys arbediad effeithlonrwydd 'Brecwast Ysgol' fel rhan o'r gofrestr arbedion effeithlonrwydd yn Atodiad 4. Fodd bynnag, i nodi petai ddim modd cyflawni'r arbediad effeithlonrwydd yma yn dilyn ymgynghoriad llawn (daw papur i'r Pwyllgor Gwaith diwedd Mai 2015), mae arian wrth gefn penodol mewn lle pan mae'r Pwyllgor Gwaith yn gallu cyfarwyddo'r Swyddog Adran 151 i'w ryddhau;
- Gall unrhyw gyllideb a arweinir gan y galw sydd â phwysau annisgwyl arnynt, dynnu ar y cyllidebau arian wrth gefn cyffredinol ond drwy awdurdod gan y Pwyllgor Gwaith, fel y cynghorir gan y Swyddog Adran 151;
- Cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Gwneud Gwahaniaeth – Canlyniadau Arolwg Strategaeth Effeithlonrwydd 2014
Atodiad 2 – Cwrdd a'r Heriau – Atebion i'r ymgynghoriad
Atodiad 3 – Crynodeb o'r Gyllideb Ddisymud Drafft a'r Bwlch Cyllidebol 2015/16
Atodiad 4 – Arbedion Effeithlonrwydd Arfaethedig 2015/16

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## 1. CEFNDIR

### 1.1 Dull cydgysylltiedig

**1.1.1** Mae nifer o adroddiadau gwahanol ar gyfer 2015/16 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn ychwanegol at brif adroddiad y gyllideb refeniw. Mae'r adroddiadau ar wahân hyn ar fonitro'r gyllideb refeniw 2014/15, Rheoli Trysorlys y Cyngor a'r Strategaeth Cyfalaf. Er bod y manylion tu ôl i'r rhain wastad wedi bod yn 'gydgysylltiedig', mae dod â nhw at ei gilydd yn rhoi darlun clir o'u cysylltedd a'r rhyngberthynas rhwng pob un ac, yn hollbwysig, sut maent yn diwallu'r anghenion o sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau.

**1.1.2** Mae costau ariannu'r Rhaglen Gyfalaf yn dibynnu ar Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw'r Cyngor a maint y Rhaglen Gyfalaf ei hun. Mae'r costau ariannu yn gyllideb arwahanol yng nghyllideb refeniw gyffredinol y Cyngor:-

- Mae nifer o faterion yn effeithio ar weithgareddau Trysorlys y Cyngor; yn enwedig gofynion benthyca sydd, yn eu tro, yn dibynnu ar faint y Rhaglen Gyfalaf yn ogystal â pholisïau'r Trysorlys ynghylch sut y mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei hariannu, o safbwynt 'arian parod'.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb refeniw wedi cael ei gyrru i raddau helaeth gan Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (SATC) a oedd yn tynnu sylw at y gyrwyr allweddol ar draws grantiau Llywodraeth Cymru, costau cyllido cyfalaf, costau blaenoriaethau corfforaethol allweddol a'r angen dilynol i sicrhau arbedion cyllidebol.

**1.1.3** Felly, rydym yn gofyn i'r Cyngor ystyried a chytuno y materion cyllidebol allweddol gyda'i gilydd:-

- Cyllideb refeniw gyffredinol a'r Dreth Gyngor dilynol ar gyfer 2015/16;
- Polisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi'r Cyngor, ynghyd â'i Ddangosyddion Pwyllog;
- Nodi'r sefyllfa gyfredol o ran Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (SATC);

## 2. YMGYNGHORIAD Y CYNGOR

### 2.1 Ymgynghoriad

**2.1.1** Yn ystod haf 2014, cymeradwyodd yr Aelodau Etholedig strategaeth y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'r Strategaeth Refeniw Ariannol Tymor Canolig (SRATC). Yn yr hydref, adolygwyd ymhellach y tybiaethau a oedd wedi eu cymeradwyo a'u mireinio yn sgil gwybodaeth ddiweddarach, ac adroddwyd ynghylch cynigion cyllideb manwl o fewn paramedrau a gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2014.

Ym mis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynigion cyllideb drafft manwl gydag SRATC wedi'i ddiweddaru, yr ymgynghorwyd arno fel a ganlyn:

- Gyda'r holl Aelodau etholedig trwy sesiwn gweithdy ar 3 Chwefror 2015;
- Gyda'r holl Bwyllgorau Sgriwtini yn eu cyfarfod ar 3 Chwefror 2015 lle bu Pwyllgorau Sgriwtini Pwnc yn adolygu eu rhannau arwahanol o'r gyllideb a Sgriwtini Corfforaethol yn crynhoi'r holl safbwyntiau hynny a sgriwtineiddio cynigion y gyllideb fel pecyn cyfan;
- Gyda'r Fforwm Ysgolion ar 12 Ionawr 2015;
- Gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar 21 Ionawr 2015;
- Gyda'r cyhoedd, drwy wefan y Cyngor yn unol â'r manylion ymgynghori sydd ynghlwm fel atodiad (1 a 2) i'r adroddiad yma.

## 2.2 Ymgynghoriad cyhoeddus

- Dros yr hydref, fe lansiwyd y sgwrs "Gwneud Gwahaniaeth" lle gofynnwyd am sylwadau gan y cyhoedd ynghylch yr hyn y dylwn ganolbwyntio arno dros y tair blynedd nesaf er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern sy'n addas i bwrpas. Cynhaliwyd arolwg ar-lein hefyd ac ymwelwyd â marchnadoedd, llyfrgelloedd ac archfarchnadoedd i ofyn i'r cyhoedd am sylwadau.

- Cafwyd 433 o ymatebion ar-lein, trwy lythyrau a thrwy holiaduron wyneb yn wyneb ar draws yr ynys. Wrth ystyried y rhan helaeth o'r cynigion/syniadau a gyflwynwyd fel ymateb i'r ymarfer ymgynghori, yn ogystal â'r ymarfer blaenorol a gynhaliwyd yn 2013, mae'r ymateb yn gyffredinol yn dangos bod y Cyngor wedi cyflwyno opsiynau y mae dinasyddion Ynys Môn yn cytuno'n gyffredinol â nhw. (Gweler Atodiad 1).

- Adeiladwyd yr adroddiad drafft ar sail cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor o 5% yn flynyddol dros y 3 mlynedd nesaf.

- Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2015/16, ymgynghorwyd ar 'Cwrdd a'r Heriau' ein ymarfer ymgynghori ar y Gyllideb 2015-2016 wedi i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Strategaeth Effeithlonrwydd ar 15 Rhagfyr 2014. Ymgynghorwyd am gyfnod o 6 wythnos tan 23 Ionawr 2015 a rhoddwyd cyfle i ymateb ar-lein, trwy lythyr neu drwy alw i mewn i sesiynau a drefnwyd gan Arweinydd y Cyngor.

- Hyrwyddwyd ymgysylltiad a chyfranogiad trwy wahanol ffyrdd gan gynnwys, brîff i'r wasg leol/ranbarthol, datganiadau i'r wasg, sylw yn y wasg leol/rhanbarthol, ymgyrch trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy i Gynghorwyr hyrwyddo'r ymgynghoriad mewn gwahanol gyfarfodydd yn eu cymunedau.

- Ymwelodd Arweinydd y Cyngor â nifer o wahanol leoliadau ar draws yr Ynys (Caergybi, Biwmares, Amlwch, Rhosneigr a Llangefni) ac mae crynodeb o'r pynciau a godwyd gan unigolion yn y sesiynau hyn hefyd i'w weld yn y dadansoddiad.

- Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad a sylwadau gan gyrff/sefydliadau ac unigolion.

- Cafwyd 73 o ymatebion i'r ymarfer ymgynghori "Cwrdd â'r Heriau". 6 gan sefydliadau megis Cynghorau Tref a Chymuned, 13 trwy'r sesiynau Galw i Mewn gyda'r Arweinydd a 55 o ymatebion unigol ar-lein a gyflwynwyd yn ddi-enw.

- Er bod hyn yn cynrychioli nifer fechan o ymatebwyr o gymharu gyda phoblogaeth o dros 69,000 mae'n rhoi sicrwydd ar y cyfan bod y Cyngor yn llunio ei gynigion ar gyfer y gyllideb yn unol â disgwyliadau'r dinesydd.

- Cafwyd cyfanswm felly o dros 500 o ymatebion un ai trwy'r ymgynghoriad cychwynnol ar Strategaeth Effeithlonrwydd 2014-2017 neu yn ein hymgynghoriad ar Gyllideb 2015/2016.

## 2.3 Cynghorau Tref a Chymuned

Roedd ymatebion a gafwyd gan Gynghorau Tref megis Biwmares ac Amlwch yn dwyn sylw at bryderon ynghylch y sector twristiaeth ac effaith y newidiadau arfaethedig ar y diwydiant twristiaeth, yr angen i'r cynigion gynnwys mwy o fanylion i ddibenion ymgynghori ynghyd â chwestiynu'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor.

Cafwyd adborth ychwanegol i'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor trwy lythyr gan Malltraeth Ymlaen a dywedodd Cynghorau Cymuned Llanfaelog/Cwm Cadnant y byddai'n well ganddynt weld cynnydd oddeutu 4-4.5%.

Ar y llaw arall nododd Cyngor Cymuned Pentraeth ei fod bron yn unfrydol bod yr arbedion effeithlonrwydd a gynigiwyd yn rhesymol o gofio'r hinsawdd ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd.

Yn y cyfarfod a gafodd y Cyngor gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned yng nghanol mis Ionawr i drafod y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb:

- Cwestiynwyd y cynnydd yn y Dreth Gyngor
- Cwestiynwyd pa oblygiadau fyddai gan y cynigion ar gyfer twristiaeth
- Gwnaed cais i adolygu'r cynnig i godi am finiau newydd yn lle rhai a gollwyd
- Cais nad yw canolfannau ailgylchu yn cau ar benwythnosau.

Yn ogystal, roedd pryder ynghylch ffioedd a thaliadau uwch ar gyfer teithio i bobl ifanc ôl-16 a goblygiadau posib buddsoddi llai yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch codi am frecwast ar ddisgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim.

**3. CYLLIDEB REFENIW 2015/16**

**3.1** Cyflwynwyd y cynigion cyllideb refeniw drafft cychwynnol a'r arbedion effeithlonrwydd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2014, a gyflwynodd gyllideb ddrafft sefyllfa ddisymud, yn tynnu sylw at fwlch posibl o £4.080m rhwng y sefyllfa ddisymud a chyfanswm y Cyllid Trysorlys Cyfun a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor.

**3.2** Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gwaith sy'n mynd yn ei flaen i nodi'r arbedion o 10% sydd eu hangen ar draws yr holl Adrannau. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, nid oedd disgwyl y byddai'r targed hwn o reidrwydd yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng yr holl Gyfarwyddiaethau; a bwriad gosod targed uwch na chanran yr arbediad absoliwt sydd ei angen oedd er mwyn caniatáu ar gyfer ymgorffori diogelwch i Addysg o 0.6%, a hefyd i ganiatáu ar gyfer blaenoriaethu.

**3.3** Mae'r gyllideb ddisymud yn cynnwys "arian wrth gefn proses" o £630k ar gyfer materion a nodwyd fel rhai a oedd yn debygol o fod angen arian ychwanegol, ond roedd yn dal yn rhy gynnar i fesur hyn. Mae arian wrth gefn proses yn cael ei dynnu allan fel arfer ar ddiwedd y broses y gyllideb, gan roi 'arian wrth gefn cyffredinol' yn ei le. Bydd arian wrth gefn proses yn awr yn cael ei ddyrannu ar ddiwedd y broses i unrhyw wasanaeth, er mwyn cynorthwyo hefo unrhyw bwysau ar sail barhaus. Bydd swm ar gael o hwn ar gyfer 'arian wrth gefn cyffredinol' yn 2015/16, ond mae symiau eraill wedi cael eu neilltuo fel y trafodwyd yn Atodiad 3.

**3.4** Ers cyflwyno'r cynigion cyllideb drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr 2014, mae nifer o faterion wedi codi sydd angen diwygiadau i'r cynigion, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl isod:-

| | |
|---|---|
| **1** | Yn dilyn gwybodaeth wedi ei ddiweddaru i Gyflenwi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a thynu allan bid twf blaenorol a oedd wedi dod i ben. Canlyniad hyn oedd symudiad net o £120k. |
| **2** | Bellach derbynwyd cadarnhad o'r Cytundeb Canlyniad gyda gostyngiad bychan o £6k yn yr hyn ddisgwylwyd. |
| **3** | Mae newid back i'r llinell Ardollau, sydd wedi gostwng £15k. |
| **4** | Cynnydd net o £242k yn y cynigion arbedion a rhoddwyd ymlaen ym mhapur Rhagfyr 2014 y Pwyllgor Gwaith, a fydd yn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael i Aelodau. |

**3.5** Ail-strwythuro Uwch Reolwyr – yn ystod 2015/16 bydd Ail-strwythuro Uwch Reolwyr yn cymryd lle, gydag arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig o oddeutu £300k. Mae'r gwaith wedi cychwyn yn barod ar y cynnig yma.

**4. ARBEDION**

**4.1** Yn dilyn o benderfyniad y Pwyllgor Gwaith yng Ngorffennaf 2014 ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), clandrwyd dadansoddiad Cyllideb Gros gan y Swyddogaeth Adnoddau ac, ym Medi 2014, gofynnwyd i'r holl adrannau ddarparu cynnig arbedion wedi'u targedu o 10% dros 3 mlynedd, er mwyn cwrdd â'r bwlch cyllidebol rhagamcanedig 3 mlynedd. Fodd bynnag, cydnabuwyd o'r cychwyn bod angen ymagwedd fwy hyblyg na gostyngiad canrannol unffurf ar draws yr holl wasanaethau, er mwyn caniatáu ar gyfer y ffaith bod rhai gwasanaethau lle nodwyd y dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu cynigion tra bo angen hefyd i roi diogelwch i'r Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.

**4.2** Cyflwynwyd gwahanol ddewisiadau ar gyfer proffiliau arbedion gan adrannau, yn dangos meysydd posibl o arbedion. Adolygwyd y cynigion rheini ar gyfer cyrhaeddiadwyaeth ariannol ac fe'u paswyd ymlaen i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith dan yr amgylchiadau fod y Swyddogaeth Adnoddau yn fodlon eu bod yn ariannol gadarn yn unig. Mae'n bwysig nodi ni ellir rhoi gwarant llawn y gellir cyflenwi'r arbedion drwy sieciau ariannol yn unig.

**4.3** Dros yr wythnosau dilynol, heriwyd y cynigion, eu hadolygu a'u dilysu, a oedd yn cynnwys gweithdy Aelodau ac ymgynghoriad cyhoeddus. Yn ogystal, fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini.

**4.4** O hyn, lluniwyd rhestr derfynol o arbedion arfaethedig. Crynhoir y rhain isod ac maent wedi eu nodi'n fanwl yn Atodiad 4:-

| **Cyllideb 2015/16: Targedau a Chynigion Terfynol** | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Targed 10% £'000** | **Cynigion Arbedion Terfynol wedi eu blaenoriaethu i'w darparu £'000** |
| Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) | 737.0 | 670.4 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 4,351.0 | 728.3 |
| Datblygu Cynaliadwy | 2,282.0 | 1,966.2 |
| Dirprwy Brif Weithredwr / Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,042.0 | 960.6 |
| **Cyfanswm** | 8,412.0 | 4,325.5 |

## 5. PWYSAU A THWF

**5.1** Oherwydd y cynnydd yn y pwysau ar y gyllideb a'r hinsawdd ariannol gyfredol, penderfynwyd ni fyddai lle ar gyfer bidiau twf. Caniateir unrhyw fidiau twf yn awr ond mewn amgylchiadau eithriadol.

## 6. Y DRETH GYNGOR

**6.1** Roedd y sefyllfa ddisymud o fewn adroddiad y Pwyllgor Gwaith Rhagfyr 2014 yn rhagdybio cynnydd y Dreth Gyngor o 5%. Mae hyn yn cyfateb i £981.41 y flwyddyn neu £18.87 yr wythnos ar eiddo Band D.

**6.2** Mae pob gosyngiad o 0.5% neu gynnydd yn hafal i tua £150k. Petai'r dreth gyngor yn cael ei gosod yn is na hyn, byddai rhaid dod o hyd i swm cyfatebol drwy arbedion pellach mewn gwasanaethau. Mae cynnydd o 5% yn cyfateb i gynnydd wythnosol o 94c am eiddo Band D.

**6.3** Mae cynnydd o 4.5% yn cyfateb i gynnydd o 85c yr wythnos ar eiddo Band D a byddai'n darparu refeniw'r Dreth Gyngor o £30,955,097.

**6.4** Hyd yn oed gyda chynnydd o 4.5%, atgoffir Aelodau bod lefel y Dreth Gyngor yn Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r rhai isaf yng Nghymru.Lefel y Dreth Gyngor ar gyfer Ynys Môn ar draws y 22 Awdurdod yng Nghymru oedd 16fed, ac yn is na chyfartaledd Cymru yn y flwyddyn ariannol 2014/15.

**6.5** O ystyried y sefyllfa ariannol dynn, y risg cynhenid yn y cynigion cyfredol, a'r rhagolygon ariannol sydd ar y gweill ar gyfer y blynyddoedd nesaf a amlygwyd yn yr holl ardoddiadau cyllideb blaenorol, gwelir bod hyblygrwydd yn gyfyngedig. Bydd unrhyw ostyngiad yn y cynnydd dreth gygnor arfaethedig neu gynnydd mewn buddsoddiad angen ei gwrdd o arbedion pellach a gynhyrchir gan y gwasanaethau neu doriadau yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

## 7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, ARIAN WRTH GEFN A RISGIAU ARIANNOL

**7.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn ymgorffori nifer o dybiaethau o ran lefelau tebygol o incwm a gwariant yn y dyfodol. Felly, mae'n anochel bod nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Gweler y risgiau ariannol allweddol isod:-

- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2014/15 oblygiadau uniongyrchol i gyllideb 2015/16, o ran asesu cadernid y cyllidebau gwasanaethau unigol ac o safbwynt digonolrwydd lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ar hyn o bryd rhagwelir sefyllfa gorwariant net o £154k ar y lefel gorfforaethol ac, o ystyried y risgiau ariannol o amgylch nifer o feysydd cyllideb o fewn y Cyngor, mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o lunio'r cynigion terfynol o ran y lefelau o arbedion ac arian wrth gefn;

- Mae swm yr arbedion a chynigion incwm ychwanegol yn yr adroddiad hwn yn £4,325.5k, a bydd angen cyflenwi hyn er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16. Gwnaethpwyd lwfans, lle y bo'n briodol, ar gyfer costau gweithredu, ond mae elfen o risg ariannol o amgylch cyflenwad llawn yr holl arbedion, gyda'r risg yn amrywio yn sylweddol rhwng cynigion unigol. Gwnaethpwyd rhagdybiaethau rhan-flwyddyn realistig lle na ellir gweithredu ar unwaith, ond mae risg ariannol cynhenid o gwmpas sicrhau newidiadau mewn pryd i gyflenwi'r arbedion a gynlluniwyd;

- Mae nifer o'r cynigion unigol eisoes wedi'u sicrhau, ond mae eraill yn bodoli ar draws bron y cyfan o'r meysydd gwasanaeth eraill sy'n heriol iawn. Mae graddfa'r arbedion sy'n ofynnol wedi golygu bod angen cynnwys cynigion strategol a thrawsnewidiol heriol. Mae risg ariannol cynhenid o gwmpas sicrhau newidiadau mewn pryd i gyflenwi'r arbedion a gynlluniwyd;

- Gosodwyd lefelau chwyddiant i gostau gweithwyr ac unrhyw gontractau parhaus yn unig.

**7.2** Yn achos unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 angen adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad hwn gynnwys golwg tymor canolig lle bo angen a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen a'r defnydd o adnoddau unwaith ac am byth.

**7.3** Cymerir safbwynt pendant ar reoli risgiau cyllideb a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar yr adeg hon. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu'n ddigonol gronfeydd unwaith ac am byth er mwyn ariannu newidiadau strategol/trawsnewidiol i'r dyfodol yn hytrach nag ariannu gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.

**7.4** Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen i gadw'r gostyngiadau ar unwaith mewn gwariant a'r effaith ddilynol ar wasanaethau i isafswm, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd tymor canolig a hirdymor ariannol y Cyngor, ac i arbedion gael eu gweithredu mewn ffordd raddol a strwythuredig dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae bob amser rhywfaint o risg o eitemau gwariant nas rhagwelir neu orwario oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaeth, a hefyd rhaid i gronfeydd wrth gefn fod yn ddigonol i amsugno'r pwysau hwn.

**7.5** Wrth benderfynu ar y trothwy o £5m, mae'r ystyriaeth a roddwyd i ddadansoddiad cyffredinol 'rheol y bawd' ar gyfer lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn awgrymu y bydd hwn yn o leiaf 5% o wariant refeniw net (ac eithrio cyllidebau ysgolion), oni bai bod asesiad risg ffurfiol yn cyfiawnhau lefel is. Mae hyn yn awgrymu lefel o £6m ar gyfer Ynys Môn. Fodd bynnag, gan gymryd y dull a amlinellir uchod, byddai hyn yn rhoi lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £5m i'r Cyngor.

**7.6** Er y derbynnir wrth wneud gostyngiadau mor sylweddol yn y gyllideb y bydd hynny'n ddieithriad yn cyflwyno risgiau ariannol, ac er y cafwyd rhai anawsterau yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae gan Ynys Môn enw da o reoli o fewn ei chyllideb.

**7.7** Mae'r risgiau'r gyllideb wedi cael sylw yn y cynigion ond maent yn parhau yn amrywiol a risg uchel.

**7.8** Ceir diogelwch yn erbyn rhai risgiau'r gyllideb drwy gronfeydd wrth gefn ac arian wrth gefn a glustnodwyd. Er nad oes unrhyw gronfeydd arian wrth gefn refeniw cyffredinol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor nifer o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer risgiau ariannol hysbys, ond nad ydynt bob amser yn hawdd eu mesur. Mewn perthynas â'r cynnig y 'brecwastau ysgol', nodwyd arian wrth gefn petai canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, nid oes dymuniad codi tâl am frecwastau.

**7.9** Mae balansau ysgolion wedi bod yn uchel yn y gorffennol, sydd wedi rhoi sicrwydd digonol ar gyfer y rhan fwyaf o'r risgiau. Mae'r gostyngiad ym malansau ysgolion yn lleihau'r lefel honno o gysur, ond mae hyn cael ei liniaru gan y diogelwch a roddir i gyllidebau ysgol eleni.

**7.10** Mae'r prif arian wrth gefn a ddarperir yn y gyllideb yn ymwneud â'r prosesau cyfredol o sicrhau gostyngiadau yn y gyllideb a gweithredu trawsnewid gwasanaeth.

## 8. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**8.1** Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllideb a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn, a'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn fel y bo'n mabwysiadu ei gyllideb.

**8.2** Mae amcangyfrifon cyllideb i gyd yn seiliedig ar dybiaethau am y dyfodol. Mae cydgysylltiad rhwng y materion hyn. Efallai na fydd cyllidebau yn cael eu cyfrifo yn union oherwydd amcangyfrif neu risg, ond gellir lliniaru'r effaith os oes cynlluniau da wrth gefn, cyllidebau wrth gefn neu gronfeydd ariannol wrth gefn. Mae eu cadernid yn dibynnu ar ba mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau hyn.

**8.3** Nid yw cadernid amcangyfrifon cyllideb yn ymwneud yn unig â'r cwestiwn syml o p'un a ydynt yn cael eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau yn seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd cynlluniau yn cael eu cyflenwi, neu dargedau'n cael eu cyflawni. Ystyrir isod yn eu tro'r gwahanol risgiau sydd i'r gyllideb:-

- **Risg Chwyddiant** - Dyma'r risg y gallai chwyddiant gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb;

- Mae a wnelo'r gost fwyaf sylweddol â chyflog, lle mae lwfans o 2.2% wedi'i wneud ar gyfer codiadau cyflog newydd yn 2015/16, ond mae hon yn ymddangos yn dybiaeth weddol realistig yn yr amgylchiadau presennol;

- **Risg Cyfraddau Llog** - Fel rheol mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir - h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn fuddiol. Oherwydd bod y gyllideb bellach yn seiliedig ar gyfraddau llog ar isafbwyntiau tymor hir, prin fod unrhyw risg anfanteisiol. Y rhagfynegiadau yw y bydd cyfraddau llog yn aros ar eu lefel hanesyddol isel ymhell i 2015 a thu hwnt. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hwn yn risg sy'n wneud iawn am risg chwyddiant oherwydd os yw un yn cynyddu mae'r llall yn debygol o wneud iawn amdano;

- **Risg Grantiau** - Mae'r rhain yn risgiau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn cael eu gostwng yn sylweddol neu eu torri'n gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r cyfan ac ni fydd gennym un hyd yn oed ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau. Er mai'r ymateb sydyn yw dweud pan fydd y grant yn dod i ben, felly bydd raid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosibl. Efallai na fydd yn bosibl pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym ag incwm, neu ei fod yn cynnwys costau diswyddo heb eu hariannu. Efallai na fydd yn bosibl os yw'r gweithgaredd a ariennir yn troi allan i fod mor bwysig i gyflawni amcanion y Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu fod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Mae'r ymdrechion i liniaru'r risg hwn yn cynnwys sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael ar bob grant: ond ni ellir dileu'n gyfan gwbl bob canlyniad annymunol yn ystod y flwyddyn;

- **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 5% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi cymryd yn ganiataol godiadau o hyd at 5%. Os yw elastigedd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny achosi gorwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro'r sefyllfa gyllideb net yn agos ac, os oes angen, torri'n ôl ar wario i gyd-fynd ag incwm is;

- **Risg Optimistiaeth** - Mae'n debyg mai'r perygl mwyaf yn yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd yn yr arbedion a fydd yn cael eu cyflawni. Petai'r prosiectau hyn yn mynd i drafferthion ac yn methu â chyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai gorwariannau sylweddol ddigwydd;

- **Risg Gorofal** - Dyma'r gwrthwyneb i risg optimistiaeth: sef y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy ofalus, ac felly eu bod yn fwy nag sydd ei angen;

- **Risgiau Cyflog a Graddfeydd** - Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu risg sylweddol o ganlyniad i arfarnu swyddi a chyflog/gwerth cyfartal, y bydd yn ofynnol iddo dalu hawliadau iawndal i staff oherwydd annhegwch honedig ei drefniadau cyflog. Mae hwn yn risg hir-sefydlog na fydd yn diflannu, ac mae'n herio cadernid y gyllideb fel mewn blynyddoedd blaenorol. I liniaru hyn, erys cyllideb wrth gefn flynyddol o (£600k) tuag at gost y strwythur cyflog newydd;

- **Llithriad Arbedion** - Mae a wnelo'r prif risg â'r cynigion arbedion. Mae'r ffigyrau a gyflwynwyd yn seiliedig yn bennaf ar arbediad blwyddyn lawn ac, felly, maent yn cymryd yn ganiataol y bydd y cynigion wedi cael eu gweithredu'n llawn o'r 1 Ebrill 2015. Mae risg uchel na fydd rhai o'r cynigion wedi sicrhau'r dyddiad cychwyn hwn. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y cynigion hynny sy'n cynnwys diswyddiadau, cynhyrchu incwm a materion cytundebol. Bydd unrhyw oedi o'r dyddiad cychwyn 1 Ebrill 2015 yn achosi pwysau yn 2015/16;

- **Costau diswyddo staf**f – Wrth i'r cynigion arbedion gael eu gweithredu, bydd costau diswyddo cysylltiedig. Nid yw cost lawn hyn yn hysbys ar hyn o bryd, oherwydd y posibilrwydd y bydd rhai swyddi'n wag a phennu manylion y gweithwyr dan sylw. I liniaru'r risg hwn, mae Arian Wrth Gefn Tâl a Graddfeydd o £500k wedi ei gynnwys yn y gyllideb;

- **Grant Cytundeb Canlyniadau** - Mae cyllideb ar gyfer 2015/16 yn rhagdybio derbynnir 75% o'r grant llawn o £720k yn 2015/16 mewn perthynas â pherfformiad 2014/15. Er derbyniwyd y grant llawn eleni mewn perthynas â 2013/14, mae hwn dal yn risg sylweddol i'r Awdurdod ac, mewn amser o heriau ariannol ar wasanaethau, mae'n well cymryd safbwynt pwyllog o'r eitem yma.

**8.4** O'r herwydd, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn fod y cyllidebau'n gadarn ac yn gyflawnadwy.

## 9. CYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL TRETH Y CYNGOR

**9.1** Mae'r tabl isod yn dangos yr arian cyllideb sydd ar gael ac sydd ei angen gyda chynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.5%, yn cynrychioli cynnydd o £44.16 y flwyddyn, neu 85c yr wythnos, i eiddo Band D. Wrth osod y Dreth Gyngor, mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r angen i osod cyllideb gytbwys:-

| **Gofyniad y gyllideb** | **£000<br>4.5%** |
|---|---:|
| Cyllideb Sylfaen 2014/15 | 126,670 |
| Addasiadau Chwyddiant & Ailbrisio | 2,301 |
| **Cyllideb Sylfaen 2015/16 ( cyn buddsoddiadau / arbedion )** | 128,971 |
| Arbedion cyllideb | -4,325 |
| **Cyllid Sylfaen 2015/16** | **124,646** |
| **Cyllid ar gael** | |
| Setliad Terfynol LlC yn cynnwys Cytundeb Canlyniadau | 93,691 |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor @ 4.5% | 30,955 |
| **Cyfanswm** | **124,646** |

## 10. ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB (EIA)

**10.1** Wrth gyflwyno ei wasanaethau, rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 i asesu effaith y penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau a ddiogelir a rhoi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau asesiadau o'r fath.

**10.2** Fel rhan o'r broses gyllideb 2015/16, gofynnwyd i'r gwasanaethau gynnal EIA cychwynnol ar gyfer pob cynnig. Cynhwyswyd canllawiau gyda'r pro forma cyllideb ac mae canllawiau pellach ar sut i gynnal EIA ar gael ar safle fewnrwyd y Cyngor. Cynhwysir sylwadau ar y cynigion unigol o fewn yr atodiadau. Bydd unrhyw gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar lefelau gwasanaeth angen cael eu monitro'n agos gan y gwasanaeth perthnasol

## 11. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

**11.1** Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, y mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 a Strategaeth Fuddsoddi cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Cyflwynwyd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2015/16 i'r Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror 2015.

## 12. DIWEDDARU'R STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW TYMOR CANOLIG

**12.1** Roedd yr adroddiad ar y gyllideb gychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr 2014 yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ynglŷn â newidiadau yn yr hysbysiad cyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhagdybiaethau hyn yn cynnwys lefel dyfarniad cyflog a chwyddiant.

**12.2** Mae'r tabl isod yn ddiweddariad pellach o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sydd wedi cael ei diweddaru ar gyfer y gyllideb arfaethedig 2015/16 a'r tybiaethau canlynol ar gyfer 2016/17 a 2017/18:-

| | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol | 126.6 | 124.4 | 122.0 |
| Newidiadau i'r lefelau Gwariant Sylfaenol | 2.0 | 3.3 | 2.7 |
| Cyfanswm | 128.6 | 127.7 | 124.7 |
| Bwlch Ariannu | -4.2 | -5.7 | -4.7 |
| **Cyfanswm** | **124.4** | **122.0** | **120.0** |
| Ariennir gan gyllid LlC | 92.8 | 89.0 | 85.4 |
| Y Dreth Gyngor | 30.8 | 32.3 | 33.9 |
| Cronfeydd wrth gefn | 0.7 | 0.7 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **124.3** | **122.0** | **120.0** |

**12.3** Bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig angen ei hadolygu a'i diweddaru yn ystod y rhan gyntaf o 2015/16 er mwyn sicrhau bod rhagolygon a rhagdybiaethau yn parhau mor gywir ag y bo modd.

## 13. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU A BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

**13.1** Wrth lunio cynigion cyllideb, rhoddwyd sylw dyladwy i bolisïau a blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

## 14. OPSIYNAU SYDD AR GAEL

**14.1** Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar y Dreth Gyngor a chyllideb refeniw 2015/16 a argymhellir i'r Cyngor. Mae gan Aelodau nifer o opsiynau ar gael ynglŷn â'r cynigion cyllideb manwl a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

**ATODIAD 1**

**STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD – CANLYNIADAU AROLWG "GWNEUD GWAHANIAETH" 2014**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyllideb o £126m ac rydym yn amcangyfrif y bydd angen i ni arbed oddeutu £15m dros y tair blynedd nesaf.

**1.2** Mae angen y Strategaeth Effeithlonrwydd er mwyn darparu cyfeiriad clir dros y blynyddoedd nesaf ac i sicrhau dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, staff a chynghorwyr ynglŷn â'r modd yr ydym yn bwriadu cwrdd â'n heriadau ariannol.

**1.3** Mae ymarfer ymgynghori 2014 yn dilyn ymlaen o ymarfer tebyg a gynhaliwyd yn 2013 pan gafwyd ymarfer ymgynghori a arweiniodd at dderbyn dros 900 o ymatebion.

**1.4** Fel rhan o arolwg 2013, gofynnwyd i'n trigolion lle fyddant hwy yn gwneud arbedion ac a oeddynt yn cytuno gyda rhai o'r dulliau arfaethedig o wneud/arbed arian yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynyddu ffioedd parcio a hamdden
- Rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau am ddim neu wasanaethau am bris gostyngol
- Trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Cyngor i'r sector preifat, y gymuned neu sefydliadau gwirfoddol.
- Gweithio gyda sefydliadau preifat, cymunedol a gwirfoddol i greu menter gydweithredol neu sefydliad ar y cyd i redeg gwasanaeth.
- Cydweithio gyda Chynghorau eraill i ddod ag arbedion mawr o ran cost.
- Adolygu nifer yr adeiladau a chyfleusterau yr ydym yn eu rhedeg.
- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau yn gyfan gwbl ac os felly, pa rai.

**1.5** Mae'r canlyniadau o'r atborth ar ymgynghoriad 2013 yn y cwmwl geiriau isod (Ffig 2).




**1.6** Er mwyn cyflwyno opsiynau i'w rhoddi gerbron dinasyddion Ynys Môn fel rhan o'r ymarfer ymgynghori eleni, cafodd syniadau a chynigion eu drafftio trwy drafodaethau eang gyda chynghorwyr, rheolwyr a staff. Yr egwyddorion sylfaenol i'r cynigion oedd:-

- Gwneud yn siŵr bod y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws y Cyngor yn sicrhau gwerth da am arian;
- Lleihau costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth i'r hyn sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau da;
- Gweithio gydag eraill lle mae hyn yn arbed arian i ni neu i gadw gwasanaeth bychan pwysig i fynd;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau o'n staff;
- Cynyddu incwm i'r Cyngor;

- Trawsnewid gwasanaethau y mae'n ymrwymiad cyfreithiol arnom i'w darparu er mwyn sicrhau eu bod yn fodern, yn effeithiol ac effeithlon.
- Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn angenrheidiol nac yn statudol lle mae eraill hefyd yn darparu'r rhain neu lle y gallai eraill eu darparu.
- Deall effaith ein cynigion ar Ynys Môn a'i thrigolion yn arbennig y rheini sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.

**1.7** Lluniwyd y cynigion drafft yn holiadur a gafodd ei gylchredeg ar-lein, drwy lyfrgelloedd y sir a'i gylchredeg wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ar hyd a lled y Sir (Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Biwmares).

**1.8** Cafwyd 433 o ymatebion fel a ganlyn:-

- Ar-lein/llythyrau = 146 (34%)
- Llyfrgelloedd = 150 (35%)

  Wyneb yn wyneb = 137 (32%)

**1.9** Yn ôl ffynonellau arolwg cydnabyddedig (Arolygon Fluid a SurveySytem.com), mae hwn yn sampl ystadegol ddilys sy'n gynrychioliadol o boblogaeth Ynys Môn yn gyffredinol. Byddai'r ffigwr o -383 ymateb yn rhoi lefel hyder 95% yn y canlyniadau gydag (amrywiad a +/-5%).

**1.10** Mae'r amrediad oedran a ymatebodd i'r arolwg fel a ganlyn –

| Amrediad Oedran | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| -16 | 1 | 0.2 |
| 16-24 | 14 | 3.2 |
| 25-44 | 80 | 18.4 |
| 45-64 | 114 | 26.3 |
| 65+ | 107 | 24.7 |
| Dim eisiau dweud | 117 | 27 |

Gyda 40% o'r ymatebwyr yn wrywod
38% o'r ymatebwyr yn fenywod
12% o ymatebwyr ddim eisiau dweud


**1.11** Mae'r rhaniad rhwng y rheiny a nododd eu bod yn Gymraeg, Saesneg, Prydeinig neu unrhyw genedligrwydd arall hefyd yn cyfateb yn gyffredinol i gyfansoddiad demograffig yr Ynys. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn byw ar yr ynys (dros 70%, gyda 27% heb nodi eu statws).

## 2. CANLYNIADAU'R AROLWG

**2.1** Roedd canlyniadau Arolwg yn cynnwys 16 o gynigion fel a nodir uchod ac yn rhoddi i ymatebwyr y cyfle i sgorio eu hymatebion rhwng 5-1 yn unol â'r categorïau isod.

1. Anghytuno'n Gryf
2. Anghytuno
3. Dim yn cytuno nac yn anghytuno
4. Cytuno
5. Cytuno'n Gryf

**2.2** Roedd y cynnig cyntaf yn un i "Ostwng nifer y swyddfeydd, adeiladau ac asedau eraill yn ein perchenogaeth megis y cwrs golff" ac roedd dros 62% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r cynnig gydag ychydig dros 13% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

*"Pryderon mewn perthynas ag adeiladau gwag ar yr Ynys – pam nad yw'r rhain wedi cael eu gwerthu? Mân-ddaliadau – faint sy'n wag ar hyn o bryd?"*

*"Byddai gwerthu adeiladau nad oes eu hangen a dod yn fwy effeithlon yn well, yn yr adran briffyrdd, rwy'n tybio y byddai erwau o le cael eu rhyddhau petai silffoedd, cypyrddau a dogfennau (rhai o 1996) yn cael eu storio neu eu gwaredu"*


*, …"ymddengys bod nifer o adeiladau ym mherchenogaeth y cyngor nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt a gellid eu gwerthu i godi arian"*

*." Dylai'r cyngor ystyried cael gwared ar rai o'i asedau nad ydynt yn cael eu gweld a'u gwerthfawrogi gan y Cyngor, megis gwaith Celf. Dylai'r Cyngor feddwl am ailstrwythuro ac o ganlyniad, ostwng nifer y gweithwyr sydd yn y swyddfeydd a gwerthu neu osod unrhyw le nad oes ei angen"*

*" Rwy'n cytuno gyda gostwng nifer yr asedau ond nid y cyrsiau golff o angenrheidrwydd – o'r farn bod angen adolygu'r asedau"*

*"Gwerthu ysgolion sy'n wag"*

**2.3** Yr un modd, roedd dros 91% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r ail gynnig i **…** **"**Weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni"



**Sylwadau'r ymatebwyr:**

*"Ychydig iawn o adeiladau'r Cyngor sy'n gwneud defnydd o ynni adnewyddadwy. Ac eithrio diffyg cyffredinol o ran ymdrech, mae'n anodd deall pam fod hyn yn bod"*


*"Faint mewn gwirionedd mae'r Cyngor yn mynd i'w arbed gyda'r strategaeth effeithlonrwydd ynni? Dylai addysgu staff, e.e. i roi'r goleuadau i ffwrdd pan yn gadael eu swyddfeydd ac ati arbed arian. A yw'r Cyngor wedi edrych ar arbedion gwirioneddol a geid yn sgil gweithio gyda darparwyr ynni, e.e. gwaith biomas newydd?"*

*"Pam fedrwch chi ddim cael llai o oleuadau stryd yn y trefi ac ar y prif ffyrdd"*

*"Troi goleuadau stryd i ffwrdd rhwng 11pm a 7am"*

*"Dylid gwneud gofalwyr yr holl brif adeiladau'n gyfrifol am "ddisgyblaeth goleuadau" a rheoli'r systemau gwresogi y tu allan i oriau swyddfa, diwedd y dydd a phenwythnosau – arbedion mawr o bosib ar gael drwy wneud hynny"*

**2.4** Y cynnig i …"Ostwng costau hysbysebu" - 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf o gymharu â'r 7% a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda 17% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.





**Sylwadau ymatebwyr:**

*"Ni ddylai lleihau hysbysebu olygu rhoi llai o rybudd i'r cyhoedd ar faterion a all eu heffeithio. Gallai mynd â hyn yn rhy bell danseilio democratiaeth er mwyn lleihau costau"*

*"Mae busnesau'n llwyddo drwy farchnata ac arloesi, os byddwch yn hysbysebu llai, a fydd modd i chi barhau i gael y neges drosodd a chynnal datblygiad ar yr Ynys?"*

**2.5** Y cynnig i..**"**Annog y cyhoedd i gael at wasanaethau a chysylltu gyda'r Cyngor drwy e-bost neu'r wefan" - cafwyd cytundeb cyffredinol i hyn gyda 284 (57%) o bobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ond 96 o bobl (22%) hefyd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf a 89 o bobl ddim yn cytuno nac yn anghytuno.




***Sylwadau'r Ymatebwyr:***


*"Tra'n cydnabod yr angen i arbed costau cyfathrebu ac annog pobl i ddefnyddio e-bost i ohebu ynghyd â defnyddio tudalennau'r wefan i gael gwybodaeth, rhaid gofalu eich bod yn sicrhau fod y bobl hynny (ac mae nifer ohonynt) sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd yn cael gwybodaeth a gohebiaeth ddigonol drwy lythyr gan y Cyngor a bod hynny'n cael ei reoli'r un mor dda"*

*"Wrth wella mynediad i wasanaethau'r Cyngor ac i ddemocratiaeth, mae'n bwysig nodi na fedr unrhyw wefan neu gyfathrebiad ar-lein fod yn hwylus i bob person anabl bob amser. Ni fydd hyd yn oed y gwefannau hynny sy'n cwrdd â'r safonau uchaf o ran mynediad yn hwylus i bawb"*

*"Gwella'r wefan gorfforaethol – ei gwneud yn fwy rhyngweithiol a hwylus i bobl ei defnyddio"*

*"Mae tlodi yn cael effaith ar fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref – tra bod gwella mynediad a gwasanaethau ar-lein i bobl yn rhan hanfodol o sicrhau mynediad hwylus i wasanaethau'r cyngor ac i ddemocratiaeth a sgriwtini, mae angen hefyd sicrhau fod rhybuddion cymunedol, newyddlenni neu bapurau newydd a llythyrau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at breswylwyr"*

**2.6** Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno gyda'r cynnig i.."Adolygu'r contractau cyfredol yn rheolaidd gyda golwg ar sicrhau arbedion mewn contractau mawr, tymor hir" gydag ond 13 yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.



**Sylwadau'r Ymatebwyr:**


"Mae angen edrych ar y ffaith bod contractau'n cael eu hallanoli fel contractau tymor hir 3 blynedd gan olygu fod pobl nad ydynt yn lleol yn cael eu cyflogi"

"Dylai contractau gefnogi a gwella'r gymuned leol"

"Nid wyf yn deall pam nad yw contractau gwerth uchel wedi bod yn cael eu hadolygu o'r cychwyn cyntaf. Ymddengys nad oes esgus dros beidio â gwneud hynny".

" Mae'r contractau y mae awdurdodau lleol yn eu gosod yn fy mhrofiad i yn cael eu monitro'n agos ac mae angen rhoi mwy o sylw i sut y mae gwasanaethau'r cyngor ei hun yn cwrdd â'r gofynion y mae wedi ei roddi ar eraill"

**2.7** O ran y cynnig i "Ymchwilio i weld a fedrai cymunedau Ynys Môn (gan gynnwys y Cynghorau Tref a Chymuned) gymryd drosodd y cyfrifoldeb am rai o'r gwasanaethau mwy lleol megis meysydd chwaraeon, parciau gwledig a thoiledau cyhoeddus" roedd bron i 66% yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r cynnig gydag ond 13% yn anghytuno/anghytuno'n gryf.




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

*"Mae cael y Cynghorau Cymuned i reoli a rhedeg cyfleusterau'n syniad da iawn oherwydd mae'n rhoi perchenogaeth a chyfrifoldeb yn ôl i'r cymunedau"*

*"Ni ddylid ond trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau lleol i Gynghorau Tref a Chymuned mewn achosion lle byddai hynny o fudd ariannol cyffredinol i'r gymuned honno"*


*"Nid wyf yn siŵr am gael cynghorau tref lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gyfleusterau - efallai bod hwn yn edrych fel opsiwn rhesymol ond yn y tymor hir, bydd angen cynnal a chadw'r cyfleusterau hyn"*

*"Rhaid i CSYM roi'r gorau i ddibynnu ar y Cynghorau Tref i gwrdd â'r diffyg ariannol sy'n cynyddu'n gyflym .... h.y. Toiledau, Canolfannau Hamdden"*

*"Gwneud mwy o ddefnydd o Gynghorau Tref a Chymuned – maent yn ddi-fflach ac yn aneffeithiol mewn rhai ardaloedd"*

*"Rhaid i ddadansoddiad gynnwys unrhyw gostau ychwanegol a ddaw i ran Cynghorau Tref a Chymuned – gan gynnwys costau gweinyddol a staffio"*

**2.8** Nid yn annisgwyl, arweiniodd y cynnig …"Mae Treth Gyngor Ynys Môn yn weddol isel – rydym yn bwriadu cynnydd o 5%" at ymateb lle yr oedd 57% yn anghytuno/anghytuno'n gryf gyda 24% yn cytuno/cytuno'n gryf â'r cynnig. Nid oedd 18% fodd bynnag, yn cytuno nac yn anghytuno i'r cynnig.




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

"Rwy'n falch bod adolygiad yn mynd rhagddo a'r unig beth negyddol sydd gen i i'w ddweud yw mai'r opsiwn hawdd i'r Cyngor yw taro teuluoedd sy'n gweithio a pherchenogion tai gyda chynnydd eto o 5% yn y dreth gyngor"

"Dylai cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir ac effeithlonrwydd y Cyngor ac nid yn awtomatig blwyddyn ar ôl blwyddyn"


"Nid dyma'r amser i gynyddu'r Dreth Gyngor gan swm sy'n uwch na chwyddiant pan nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn cael codiadau cyfog yn ôl chwyddiant"

"Ni fedrwch barhau i godi'r dreth gyngor uwchlaw cyfraddau chwyddiant. Rydym yn haeddu cyfnod o gynnydd yn y dreth gyngor sy'n llai na chwyddiant. Oni fedr y Cyngor gwrdd â'i gyfrifoldeb statudol i gadw cynnydd islaw cyfraddau chwyddiant, mae angen cael gwybod hynny cyn gynted ag sy'n bosibl"

"Rwy'n derbyn fod y cyngor mewn sefyllfa anodd ond mae cynnydd o 5% yn y dreth gyngor i bob pwrpas yn golygu torri cyflogau gweithlu Ynys Môn sydd, y cyfan ohonynt bron, ar gyflogau isel.

"Tra'n cynyddu'r dreth gyngor i berchenogion tai, nid oes unrhyw awgrymiad y dylid codi rhent tai cyngor hefyd gan yr un 5%. Byddai hwn yn awgrymiad teg oherwydd mae pawb yn defnyddio cyfleusterau'r cyngor p'un a ydynt yn berchenogion eu cartrefi neu'n talu rhent"

**2.9** Roedd bron i 70% yn cytuno/cytuno’n gryf gyda’r cynnig i.. “ymchwilio i godi ychwaneg o dreth gyngor ar berchenogion ail gartrefi ar yr ynys ac ar dai gwag” gyda 16% pellach ddim yn cytuno nac yn anghytuno a dim ond 13% yn anghytuno/anghytuno’n gryf




**Sylwadau’r Ymatebwyr:**

“Rwy’n cytuno bod angen adolygu’r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi oherwydd pethau ‘dymunol i’w cael’ yw’r rhain yn hytrach na rhywbeth angenrheidiol ac nid wyf yn meddwl y byddai pobl sy’n byw ac yn gweithio yn Ynys Môn drwy’r amser yn cwyno”

“Rwy’n anghytuno gyda’r polisi o gynyddu’r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi ar Ynys Môn yn bennaf oherwydd nad wyf ar hyn o bryd yn gallu gwerthu fy nghyn gartref priodasol ar Ynys Môn oherwydd sefyllfa ddisymud y farchnad dai ar hyn o bryd y tu allan i Lundain”

“Gallai perchenogion ail gartref ymddangos yn simplistig i fod yn darged hawdd ar gyfer codi arian a hynny’n seiliedig ar ddogma gwleidyddol. Yn fy marn i, byddai cynyddu’r dreth gyngor ar gyfer perchenogion ail gartrefi yn annheg ac yn annhebygol o ddarparu ffynhonnell incwm gynaliadwy a châi hefyd effaith andwyol ar fuddiannau tymor hir yr ynys a gallai fod yn agored i adolygiad barnwrol”


“Mae’r Dreth Gyngor i fod i gael ei chodi i ddarparu gwasanaethau lleol. Os nad yw eiddo’n cael ei ddefnyddio ar sail amser llawn, yna nid oes pwysau ar rai cyfleusterau megis ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol ac mae llai o bwysau ar wasanaethau megis yr heddlu a’r gwasanaeth tân. Mae dadl foesol gref i eiddo o’r fath gael ad-daliad. Mae cynyddu’r dreth yn amhriodol o safbwynt moesol ac yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol. Byddai strategaeth i annog perchenogaeth ail gartrefi yn fwy addas”

“Hoffwn weld rhyw fath o ymgysylltiad rhwng perchenogion ail gartref a swyddogion ynghyd â chynghorwyr lleol i geisio gweld pa atyniadau y gellid eu hychwanegu at yr hyn sy’n cael ei gynnig ar hyn o bryd er mwyn ceisio sicrhau fod pobl yn byw am gyfnodau hwy yn Ynys Môn”

“Rwy’n meddwl o ddifrif y dylech daro’n galed yr ail gartrefi sy’n wag y rhan fwyaf o’r amser. Gyda chymaint o ddigartrefedd, mae’n warthus ac mae’n lladd pentrefi bychain”

“Dyblwch y Band Treth ar gyfer ail gartrefi”

**2.10** O ran y cynnig i ..”Adolygu’r holl ffioedd a phrisiau ar gyfer nifer o’n gwasanaethau megis canolfannau hamdden, prydau ysgol, gofal cartref, casgliadau gwastraff arbennig, parcio a’u cynyddu lle tybir eu bod yn rhy isel” roedd 40% yn cytuno/cytuno’n gryf a 27% yn anghytuno/anghytuno’n gryf gyda 32% ddim yn cytuno nac yn anghytuno




**Sylwadau’r Ymatebwyr:**

*“Mae’r cynnydd mewn cyfyngiadau parcio sef cyfyngiadau o ran yr amser parcio a’r ffioedd yn golygu fod pobl yn gyndyn i fynd i’r Stryd Fawr i siopa”*

*“Beth yw eich cynllun i wasanaethau anstatudol godi ffioedd? Mae’n siwr eich bod eisoes wedi ymchwilio i hyn?”*

*“Rhaid i unrhyw gynnydd mewn ffioedd a’r dreth gyngor fod yn unol â chwyddiant a rhaid canolbwyntio hefyd ar y ffioedd hynny a godir mewn meysydd lle mae hynny’n wrthgynhyrchiol o ran y refeniw a gynhyrchir o gymharu â chost casglu’r arian. Efallai y bydd gwneud i ffwrdd â rhai ffioedd, yn arbennig mewn ardaloedd twristaidd yn annog mwy o ddefnydd ac yn caniatáu i chi godi refeniw mewn ffyrdd eraill megis cynnig consesiynau i ddarparwyr preifat redeg cyfleusterau”*

*“Dylai sicrhau fod gan eich cymunedau ffyrdd o gael yn iach, yn enwedig yng nghyd-destun y teulu, gael ei annog drwy ostwng ffioedd mynediad a cheisio codi arian drwy gynnal gweithgareddau ychwanegol”*


*“ Rhaid cydbwyso unrhyw gynllunio i gynyddu ffioedd yn erbyn y pwysau sydd ar unigolion a theuluoedd ar hyn o bryd”*

*“Ffioedd uwch ar gyfer ceisiadau cynllunio ac ati yn seiliedig ar gost y datblygiad ac os ydyw ar gyfer cartref gwyliau/ail gartrefi (nodwch person lleol neu na ddylid eu defnyddio fel cartref gwyliau am dyweder ?? blynedd)”*

*“Preifateiddiwch y Canolfannau Hamdden”*

*“Mae lle i oddeutu 500 o geir yn y 4 maes parcio i staff yn Llangefni. Wrth godi isafswm o £2 y diwrnod, byddech yn gwneud incwm o £1000 yr wythnos. Os ydych chi o ddifrif am yr ymgynghoriad hwn, dylech ystyried hyn.”*


**2.11** Cafodd y cynnig i ..”Foderneiddio a symleiddio taliadau fel y byddai’n llawer haws talu mewn llefydd megis meysydd parcio a chanolfannau hamdden” ei gefnogi gan 72% o ymatebwyr gydag ond 8% yn anghytuno/anghytuno’n gryf.




**Sylwadau’r Ymatebwyr:**

*“Gosodwch rwystrau ar feysydd parcio fel na fedr pobl barcio heb dalu”*

**2.12** Roedd bron i 61% yn cytuno/cytuno’n gryf y dylem..”Ddatblygu tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn ac yna, ostwng nifer y cartrefi gofal y mae’r Cyngor yn eu rhedeg” a 19% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 19% yn anghytuno/anghytuno’n gryf.




**Sylwadau’r Ymatebwyr:**

*“Nid wyf yn gwybod digon am dai gofal ychwanegol ac o’r herwydd mae fy ateb yn un niwtral. Yn gyffredinol, mae’n edrych fel cynllun da”*

*“Codwch y ffioedd ond peidiwch â chau’r cartrefi gofal y mae’r Cyngor yn eu rhedeg”*


*“Trosglwyddo gofal preswyl i iechyd cyhoeddus”*

*“Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i ddarparu gofal o safon i bobl hŷn”*


*“Dylai darparu gofal o safon i gwrdd ag anghenion pobl fod yn flaenoriaeth bob amser yn achos Gofal i Bobl Hŷn. Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i reoleiddio safonau waeth bwy sydd biau’r gwasanaeth.*

*“Mae pobl hŷn yn derbyn gwell gofal mewn Cartrefi Gofal sy’n cael eu rhedeg yn dda ac sy’n effeithlon yn hytrach na threulio oriau ar eu pennau eu hunain yn eu cartrefi ar adegau pan maent angen cymorth a rhywun i leddfu eu hunigrwydd”*

**2.13** Roedd mwyafrif llethol (bron i 76%) o ymatebwyr hefyd yn cytuno gyda’r cynnig i …”Cynyddu’r defnydd o dechnoleg y cartref fel gall pobl aros yn annibynnol am gyfnod hwyach”




**2.14** Dim ond 10% o’r ymatebwyr oedd yn anghytuno/anghytuno’n gryf gyda’r cynnig i ..”Adolygu nifer y llefydd sydd gennym mewn ysgolion yn erbyn nifer y llefydd yr ydym eu hangen mewn gwirionedd” gyda 64% yn cytuno neu’n anghytuno’n gryf





**Sylwadau’r Ymatebwyr:**


*“Mae’r angen am lefydd mewn ysgolion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn”*

*“Rwy’n teimlo hefyd y dylai’r Cyngor gadw’r ysgolion llai a pheidio â gorfodi pobl i fynd â’u plant i ysgolion sy’n bell ac rwy’n meddwl y câi’r plant addysg well pan mae mwy o amser yn cael eu dreulio arnynt, hynny yw, mewn dosbarthiadau llai”*

*“Ystyried defnyddio’r llefydd gweigion mewn ysgolion ar gyfer staff a gyflogir yn ganolog gan olygu y byddai llai o safleoedd i’w rheoli”*

**2.15** Arweiniodd y cynnig i ..”Adolygu nifer y llyfrgelloedd yn seiliedig ar y nifer o bobl sy’n eu defnyddio” at ymateb diddorol o ystyried mai Llyfrgelloedd oedd un o brif bynciau’r ymgynghori. Roedd 42% yn cytuno/cytuno’n gryf gyda’r cynnig ac roedd 31% yn anghytuno/anghytuno’n gryf gyda 25% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Fodd bynnag, petawn yn tynnu’r holiaduron a gylchredwyd yn y llyfrgelloedd o’r hafaliad, mae’r ffigyrau yn 55% yn cytuno/cytuno’n gryf, 27% ddim yn cytuno nac yn anghytuno a dim on 17% yn anghytuno/anghytuno’n gryf.




**Sylwadau Ymatebwyr:**

“Dylai llyfrgelloedd olygu mwy na llyfrau a rhyngrwyd. Dylent fod yn gaffis cymunedol lle gall pobl gyfarfod”

“Cau POB llyfrgell y tu allan i’r trefi”

*“Credaf y bydd llyfrgelloedd yn bwysicach nag erioed i gymunedau lleol ac y dylid ymestyn eu horiau agor i gwrdd â’u hanghenion. Nid rhywle i fenthyca llyfrau yn unig yw’r llyfrgelloedd – maent yn adnodd pwysig ar gyfer grwpiau cymunedol, yn darparu gwybodaeth am wasanaethau’r Cyngor, gwasanaethau cymorth a gwybodaeth i ymwelwyr. Yn fy marn i, mae llyfrgelloedd yn llawer pwysicach na chwrs golff”*

*“Mae prinder adeiladau i gynnig gwasanaethau ac efallai mai’r llyfrgelloedd yw’r ateb. Hefyd, gellid ailfodelu’r llyfrgell deithiol i ganiatáu mynediad i’r rhyngrwyd fel y gall dinasyddion nad oes ganddynt fynediad iddi am ba reswm bynnag ei defnyddio”*
.
*“ Rwyf wedi cytuno gyda’r adolygiad o ran nifer y llyfrgelloedd, oherwydd byddai modd ail-leoli rhai o’r cyfleusterau hyn mewn siop un stop a allai letya cyfleusterau hamdden ac ati dan yr un to”*


*“Codi ar bobl i fynd i Oriel Môn, ymddengys nad yw’r toriadau byth yn cyffwrdd hon, dim ond llyfrgelloedd. Mae llyfrgelloedd yn fwy defnyddiol nag oriel gelf”*

*“Dymunaf i chi bob llwyddiant yn eich ymdrechion ond rwy’n gobeithio y bydd ein llyfrgell ni (Biwmares) yn parhau i ffynnu”*

*“Cyflwyno ffi fechan flynyddol ar gyfer defnyddio’r llyfrgelloedd – ac eithrio plant a myfyrwyr. Cyflwyno ffi i ddefnyddio cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd – gyda’r un amod â’r uchod*

*“Rwy’n meddwl bod Llyfrgelloedd yn hanfodol i’r gymuned ac mae angen eu hailfodelu’n gyfleusterau o fath hyb cymunedol”*

**2.16** Roedd dros 51% yn cytuno gyda'r cynnig i .."Gweithio i allanoli rheolaeth ein hasedau treftadaeth ddiwylliannol" gyda 32% pellach ddim yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cynnig ac ychydig dros 16% yn anghytuno/anghytuno'n gryf





**Sylwadau Ymatebwyr:**

*" Dylid ystyried y modd yr ydym yn rheoli ein hasedau treftadaeth ddiwylliannol fesul achos. Mewn rhai meysydd, mae'n bur debygol y gellid dirprwyo rheolwyr i sefydliadau addas. Dylai'r Cyngor fod yn rheoli ei arian yn gadarn fel mater o drefn. Dylai unrhyw adolygiad o'r gwasanaethau cyfredol ganolbwyntio ar y meysydd gwariant uchaf a bod yn seiliedig ar ddulliau rheoli cadarn"*

*"cael madael ag Oriel Ynys Môn a gwerthu lluniau gwerthfawr, sef rhai Tunnicliffe"*

**2.17** Roedd 51% o ymatebwyr hefyd yn cytuno/cytuno'n gryf gyda'r cynnig i .. "Datblygu model lle mae gwasanaethau anstatudol yn cwrdd â'u costau drwy codi incwm ac / neu ostwng eu costau dros gyfnod o 2/3 blynedd" gyda 31% ddim yn cytuno nac yn anghytuno a 16% yn anghytuno/anghytuno'n gryf




**Sylwadau'r Ymatebwyr:**

"gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector i leihau a rhannu costau"

**2.18** Sylwadau Ychwanegol

Fel a nodwyd yn y rhagarweiniad, derbyniwyd nifer o sylwadau ansoddol yn ystod y broses ymgynghori - rhai drwy ebost neu lythyr a rhai drwy ymgysylltiad wyneb yn wyneb gydag ymatebwyr. Mae rhai o'r sylwadau sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r cynigion wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad (uchod) ac mae'r sylwadau ychwanegol isod yn cael eu cynnwys am eu bod yn groestoriad o'r math o ymatebion a dderbyniwyd a oedd naill ai a) yn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro neu b) yn ymatebion nad oeddynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion ond yn rhaid a oedd yn haeddu sylw ……

- Gostwng nifer yr Uwch Reolwyr, gormod ohonynt
- Gostwng absenoldeb salwch
- Llai o Gynghorwyr. Gostwng nifer y Cynghorwyr. Cynnal cyfarfodydd ar-lein.
- Cau'r swyddfa cofrestru etholiadol ar stad ddiwydiannol Llangefni a'i chyfuno gyda swyddfeydd y Cyngor yn y dref
- *Gellid rhoi'r gorau i wagio biniau gwyrdd ar gyfer gwastraff gardd rhwng Tachwedd a Mawrth oherwydd nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu defnyddio yn y cyfnod hwnnw.*
- *Credaf y dylai'r Cyngor ystyried cyfuno'n wirfoddol gyda Chyngor Gwynedd. Gallai hyn gynnig arbedion anferthol drwy ganoli gwasanaethau yn arbennig felly o ran caffael, rheoli a gweinyddu, cyllid a recriwtio.*
- *Pryderon ynghylch adeiladau gwag ar yr Ynys – pam ddim gwerthu'r rhain? Y Mân-ddaliadau – faint ohonynt sy'n wag ar hyn o bryd*
- *Gwagio biniau gwyrdd yn y gaeaf - oni fedrid gwneud hyn unwaith y mis? Yn lle hynny, gellid casglu eitemau o wastraff domestig nad ydynt fel arfer yn cael eu casglu (eitemau swmpus) am dri o fisoedd y gaeaf. Byddai hynny'n arbed arian o ran y gwasanaeth casglu gwastraff swmpus a roddir am ddim ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd.*
- *Nid yw'r targed ar gyfer torri costau staffio yn uchelgeisiol iawn, dim ond arbediad o £1M allan o gyfanswm costau staffio oddeutu £75M (60% o gyllideb y Cyngor), sef 1.3% yn unig. Rwy'n sicr y gellid gwneud mwy o arbedion yn hyn o beth.*
- *Byddai toriad o 10% ar gyfartaledd yn y costau staffio'n arbed oddeutu £7.5M. Efallai y gellid gwneud hynny'n fwy derbyniol drwy roi, dyweder, brynhawniau Gwener i ffwrdd i staff neu gyfatebol mewn gwyliau di-dâl yn ystod y flwyddyn.*
- *Credaf y byddai'n syniad da i bawb sy'n gweithio yn y cyngor dalu ffi flynyddol i barcio eu ceir. Byddai hyn yn creu incwm ac yn creu mwy o lecynnau parcio*
- *Adolygu'r Haen Uchaf o Reolwyr – a oes angen cymaint o reolwyr?*
- *Dylai'r Cyngor ostwng y cymhorthdal a rydd i lwybrau bysys - maent yn talu i fysys sy'n llawn aer gael eu cario o gwmpas yr Ynys*
- *Hyfforddi staff i fod yn weithwyr mwy generig – sefydliad ydyw, nid adran!*
- *Mae'r strategaeth yn sôn am fesurau effeithlonrwydd sylfaenol ond nid yw'n sôn am wella perfformiad staff neu adolygu cost uwch reolwyr, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau'n cynnal adolygiadau sylweddol o'u gwasanaethau cefn swyddfa. Beth am wneud gwell defnydd o'r dechnoleg yn y cyngor, digidol, newid sianel ac ati.*
- *Anfon gwaith papur allan mewn un iaith; gofyn i'r trethdalwyr pa iaith y maent ei heisiau*
- *Petai rhai (os nad y cyfan) o weithwyr y cyngor yn deall y pwysau sydd ar fusnesau bychain o ran llif arian, gwneud pethau'n gyflym, yn effeithlon ac yn iawn ac yn gweithredu hynny yn eu bywyd gwaith bob dydd (yr un modd â'r rhan fwyaf o weithwyr mewn Mentrau Bychain a Chanolig), yna rwy'n credu y byddai hynny o gymorth gyda'r targedau effeithlonrwydd.*
- *Ymddengys nad ydych yn "herio galw am wasanaethau" rhyw lawer iawn – lleihau'r galw am wasanaethau er gallai cynyddu'r costau gael yr effaith hon.*
- *Mae Medrwn Môn yn croesawu'r strategaeth effeithlonrwydd gyda'i gweledigaeth glir ar gyfer wynebu'r heriau ariannol. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i weithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau ac i ystyried yn ofalus yr hyn sy'n statudol ac yn anstatudol. Dylid dysgu gwersi o drosglwyddo gwasanaethau megis Canolfan Biwmares a'r cynllunio gofalus a'r gefnogaeth gymunedol a gynigiwyd.*
- *Roedd cytundeb yn gyffredinol ynglŷn â'r mesurau perthnasol y gellid eu cymryd ... (Cangen Ynyd Môn – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig) ond dylai unigolion hefyd ysgrifennu ar wahân*

Ymateb Cychwynnol y Cynghorau Tref a Chymuned (o'r Fforwm Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 23/10/14)

- Trefniadau cydweithio – dylid gwneud mwy o waith gyda'r sector peifat er mwyn sicrhau arbedion (Trearddur).
- Gostwng cost democratiaeth – pwysigrwydd cryfhau democratiaeth a hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth leol (Llanfairpwll).
- Cael y gorau o'n staff – mae angen bod yn wyliadwrus o effaith bosibl diswyddiadau a pheidio â llenwi swyddi gweigion ar lefelau salwch staff (Llanfairpwll).
- Ymgynghori – angen sicrhau fod dulliau ymgynghori'r Cyngor yn gadarn (Llanfairpwll).
- Herio darparu gwasanaethau anstatudol – angen ymgysylltu gyda'r holl gydranddeiliaid cyn gynted ag sy'n bosibl ynghylch unrhyw doriadau mawr i wasanaethau anstatudol (Cwm Cadnant)

Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru – Tra'n cydnabod bod yr amserlen yn mynd y tu draw i'r cyfnod o dair blynedd y mae'r strategaeth effeithlonrwydd ddrafft yn ymwneud ag ef, pwysleisiwyd ei bod hi'n bwysig ymchwilio i oblygiadau posibl unrhyw fwriadau i gyfuno Cynghorau (Cwm Cadnant).

## 3. CASGLIAD

**3.1** Wrth ystyried y rhan fwyaf o'r cynigion/syniadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ar Strategaeth Effeithlonrwydd 2014 ynghyd â'r ymarfer blaenorol yr ymgymerwyd ag ef yn 2013, ymddengys bod yr ymateb cyffredinol yn arwydd o'r ffaith fod y Cyngor wedi cyflwyno opsiynau y mae dinasyddion Ynys Môn yn cytuno â nhw yn gyffredinol.

**3.2** Ac eithrio'r cynnig i godi'r Dreth Gyngor gan 5% bob blwyddyn, mae mwyafrif o drigolion Ynys Môn yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan ac o'r herwydd yn rhoddi mandad clir i'r Cyngor symud ymlaen i weithredu ar y cynigion sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.

**ATODIAD 2**

**CYNIGION AR Y GYLLIDEB 2015/16 - "CWRDD A'R HERIAU" - DADANSODDIAD O YMGYNGHORIAD**

**1**. Cynigion Cyllideb - Derbyniwyd 73 ymateb i'r ymarfer ymgynghori sy'n ffurfio yr ymatebion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad uchod, yn unol a'r canlynol

- Sefydliadau / Cyrff - Nifer o Gynghorau Tref & Chymuned, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Malltraeth Ymlaen a Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol. (er mai cyfanswm nifer yr ymatebion yma yw 5, mae hyn yn cynnwys ymateb o gyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned lle mae 10 o gynghorau unigol yn cael eu cynrychioli mewn ymateb cyffredinol ar ran y Fforwm – mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad);
- Ymatebion unigol - derbyniwyd Ar-lein trwy "Survey Monkey", drwy e-byst / llythyrau neu drwy sesiynau Galw Heibio Arweinydd y Cyngor.

**1.1 Cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor i 5%**

**1.2** Daeth nifer o sylwadau i law gan gyrff ac unigolion o ran y cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor. Derbyniwyd cyfanswm o 13 o ymatebion. O'r Deg corff a ymatebodd mynegwyd peth gwrthwynebiad

"Mae cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn anfforddiadwy, yn annerbyniol ac yn annioddefol".

Dywedodd eraill y dylai'r Dreth Gyngor fod mor isel ag sy'n bosibl ac y dylai'r effeithiau ar unigolion a chartrefi gael eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol, roedd rhan fwyaf o'r ymatebion, fodd bynnag, yn adlewyrchu barn fel yr amlinellir isod

*.... "Cyngor Cymuned bron yn unfrydol o blaid y toriadau sy'n cael eu cynnig ac yn eu gweld yn rhesymol iawn o feddwl am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor Sir".*

*"Mae angen esbonio i trethdalwyr pa wasanaethau fydd yn cael eu diogelu os bydd cynnydd yn y Dreth Gyngor o 5%. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, os yw gwasanaethau hanfodol i gael eu diogelu, mae angen codi Treth y Cyngor hyd at 5% i gwrdd â'r bwlch cyllido "*

*"5% yn gynnydd braidd yn uchel ond rydym yn cydnabod yr angen i gynyddu Treth y Cyngor hyd at y lefel hon er mwyn cwrdd â'r bwlch cyllido".*

| 23 | Dirprwy Brif Weithredwr | Yr Adran Gyllid | 43 | 28 | 22 | Unwaith ac am byth | System Electronig Ranbarthol ar gyfer Rheoli Achosion Cyfreithiol | Mae'r Cyngor yn rhan o brosiect cydweithio rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol.Mae'r prosiect yn symud ymlaen i brynu system electronig ar gyfer Rheoli Achosion (RhA). E<br>Er fod gan Adran Gyfreithiol y Cyngor hwn RhA yn barod, efallai na fydd yr un fath â'r system y mae'r prosiect cydweithio'n bwriadu ei brynu o G Cloud. SOs felly, byddai'n rhaid i'r Cyngor hwn brynu'r un system â gweddill y rhanbarth. Bydd methiant i wneud hynny yn cyfyngu'n ddifrifol ar gyfranogiad y Cyngor i'r prosiect cydweithio cyfreithiol rhanbarthol yn y gorffennol. | 80 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80 | G | | 300 | 100 | 0 | 0 | 0 | 20 | **420** |
| 24 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 27 | 21 | 23 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Trwsio a Chynnal a Chadw Eiddo | Mae gan nifer o adeiladau nad ydynt yn rhai addysgol, e.e. Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, adeiladau Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati â thoeau sy'n gollwng, ffenestri nad ydynt yn agor neu sydd wedi pydru, problemau tamprwydd a risgiau eraill i ddiogelwch - mae'r fid hon yn rhoi sylw i'r rhain. | 700 | 700 | 700 | 700 | 700 | 0 | 700 | D | | 150 | 140 | 75 | 0 | 0 | 35 | **400** |

| Cyfeirnod | Cyfadran | Adran | Cyfeirnod Cyfalaf | Ranc Gwreiddiol | Ranc wedi ei Bwysoli | Cynllun Treigl / Unwaith ac am Byth | Cynllun arfaethedig | Disgrifiad Cryno | 2015/16 Cost Bl 1 (£'000) | 2016/17 Cost Bl 2 (£'000) | 2017/18 Cost Bl3 (£'000) | 2018/19 Cost Bl 4 (£'000) | 2019/20 Cost Bl 5 (£'000) | Grant | Cyllid net gan CSYM 2015/16 (£'000) | Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi | Y rhan o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi | Cyfraniad y prosiect at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol | Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru | Y gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DGA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed | Cadernid y trefniadau rheoli prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 34 | 25 | 24 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Rhaglen Cadwyn Gyflenwi Ranbarthol | Mae'r Rhaglen Cadwyn Gyflenwi Ranbarthol (RhCGR) yn anelu at gydlynu, galluogi a phlygu'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fusnesau drwy ymgysylltu gyda chyflenwyr Haen 1 a 2 i ddeall eu gofynion ac defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu a datblygu darpar gyflenwyr yng Ngogledd Cymru. | 871 | 871 | 0 | 0 | 0 | Angen Cyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 80 | 0 | 10 | **390** |
| 26 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 33 | 24 | 25 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Cynllun Cymorth Mentrau Cymdeithasol Cyfenter | Cefnogi twf a chynhyrchiant y sector Mentrau Cymdeithasol yng Ngogledd Orllewin Cymru drwy dargedu cymorth ariannol. | 1100 | 1100 | 1100 | 1100 | 1100 | 3,575 dros y 5 mlynedd | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 70 | 0 | 15 | **385** |
| 27 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 28 | 26 | 26 | Rhaglen I'w darparu | Mân-ddaliadau | Yn unol â phenderfyniadau Pwyllgor Gwaith ar 24/4/10, cychwynnodd y rhaglen yn 2011/12 ac mae 2/3 o'r ffordd drwodd. Bydd yn adnewyddu ac yn gwella adeiladau'r stad er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r tenantiaid eu defnyddio ac yn darparu llety addas sy'n creu cyfleon ar gyfer ffermwyr ifanc yn y diwydiant amaethyddol. | 1,300 | 1,300 | 0 | 0 | 0 | Derbyniadau Cyfalaf yn cael eu diogelu | 1,300 | B | | 90 | 100 | 60 | 0 | 100 | 10 | **360** |
| 28 | Dirprwy Brif Weithredwr | TGCh | 40 | 29 | 37 | Unwaith ac am byth | Uwchraddau'r System Rheoli Cynnwys Corfforaethol | Uwchraddio Gwefan y Cyngor fel y gellir ei defnyddio ar ffonau symudol a thabledi | 126 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 126 | G | | 150 | 100 | 0 | 0 | 60 | 50 | **360** |
| 29 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | 17 | 23 | 27 | Unwaith ac am byth | Toiledau Cyhoeddus | Works to provide sewage treatment plants and install coin collection machines to achieve revenue saving of £75k in 2015/16 by reducing maintenance costs | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | N/A | | 0 | 100 | 75 | 0 | 140 | 35 | **350** |
| 30 | Datblygiad Cynaliadwy | Planning & Public Protection | 37 | 27 | 28 | Unwaith ac am byth | Parc Carafan Modur aTeithio yn Nghaergybi | Mae'r cynnig yn rhan o raglen barhaus o welliannau i wella'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer y cyhoedd ym Mharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi sydd ym mherchenogaeth y Cyngor. Bydd y gwelliannau unwaith y byddant wedi eu cwblhau, yn golygu y bydd modd efallai cael cyllid refeniw ychwanegol a fydd o gymorth i sicrhau fod y parc yn gallu cyllido ei hun yn y dyfodol gyda llai o ddibyniaeth ar gyllid craidd y Cyngor. | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80% o £200k o'r Grant LILILIA heb ei ddiogelu eto, os caiff ei gymeradwyo, bydd angen cyfraniad o £50k gan CSYM | 50 | B | | 150 | 0 | 0 | 80 | 100 | 5 | **335** |
| 31 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 35 | 37 | 29 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Cronfa Fuddsoddi Leol | Bydd y fenter arfaethedig yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau micro a bychan newydd a chyfredol, swm o hyd at £10k tuag at fuddsoddiadau cyfalaf ac wrth wneud hynny, bydd rhoi sylw i fethiant y farchnad gyfredol i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau micro a bychan. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Angen cyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | **315** |
| 32 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 36 | 38 | 30 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy Arforol | Mae gan RhYY botensial sylweddol i sicrhau trawsnewidiad economaidd ar lefel ranbarthol os bydd yr amodau ar gyfer twf yn eu lle. Bydd y weithgaredd arfaethedig yn gosod isadeiledd pwer rhwng gwely'r môr a chysylltiad ar y tir gan ganiatáu i CHWECH o weithredwyr technoleg llanwol i gynhyrchu 120MW o ynni adnewyddadwy. Mae diffyg cysylltiad i'r grid yn broblem fawr a difrifol ar gyfer datblygwyr preifat. Bydd y prosiect yn golygu y bydd y parth MORlais dynodedig, harbwr twfn Caergybi ac ardaloedd arforol eraill yn addas ar gyfer cynhyrchu ynni arforol y mwyaf deniadol yn y DU | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Mae cost gweithredu (gosod ceblau dan y môr a rhai uwchben rhwng gwely'r môr a'r cysylltiad i'r grid rhwng £30-£35m. Menter Môn wedi sicrhau cyswllt arall i'r grid a chyllid cyfatebol preifat o hyd at £15m | Angen cyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | **315** |
| 33 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a GwasanaethauTechnegol | 20 | 30 | 31 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Ffyrdd ar Stadau | Mae nifer o lonydd stadau'r sir mewn cyflwr gwael gan gynnwys troedffyrdd. Mae hyn yn golygu y bydd modd targedu ymyrraeth ar sail raglenedig i leihau risg a gwella cyflwr ardaloedd preswyl bydd yn lleihau'r risg o hawliadau am anafiadau. | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | D/B | | 0 | 140 | 45 | 0 | 60 | 25 | **270** |

| Cyfeirnod | Cyfadran | Adran | Cyfeirnod Cyfalaf | Ranc Gwreiddiol | Ranc wedi ei Bwysoli | Cynllun Treigl / Unwaith ac am Byth | Cynllun arfaethedig | Disgrifiad Cryno | 2015/16 Cost Bl 1 (£'000) | 2016/17 Cost Bl 2 (£'000) | 2017/18 Cost Bl3 (£'000) | 2018/19 Cost Bl 4 (£'000) | 2019/20 Cost Bl 5 (£'000) | Grant | Cyllid net gan CSYM 2015/16 (£'000) | Y flaenoriaeth gorfforaethol y mae'r fid yn cwrdd â hi | Y rhan o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd â hi | Cyfraniad y prosiect at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol | Lefel y risg gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei lliniaru | Y gofyniad i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DGA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyllid cyfatebol a all fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu potensial o ran buddsoddi i arbed | Cadernid y trefniadau rheoli prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a GwasanaethauTechnegol | 19 | 32 | 32 | Rhaglen Dreigl - Gosod peiriannau talu ac arddangos newydd | Meysydd Parcio | Cynnal Meysydd Parcio sy'n dod ag incwm i'r gyllideb refeniw. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud gwaith a allai achosi problemau mawr o ran diogelwch oni fyddai'n cael sylw. Hefyd, ceir cyllid cyfatebol pan fydd grantiau'n cael eu rhyddhau ar gyfer gwaith gwella. | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | B | | 90 | 100 | 45 | 0 | 0 | 25 | **260** |
| 35 | Dysgu Gydol Oes | Amgueddfeydd a Threftadaeth | 42 | 35 | 33 | Unwaith ac am byth | Gwaith hanfodol yn Jêl a Llys Biwmares (mewn paratoad o bosib ar gyfer eu hallanoliil asiantaeth | Mae allanoli'n un ffordd ymlaen ar gyfer rhai o safleoedd twristaidd a threftadaeth pwysig yr ynys. Er mwyn denu asiantaeth allanol i fabwysiadu a rhedeg y safleoedd hyn yn lle'r Cyngor, rhaid i'r adeiladau fod mewn cyflwr da ac yn fusnesau twristiaeth hyfyw sy'n cynhyrchu incwm. Mae adroddiad manwl | 232 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 232 | B/E | | 90 | 40 | 0 | 0 | 80 | 25 | **235** |
| 36 | Cymuned | Tai | 11 | 31 | 34 | Unwaith ac am byth | Prynu Tir ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | Prynu a datblygu tir ar gyfer sipsiwn a theithwyr ar Ynys Môn. Mae'r fid yn seiliedig ar yr angenil brynu tir ar gyfer 2 safle dros dro / transit sy'n 1 ere a 1 safle preswyl parhaol o 2.5 erw. | 3,590 | 0 | 0 | 0 | 0 | am gyllid LlC ar ddiwedd 2015 ar gyfer 2016/17 | I'w gadarnhau | D | | 120 | 0 | 75 | 0 | 0 | 35 | **230** |
| 37 | Datblygiad Cynaliadwy | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol+B29 | 22 | 33 | 35 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Cynlluniau Strwythurol Pwysig | Maintain several bridges, culverts and retaining walls. This will undertake planned maintenance to these structures above and beyond that can be ubdertaken from revenue budget | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | N/A | | 0 | 100 | 45 | 0 | 60 | 25 | **230** |
| 38 | Datblygiad Cynaliadwy | Environment & technical Service | 23 | 34 | 36 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen, ond nid yw ar gael eto | Ffyrdd | Mae angen cynnal a chadw rhwydwaith y Cyngor yn barhaus. Mae'r gronfa hon yn golygu y gellir gwneud gwaith pwysig na fyddai'n bosibl fel arall | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | N/A | | 0 | 100 | 45 | 0 | 60 | 25 | **230** |
| 39 | Datblygiad Cynaliadwy | Economaidd & Cymuned | 30 | 41 | 38 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Safleoedd ac Eiddo Strategol | Oherwydd y cyfleon yn sgil y Rhaglen Ynys Ynni (RhYY), mae Ynys Môn ar frig mewnfuddsoddiad sylweddol o'r sector carbon isel ac ynni. Bydd y prosiect hwn yn ceisio darparu safleoedd ac eiddo ac arnynt wasanaethau o safon uchel mewn lleoliadau cyflogaeth allweddol er mwyn denu mewnfuddsoddiad | 5000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Yn amodol ar gyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | **190** |
| 40 | Datblygiad Cynaliadwy | Economaidd & Cymuned | 31 | 42 | 39 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Rhaglen Isadeiledd Cyfleustodau | Mae cyfyngiadau sylweddol o fewn iadeiledd cyfleustodau'r briffordd a allai gyfyngu ar effaith economaidd buddsoddiadau sydd wedi eu rhaglennu. Mae angen buddsoddiad sylweddol i wella capasiti'r isadeiledd cyfleustodau (rhwydwaith trydan ac ati) er mwyn manteeisio i'r eithaf ar y datblygiadau ynni mawr. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Yn amodol ar gyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | **190** |
| 41 | Datblygiad Cynaliadwy | Economic & Cymuned | 32 | 43 | 40 | Rhy fuan I ddarparu gwybodaeth - gwaith yn mynd rhagddo | Rhaglen Isadeiledd Strategol Llangefni | Llangefni wedi ei nodi fel lleoliad allweddol. Mae tri safle sy'n agos at ei gilydd â'r potensial i fod yn hyb cyflogaeth a hyfforddiant allweddol o bwys rhanbarthol os gwneir y buddsoddiad iawn. | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Oddeutu £10m+ dros y 5 mlynedd (dim sicrwydd) | Yn amodol ar gyllid SCEC | I'w gadarnhau | B | | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | **190** |
| 42 | Datblygiad Cynaliadwy | Environment & technical Service | 21 | 39 | 41 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen ond nid yw ar gael eto | Goleuadau | Rhaglen i osod lampau newydd mwy ynni effeithlon ac sy'n achosi llai o lygredd goleuni sy'n golygu y defnyddir llai o dryan gan arwain ar arbedion refeniw a lleihau ôl-troed carbon. | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 0 | 30 | D/B | | 0 | 0 | 0 | 0 | 140 | 25 | **165** |
| 43 | Cymuned | Tai | 14 | 36 | 42 | Dim Rhaglen - Ad Hoc | Cynllun Benthyciadau Tai Sector Preifat | Gwella cartrefi Landlordiaid Preifat ar Ynys Môn, e.e. sicrhau cartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Petai cynllun Wylfan Newydd yn mynd yn ei flaen, amcangyfrifir y bydd tua 8000 o weithwyr yn cael eu cyflogi ar yr adegau prysuraf. | 740 | 500 | 510 | 0 | 0 | LlC £254k | 486 | D | | 90 | 0 | 0 | 40 | 0 | 30 | **160** |
| 44 | Datblygiad Cynaliadwy | Eiddo | 25 | 40 | 43 | Rhaglen Dreigl - Bydd amserlen ond nid yw ar gael eto | Cadwraeth Ynni | Gallai diffyg buddsoddiad effeithio ar ein gallu i gwrdd â thargedau'r Sector Cyhoeddus. Argymhellir y dylai 10% o'r gwariant ar ynni a dwr gael ei fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni a dwr. | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | D/B | | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 35 | **135** |

| **Allwedd: Blaenoriaeth Gorfforaethol:** | |
|---|---|
| A | Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| B | Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi |
| C | Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion |
| D | Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi |
| E | Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd |
| F | Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned |
| G | Trawsnewid ein Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) |

**MATRICS SGORIO**

1. **Prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni prosiectau corfforaethol (Pwysoliad 30%)**

- Rhoddir 300 o bwyntiau os yw'r cynllun yn cwrdd yn llawn ag un neu ragor o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 299 os yw'r cynllun yn cwrdd yn rhannol â'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, gyda'r sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb yr effaith. Os yw cynllun yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau corfforaethol, dylai sgorio dros 200 o bwyntiau, ond os yw cynllun ond yn cwrdd â chyfran fechan o'r blaenoriaethau corfforaethol, yna dylai sgorio llai na 100. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cwrdd ag unrhyw un o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

2. **Prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol (Pwysoliad 20%)**

- Rhoddir 200 o bwyntiau os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn llawn.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn rhannol. Bydd y sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb y lliniaru. Os yw cynllun yn lliniaru llawer ar y risg gorfforaethol, dylai sgorio dros 120 o bwyntiau, ond os yw ond yn lliniaru rhywfaint ar risg gorfforaethol, yna dylai sgorio llai na 50. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r cynllun yn lliniaru dim ar y risg gorfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

3. **Rheidrwydd i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, y Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) er mwyn lliniaru her (Pwysoliad 15%)**

- Rhoddir 150 o bwyntiau os oes angen y cynllun yn llawn i gydymffurfio'n gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 149 os yw'r cynllun yn cydymffurfio'n rhannol gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DAG. Bydd y sgôr yn adlewyrchu lefel y gydymffurfiaeth. Os yw'r cynllun yn cydymffurfio i raddau helaeth gyda'r cyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, dylai sgorio dros 100 o bwyntiau, ond os yw ond yn cydymffurfio i lefel isel, dylai sgorio llai na 30. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, rhoddir sgôr o 0.

4. **Lefel y cyllid ar y cyd/cyllid cyfatebol a all fod ar gael (Pwysoliad 10%)**

- Os yw'r cynllun yn derbyn 100% cymorth grant, bydd yn sgorio 100 o bwyntiau. Os yw'r cynllun yn derbyn 50% cymorth grant, bydd yn sgorio 50 o bwyntiau. Os nad yw'r cynllun yn derbyn unrhyw gymorth grant o gwbl, yna ni fydd yn sgorio unrhyw bwyntiau.

5. **Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial buddsoddi i arbed (Pwysoliad 20%)**

- Rhoddir 200 o bwyntiau os bydd y cynllun yn cael effaith fawr ar y gyllideb refeniw neu â photensial mawr o ran buddsoddi i arbed.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn cael rhywfaint o effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu â photensial o ran buddsodd i arbed, gyda'r sgôr yn dibynnu ar yr effaith a gaiff ar y gyllideb refeniw. Dylai effaith hynod ffafriol sgorio dros 120 o bwyntiau a disgwylir y bydd cynllun effaith isel yn sgorio llai na 50 o bwyntiau.
- Onid oes unrhyw effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial o ran buddsoddi i arbed, rhoddir sgôr o 0.

6. **Cadernid o ran Rheoli Prosiect (Pwysoliad 5%)**

- Bydd trefniadau rheoli prosiect hollol gadarn yn sgorio 50 o bwyntiau.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 49 gan ddibynnu ar ba mor gadarn yw'r trefniadau rheoli prosiect a bydd y sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r trefniadau rheoli prosiect yn gadarn o gwbl, rhoddir sgôr o 0.

## ADNODDAU CYFALAF

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn hynod brin o adnoddau cyfalaf. Roedd oddeutu £2m o dderbyniadau cyfalaf i law ar 1 Ebrill 2014 a rhagwelir y bydd £2.5m pellach ar gael erbyn 31 Mawrth 2015. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor yn derbyn, drwy'r Grant Cymorth, ddyraniad pellach o £3.522m y gellir ei wario ar gyfalaf. O'r herwydd, mae gan y Cyngor sylfaen o £6.5m y gellir ychwanegu grantiau ato mewn achosion lle mae cynlluniau cyfalaf yn denu grantiau o'r fath.

Ar hyn o bryd, nid oes modd diffinio'n rhesymol yr adnoddau a fydd ar gael y tu hwnt i 2016/17 fel y dangosir yn y tablau isod. Felly, er bod rhai prosiectau'n cael eu dangos am flynyddoedd i'r dyfodol, mae lefel o ansicrwydd gydag unrhyw brosiect ar ôl 2016/17. Dylid cadw mewn cof hefyd y gall cynlluniau 'argyfwng' neu newidiadau i flaenoriaethau ddigwydd ar unrhyw adeg ac y bydd cynlluniau newydd efallai'n cael eu cyflwyno ar gyfer eu hystyried a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

### ADNODDAU CYFALAF 2015/16

Dyma'r Adnoddau Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer 2015/16 :-

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf | | |
| (ac eithrio'r arian sydd wedi ei neilltuo'n benodol i'r Mân-ddaliadau) | 2,500 | |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | | |
| (LlC drwy'r Grant Cymorth) | 2,189 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (LlC) | 1,333 | |
| Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf fydd yn cael eu rhyddhau yn 2014/15 | 2,000 | |
| | | 8,022 |
| Grantiau Cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau sydd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr arfaethedig (Biwmares) | | 765 |
| | | 8,787 |
| Grantiau Arbennig sy'n ymwneud â chynlluniau arfaethedig ar gyfer ysgolion | | |
| Ysgolion | 4,578 | |
| | | 4578 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael** | | **13,365** |
| (heb orfod benthyca) | | |

### ADNODDAU POSIBL 2016/17

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf | 1,000 | |
| (ac eithrio'r arian sydd wedi ei neilltuo'n benodol i'r Mân-ddaliadau) | | |
| Benthyca gyda Chefnogaeth (gan dybio y bydd y lefelau'r un fath â 2015/16) | | |
| (LlC drwy'r Grant Cymorth) | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (LlC) | 1,333 | |
| | | 4,522 |
| Grantiau Arbennig sy'n ymwneud â chynlluniau arfaethedig | | |
| Ysgolion | 1,700 | |
| | | 1,700 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a all fod ar gael** | | **6,222** |
| (heb orfod benthyca) | | |

## Costau Glanhau yr Amgylchedd

Fe leolir Bloc Cybi o fewn safle'r ysgol newydd arfaethedig yng Nghaergybi a bydd yn cael ei hadnewyddu i ffurfio rhan o'r ysgol newydd. Disgwylir bydd Cais Cynllunio ar gyfer y datblygiad yn cael ei gyflwyno yn hwyr Chwefror/gynnar Mawrth. Datganwyd yr Adran Cynllunio bydd angen, fel rhan o'r Cais Cynllunio, Adroddiad Strwythurol ar gyflwr Bloc Cybi, sy'n Adeilad Rhestredig Graddfa II. Mae'r adeilad wedi bod mewn cyflwr gwael am nifer o flynyddoedd ac, ar hyn o bryd, nid yw hi'n ddiogel i gael mynediad i'r adeilad - mae'r lloriau a'r nenfydau wedi disgyn ac mae'r to'n gollwng mewn nifer o lefydd yn dilyn dwyn plygiadau plwm a llechi. Yn ogystal, mae colomennod wedi meddiannu rhannau o'r adeilad ers peth amser. Er mwyn cael mynediad diogel i wneud y gwaith arolygu, mae angen clirio'r adeilad o'r holl ddodrefn a sbwriel - gyda glanhau amgylcheddol llawn hefyd i'w gynnal. Gall arolygiad wedyn ei gynnal a gellir cynhyrchu adroddiad i'w gyflwyno i'r Adran Cynllunio. Bydd cynnal yr arolygiad nawr yn lleihau'r oedi posibl yn y broses cymeradwyaeth Cynllunio yn ogystal â chaniatáu Tîm Dylunio'r Contractwr i symud ymlaen gyda dyluniad manwl o'r adeilad.

## Argymhelliadd

- Caniatau y gwaith i gychwyn yn 2014/15 yn hytrach na disgwyl tan 1 Ebrill 2015.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **26 CHWEFROR 2015** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2015/16** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG SY'N ARWAIN:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **GARETH ROBERTS /BEN DAVIES (EST: 2675/2610)** |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) ar faterion Rheoli Trysorlys. Mae'r Côd yn argymell y dylai'r Aelodau sgriwtineiddio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRT) cyn iddo gael ei fabwysiadu (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad Polisi MRP Blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys blynyddol a'r Cynllun Dirprwyo ar Rheoli Trysorlys - CDRT). Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon. Mae'r CDRT hefyd angen i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn ac adolygu'r DSRTCydymffurfir yr adroddia cyn ei basio ymlaen i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo. Mae'r adroddiad yma'n rhedeg ochr yn ochr ag adroddiadau cyllideb cyfalaf a refeniw fel rhan o'r broses gosod y gyllideb 2015/16.

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Anecs yma (fel manylir yn y rhan uchod a rhannau 3 i 6 isod ac yn cynnwys Anecs A) i'r Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror 2015. Penderfynodd y Pwyllgor i:-

- Nodi cynnwys yr adroddiad; a
- Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (yn cynnwys y Dangosyddion Pwyllog a rhai Rheoli Trysorlys) ar gyfer 2015/16 (Anecs A).

Ni benderfynodd y Pwyllgor Archwilio i basio unrhyw sylwadau neu argymhellion ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad a'r Anecs yma (fel manylir yn y rhan uchod a rhannau 3 i 6 isod ac yn cynnwys Anecs A) i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Chwefror 2015. Penderfynodd y Pwyllgor i:-

- Nodi cynnwys yr adroddiad; a
- Cymeradwyo cynnwys, a'r rhagdybiaethau a chynnigion ynddo, y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (yn cynnwys y Dangosyddion Pwyllog a rhai Rheoli Trysorlys) [Anecs A] ar gyfer 2015/16.

Ni benderfynodd y Pwyllgor Gwaith i basio unrhyw sylwadau neu argymhellion ymlaen i'r Pwyllgor yma.

**3.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Bolisïau Rheoli Trysorlys a'r atodlenni cysylltiedig. Mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Nid oes gan yr Awdurdod Bolisïau Rheoli Trysorlys wedi eu dogfennu ar hyn o bryd ond bwriedir datrys hynny yn 2015/16 a'u cyflwyno cyn gynted ag y bo modd wedyn i'r pwyllgorau perthnasol â Chynllun Dirprwyo 2015/16 ar gyfer Rheoli Trysorlys.

**4.** O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys dim ond un newid y bwriedir ei wneud i egwyddorion a pholisïau sylfaenol Datganiad 2015/15 fel a ganlyn:-

- Ni fydd yr adroddiadau Rheoli Trysorlys ar gyfer chwarter un a chwarter tri yn cael eu cynhyrchu mwyach. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn rheolau sefydlog yr Awdurdod fel y manylir ar hynny yn Atodiad 9 yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn bwriedir adolygu'r categorïau posib o fuddsoddiadau a ddefnyddir, ynghyd ag unrhyw feini prawf graddfeydd credyd a therfynau buddsoddi. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys.

**5.** Mae'r bwriad i dynnu allan o'r system cymhorthdal CRT ar 2 Ebrill 2015 wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn y dangosyddion pwyllog (gweler Atodiad 11) ar y sail Atodiad 12 (mae'r geiriad tbddo wedi ei ehangu ryw 'chydig' a'i ddiwygio ar gyfer adroddiad yma i wella eglyrdeb).

**6.** Ar 2 Chwefror 2015, cyfanswm benthyciadau allannol y Cyngor oedd £89.6m, disgwylir mai hyn fydd y sefyllfa ar 31 Mawrth, 2015. Mae'r benthyciadau yn cynnwys benthyciadau aeddfedu a rhai blwydd-dal. Roedd £89.3m o fenthyciadau aeddfedu gydag oes gyfartalog o 25 mlynedd a graddfa gyfartalog o 5.70% a £0.3m o fenthyciadau blwydd-dal graddfa gyfartalog o 9.4%. Rhagwelir mai £5.1m fydd cost benthyca ar gyfer 2014/15 gyda'r rhagolwg ar gyfer yr angen sylfaenol i fenthyca ar ddiwedd y flwyddyn yn £114.8m. Golyga hyn fod y Cyngor wedi benthyca'n fewnol £25.2m erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar 2 Chwefror 2015, cyfanswm buddsoddiadau'r Cyngor oedd £16.1m, gyda graddfa dychwelyn gyfartalog o 0.4% ac y cyfanswm cyfartalog i'r flwyddyn hyn yma yw £21.1m . Wrth i fenthyca mewnol gynyddu, mae balansau buddsoddiadau'n lleihau.

**7.** Argymhellion:-

**7.1** I nodi cynnwys yr adroddiad.

**7.2** I gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (yn cynnwys y Strategaeth Buddsoddi blynyddol, Polisi DRI, Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Pwyllog a rhai Rheoli Trysorlys) ar gyfer 2015/16.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor?**

I gydymffurfio â phroses gosod y gyllideb yr Awdurdod a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | d/b – adroddiad Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Anecs A: Datganiad Drafft Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys ar gyfer 2015/16.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 (fel cymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2014);
- Papurau gosod y gyllideb cyfalaf a refeniw 2015/16 (fel adroddwyd ar wahân i'r Pwyllgor yma).

**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y STRATEGAETH DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2015/16**

## 1. Rhagarweiniad

### 1.1 Cefndir

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i gyfanswm y refeniw sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigonol i gwrdd â gwariant a hefyd, rhaid i'r arian gwirioneddol a ddaw i mewn bod yn ddigonol i gydbwyso'r arian a fydd yn mynd allan. Rhan allweddol o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon neu offerynnau risg isel sy'n cyd-fynd â dull risg isel y Cyngor gan sicrhau hylifedd digonol cyn ystyried y dychweliad ar fuddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

Yn benodol, rhaid i awdurdod lleol glandro ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y costau refeniw sy'n llifo o benderfyniadau ynghylch cyllido cyfalaf. Mae hyn yn golygu bod rhaid cyfyngu:-

- cynnydd mewn costau refeniw yn sgil ffioedd llog uwch, oherwydd benthyca ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf, ac
- unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd, i lefel sy'n fforddiadwy o ran incwm rhagamcanedig y Cyngor.

Mae Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio'r polisïau ag amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys. Gweler Atodiad 10.

### 1.2 Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau

Rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn sy'n ymgorffori amrediad o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gael eu sgriwtinieddio'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon.

**Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Trysorlys** - Mae'r adroddiad cyntaf a'r un pwysicaf yn cynnwys:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (canllawiau ynghylch sut y dylid rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei drosglwyddo i refeniw dros gyfnod o amser); a
- Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o'r polisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion pwyllog cysylltiedig).

**Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn** - Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch cynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio'r dangosyddion pwyllog yn ôl yr angen gan nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ynteu a oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**Adroddiad Trysorlys Blynyddol** – Yn hwn, ceir manylion ynghylch detholiad o ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau rheoli trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

## 1.3 Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2014/15

Mae'r strategaeth ar gyfer 2015/16 yn ymwneud â dau brif faes:-

**Materion Cyfalaf**

- y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwyllog; ac
- y strategaeth DRI.

**Materion rheoli trysorlys**

- y sefyllfa gyfredol o ran y trysorlys;
- dangosyddion rheoli trysorlys a fydd yn cyfyngu ar risg a gweithgareddau trysorlys y Cyngor;
- y rhagolygon o ran cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthyca;
- polisi ar fenthyca o flaen yr angen;
- ail-raglennu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi;
- polisi teilyngdod credyd; a
- polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'r elfennau hyn yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Côd Pwyllog CIPFA, Canllawiau DRI Llywodraeth Cymru, Côd Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

## 1.4 Hyfforddiant

Dan Côd CIPFA mae'n ofynnol fod y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod Aelodau â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol yn rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn eu swyddogaeth sgriwtini, cafodd aelodau'r pwyllgor hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig.

Mae anghenion hyfforddi swyddogion rheoli trysorlys yn cael eu hadolygu ac yn cael sylw'n rheolaidd.

## 1.5 Ymgynghorwyr rheoli trysorlys

Mae'r Cyngor yn defnyddio Capita Asset Services, Treasury Solutions (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel Capita) fel ymgynghorwyr allanol ar faterion rheoli trysorlys.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn fater i'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau nad yw'n dibynnu gormod ar ein darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'n cydnabod hefyd bod gwerth mewn cyflogi darparwyr allanol ar gyfer gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn cael mynediad i adnoddau a sgiliau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r ffyrdd ar gyfer asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd hefyd.

### 1.6 Mabwysiadu'r Côd

Rhaid i'r Cyngor nodi a yw wedi mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mae'r Côd cyfredol, sef un 2011 eisoes wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ac o'r herwydd, nid oes angen diweddariad ar gyfer 2015/16.

## 2. Ystyriaethau Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw gyrwyr allweddol gweithgareddau rheoli trysorlys. Caiff allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf ei adlewyrchu yn y dangosyddion pwyllog sydd wedi eu dylunio i gynorthwyo'r aelodau i gael trosolwg o'r cynlluniau gwariant cyfalaf a'u cadarnhau.

Adlewyrchir yn y Dangosyddion Pwyllgor (Atodiad 11) rhagamcanion gwariant cyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2015/16 i 2017/18. Mae'r gwariant rhagamcanedig ar gyfer 2015/16 i 2017/18 yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf a argymhellir i;w derbyn, yn unol â'r Strategaeth Cyfalaf 2015/16, fel adroddwyd ar wahân. Mae'r rhagamcanion ar gyfer y blynyddoedd yna hefyd yn cynnwys y rhagdybiaeth fydd llithriad 2014/15 yn cael ei wario'n llawn yn 2015/16. Fe cynhwysir y setliad hunan-gyllidol rhagamcanedig o'r CRT yn y rhagamcan gwariant 2015/16, fel y manylir.

Yn amodol ar gytundeb gwirfoddol yr 11 awdurdod tai yng Nghymru, bydd angen i'r Cyngor wneud taliad unwaith ac am byth i Lywodraeth Cymru i dynnu'r CRT o'r system gymhorthdal dai gyfredol. Disgwylir i'r taliad fod oddeutu £21.4m er gall hyn newid. Iawndal yw'r taliad unwaith ac am byth hwn er mwyn sicrhau na fydd taliadau blynyddol yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru o'r CRT yn y dyfodol. Disgwylir y bydd hyn yn fuddiol i'r Cyngor. Mae'r setliad terfynol eto i'w gadarnhau ond drwy gytuno i'r dangosyddion pwyllog diwygiedig, mae'r Cyngor yn sicrhau fod y gofynion lleol yn eu lle ymhell cyn yr amser y bydd angen talu.

Bydd y rhaglenni'n gyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, o ran y gwariant cyfalaf gwirioneddol ac o ran y goblygiadau refeniw (gweler 1.1 uchod). Gweler y dangosyddion pwyllog yn Atodiad 11.

## 3. Benthyca

Bydd y cynlluniau gwariant cyfalaf sydd yn cael eu gosod allan mewn adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwaith yn darparu manylion ynghylch gweithgaredd gwasanaeth y Cyngor. Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn sicrhau bod arian parod y Cyngor wedi ei drefnu yn unol â'r codau proffesiynol perthnasol, i sicrhau fod arian parod digonol ar gael i gwrdd â'r gweithgaredd gwasanaeth yma. Bydd hyn yn cynnwys trefnu'r llif arian parod a, lle mae'r cynlluniau cyfalaf ei angen, trefnu'r cyfleusterau benthyca priodol. Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i'r dangosyddion trysorlys / pwyllog perthnasol, y sefyllfa dyled gyfredol ac a ragwelir, a'r strategaeth buddsoddi flynyddol.

## 3.1 Gofynion ar gyfer Benthyca yn Awr ac i'r Dyfodol a Benthyciadau Gwirioneddol

Mae'r symudiadau a ragwelir o ran gofynion cyllid cyfalaf y Cyngor fel a ganlyn:-

| **AMCANGYFRIF O'R SYMUDIADAU YN Y GOFYNION CYLLIDO CYFALAF A BENTHYCA NEWYDD 2014/15 I 2017/18** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2014/15 Rhagamcanedig £'000** | **2015/16 Amcangyfrif £'000** | **2016/17 Amcangyfrif £'000** | **2017/18 Amcangyfrif £'000** |
| **Symudiad yn y Gofyn am Gyllid Cyfalaf** | | | | |
| Benthyca newydd i gefnogi gwariant cyfalaf | | | | |
| *Benthyca gyda Chefnogaeth* | *4,472* | *2,750* | *2,189* | *2,189* |
| *Benthyca Di-gefnogaeth* | *6,000* | *23,400* | *4,620* | *0* |
| **Cyfanswm** | **10.472** | **26,150** | **6,809** | **2,189** |
| *Gostwng gan: Darpariaeth Refeniw Isaf a derbyniadau cyfalaf a roddwyd o'r neilltu* | (4,538) | (4,287) | (4,801) | (4,908) |
| **Symudiad Net yn y GCC gyllid Cyfalaf** | **5,934** | **21,863** | **2,008** | **(2,719)** |
| | | | | |
| **Symudiadau posib yn y benthyciadau gwirioneddol** | | | | |
| Symudiadau yn y GCC (uchod) | - | 21,863 | 2,008 | (2,719) |
| Allanoli benthyca mewnol cyn 2013/14 | - | 25,177 | **-** | **-** |
| Benthyca newydd | **-** | 8 | 9 | 5,509 |
| **Benthyca newydd posib - Cyfanswm** | **-** | **47,048** | **2,017** | **2,790** |

## 3.2 Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor wedi penodi Capita fel ei ymgynghorydd trysorlys a rhan o'r gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i lunio barn ar gyfraddau llog. Yn Atodiad 3, dygir ynghyd nifer o ragolygon cyfredol y ddinas ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (Cyfradd y Banciau) a chyfraddau sefydlog tymor hwy. Yn y tabl isod, ceir barn Capita.

| **Cyfartaledd Blynyddol (%)** | **Cyfraddau Banc (%)** | **Cyfraddau Benthyca BBGC (yn cynnwys addasiad graddfa sicrwydd)** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **5 mlynedd** | **25 blwyddyn** | **50 blwyddyn** |
| Mawrth 2014 | 0.50 | 2.20 | 3.40 | 3.40 |
| Mehefin 2014 | 0.50 | 2.20 | 3.50 | 3.50 |
| Medi 2014 | 0.50 | 2.30 | 3.70 | 3.70 |
| Rhagfyr 2014 | 0.75 | 2.50 | 3.80 | 3.80 |
| Mawrth 2015 | 0.75 | 2.60 | 4.00 | 4.00 |
| Mehefin 2015 | 1.00 | 2.80 | 4.20 | 4.20 |
| Medi 2015 | 1.00 | 2.90 | 4.30 | 4.30 |
| Rhagfyr 2015 | 1.25 | 3.00 | 4.40 | 4.40 |
| Mawrth 2016 | 1.25 | 3.20 | 4.50 | 4.50 |
| Mehefin 2016 | 1.50 | 3.30 | 4.60 | 4.60 |
| Medi 2016 | 1.75 | 3.40 | 4.70 | 4.70 |
| Rhagfyr 2016 | 1.75 | 3.50 | 4.70 | 4.70 |
| Mawrth 2017 | 2.00 | 3.60 | 4.80 | 4.80 |

DRAFT

Ymchwyddodd twf CMC y DU yn ystod 2013 a hanner cyntaf 2014. Ers hynny, mae'n ymddengys ei fod wedi cilio braidd ond mae'n parhau yn gryf yn ôl safonau'r DU ac fe ddisgwylir i barhau yn yr un modd i mewn i 2015 a 2016. Mae angen ail-falansio'r economi yn sylweddol i ffwrdd o wariant defnyddwyr tuag at ddiwydiant, buddsoddi busnes ac allforio er mwyn sefydlu'r adferiad yma'n gadarn. Un bwrn ar yr economi yw'r ffaith fod chwyddiant cyflogau ond wedi cychwyn bod yn fwy na chwyddiant CPI, felly'n galluogi incwm gwario a safonau byw i gychwyn gwella. Oherwydd y plymiad ym mhris olew, aeth chwyddiant CPI i lawr i 1.0% yn Nhachwedd, y raddfa isaf ers Medi 2002. Disgwylir i chwyddiant aros o gwmpas neu'n is na 1.0% am y rhan fwyaf o'r flwyddyn; bydd hyn yn helpu gwella incwm gwario defnyddwyr ac, felly, cynnal twf yr economi yn ystod 2015. Fodd bynnag, mae angen gwella cynhyrchiant llafur yn sylweddol i alluogi graddfeydd cyflogau i gynyddu a chefnogi ymhellach incwm gwario defnyddwyr a thwf yr economi. Yn ychwanegol, bydd rhaid i'r raddfa galonogol mae diweithdra wedi bod yn disgyn arwain, yn y pen draw, i bwysau am gynyddu cyflogau, er bod y safbwyntiau cyfredol ar y llacrwydd cuddiedig yn y farchnad lafur, yn ôl pob tebyg, yn golygu fod hyn yn annhebygol o ddigwydd yn fuan yn 2015.

Mae'r UD, economi fwyar byd, wedi cynhyrchu graddfeydd twf syfrdanol o 4.6% (blynyddol) yn Ch2 2014 a 5.0% yn Ch3. Mae hyn yn hynod o addawol am y rhagolygon am dwf cryf yn mynd yn ei flaen ac mae'n edrych yn debyg fod yr UD bellach yn gadarn ar y llwybr adferiad llawn o'r argyfwng ariannol o 2008. O ganlyniad, disgwylir yn hyderus mae'r UD fydd yr economi orllewinol fawr cyntaf i gychwyn cynyddu graddfeydd canolog erbyn canol 2015.

Mae nifer o oblygiadau rheoli trysorlys allweddol i'r rhagolygon economi cyfredol a strwythur graddfeydd llog y farchnad a chynnyrch dyled y llywodraeth:-

- Gwlad Groeg : Mae'n debygol bydd yr etholiad cyffredinol ar 25 Ionawr 2015 yn dod a pharti gwleidyddol i bŵer sydd gwrth-UE ac yn gwrth-llymder. Fodd bynnag, petai hyn, yn y pen draw, yn arwain at Gwlad Groeg yn gadael yr Ewro, mae'n annhebygol bydd hyn yn ansefydlogi'n uniongyrchol y Parth ewro, gan fod yr UE wedi rhoi mewn lle 'firewalls' digonol i reoli'r cwymp uniongyrchol ond i Gwlad Groeg. Fodd bynnag, mae'n llawer mwy anodd i feintoli'r effeithiau anuniongyrchol o'r cryfhau tebygol o'r partïon gwleidyddol gwrth-UE a gwrth-llymder drwy gydol yr UE;

- O ran y Parth ewro yn gyffredinol, ciliodd y pryderon yn sylweddol yn 2013 ynglŷn ag argyfwng mawr. Fodd bynnag, arweiniodd y dirywiad yn y twf a chwyddiant yn ystod ail hanner 2014, a phryderon ynglŷn â'r sefyllfa yn Wcráin, Dwyrain Canol ac Ebola, tuag at adfywiad o'r pryderon hynny wrth i'r risg gynyddu ei fod yn symud tuag at ddatchwyddiant a chyfnod hir o dwf gwan iawn. Nid yw anawsterau dyled sofran wedi mynd i ffwrdd a gall pryderon mawr ddod yn ôl ynglŷn â gwledydd unigol nad ydynt yn mynd i'r afael yn ddeinamig ar faterion sylfaenol o dwf isel, anghystadleurwydd rhyngwladol a'r angen am ddiwygiadau hir-ddisgwyliedig o'r economi (fel mae Iwerddon wedi ei wneud). O'r herwydd, mae'n bosibl dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gall cymarebau lefelau dyled llywodraeth i CMC barhau i gynyddu i lefelau gall arwain at fuddsoddwyr golli hyder yn hyfywedd ariannol y gwledydd rheini. O'r herwydd, mae risgiau gwrthbartïon yn parhau'n uchel. Mae hyn yn parhau i awgrymu'r defnydd o gwrthbartïon o safon uchel am gyfnodau byrrach;

- Mae'n debygol bydd dychweliadau buddsoddiadau'n parhau yn weddol isel yn ystod 2015/16 a thu hwnt;

- Anwadal oedd graddfeydd llog benthyciadau yn ystod 2014 wrth i byliau bob yn ail o newyddion da a drwg hybu optimistiaeth, a wedyn pesimistiaeth, o'r farchnadoedd ariannol. Gwelwyd yn wythnosau diwethaf 2014 cynnyrch giltiau ddisgyn i lefelau hanesyddol hynod o isel ar ôl i chwyddiant suddo, ffoi i ansawdd o ecwitïau (yn enwedig yn y sector olew, ac i ffwrdd o'r ddyled a'r ecwitïau o'r gwleydd cynhyrchu olew sydd â marchnadoedd sy'n datblygu, a chynnydd yn tebygolrwydd bydd yr ECB yn cychwyn lleddfu meintiol (prynu dyled llywodraeth EZ) yn fuan yn 2015. Mae'r polisi o osgoi benthyciadau newydd drwy rhedeg i lawr balansau arian parod dros ben wedi gwasanaethu'n dda dros yr ychydig blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen adolygu hyn yn ofalus er mwyn osgoi costau benthyciadau uwch yn y dyfodol, pan ni fydd awdurdodau'n gallu osgoi benthyciadau newydd i gyllido gwariant cyfalaf newydd ac/neu i ail-gyllido dyled sy'n aeddfedu; a
- Bydd cost cario yn parhau ar gyfer unrhyw fenthyciadau newydd sy'n achosi cynnydd yn buddsoddiadau, gan fydd hyn yn golygu colled refeniw rhwng costau benthyciadau a dychweliadau buddsoddi.

**3.3 Y Strategaeth Fenthyca**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un bwyllog oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel a risg o ran wrth bartïon yn uchel a bwriedir glynu wrthi lle'n briodol (gweler 3.3.1 isod am ystyriaeth fwy manwl o fenthyca mewnol ac allanol).

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull pwyllog o ran gweithgareddau trysorlys 2015/16. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig at amgylchiadau sy'n newid:-

- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant, yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr.
- Os roedd teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cynnydd cyflymach na'r disgwyl o ran dad-ddirwyn lleddfu meintiol yn yr UD neu gynnydd annisgwyl mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn is nac y byddent yn yr ychydig o flynyddoedd nesaf.

Diwygio'r CRT yng Nghymru

Bydd angen strategaeth fenthyca ar wahân ar gyfer talu'r setliad CRT i Lywodraeth Cymru erbyn 2 Ebrill 2015. Bydd rhaid i'r Cyngor fod ag arian ar gael ar gyfer y setliad ar 2 Ebrill 2015 a bydd rhaid cyllido hwn drwy fenthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) felly bydd angen benthyciad ar wahân i'r pwrpas hwn yn unig. Mae swyddogion wrthi'n ystyried union strwythur y benthyciadau y byddir yn eu cymryd er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion cynllun busnes y CRT a gofynion y Cyngor yn gyffredinol.

Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol pan ddaw'r cyfle nesaf.

### 3.3.1 Benthyca mewnol yn erbyn benthyca allanol

Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, e.e.:-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, e.e.:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu ar y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

O blaid mewnoli, dros y tymor canolig, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2014/15 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol ar lif arian a bydd hynny'n cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol.

Gallai'r ymadael o'r system cymhorthdal CRT fod yn gyfle i gymryd benthyciadau BBGC ar lefelau hanesyddol isel a gallai hynny fod o fudd i'r Cyngor cyfan yn y tymor hir. Bydd angen adolygu strategaeth o'r fath yn yr wythnosau'n arwain at y dyddiad ymadael rhagweledig (gweler Adran 3.4).

1. Mae'r Awdurdod yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau'r Awdurdod a llif arian, ei fancio, trafodion marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny".

2. Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd ei weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

3. Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion cyflawni gwerth am arian y maes rheoli'r trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol."

DRAFT

**ATODIAD 11**

**DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS**
**GOSOD Y GYLLIDEB 2015/16**

| Rhif | Dangosydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Fforddiadwyaeth** | | **2013/14 Alldro** | **2014/15 Amcangyfrif** | **2015/16 Cynnig** | **2016/17 Cynnig** | **2017/18 Cynnig** |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa’r Cyngor | 5.54% | 5.90% | 6.53% | 6.64% | 6.34% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad) | 16.40% | 13.32% | 21.09% | 23.76% | 22.27% |
| | Cyfanswm | 6.55% | 6.62% | 8.06% | 8.59% | 8.30% |
| **3** | Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y Dreth Gyngor | | | £2.95 | £16.31 | £22.11 |
| | *y Dreth Gyngor ar fand D* | | | | | |
| **4** | Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Renti Tai | | | £29.17 | £43.63 | £25.20 |
| | *ar gyfartaledd rhent wythnosol* | | | | | |
| **Pwyll** | | | | | | |
| **5** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r CFR am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?* | | | | | |
| **Gwariant Cyfalaf** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **6,7** | Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 19,571 | 20,410 | 15,520 | 6,500 | 4,600 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 3,169 | 6,000 | 8,590 | 11,900 | 7,700 |
| | Cyfanswm | 22,740 | 26,410 | 24,110 | 18,400 | 12,300 |
| **8,9** | Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 84,923 | 91,866 | 92,787 | 93,000 | 91,200 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 23,903 | 22,894 | 43,836 | 45,600 | 45,700 |
| | Cyfanswm | 108,825 | 114,760 | 136,623 | 138,600 | 136,900 |
| Dyled Allanol | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **10** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 123,000 | 125,000 | 126,000 | 128,000 | 126,000 |
| | : Setliad CRT | 0 | 0 | 36,000 | 36,000 | 36,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | 2,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | : Cyfanswm | 125,000 | 127,000 | 165,000 | 167,000 | 165,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **11** | Terfyn CRT ar ddyledion: | | | | | |
| | Terfyn CRT ar ddyledion | n/a | n/a | 58,780 | 58,780 | 58,780 |
| | GCC CRT | n/a | n/a | 43,836 | 45,600 | 45,700 |
| | Uchdwr CRT | n/a | n/a | 14,944 | 13,180 | 13,080 |
| **12** | Ffin Ymarferol | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 118,000 | 120,000 | 121,000 | 123,000 | 121,000 |
| | : Setliad CRT | 0 | 0 | 36,000 | 36,000 | 36,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | 2,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | : Cyfanswm | 120,000 | 122,000 | 160,000 | 162,000 | 160,000 |
| **13** | Gwir Ddyled Allanol | 89,585 | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **2013/14 Alldro** | **2014/15 Amcangyfrif** | **2015/16 Cynnig** | **2016/17 Cynnig** | **2017/18 Cynnig** |
| **14** | Fod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **15** | | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| | | | | | | |
| **16** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : | 105,000 | 125,000 | 162,000 | 164,000 | 162,000 |
| | *(prifswm net neilltuol)* | | | | | |
| **17** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *(prifswm net neilltuol)* | | | | | |
| **18** | Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | | | | | | |
| | | | **2015/16 terfyn uchaf** | | **2015/16 terfyn isaf** | |
| **19** | Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthyca graddfa sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a throsodd | | 100% | | 0% | |
| | | | dim newid | | dim newid | |

**Geirfa a gwybodaeth ar Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys**

**Dangosyddion Pwyllog**

**A) Fforddiadwyaeth**

**1,2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyfalaf yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

Fe adlewyrchir dangosyddion CRT (cyfeirnod 2) y setliad hunan-gyllido rhagamcanedig; fe seilir y setliad rhagamcanedig yma ar ffigyrau darparwyd gan Llywodraeth Cymru yn ystod ymgynghoriadau (£21.4m oedd y ffigwr yn seiliedig ar raddfa benthyca o 4.2%). Fel adroddwyd, gall y ffigwr yma newid.

**3. Effaith incrementiadd penderfyniadau mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf ar y dreth gyngor**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf dair blynedd a argymhellwyd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb o gymharu ag ymrwymiadau a chynlluniau cyfredol y Cyngor sydd eisoes wedi eu cymeradwyo. Mae'r rhagdybiaethau yn seiliedig ar y gyllideb ond yn anorfod, byddant yn cynnwys rhywfaint o amcangyfrifon megis lefel y gefnogaeth o du'r Llywodraeth nad ydynt yn cael eu cyhoeddi dros gyfnod o dair blynedd.

**4. Amcangyfrif o effaith incrementaidd y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â buddsoddiadau cyfalaf ar lefelau rhenti tai**

Yr un modd â'r clandriad ar gyfer y dreth gyngor, mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad yng nghost y newidiadau arfaethedig yn y rhaglen gyfalaf dai a argymhellwyd yn yr adroddiad hwn o gymharu ag ymrwymiadau a chynlluniau cyfredol y Cyngor sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ac wedi eu mynegi fel yr effaith a gânt ar lefelau rhenti wythnosol,

Mae'r dangosydd hwn yn dangos effaith refeniw ar unrhyw newidiadau newydd y bwriedir eu gwneud er y bydd unrhyw effaith arwahanol yn cael ei chyfyngu gan reoliadau rhent.

Dylid nodi nad yw'r dangosydd yma'n adlewyrchu'r setliad hunan-gyllido rhagamcanedig.

**B) Pwyll**

**5. Dyled gros ar GCC**

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2015/16 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Rhoddir hyn peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau ni ymgymerir ag unrhyw fenthyca ar gyfer dibenion refeniw.

## C) Gwariant cyfalaf

### 8. Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf (CRT)

Fe adlewyrchir dangosyddion CRT (cyfeirnod 7) y setliad hinan-gyllido rhagamcanedig; fe seilir y setliad rhagamcanedig yma ar ffigyrau darparwyd gan Llywodraeth Cymru yn ystod ymgynghoriadau (y ffigwr yw £21.4m yn seiliedig ar raddfa benthyca o 4.2%). Fel adroddwyd, gall y ffigwr yma newid ac, felly, ei gynnwys unwaith bydd wedi ei gadarnhau.

### 8, 9 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Yr ail ddangosydd pwyllog yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi ei dalu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynllun yn cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor £dim o gynlluniau o'r fath yn y GCC.

Fe adlewyrchir dangosyddion CRT (cyfeirnod 9) y setliad hinan-gyllido rhagamcanedig; fe seilir y setliad rhagamcanedig yma ar ffigyrau darparwyd gan Llywodraeth Cymru yn ystod (y ffigwr yw £21.4m yn seiliedig ar raddfa benthyca o 4.2%). Fel adroddwyd, gall y ffigwr yma newid.

## CH) Dyled Allanol

10. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd pwyllog allweddol arall yn rheoli uchafswm lefel y benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu draw i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o holl gynlluniau'r cyngor neu gynlluniau cyngor penodol er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

    Mae'r dangosydd yma'n adlewyrchu gwerth uchaf posib setliad hunan-gyllido y CRT (£35.8m); gwerth uchaf posibl setliad y CRT yw beth ystyrir y pwynt adennill costau i'r diwygiad hunan-gyllido y CRT i fod yn fanteisiol yn ariannol.

    Dywed y Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Cyllid bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n gweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

11. **Terfyn CRT ar ddyledion**. Fel rhan ddigwyiad hunan-gyllido y CRT, dyrennir terfyn ar ddyledion mewn perthynas â'r CRT ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb am dai; (i'w gymhwyso ar 31 Mawrth bob blwyddyn). Bydd y bwlch rhwng y ddau, os yw 'r GCC o fewn y terfyn, yn cael ei gyfeirio ato fel uchdwr eithaf benthyciadau. Mae'r rhagamcan yn cymeryd i ystyried y setliad ar yr un sail a'r raddfa yn gyfeirnod 2.

**12. Y ffin weithredol**. Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr debyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol.

Fe adlewyrchir y dangosydd yma gwerth setliad hunan-gyllido rhagamcanedig posibl y CRT ar yr un sail â'r dangosydd Terfyn Awdurdodedig.

## Dangosyddion Rheoli Trysorlys

### Cyfyngiadau rheoli trysorlys ar weithgareddau

Mae tri o gyfyngiadau mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys sy'n ymwneud â dyled. Pwrpas y rhain yw cyfyngu ar weithgaredd y swyddogaeth trysorlys o fewn trothwyon penodol, a chan hynny, reoli risg a lleihau effaith unrhyw symudiad anffafriol yn y cyfraddau llog. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn ein cyfyngu'n ormodol, byddant yn effeithio'n andwyol ar y cyfle i leihau costau / gwella perfformiad. Y dangosyddion hyn yw:-

- Y trothwyon uwch o ran y cyfraddau llog amrywiadwy. Mae hwn yn nodi uchafswm ar gyfer cyfraddau llog amrywiadwy yn seiliedig ar y ddyled net o fuddsoddiadau;
- Y trothwyon uwch ar gyfraddau llog sefydlog. Mae hwn yn debyg i'r dangosydd blaenorol ac mae'n cynnwys trothwy uchaf o ran cyfraddau llog sefydlog; a
- Strwythur aeddfedrwydd y benthyciadau. Gosodir y terfynau gros hyn i leihau bregrusrwydd y Cyngor petai symiau cyfraddau sefydlog yn cwympo ac y mae angen eu hail-gyllido ac sydd eu hangen ar gyfer y terfynau isaf ac uchaf.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# PENDERFYNIAD DRAFFT AR OSOD Y DRETH GYNGOR 2015/16

\- - - - - -

# DRAFT RESOLUTION ON SETTING THE COUNCIL TAX 2015/16

**PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn Adran 12 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cyllideb refeniw 2015/16 fel y gwelir honno yn Atodiad 3 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Papur Bidiau Cyfalaf 2015/16.

**(ch)** Ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Atodiad 3 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2015/16, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

- **(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 3 Cynllun Ariannol y Tymor Canolig a'r Gyllideb 2015/16 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;
- **(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2015/16 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016, dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pwerau a ganlyn:-

- **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Papur Bidiau Cyfalaf 2015/16 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2015/16 ymlaen fel sy'n ymddangos yn papur Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10,11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (g) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2015/16 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig A Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B Dim Disgownt

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2015/16, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C Dim Disgownt

**4.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**5.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2014 wedi cymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2015/16 a nodi ymhellach bod y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2014 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am 2015/16.

6. Yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, gymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2015/16, fel a ganlyn:-

**a)** 30,188.51 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**b)** Dyma'r symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y tai annedd hynny yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,462.07 |
| Biwmares | 1,046.72 |
| Caergybi | 3,788.07 |
| Llangefni | 1,899.07 |
| Porthaethwy | 1,408.16 |
| Llanddaniel-fab | 366.62 |
| Llanddona | 356.87 |
| Cwm Cadnant | 1,114.53 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,295.38 |
| Llanfihangel Esceifiog | 667.65 |
| Bodorgan | 435.73 |
| Llangoed | 624.09 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 603.80 |
| Llanidan | 400.60 |
| Rhosyr | 963.80 |
| Penmynydd | 235.34 |
| Pentraeth | 555.40 |
| Moelfre | 605.10 |
| Llanbadrig | 646.65 |
| Llanddyfnan | 489.39 |
| Llaneilian | 546.97 |
| Llannerch-y-medd | 500.62 |
| Llaneugrad | 181.83 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,762.34 |
| Cylch y Garn | 395.35 |
| Mechell | 525.09 |
| Rhos-y-bol | 457.77 |
| Aberffraw | 291.03 |
| Bodedern | 413.58 |
| Bodffordd | 414.76 |
| Trearddur | 1,215.13 |
| Tref Alaw | 241.90 |
| Llanfachraeth | 219.65 |

| | |
|---|---|
| Llanfaelog | 1,218.52 |
| Llanfaethlu | 281.01 |
| Llanfair-yn-neubwll | 554.48 |
| Y Fali | 973.58 |
| Bryngwran | 345.73 |
| Rhoscolyn | 329.73 |
| Trewalchmai | 354.40 |

**7.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2014/15 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £182,940,882 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 57,230,942 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf.

**c)** £125,709,940 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 6(a) uchod a chyfanswm 6(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £ 93,691,000 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £ 1,060.63 sef y swm yn 6(c) uchod llai'r swm yn 6(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 1,058,656 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 1,025.57 sef y swm yn 6(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 6(dd) uchod â'r swm yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34 (2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

**f)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,084.08 |
| Biwmares | £ | 1,051.40 |
| Caergybi | £ | 1,110.55 |
| Llangefni | £ | 1,088.09 |
| Porthaethwy | £ | 1,076.70 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,046.03 |
| Llanddona | £ | 1,040.00 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,053.83 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,053.75 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 1,048.49 |
| Bodorgan | £ | 1,043.59 |
| Llangoed | £ | 1,040.98 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 1,033.85 |
| Llanidan | £ | 1,046.06 |
| Rhosyr | £ | 1,045.80 |
| Penmynydd | £ | 1,039.59 |
| Pentraeth | £ | 1,053.48 |
| Moelfre | £ | 1,044.57 |
| Llanbadrig | £ | 1,064.23 |
| Llanddyfnan | £ | 1,039.63 |
| Llaneilian | £ | 1,046.13 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,045.37 |
| Llaneugrad | £ | 1,044.82 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,049.66 |
| Cylch y Garn | £ | 1,039.23 |
| Mechell | £ | 1,040.27 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,038.68 |
| Aberffraw | £ | 1,049.62 |
| Bodedern | £ | 1,040.08 |
| Bodffordd | £ | 1,040.04 |
| Trearddur | £ | 1,051.18 |
| Tref Alaw | £ | 1,040.87 |
| Llanfachraeth | £ | 1,044.12 |
| Llanfaelog | £ | 1,043.21 |
| Llanfaethlu | £ | 1,046.03 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 1,043.06 |
| Y Fali | £ | 1,052.64 |
| Bryngwran | £ | 1,050.73 |
| Rhoscolyn | £ | 1,033.15 |
| Trewalchmai | £ | 1,043.91 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 6(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

ff)

| Rhan o Ardal y Cyngor | | Bandiau Prisiau A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 722.72 | 843.18 | 963.63 | 1,084.08 | 1,324.98 | 1,565.89 | 1,806.80 | 2,168.16 | 2,529.52 |
| Biwmares | £ | 700.93 | 817.76 | 934.58 | 1,051.40 | 1,285.04 | 1,518.69 | 1,752.33 | 2,102.80 | 2,453.27 |
| Caergybi | £ | 740.36 | 863.77 | 987.16 | 1,110.55 | 1,357.33 | 1,604.13 | 1,850.91 | 2,221.10 | 2,591.29 |
| Llangefni | £ | 725.39 | 846.30 | 967.19 | 1,088.09 | 1,329.88 | 1,571.69 | 1,813.48 | 2,176.18 | 2,538.88 |
| Porthaethwy | £ | 717.80 | 837.44 | 957.07 | 1,076.70 | 1,315.96 | 1,555.23 | 1,794.50 | 2,153.40 | 2,512.30 |
| Llanddaniel-fab | £ | 697.35 | 813.58 | 929.81 | 1,046.03 | 1,278.48 | 1,510.93 | 1,743.38 | 2,092.06 | 2,440.74 |
| Llanddona | £ | 693.33 | 808.89 | 924.45 | 1,040.00 | 1,271.11 | 1,502.22 | 1,733.33 | 2,080.00 | 2,426.67 |
| Cwm Cadnant | £ | 702.55 | 819.65 | 936.74 | 1,053.83 | 1,288.01 | 1,522.20 | 1,756.38 | 2,107.66 | 2,458.94 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 702.50 | 819.59 | 936.67 | 1,053.75 | 1,287.91 | 1,522.08 | 1,756.25 | 2,107.50 | 2,458.75 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 698.99 | 815.50 | 931.99 | 1,048.49 | 1,281.48 | 1,514.49 | 1,747.48 | 2,096.98 | 2,446.48 |
| Bodorgan | £ | 695.72 | 811.69 | 927.64 | 1,043.59 | 1,275.49 | 1,507.41 | 1,739.31 | 2,087.18 | 2,435.05 |
| Llangoed | £ | 693.98 | 809.66 | 925.32 | 1,040.98 | 1,272.30 | 1,503.64 | 1,734.96 | 2,081.96 | 2,428.96 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 689.23 | 804.11 | 918.98 | 1,033.85 | 1,263.59 | 1,493.34 | 1,723.08 | 2,067.70 | 2,412.32 |
| Llanidan | £ | 697.37 | 813.61 | 929.83 | 1,046.06 | 1,278.51 | 1,510.98 | 1,743.43 | 2,092.12 | 2,440.81 |
| Rhosyr | £ | 697.20 | 813.40 | 929.60 | 1,045.80 | 1,278.20 | 1,510.60 | 1,743.00 | 2,091.60 | 2,440.20 |
| Penmynydd | £ | 693.06 | 808.57 | 924.08 | 1,039.59 | 1,270.61 | 1,501.63 | 1,732.65 | 2,079.18 | 2,425.71 |
| Pentraeth | £ | 702.32 | 819.38 | 936.43 | 1,053.48 | 1,287.58 | 1,521.69 | 1,755.80 | 2,106.96 | 2,458.12 |
| Moelfre | £ | 696.38 | 812.45 | 928.51 | 1,044.57 | 1,276.69 | 1,508.82 | 1,740.95 | 2,089.14 | 2,437.33 |
| Llanbadrig | £ | 709.48 | 827.74 | 945.98 | 1,064.23 | 1,300.72 | 1,537.22 | 1,773.71 | 2,128.46 | 2,483.21 |
| Llanddyfnan | £ | 693.08 | 808.61 | 924.12 | 1,039.63 | 1,270.65 | 1,501.69 | 1,732.71 | 2,079.26 | 2,425.81 |
| Llaneilian | £ | 697.42 | 813.66 | 929.90 | 1,046.13 | 1,278.60 | 1,511.08 | 1,743.55 | 2,092.26 | 2,440.97 |
| Llannerch-y-medd | £ | 696.91 | 813.07 | 929.22 | 1,045.37 | 1,277.67 | 1,509.98 | 1,742.28 | 2,090.74 | 2,439.20 |
| Llaneugrad | £ | 696.54 | 812.64 | 928.73 | 1,044.82 | 1,277.00 | 1,509.19 | 1,741.36 | 2,089.64 | 2,437.92 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 699.77 | 816.41 | 933.03 | 1,049.66 | 1,282.91 | 1,516.18 | 1,749.43 | 2,099.32 | 2,449.21 |
| Cylch y Garn | £ | 692.82 | 808.29 | 923.76 | 1,039.23 | 1,270.17 | 1,501.11 | 1,732.05 | 2,078.46 | 2,424.87 |
| Mechell | £ | 693.51 | 809.10 | 924.69 | 1,040.27 | 1,271.44 | 1,502.61 | 1,733.78 | 2,080.54 | 2,427.30 |
| Rhos-y-bol | £ | 692.45 | 807.87 | 923.27 | 1,038.68 | 1,269.49 | 1,500.32 | 1,731.13 | 2,077.36 | 2,423.59 |
| Aberffraw | £ | 699.74 | 816.38 | 933.00 | 1,049.62 | 1,282.86 | 1,516.12 | 1,749.36 | 2,099.24 | 2,449.12 |
| Bodedern | £ | 693.38 | 808.96 | 924.52 | 1,040.08 | 1,271.20 | 1,502.34 | 1,733.46 | 2,080.16 | 2,426.86 |
| Bodffordd | £ | 693.36 | 808.92 | 924.48 | 1,040.04 | 1,271.16 | 1,502.28 | 1,733.40 | 2,080.08 | 2,426.76 |
| Trearddur | £ | 700.78 | 817.59 | 934.38 | 1,051.18 | 1,284.77 | 1,518.37 | 1,751.96 | 2,102.36 | 2,452.76 |
| Tref Alaw | £ | 693.91 | 809.57 | 925.22 | 1,040.87 | 1,272.17 | 1,503.48 | 1,734.78 | 2,081.74 | 2,428.70 |
| Llanfachraeth | £ | 696.08 | 812.10 | 928.11 | 1,044.12 | 1,276.14 | 1,508.17 | 1,740.20 | 2,088.24 | 2,436.28 |
| Llanfaelog | £ | 695.47 | 811.39 | 927.30 | 1,043.21 | 1,275.03 | 1,506.86 | 1,738.68 | 2,086.42 | 2,434.16 |
| Llanfaethlu | £ | 697.35 | 813.58 | 929.81 | 1,046.03 | 1,278.48 | 1,510.93 | 1,743.38 | 2,092.06 | 2,440.74 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 695.37 | 811.27 | 927.17 | 1,043.06 | 1,274.85 | 1,506.64 | 1,738.43 | 2,086.12 | 2,433.81 |
| Y Fali | £ | 701.76 | 818.72 | 935.68 | 1,052.64 | 1,286.56 | 1,520.48 | 1,754.40 | 2,105.28 | 2,456.16 |
| Bryngwran | £ | 700.48 | 817.24 | 933.98 | 1,050.73 | 1,284.22 | 1,517.72 | 1,751.21 | 2,101.46 | 2,451.71 |
| Rhoscolyn | £ | 688.76 | 803.57 | 918.36 | 1,033.15 | 1,262.73 | 1,492.33 | 1,721.91 | 2,066.30 | 2,410.69 |
| Trewalchmai | £ | 695.94 | 811.93 | 927.92 | 1,043.91 | 1,275.89 | 1,507.87 | 1,739.85 | 2,087.82 | 2,435.79 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 6(e) a 6(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**7.** Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2015/16 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:-

| **Awdurdod Praeseptio** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 156.96 | 183.12 | 209.28 | 235.44 | 287.76 | 340.08 | 392.40 | 470.88 | 549.36 |

**8.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 6(ff) a 7 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2015/16 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:-

| | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 879.68 | 1,026.30 | 1,172.91 | 1,319.52 | 1,612.74 | 1,905.97 | 2,199.20 | 2,639.04 | 3,078.88 |
| Biwmares | £ | 857.89 | 1,000.88 | 1,143.86 | 1,286.84 | 1,572.80 | 1,858.77 | 2,144.73 | 2,573.68 | 3,002.63 |
| Caergybi | £ | 897.32 | 1,046.89 | 1,196.44 | 1,345.99 | 1,645.09 | 1,944.21 | 2,243.31 | 2,691.98 | 3,140.65 |
| Llangefni | £ | 882.35 | 1,029.42 | 1,176.47 | 1,323.53 | 1,617.64 | 1,911.77 | 2,205.88 | 2,647.06 | 3,088.24 |
| Porthaethwy | £ | 874.76 | 1,020.56 | 1,166.35 | 1,312.14 | 1,603.72 | 1,895.31 | 2,186.90 | 2,624.28 | 3,061.66 |
| Llanddaniel-fab | £ | 854.31 | 996.70 | 1,139.09 | 1,281.47 | 1,566.24 | 1,851.01 | 2,135.78 | 2,562.94 | 2,990.10 |
| Llanddona | £ | 850.29 | 992.01 | 1,133.73 | 1,275.44 | 1,558.87 | 1,842.30 | 2,125.73 | 2,550.88 | 2,976.03 |
| Cwm Cadnant | £ | 859.51 | 1,002.77 | 1,146.02 | 1,289.27 | 1,575.77 | 1,862.28 | 2,148.78 | 2,578.54 | 3,008.30 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 859.46 | 1,002.71 | 1,145.95 | 1,289.19 | 1,575.67 | 1,862.16 | 2,148.65 | 2,578.38 | 3,008.11 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 855.95 | 998.62 | 1,141.27 | 1,283.93 | 1,569.24 | 1,854.57 | 2,139.88 | 2,567.86 | 2,995.84 |
| Bodorgan | £ | 852.68 | 994.81 | 1,136.92 | 1,279.03 | 1,563.25 | 1,847.49 | 2,131.71 | 2,558.06 | 2,984.41 |
| Llangoed | £ | 850.94 | 992.78 | 1,134.60 | 1,276.42 | 1,560.06 | 1,843.72 | 2,127.36 | 2,552.84 | 2,978.32 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 846.19 | 987.23 | 1,128.26 | 1,269.29 | 1,551.35 | 1,833.42 | 2,115.48 | 2,538.58 | 2,961.68 |
| Llanidan | £ | 854.33 | 996.73 | 1,139.11 | 1,281.50 | 1,566.27 | 1,851.06 | 2,135.83 | 2,563.00 | 2,990.17 |
| Rhosyr | £ | 854.16 | 996.52 | 1,138.88 | 1,281.24 | 1,565.96 | 1,850.68 | 2,135.40 | 2,562.48 | 2,989.56 |
| Penmynydd | £ | 850.02 | 991.69 | 1,133.36 | 1,275.03 | 1,558.37 | 1,841.71 | 2,125.05 | 2,550.06 | 2,975.07 |
| Pentraeth | £ | 859.28 | 1,002.50 | 1,145.71 | 1,288.92 | 1,575.34 | 1,861.77 | 2,148.20 | 2,577.84 | 3,007.48 |
| Moelfre | £ | 853.34 | 995.57 | 1,137.79 | 1,280.01 | 1,564.45 | 1,848.90 | 2,133.35 | 2,560.02 | 2,986.69 |
| Llanbadrig | £ | 866.44 | 1,010.86 | 1,155.26 | 1,299.67 | 1,588.48 | 1,877.30 | 2,166.11 | 2,599.34 | 3,032.57 |
| Llanddyfnan | £ | 850.04 | 991.73 | 1,133.40 | 1,275.07 | 1,558.41 | 1,841.77 | 2,125.11 | 2,550.14 | 2,975.17 |
| Llaneilian | £ | 854.38 | 996.78 | 1,139.18 | 1,281.57 | 1,566.36 | 1,851.16 | 2,135.95 | 2,563.14 | 2,990.33 |
| Llannerch-y-medd | £ | 853.87 | 996.19 | 1,138.50 | 1,280.81 | 1,565.43 | 1,850.06 | 2,134.68 | 2,561.62 | 2,988.56 |
| Llaneugrad | £ | 853.50 | 995.76 | 1,138.01 | 1,280.26 | 1,564.76 | 1,849.27 | 2,133.76 | 2,560.52 | 2,987.28 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 856.73 | 999.53 | 1,142.31 | 1,285.10 | 1,570.67 | 1,856.26 | 2,141.83 | 2,570.20 | 2,998.57 |
| Cylch y Garn | £ | 849.78 | 991.41 | 1,133.04 | 1,274.67 | 1,557.93 | 1,841.19 | 2,124.45 | 2,549.34 | 2,974.23 |
| Mechell | £ | 850.47 | 992.22 | 1,133.97 | 1,275.71 | 1,559.20 | 1,842.69 | 2,126.18 | 2,551.42 | 2,976.66 |
| Rhos-y-bol | £ | 849.41 | 990.99 | 1,132.55 | 1,274.12 | 1,557.25 | 1,840.40 | 2,123.53 | 2,548.24 | 2,972.95 |
| Aberffraw | £ | 856.70 | 999.50 | 1,142.28 | 1,285.06 | 1,570.62 | 1,856.20 | 2,141.76 | 2,570.12 | 2,998.48 |
| Bodedern | £ | 850.34 | 992.08 | 1,133.80 | 1,275.52 | 1,558.96 | 1,842.42 | 2,125.86 | 2,551.04 | 2,976.22 |
| Bodffordd | £ | 850.32 | 992.04 | 1,133.76 | 1,275.48 | 1,558.92 | 1,842.36 | 2,125.80 | 2,550.96 | 2,976.12 |
| Trearddur | £ | 857.74 | 1,000.71 | 1,143.66 | 1,286.62 | 1,572.53 | 1,858.45 | 2,144.36 | 2,573.24 | 3,002.12 |
| Tref Alaw | £ | 850.87 | 992.69 | 1,134.50 | 1,276.31 | 1,559.93 | 1,843.56 | 2,127.18 | 2,552.62 | 2,978.06 |
| Llanfachraeth | £ | 853.04 | 995.22 | 1,137.39 | 1,279.56 | 1,563.90 | 1,848.25 | 2,132.60 | 2,559.12 | 2,985.64 |
| Llanfaelog | £ | 852.43 | 994.51 | 1,136.58 | 1,278.65 | 1,562.79 | 1,846.94 | 2,131.08 | 2,557.30 | 2,983.52 |
| Llanfaethlu | £ | 854.31 | 996.70 | 1,139.09 | 1,281.47 | 1,566.24 | 1,851.01 | 2,135.78 | 2,562.94 | 2,990.10 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 852.33 | 994.39 | 1,136.45 | 1,278.50 | 1,562.61 | 1,846.72 | 2,130.83 | 2,557.00 | 2,983.17 |
| Y Fali | £ | 858.72 | 1,001.84 | 1,144.96 | 1,288.08 | 1,574.32 | 1,860.56 | 2,146.80 | 2,576.16 | 3,005.52 |
| Bryngwran | £ | 857.44 | 1,000.36 | 1,143.26 | 1,286.17 | 1,571.98 | 1,857.80 | 2,143.61 | 2,572.34 | 3,001.07 |
| Rhoscolyn | £ | 845.72 | 986.69 | 1,127.64 | 1,268.59 | 1,550.49 | 1,832.41 | 2,114.31 | 2,537.18 | 2,960.05 |
| Trewalchmai | £ | 852.90 | 995.05 | 1,137.20 | 1,279.35 | 1,563.65 | 1,847.95 | 2,132.25 | 2,558.70 | 2,985.15 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Gwaith: 9 Chwefror 2015**<br>**Cyngor: 26 Chwefror 2015** |
| **Pwnc:** | **Newidiadau Cyfansoddiadol i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Apêl** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth(Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden – Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est 2563**<br>**awenawalkden@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

**Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor:-**

1. Ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y gwelir nhw yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

2. Bod y Pennaeth Proffesiwn (AD) yn cael ei hawdurdodi i ddiwygio unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i adlewyrchu'r newidiadau dan sylw.

3. Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael ei hawdurdodi i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau.

**RHESYMAU**

1. Ar hyn o bryd mae gan y Pwyllgor Apêl awdurdod i benderfynu apeliadau sy'n codi o unrhyw benderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r rhestr o faterion a amlinellir yn 3.4.4.4 y Cyfansoddiad (fel y gwelir yn Atodiad 1 yma) sy'n cynnwys apeliadau gan weithwyr sy'n ymwneud â graddfeydd, materion disgyblu a chwynion.

2. Mae gwaith ymchwil a wnaed yn dangos nad yw llawer o Gynghorau yng Nghymru yn rhoi

hawl i weithwyr islaw lefel Penaethiaid Gwasanaeth gyflwyno apêl i Aelodau; yn hytrach mae eu hapeliadau'n cael eu clywed gan banel o Swyddogion.

3. Rydym yn argymell bod y Cyngor yn newid ei arferion i adlewyrchu'r hyn a ddisgrifir ym mharagraff 2 uchod ac yn Atodiad 1 oherwydd:-

i. Efallai na fydd yn ymarferol i banel o Aelodau fod ar gael i glywed yr holl apeliadau cyflogaeth a wneir gan staff (islaw lefel Penaethiaid Gwasanaeth).

ii. Ar hyn o bryd mae panelau o bum Aelod yn cael eu dewis o blith y 10 Aelod o'r Pwyllgor Apêl. Mae posibilrwydd y bydd galw mawr ar nifer fechan o aelodau ond, yn ychwanegol, mae'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynnal y pwyllgorau hyn yn draul ar amser ac mae'n anodd sicrhau bod aelodau ar gael o gofio gofynion i gydymffurfio gyda chyfyngiadau amser ac i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol (ymdrechion gorau). Byddai panelau o Swyddogion yn creu cronfa fwy ac yn gwella argaeledd a lleihau biwrocratiaeth. Byddai'n golygu hefyd na fyddai ond rhaid cydymffurfio gyda chyfyngiadau amser a osodir gan y polisi yn hytrach na'r angen ychwanegol i gydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â galw Pwyllgor.

iii. Gellid disgwyl y byddai'r mwyafrif o Uwch Swyddogion yn gyfarwydd iawn â pholisïau AD yr Awdurdod a byddai eu gweithredu yn rhan o'r sgiliau a ofynnir ganddynt. Efallai y bydd rhai angen hyfforddiant i'w cefnogi, ond mae hyn ar gael yn fewnol gan y tîm AD.

iv. Bydd y Pennaeth Proffesiwn(AD) yn sefydlu trefniadau priodol ar gyfer apeliadau islaw lefel Penaethiaid Gwasanaeth; ymgorfforir y trefniadau hyn mewn polisïau perthnasol gan gadw mewn cof y bydd angen yr elfen angenrheidiol o statws, annibyniaeth a gwrthrychedd mewn unrhyw banel o swyddogion. Ni fydd hyn yn cael effaith andwyol ar y staff dan sylw.

v. Ni fydd hyn yn golygu bod materion yn llai tryloyw am fod natur y panelau apêl perthnasol yn golygu eu bod yn cael eu cynnal yn breifat, hyd yn oed mewn gwrandawiadau gan Bwyllgor.

vi. Mae'r newid arfaethedig yn gwella'r broses fusnes ac yn adlewyrchiad gwell o rolau a chyfrifoldebau penodol Aelodau a Swyddogion. Mae hefyd yn cydymffurfio gyda thema wella allweddol gyntaf y Cyngor, sef sicrhau bod y Cyngor yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Yr unig opsiwn arall yw'r status quo. Am y rhesymau a ddisgrifir rydym yn credu nad yw'r status quo yn cynrychioli'r defnydd mwyaf effeithiol, effeithlon a phroffesiynol o adnoddau. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Bydd gweithredu'r argymhellion yn golygu newid yn y Cyfansoddiad na all y Cyngor ei gymeradwyo hyd nes y bydd y Pwyllgor Gwaith wedi ei ystyried. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw'r polisïau a effeithir angen penderfyniad gan y Cyngor llawn h.y. nid ydynt o dan y Fframwaith Polisi; fodd bynnag, gan fod hwn yn newid yn y Cyfansoddiad mater i'r Cyngor ydyw i'w benderfynu. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Wedi comisiynu'r Adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac mae'n cefnogi'r argymhellion. |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

# ATODIAD / APPENDIX 1

**3.4.4 Pwyllgor Apeliadau**

3.4.4.1 Penodir panel o 10 Aelod yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol ac ni fydd yn cynnwys yr un aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

3.4.4.2 O blith y Panel o 10 Aelod bydd y Swyddog Monitro, i bob apêl unigol, yn penodi 5 Aelod i ffurfio Pwyllgor Apeliadau a gwna bopeth o fewn ei allu i benodi'r 5 yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol.

3.4.4.3 Onid yw hyn yn ymarferol yng nghyswllt unrhyw apêl benodol bydd y Swyddog Monitro â'r hawl i benodi Pwyllgor Apeliadau heb gydbwysedd gwleidyddol arno, ond bydd yn dal i geisio penodi o'r Panel o 10 o unigolion o gymaint o'r Grwpiau Gwleidyddol ag y bo'n bosib. Er mwyn osgoi unrhyw amheuon ni fydd y Swyddog Monitro yn dilyn rota i ddewis unigolion i Bwyllgorau Apelio olynol.

(**Sylwer** Nid yw'r trefniadau hyn yn cydymffurfio gyda'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol a phleidleisiodd y Cyngor ar egwyddor sefydlu Pwyllgor Apeliadau ar wahân ac ni phleidleisiodd yr un Aelod yn erbyn hyn).

3.4.4.4 Yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 3.4.4.5 isod, pPenderfynu unrhyw apêl (lle y bo gan berson tramgwyddedig yr hawl i apelio – boed yn hawl statudol neu'n hawl a gytunwyd dan unrhyw benderfyniad neu gynllun a gytunwyd gan neu ar ran y Cyngor) yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan neu ar ran y Cyngor mewn perthynas â'r materion canlynol neu unrhyw faterion sui generis â materion o'r fath:-

- (i) trwyddedu a/neu gofrestriadau
- (ii) swyddogaethau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch
- (iii) budd-daliadau tai
- (iv) materion sy'n berthnasol i weithwyr gan gynnwys
- (v) apeliadau yn erbyn graddio ac apeliadau disgyblaethol a chwynion

(**Sylwer** Ni fydd y Pwyllgor Apeliadau yn delio gydag achosion Apeliadau Gwahardd a Mynediad nac ag Apeliadau Gwasanaethau Cymdeithasol.)

3.4.4.5 Ni fydd y Pwyllgor Apeliadau fel arfer ond yn clywed ac yn penderfynu ar apeliadau a gyflwynir dan baragraffau 3.4.4.4 (iv) a (v) uchod os cânt eu cyflwyno gan swyddogion ar lefel Pennaeth Gwasanaeth neu uwch. Ni fydd y Pwyllgor Apeliadau fodd bynnag, yn penderfynu apeliadau mewn perthynas â diswyddo a gyflwynir gan Bennaeth y Gwasanaeth Taledig, Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd oherwydd rhaid i'r Cyngor llawn benderfynu'r cyfryw apeliadau.

3.4.4.6 Os bydd gweithiwr/wraig islaw lefel Pennaeth Gwasanaeth yn dymuno cyflwyno apêl am y rhesymau a restrir yn 3.4.4.4 (iv) a (v), panel o Swyddogion a benodir yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor o bryd i'w gilydd fydd, fel arfer, yn gwrando ei apêl/ei hapêl.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **9 Chwefror 2015 a 26 Chwefror 2015** |
| **Pwnc:** | **Estyn Tymor y Pwyllgor Safonau** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Walkden**<br>**01248 752134**<br>**awxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell:-

1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo ailbenodi Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau am gyfnod pellach o 4 blynedd o 17 Rhagfyr 2015.

2. Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud yr holl newidiadau canlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor a Chyfansoddiad y Pwyllgor Safonau er mwyn estyn yr holl apwyntiadau i'r dyfodol i ddau dymor yn awtomatig ar gyfer holl Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**CEFNDIR**

3. Yn unol â Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim llai na 5, a dim mwy na 9 o Aelodau.

4. Rhaid i o leiaf un Aelod (mae gennym ddau yn y Cyngor hwn) fod yn Aelod o Gyngor Tref neu Gymuned, a enwebwyd ar y cyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys dau Gynghorydd Sir.

5. Bydd tymor Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2015 yn unol â'r trefniadau un tymor cyfredol.

6. Mae pob Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn gwasanaethu am 4 blynedd ond maent yn gymwys i ailymgeisio am un tymor ychwanegol.

7. Mae penderfyniad cynharach a wnaed gan y Cyngor yn rhwystro'r Aelodau hyn rhag cael eu penodi'n awtomatig am dymor arall heb fynd trwy broses gystadleuol ar gyfer penodiadau

allanol.

8. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau statudol yn cynnwys darpariaeth nad oes angen dilyn proses recriwtio er mwyn penodi am ail dymor.

9. Mae'r Swyddog Monitro wedi ymgynghori'n anffurfiol gyda'r Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd ynghylch a ydynt yn fodlon i gael eu hailbenodi am dymor ychwanegol o 4 blynedd; mae'r holl Aelodau o'r fath wedi cadarnhau y byddent yn hapus i gael eu hailbenodi.

10. Mae'r Swyddog Monitro yn credu bod penodi'r Aelodau annibynnol cyfredol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau yn well na recriwtio oherwydd:-

    1) Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny'n benodol ond gan bennu uchafswm o ddau dymor er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd.

    2) Nid oes cyfiawnhad mwyach ar gyfer parhau gyda'r trefniadau dewis lleol. Hynny yw, ni ellir awgrymu mwyach bod y Pwyllgor Safonau wedi diflasu o ganlyniad i orfod delio gyda nifer o gwynion a chroesgwynion. Erbyn hyn mae'r cwynion yn brin ac mae'r rhan fwyaf o waith y Pwyllgor Safonau yn waith y mae'n ysgogi ei hun yn hytrach na gwaith ymatebol.

    3) Mae'r Cyngor wedi buddsoddi amser ac anodau sylweddol i ddilyn y broses statudol angenrheidiol ar gyfer recriwtio a dewis aelodau Annibynnol cyfredol y Pwyllgor Safonau. Yn yr un modd mae swyddogion ac Aelodau eu hunain wedi gwneud llawer o waith o ran datblygu eu swyddogaethau a derbyn hyfforddiant. Byddai'n wastraff o'r buddsoddiad a wnaed gan bawb i beidio â manteisio ar y cyfle i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad hwnnw trwy sicrhau tymor o 4 blynedd ychwanegol.

    4) Mae Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi ennill profiad a hyder yn eu swyddogaethau ac wedi gwneud hynny'n gydwybodol ac yn broffesiynol, gan gynnwys gwneud cyfraniad gwerthfawr i Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru. Byddai estyn eu cyfnod ar y Pwyllgor yn gyfle i adeiladu ar hynny.

    5) Byddai unrhyw Aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau nad yw'n dymuno gwasanaethu am ail dymor, neu sy'n methu â chwblhau'r tymor, yn cael ei ddisodli trwy broses statudol ac mae'r Panel ar gyfer penodi i'r Pwyllgor Safonau eisoes wedi ei sefydlu.

    6) Mae deddfwriaeth am ddod i rym (ni wyddys y dyddiad hyd yma) a fyddai'n caniatáu (ond nid yn gorfodi) i Gynghorau sefydlu Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol. Pe bai'r Cyngor hwn yn dymuno dilyn y trywydd hwnnw yna ni fyddai proses recriwtio, dethol a datblygu yn ystod 2015/16 efallai yn ddefnydd gorau o adnoddau.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Pe bai'r Cygnor yn gwrthod yr argymhelliad byddai'r unig opsiwn arall yn cael ei sbarduno'n awtomatig beth bynnag. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Bydd penodi Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn awtomatig am ail dymor yn golygu y bydd angen newid y Cyfansoddiad a dim ond y Cyngor llawn all gymeradwyo newid o'r fath ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y mater. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| D/B – penderfyniad i'r Cyngor yw hwn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid oes unrhyw ystyriaethau cyllidebol. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Comisiynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill**<br>Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau<br><br>Arweinyddion Grwpiau | Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at baragraff 9.<br><br>Yn cefnogi'r cysyniad ond yn cydnabod mai mater ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor ydyw. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Dyddiad:** | **26 Chwefror 2015** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Lucy Reynolds, Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygu**<br>**Est 2555**<br>**lucyreynolds@ynysmon.co.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pawb** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1) Argymhellion**

i. Argymhellir bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Yn y Strategaeth, nodir y canlyniadau y bydd y Cyngor yn rhoddi blaenoriaeth iddynt ac yn gweithio tuag at eu cyflawni a hynny mewn partneriaeth gydag amrediad eang o gydranddeiliaid.

**2) Cefndir**

**Rôl y Strategaeth**

i. Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i asesu'r angen am dai ac i arwain ar waith partneriaeth i sicrhau tai o safon sy'n cwrdd ag anghenion ei ddinasyddion yn awr ac yn y dyfodol.

ii. Y Strategaeth Dai Leol yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer sut y gellid gwella tai ar gyfer pobl Ynys Môn dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n cynnwys y blaenoriaethau ar gyfer cyflawni hynny. Bydd y Strategaeth yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r anghenion tai ar yr ynys, y materion y mae angen rhoi sylw iddynt a'r prif ganlyniadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni.

**3) Datblygu'r Strategaeth ac Ymgynghori**

i. Mae'r Strategaeth yn cael ei datblygu mewn cyfnod o newidiadau sylweddol i ddarparwyr tai ledled yr Ynys sy'n cyflwyno heriau a chyfleon.

ii. Mae materion allweddol ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Sicrhau rhaglen o dai fforddiadwy sy'n cwrdd ag angen o ran fforddiadwyedd a'r mathau o eiddo sydd ar gael ar adeg pan mae'r Grant Tai Cymdeithasol wedi gostwng.
- Ymateb i oblygiadau Diwygio Lles.
- Gweithredu'r newidiadau sylweddol yn Neddf Tai (Cymru) 2014 sy'n cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol i atal digartrefedd, cyflwyno cynllun trwyddedu i landlordiaid ac asiantaethau gosod tai yn y sector rhent preifat ac ymrwymiad statudol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.
- Darparu tai Gofal Cymdeithasol a modelau eraill o gymorth o ran tai a fydd yn darparu ar gyfer y nifer gynyddol o bobl hŷn yn ein cymunedau.

iii. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth rhwng Awst a Medi 2014 a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo ar wefan y Cyngor a nifer o sefydliadau partner a thrwy'r cyfryngau ac mewn cyfarfodydd cydranddeiliaid. Roedd yr atborth a gafwyd i'r Strategaeth yn cefnogi ei phwrpas yn gyffredinol. Mewn nifer o ymatebion, nodwyd pwysigrwydd sicrhau y byddai tai'r newydd fforddiadwy a fyddai'n cael eu datblygu yn dai ar gyfer pobl leol ar yr ynys.

iv. Sefydlwyd Partneriaeth Dai Ynys Môn gydag aelodau o'r sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector a chyfarfu am y tro cyntaf ym mis Medi. Ymgynghorwyd â'r Bartneriaeth mewn perthynas â'r Strategaeth a rhoes fewnbwn i'r cynllun gweithredu. Bydd y bartneriaeth yn gyfrifol am sicrhau fod y Strategaeth yn cael ei chyflawni ac am adolygu'r cynllun gweithredu bob blwyddyn.

v. Datblygwyd cynllun gweithredu sy'n nodi tasgau ac allbynnau penodol ar gyfer cyflawni dyheadau'r Strategaeth ac sy'n nodi'r adnoddau a fydd yn caniatáu i hynny ddigwydd. Bydd yn cynnwys dangosyddion allweddol ar gyfer mesur cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y Strategaeth.

vi. Mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 12 Ionawr 2015, argymhellwyd y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth ac y dylid adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwaith ar y cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu.

**3) Amcanion Allweddol**

Mae enghreifftiau allweddol o dasgau a fydd yn cyfrannu at wella tai a gwasanaethau tai i gwrdd ag anghenion holl bobl Ynys Môn yn cynnwys:

i. Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy arloesed, benthyciadau darbodus a gweithio mewn partneriaeth ar adeg pan fo grantiau ar gyfer datblygu tai yn debygol o barhau i ostwng.

Gwneir hyn trwy

- Y Cyngor yn dechrau datblygu / prynu stoc ychwanegol yn dilyn tynnu allan o'r system Cymhorthdal ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a symud at hunangyllido.
- Rhaglen ddatblygu gyda chymdeithasau tai sy'n defnyddio cyllid grant a benthyciadau gan Llywodraeth Cymru
- Cytundebau Adran 106 ar gyfer datblygiadau preifat

ii. Sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu cartrefu'n foddhaol yn ein stoc gyfredol. Gwneir hyn trwy

- Gwella ein hymagwedd strategol i ddod â chartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd trwy ddefnyddio benthyciadau, rhoi cymorth i berchenogion eiddo a chymryd camau gorfodaeth os oes angen.
- Parhau i wella'r stoc dai gyfredol
- Trwy i'r Cymdeithasau Tai a'r Cyngor fuddsoddi mewn tai cymdeithasol ac yn yr ardaloedd o'u cwmpas
- Ehangu gwaith partneriaeth gyda landlordiaid preifat

iii. Ymateb i'r gofynion yn Neddf Tai (Cymru) 2014, sef bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cymorth mwy cynhwysfawr a chynharach i bob aelwyd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref (gan gynnwys aelwydydd nad ydynt mewn grŵp blaenoriaeth). Gwneir hyn trwy ailwampio'r gwasanaethau sy'n cynghori ar faterion tai, cynnig cynlluniau anogaeth i landlordiaid preifat fod o gymorth gydag ailgartrefu a chynlluniau i atal digartrefedd.

iv. Sicrhau bod pobl fwy bregus ar yr Ynys yn parhau i dderbyn y cymorth y maent ei angen i atal digartrefedd ac i barhau i fyw'n annibynnol er gwaethaf gostyngiadau i'r cyllid Cefnogi Pobl. Gwneir hyn trwy barhau i adolygu gwasanaethau i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael a thrwy gyfeirio cyllid i'r grwpiau hynny sydd â'r angen mwyaf a manteisio ar gymorth grant ychwanegol os oes modd (e.e. ar gyfer prosiect ymyrraeth gynnar i leihau digartrefedd ymysg pobl sy'n gadael carchar).

v. Sicrhau bod prosiectau tai yn cefnogi'r angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth fydd yn gynyddol hŷn ac yn cefnogi dyheadau'r Cyngor i drawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, gan wella'r dewis ar eu cyfer a rhoi mwy o reolaeth iddynt o ran lle byddant yn byw. Gwneir hyn trwy gefnogi datblygiadau tai Gofal Ychwanegol a hybiau cymunedol fel y gellir cydgysylltu cymorth ar gyfer pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain.

vi. Bydd buddsoddiad yn y maes tai yn awr ac i'r dyfodol yn cael ei ddefnyddio fel adnodd i fod o fudd i gymaint o gymunedau a busnesau lleol â phosib. Mae'r camau a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r nod hwn yn cynnwys caffael mewn ffordd sy'n cefnogi cwmnïau a swyddi lleol a chynllunio ar gyfer Wylfa Newydd sy'n sicrhau bod y llety sydd ei angen ar gyfer gweithwyr yn waddol i'r dyfodol ar ffurf tai newydd a fforddiadwy a llety sydd wedi ei uwchraddio.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Amherthnasol |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amherthnasol |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Datblygwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth ar sail y cyllid a sicrhawyd eisoes a'r adnoddau cyfredol.  Bydd rhai o'r tasgau yn y Cynllun Gweithredu yn destun sgriwtini pellach gan y Cyngor ac i'w cymeradwyo ganddo ar yr adeg briodol. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ni chodwyd unrhyw faterion. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Rhoddwyd sylw i'r Strategaeth yn y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Medi.  Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r Strategaeth ddrafft. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Wrth ddatblygu'r Strategaeth cynhaliwyd gweithdy ar gyfer yr Aelodau Lleol ym mis Mai.  Cynhaliwyd gweithdy pellach yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol yn y maes tai ym mis Tachwedd. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad, ymgynghorwyd gyda'r partneriaid allanol trwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfrwng y fforymau a grybwyllwyd uchod. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ystyrir bod y Strategaeth yn cefnogi'r Rhaglen ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Gweler os gwelwch yn dda'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a ddaw i'r casgliad fod y Strategaeth yn gadarnhaol o ran materion Cydraddoldeb. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Strategaeth Dai Leol Ynys Môn a Chynllun Gweithredu |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim. |

Ynys Môn - Anglesey

# Strategaeth Dai Lleol



2014 - 2019

www.ynysmon.gov.uk

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

cyngormon

@cyngormon

# Strategaeth Dai Leol 2014-19 Cygnor Sir Ynys Môn

## Cynnwys


Strategaeth Dai Leol Cyngor Sir Ynys Môn 2014-19 ........ 1

Llwyddiannau yn y Maes Tai ........ 3

Prif ganlyniadau yr ydym yn dymuno eu cyflawni erbyn 2019 ........ 4

Y Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol ........ 5

Deall y cyd-destun tai ym Môn ........ 8

Y boblogaeth a'r stoc tai ........ 9

Tabl 5 - Deiliadaeth ........ 11

Iechyd ........ 12

Lefel diweithdra ........ 12

Incwm ........ 12

Data Prisiau Tai ........ 13

Angen o ran Tai ym Môn ........ 14

Y Stoc Tai Cyfredol ........ 15

Thema 1 – Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol Môn ........ 17

Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai cyfredol a gwella tai a chymunedau ........ 20

Thema 3- Atal argyfwng tai a chynyddu dewisiadau tai ........ 24

Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai ........ 27

Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach ........ 28

Thema 6 – Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach ........ 30

# Cyflwyniad

Man y gallwn ei alw'n gartref yw'r angen mwyaf sylfaenol i unrhyw un ohonom. Mae'n fwy na chysgodfan, yn hytrach, mae'n fan sy'n llunio'n lles a'n ymdeimlad o ddiogelwch.

I'r mwyafrif llethol ohonom, nid yw cael tŷ parhaol yn rhywbeth y gallwn ei gael ar ein pennau ein hunain ond, yn hytrach, rhaid ymwneud â landlordiaid, datblygwyr, sefydliadau ariannol ac asiantaethau eraill. Yn yr un modd, ar lefel gymunedol, i gael y cartrefi iawn yn y llefydd iawn ar gost y gall unigolion a chymdeithas eu fforddio, rhaid wrth arweinyddiaeth genedlaethol a lleol a gweithio gyda nifer o bartneriaid. I Fôn, golyga hyn bod y Cyngor Sir yn darparu cyfeiriad strategol ac yn rhoi yn ei le'r fframwaith a fydd yn ei gwneud yn bosib i ddatblygwyr, adeiladwyr, asiantaethau statudol a gwirfoddol, tenantiaid a landlordiaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

Pwrpas y Strategaeth Dai 5 mlynedd yw cyflwyno gweledigaeth o welliant parhaus o ran tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar yr ynys. Mae'n disgrifio'r hyn yr ydym eisiau ei gyflawni ym Môn erbyn 2019. Wrth osod y canlyniadau pwysicaf ar gyfer tai, caniateir i adnoddau a ffrydiau gwaith gael eu cyfeirio tuag at y nodau hyn a diffinnir sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'w cyflawni.

Mae angen gwneud hyn wrth gydnabod bod yno faterion tyngedfennol sy'n cael effaith ar y farchnad dai leol ac nad oes modd i Awdurdod Lleol eu rheoli - dim ond gobeithio y gall ymateb iddynt a'u lliniaru. Ymhlith y rhain mae'r hinsawdd economaidd a pholisi ar dreth a budd-daliadau lles.Fodd bynnag, gall arweinyddiaeth o ansawdd uchel gan Cyngor ym maes tai fforddiadwy a gwasanaethau cefnogi a chyngor ar dai wneud gwahaniaeth hanfodol i fywydau nifer o drigolion. Mae cyflawni newid yn y sector tai yn aml yn rhywbeth y gellir ond digwydd dros y tymor canolig i'r tymor hirDyna un rheswm pam ei bod o'r pwys mwyaf cael strategaeth dai sy'n edrych ymlaen bum mlynedd a thu draw i hynny. Wrth edrych ar batrymau tymor hir poblogaeth, yr economi a newid cymdeithasol mae modd dod i'r penderfyniadau cywir ar godi tai fforddiadwy, targedu arian cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer tai a sefydlu'r partneriaethau cywir sydd i'w rhoi yn eu lle i ymateb i hyn.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd a Chymdeithasau Tai sy'n gweithio yn yr ardal i gyd yn cydnabod bod cael y cartrefi cywir yn ffactor allweddol i sut y mae pobl yn teimlo ac yn ymddwyn yn eu cymunedau, i'w ffordd o fyw a'i hiechyd ac i gyrhaeddiad plant. Unwaith eto, sut y buddsoddir mewn tai dros y tymor hir yw'r hyn sy'n cael yr effaith fwyaf arnom.

## Llwyddiannau yn y Maes Tai

Mae’r Strategaeth Dai Leol ddiweddaraf hon yn adeiladu ar waith blaenorol y Cyngor ar dai ac yn dysgu oddi wrtho. Bu i’r Strategaeth Dai Leol ddiwethaf a ddatblygwyd yn 2007 ganolbwyntio ar gyflawni’r chwe blaenoriaeth gwasanaeth a ganlyn:

- Cynyddu faint o dai fforddiadwy a dewis oedd ar gael
- Mynd i’r afael â digartrefedd
- Gwella ansawdd tai ar draws yr holl ddeiliadaethau
- Gweithio tuag at gael opsiynau tai cynaliadwy ar gyfer aelwydydd bregus
- Mynd i’r afael â thlodi tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd ynni
- Cynaliadwyedd cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol

Yn y blynyddoedd ers hynny, mae’r sefydliadau tai sy’n gweithio ar yr ynys wedi llwyddo gyda nifer o bethau. Yn y tabl isod crynhoir rhai’r o’r llwyddiannau allweddol.

| | Gweithred | Canlyniad |
|---|---|---|
| Codi’r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol yr ynys | 362 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi’u codi gan gymdeithasau tai ym Môn rhwng 2008 a 2013. | Aelwydydd yn cael cymorth i ganfod tai addas o fewn eu cyrraedd yn ariannol |
| Atal argyfwng tai a chynyddu’r dewisiadau tai | Mae’r Tîm Dewisiadau Tai yng Nghyngor Sir Ynys Môn wedi cynyddu ymyriadau osgoi digartrefedd | Gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy’n cael eu derbyn yn ddigartref a’r defnydd a wneir o lety dros dro ar gyfer yr aelwydydd hyn |
| Y gefnogaeth gywir ar gyfer y rhai hynny y mae arnynt angen cymorth i fyw’n annibynnol. | Mwy o ddewisiadau cefnogi ar gael i gynorthwyo’r rhai hynny ag anghenion cefnogi tai ar draws yr holl ddeiliadaethau | Mwy o bobl yn cael cefnogaeth briodol i fyw’n annibynnol ac i osgoi digartrefedd |
| | Cynllun Tai gyda Chefnogaeth Coedlys ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cefnogi uchel wedi’i gwblhau | Bwlch a gydnabuwyd mewn darpariaeth wedi’i lenwi er mwyn rhoi cefnogaeth lefel uchel i bobl ifanc fregus |
| Stoc dai a chymunedau wedi’u gwella | 200 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto yn sgil ymyriadau gan y Swyddog Cartrefi Gwag rhwng 2011 a 2014 (crëwyd y swydd yn 2011) | Gwelliant yn y gymuned a’r defnydd gorau’n cael ei wneud o’r stoc tai presennol |
| | Camau wedi’u cymryd i liniaru tlodi tanwydd<br>• Nifer o gymunedau (gan gynnwys 88 o denantiaid Cyngor) wedi’u cysylltu â’r rhwydwaith nwy<br>  • 312 o banelau Solar Ffotofoltäig ac 87 o Banelau Solar Thermal wedi’u gosod ar dai Cyngor | Aelwydydd ar incwm llai wedi cael system gwresogi/dŵr poeth fwy cost effeithiol. |
| | Holl stoc tai’r Cyngor wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru erbyn 2012 | Mae gan holl dai’r Cyngor fwynderau modern a gwell effeithlonrwydd ynni i wella iechyd ac ansawdd bywyd trigolion. |

## Prif ganlyniadau yr ydym yn dymuno eu cyflawni erbyn 2019

| | |
|---|---|
| **Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol yr ynys** | 1. Bydd cyflenwad tai fforddiadwy wedi cynyddu. Bydd y datblygiad hwn yn ceisio cyfatebu maint cartrefi, lleoliadau ag ystod prisiau y mae eu hangen fwyaf ar yr ynys.<br>2. Bydd gwaith datblygu tai yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy sy'n golygu y bydd rhaid cael cydbwysedd rhwng tai a'r gwahanol lefelau o fforddiadwyedd y mae eu hangen ar draws y boblogaeth ac mewn cymunedau unigol. Cydnabyddir bod costau trafnidiaeth ac ynni'n gynhenid i ba mor addas yn gyffredinol yw'r cartrefi newydd.<br>3. Rhoddwyd sylw llawn yn y rhaglen datblygu tai i'r cynnydd o ran yr adeilad niwclear newydd a datblygiadau economaidd arwyddocaol eraill ar yr ynys<br>4. Rhoddir llety i gymuned y Sipsi a'r Teithwyr yn unol â'r asesiad o angen a gynhaliwyd |
| **Stoc dai a chymunedau wedi'u gwella** | 5. Bydd mwy o gartrefi ar draws yr holl ddeiliadaethau wedi'u hatgyweirio i safon foddhaol ac â sgôr effeithlonrwydd ynni gwell ac, felly, â chostau rhedeg is.<br>6. Mae gwell defnydd yn cael ei wneud o'r cyflenwad tai presennol ar yr ynys trwy barhau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a gweithio'n well fel partneriaid gyda landlordiaid preifat i gynyddu cyflenwad o gartrefi o ansawdd<br>7. Mae mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel yn eu cymunedau. Bydd rhoi sylw, yn benodol, i broblemau trais yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth uchel. |
| **Atal argyfwng tai a chynyddu'r dewisiadau tai** | 8. Mae modd i bobl gael gafael yn hawdd ar wybodaeth a chyngor yn gynnar er mwyn cynorthwyo gyda phroblemau tai a materion sy'n gysylltiedig ag arian neu gymorth, yn enwedig felly, oherwydd goblygiadau'r Diwygiad Lles. O'r herwydd, mae'r perygl o ddigartrefedd yn gostwng.<br>9. Mae'r system gosod tai wedi'i hadolygu i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol ai fod yn haws i gwsmeriaid ei deall a'i defnyddio<br>10. Mae gwasanaethau i osgoi digartrefedd wedi'u gwella'n barhaus gan arwain at lai o ddigartrefedd statudol |
| **Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai** | 11. Cynigir i bobl y gwasanaethau cefnogi tymor byr neu hwy gorau i sefydlu neu gynnal llety<br>12. Mae Cofrestr Tai Addas wedi'i datblygu ac mae'n cynorthwyo pobl ag anableddau gyda chartrefi sy'n addas i'w anghenion |
| **Cartrefi ar gyfer byw'n hirach** | 13. Wrth i bobl fyw'n hirach a dymuno parhau i fyw'n annibynnol, mae ystod o ddewisiadau cefnogi a llety, gan gynnwys Gofal Ychwanegol, wedi'i datblygu ac sy'n rhoi dewis<br>14. Mae gwasanaethau tai sy'n cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain (e.e. Grantiau Cyfleusterau Anabledd a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai) yn parhau i gwrdd â ffordd o fyw sy'n newid a chynnydd mewn galw. |

| | |
|---|---|
| **Gwireddu'n llawn y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach** | 15. Mae codi ac adnewyddu tai yn dod â chyfleoedd economaidd a chyflogaeth i'r ynys ac i'w dinasyddion<br>16. Mae effeithiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â thai yn cael eu cydnabod yn llwyr wrth i brosiectau Ynys Ynni gael eu datblygu<br>17. Mae manteision cyllido i brosiectau sy'n rhoi sylw i amddifadedd (e.e. Cymunedau'n Gyntaf a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) yn cael eu gwireddu'n llawn<br>18. Mae partneriaeth ragorol yn ei lle i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd o ran tai. |

## Y Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae'r Strategaeth Dai Leol wedi'i datblygu yng nghyd-destun polisi Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a Llywodraeth Cymru a eglurir isod. Mae'r polisïau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig hyn yn arwain eu blaenoriaethau gwariant cyhoeddus ac, felly, yn dylanwadu ar y ffrydiau ariannu sydd ar gael i Gyngor Môn i gyflawni'r Strategaeth.

Ar lefel leol, ni fydd y strategaeth dai'n cyflawni ei bwrpas oni bai y bydd yn cyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer Môn. Mae'r cysylltiadau rhwng meysydd gwaith pwysig eraill y Cyngor (gan gynnwys gwasanaethau pobl hŷn, datblygu economaidd a rhoi sylw i amddifadedd a gweithio'n agosach gyda'r Gwasanaethau Iechyd) yn ffactorau allweddol yn y Strategaeth.

## 1. Polisi Cenedlaethol

**Diwygiad Lles**

Gweithredir ar raglen llywodraeth y Deyrnas Gyfunol o Ddiwygiad Lles fesul cam ac, felly, daw'r effaith i'r amlwg dros amser a bydd yn parhau i gael effaith ar aelwydydd Môn dros oes y strategaeth hon.

Ymhlith yr effeithiau uniongyrchol ar dai mae'r newid i fudd-dal tai sy'n gwneud i ffwrdd â'r cymhorthdal ystafell sbâr (a adwaenir yn fwy cyffredin fel "treth yr ystafell wely"), newidiadau i'r modd y gosodir y lwfans tai lleol (sy'n cefnogi nifer o bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat) a'r gofyn y bydd pobl dan 35 yn y sector rhentu'n cael cymorth budd-dal tai yn unig. Fel hyn, bydd modd iddynt rhentu ystafell mewn eiddo a rennir. Fodd bynnag, bydd nifer o agweddau eraill o'r mesurau sydd eisoes yn eu lle, a chyflwyno Credyd Cynhwysol yn y dyfodol, yn cael effaith benodol ar aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n dibynnu ar fudd-daliadau. Byddant hefyd yn cael sgil effeithiau ar fynediad at denantiaeth a'i chynnal.

Mae maes eang Diwygiad Lles yn golygu ei fod yn ystyriaeth sy'n ymhlyg i'r rhan fwyaf o themâu'r strategaeth hon.

**Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru: Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru,**

Mae hon yn gosod tair blaenoriaeth allweddol i Gymru, sef:
• Mwy o dai a mwy o ddewis
• Gwella cartrefi a chymunedau
• Gwella gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai a chefnogaeth, yn enwedig felly i bobl fregus a phobl o grwpiau lleiafrifol

Mae'n cydnabod "y bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn sbardun allweddol i fodloni anghenion tai."

Yng **Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru,** mae Llywodraeth Cymru'n gosod blaenoriaethau strategol, gan gynnwys buddsoddi mewn tai er mwyn creu gwaith a thwf. Mae mentrau dilynol sydd â'r nod o gynyddu'r cyflenwad tai (ee. Bond Tai i roi capasiti benthyca ychwanegol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) wedi adlewyrchu'r flaenoriaeth hon.

**Y Cynllun Digartrefedd Deg Mlynedd i Gymru 2009-2019**
Mae'r nodau strategol a nodir yn y ddogfen fel a ganlyn:

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a pholisïau
- Gwneud defnyddwyr gwasanaethau'n ganolbwynt i gyflenwi gwasanaethau
- Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Mae'r ddwy strategaeth uchod wedi eu hadlewyrchu yn y Ddeddf hon a ddaeth i rym mis Medi 2014.

O safbwynt Ynys Môn , yr elfennau mwyaf arwyddocaol o'r Ddeddf, sydd mewn 8 rhan, yw'r rheini a ganlyn:

**Rheoleiddio Tai Rhent Preifat**

Bydd raid i landlordiaid preifat gydag eiddo yng Nghymru fod wedi eu cofrestru a bydd raid i asiantaethau ac unigolion sy'n gosod ac yn rheoli eiddo gael trwydded i wneud hynny. Bydd cosbau am beidio â chydymffurfio. Bwriad hyn yw gwella arferion gosod a rheolaeth trwy ychwanegu at dealltwriaeth landlordiaid a thenantiaid o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth y mae gwir angen amdani ynghylch pwy sy'n landlordiaid preifat.

**Digartrefedd**

- Bydd dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal a lleddfu digartrefedd dan y ddyletswydd hon, gan gynnwys ar gyfer y rheini a fyddai mewn grŵp blaenoriaeth pe baent yn gwneud cais fel pobl ddigartref (h.y. teuluoedd gyda phlant a phobl fregus) a phobl sengl a chyplau.

- Mae grym newydd i awdurdodau lleol gwrdd â phrif ddyletswydd i gartrefu trwy ddefnyddio llety addas yn y sector rhent preifat .

Mae hyn felly'n pwysleisio ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd ac yn ehangu'r ystod o bobl y dylid rhoi cymorth penodol iddynt ddod o hyd i atebion i'w problemau tai ac i roi sylw i'r hyn sy'n eu hachosi. Mae'n cydnabod nad oes angen cynnig tenantiaethau tai cymdeithasol tymor hir bob amser i ddatrys materion digartrefedd ac y gellir defnyddio'r sector rhent preifat hefyd.

**Sipsiwn a Theithwyr**

Atgyfnerthir y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr a darparu safleoedd i gwrdd â'u hanghenion.

**Cyllid Tai**

Bydd y Ddeddf yn diweddu'r system gyfredol ar gyfer Cymhorthdal i'r Cyfrif Refeniw Tai i'r 11 awdurdod yng Nghymru sydd wedi dal gafael ar eu stoc dai. Bydd Cynghorau felly yn cael llawer mwy o annibyniaeth i fuddsoddi mewn stoc newydd ac i adeiladu cartrefi newydd.

Yn achos Ynys Môn mae hyn yn gyfle mawr i'r Cyngor wrthdroi'r gostyngiad yn nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael a datblygu a phrynu tai mewn amgylchiadau addas i sicrhau mwy o dai fforddiadwy.

**Y Dreth Gyngor ar gyfer rhai Mathau o Anheddau**

Rhoddir pŵer dewisol i awdurdodau lleol hyd at bremiwm o 100% ynghylch:

- Cartrefi sydd wedi bod yn wag am fwy na blwyddyn
- Ail gartrefi

**Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol 2014**

Mae'r Strategaeth hon yn fframwaith a fydd o gymorth i sicrhau y gall cymunedau fyw gyda'i gilydd gan barchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhyngddynt a chan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan ym mywyd y gymuned a defnyddio gwasanaethau. Rhaid gwreiddio egwyddorion Cydlyniant Cymunedol o fewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaethau Tai. Rhaid i ddarparwyr tai fod yn gynhwysol o ran sut maent yn gweithio gyda thenantiaid a datblygu cartrefi newydd a sefydlu polisïau i atal ac i fynd i'r afael â throseddau casineb.

**Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014**

Daeth y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 i rym ar 20 Hydref 2014 ac mae'n amlinellu dull newydd o ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda phwyslais ar roi'r dioddefwyr yn gyntaf.

Prif nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod yr ymateb i gwynion yn canolbwyntio mwy ar y dioddefwyr a mireinio'r mesurau sydd ar gael i gyrff proffesiynol - mae 19 o fesurau a oedd ar gael gynt wedi eu gostwng i 6 phŵer newydd. Y rhain yw:

- Gwaharddiad Sifil
- Gorchymyn Ymddygiad Troseddol
- Rhybudd Diogelu Cymuned
- Gorchymyn Diogelu Llecynnau Cyhoeddus
- Grym Cau
- Grymoedd Gwasgaru

Bydd hyn yn rhoi cyfleon newydd i ddarparwyr tai yn Ynys Môn weithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Heddlu Gogledd Cymru i wneud y defnydd gorau o'r Grymoedd sydd ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella ansawdd bywyd i denantiaid a thrigolion Ynys Môn.

Rhestrir isod bolisïau allweddol eraill y caiff eu hanghenion eu hadlewyrchu yn y Strategaeth. Ceir eglurhad llawnach o oblygiadau'r rhain a Bil Tai (Cymru) yn adrannau perthnasol y Strategaeth.

- Y Bil Rhentu Cartrefi
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023
- Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)
- Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17, Iaith Fyw: Iaith Byw

**2. Strategaeth Leol**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ei weledigaeth strategol ar gyfer yr ynys mewn dwy ddogfen gyffredinol

**Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn – Ein Hynys Ein Dyfodol 2013-2025**

Mae wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Cyngor Sir Ynys Môn, cynrychiolwyr o'r Heddlu, Iechyd, Sector Gwirfoddol, Gwasanaeth Tân ac Achub, sectorau Addysg Bellach ac Uwch ac 'Unllais Cymru' sy'n cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned) ac, felly'n cynnig barn integredig a chyfannol o anghenion Môn dros y ddegawd i ddod. Bwriad y cynllun yw gosod ei weledigaeth, "gweithio gyda'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a darparu lle diogel a chynaliadwy i bobl fyw ynddo".

**Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013 – 2017**

Wedi'i ddatblygu gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â phobl leol a phartneriaid, mae'n gosod y canlyniadau y bydd y Cyngor fel sefydliad yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein dinasyddion dros y pedair blynedd nesaf. Canolbwyntir y gwaith o amgylch tri maes blaenoriaeth: Cefnogi'r rhai mwyaf bregus, Datblygu'r Economi, Codi safonau ysgolion a'u moderneiddio.

Mae'r ddau gynllun yn cydnabod cyfraniad tai o ansawdd i gael y canlyniadau y maent yn eu ceisio.

## Deall y cyd-destun tai ym Môn

Rhaid i Strategaeth Dai gael ei seilio ar wybodaeth ddibynadwy am anghenion tai'r boblogaeth a chael ei gosod yng nghyd-destun y pwerau cymdeithasol ac economaidd sy'n llunio'r ardal.

Yn nhabl 1 dangosir ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a ffynonellau data eraill sy'n rhoi'r cefnd

Tabl 1

| |
|---|
| Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2013 |
| Anghenion o ran Tai ar gyfer trigolion lleol ac atebion tai a ddaw yn sgil Rhaglen Ynys Ynni 2013 |
| Astudiaethau sy'n rhoi tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| Arolwg o Gyflwr Tai'r Sector Cyhoeddus 2008 |
| Asesiad 2013 o Lety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru |
| Data o Gofrestr Tai Cyngor Sir Ynys Môn |
| Data yn seiliedig ar gofnodion y Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor |

| |
|---|
| Data cyfrifiad 2011 |
| Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn |
| Y Farchnad Rhentu Breifat ym Môn - astudiaeth Arc4 |
| Edrych ar y dewisiadau er mwyn cyflawni gofynion llety Ynys Ynni |


Mae'r adran a ganlyn yn crynhoi'r data allweddol y mae angen iddynt ddylanwadu ar yr agwedd strategol dros y pum mlynedd nesaf a thu draw i hynny.

**Y boblogaeth a'r stoc tai**

Yn seiliedig ar amcanestyniadau o gyfrifiad 2011, 70,018 yw poblogaeth Môn yn 2014. Cododd y boblogaeth 4% rhwng cyfrifiad 2001 a 2011. Yn 2011 roedd 30,594 o aelwydydd, cynnydd o 8% er 2001. Yn gyffredin â'r cyd-destun cenedlaethol, mae niferoedd aelwydydd yn cynyddu'n gynt na thwf poblogaeth wrth i faint aelwydydd fynd yn llai ac yn enwedig wrth i nifer yr aelwydydd un person dyfu.

Yn y tabl isod gwelir y boblogaeth newidiol yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf o ran y boblogaeth dros y blynyddoedd hyd at 2031. Dengys hwn y boblogaeth gyffredinol yn dod i'w hanterth ar 70,274 yn 2020 ac yna'n syrthio fymryn o'r man hwn ac yn aros ar 69,065 yn 2031.


**Tabl 2 – Newid ym Mhoblogaeth Môn 2011-31-**




(ffynhonnell – StatsCymru 2014)


Yn y tabl isod dangosir amcanestyniadau oedran yn seiliedig ar wybodaeth o'r cyfrifiad. Bydd niferoedd y bobl hŷn sy'n 65+ yn parhau i gynyddu a'r hyn a fydd yn amlycach yw y bydd niferoedd y rhai sy'n 85+ yn codi'n gyflym. O'r herwydd, bydd oed cyfartalog y boblogaeth yn cynyddu.

**Tabl 3 - Sut mae'r boblogaeth yn newid yn ôl grŵp oed**




Bydd hefyd newid yng nghymysgedd aelwydydd ar draws yr ynys. Daw hyn yn sgil a) mwy o bobl hŷn sy'n fwy tebygol o fyw ar eu pennau eu hunain b) patrymau cymdeithasol sy'n arwain at aelwydydd o faint llai (ee. Aelwydydd un rhiant)

**Tabl 4 – Patrymau newidiol cyfansoddiad aelwydydd**




Ffynhonnell: StatsCymru 2014

**Tabl 5 - Deiliadaeth**

| | | Dan Berchenogaeth | Tai Cymdeithasol | Rhentu Preifat | Sector Rhentu Preifat (arall) |
|---|---|---|---|---|---|
| **MÔN** | 2001 Cyfanswm | 19,231 | 4,882 | 2,703 | 1,576 |
| | **2001 %** | **67.7** | **17.2** | **9.5** | **5.6** |
| | 2011 Cyfanswm | 20,971 | 4,550 | 3,699 | 1,374 |
| | **2011 %** | **68.5** | **14.9** | **12.1** | **4.5** |
| | % Newid 2001 -2011 | +0.5 | -2.3 | +2.6 | -1.1 |
| **CYMRU** | *% 2001* | *70.8* | *18.4* | ***7.4*** | *3.3* |
| | % 2011 | 67.4 | 15.9 | **12.7** | 3.1 |
| | % Newid | -3.4 | -2.5 | **+5.3** | +0.2 |

Yn y tabl uchod, dangosir deiliadaeth yr holl aelwydydd ar yr ynys hyd at 2011 a'r newid er 2001. Yn groes i awdurdodau eraill yng Nghymru, mae canran y perchen-feddianwyr ym Môn wedi dangos cynnydd bychan er 2001. Mae niferoedd y bobl hynny sy'n rhentu'n breifat hefyd wedi tyfu, er bod hwn yn gyfradd twf lai na'r hyn a welir yng ngweddill Cymru oherwydd bod y sector rhentu preifat yn fwy na'r cyfartaledd yn 2001. Bellach, mae'r sector rhentu preifat ym Môn yn debyg o ran maint i'r hyn ar gyfer y cyfan o Gymru.

Mae cyfanswm o 34,168 o anheddau ar yr ynys. Ar ddyddiad y cyfrifiad diwethaf (27 Mawrth 2011), yn 89.5% ohonynt roedd o leiaf un person yr oedd y cyfeiriad hwnnw'n fan preswyl iddo. Mae hyn yn awgrymu nad yw oddeutu 11.5 % o anheddau'n cael eu defnyddio fel y prif fan preswylio. Tai haf a thai gwyliau fydd y rhain yn bennaf.

**Tabl 6 - Ethnigrwydd**

| | % Gwyn | % Grŵp amlethnig / cymysg | % Asiad /Asiad Prydeinig | % Du/Affricaniad/ Caribïad/ Prydeinig Du | % Grŵp ethnig arall |
|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 98.2 | 0.7 | 0.7 | 0.1 | 0.3 |
| Gogledd-Orllewin Cymru | 97.3 | 0.8 | 1.3 | 0.2 | 0.5 |
| Cymru | 95.6 | 1 | 2.3 | 0.6 | 0.5 |

(Cyfrifiad 2011)

Er mai parhau yn fychan y mae niferoedd y bobl o gefndiroedd ethnig Du a Lleiafrifol, mae'r niferoedd wedi codi ers y cyfrifiad diwethaf yn 2001. Mae'n bwysig bod y polisi tai'n parhau i gynnwys anghenion pobl o bob cefndir ethnig.

### Iechyd

Rhydd cyfrifiad 2011 wybodaeth am iechyd cyffredinol y boblogaeth leol

Tabl 7

| | % y trigolion sy'n asesu eu hiechyd cyffredinol yn ddrwg neu'n ddrwg iawn | % y trigolion lle cyfyngir ar weithgareddau beunyddiol gan broblem iechyd tymor hir neu anabledd |
|---|---|---|
| Môn | 6.3% | 23.1% |
| Cymru | 7.6% | 22.7% |

(Cyfrifiad 2011)


### Lefel diweithdra

Mae diweithdra ar yr ynys wedi syrthio o 5.1% ym mis Chwefror 2013 i 3.9% ym mis Mawrth 2014. Mae amrywiaethau mawr ar draws yr ynys gyda diweithdra ar ei uchaf yn ward Tref Caergybi lle'r oedd yn 10.9% ym mis Mawrth 14. At hyn, mae gan bob ward sy'n ffinio â thref Caergybi gyfraddau sydd dros 6%. Mae gan wardiau Rhosneigr, Porth Amlwch a Ward Tudur (Llangefni) hefyd lefel diweithdra sy'n uwch na chyfartaledd yr ynys.

### Incwm

£24,067 oedd yr incwm cymedrig a enillwyd yn 2011 i weithwyr llawn amser oedd yn byw ym Môn (Arolwg Blynyddol ONS o Oriau ac Enillion – Incwm Aelwyd) sy'n is na Chymru yn ei gyfanrwydd ( £27,346). Fel y dengys y tabl isod, ym mhob pwynt o ran dosbarthiad, mae'r incwm gros blynyddol ym Môn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.

**Tabl 8 - Incwm gros blynyddol trigolion sy'n gweithio llawn amser 2011**



O ran incwm cymedrig gweithwyr llawn amser sy'n byw ym Môn a Chymru er 2006, nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi cofnodi fawr ddim newid (llai na 0.1%) er 2006 o gymharu â chynnydd o 11.5% ar draws Cymru. Er bod enillion cymedrig ar eu huchaf ym Môn yn 2008, maent wedi parhau i godi'n genedlaethol. Mae'r cwymp mewn incwm a enillir ym Môn er 2008 yn adlewyrchu cau Alwminiwm Môn oedd yn talu cyflogau uwch na'r cyfartaledd, yn ogystal â'r gostyngiad wedi hynny yng ngweithlu Eaton Electrical.

**Llewyrch ac Amddifadedd**

Mae gwahaniaethau amlwg rhwng cylchoedd mwyaf llewyrchus yr ynys a'r rhai mwyaf difreintiedig. Ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2001, mae ar yr ynys rai o'r wardiau mwyaf difreintiedig (Caergybi a Llangefni) a rhai o'r wardiau lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r mynegai hwn o amddifadedd yn cynnwys elfennau sy'n uniongyrchol berthnasol â thai (h.y. tai gorlawn, dim gwres canolog) ac eraill y mae prinder tai addas yn cael effaith arnynt (iechyd, diogelwch cymunedol, addysg).

**Data Prisiau Tai**


Mae'r golofn ganol yn dangos prisiau tai ar gyfartaledd er mis Mehefin 2012. Mae'r rhain wedi codi a gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond, bellach, ceir patrwm o gynnydd graddol. Fodd bynnag, mae pris y chwartel isaf yn parhau i amrywio ac mae modd ei gymharu'n gyffredinol â'r pris ddwy flynedd yn ôl.

| Tabl 9 - Prisiau Tai a Werthwyd ym Môn 2012 -2014 | | | |
|---|---|---|---|
| | Chwartel Uchaf | Y Cyfartaledd | Y Chwartel Isaf |
| Mehef-12 | 191,483 | 158,331 | 112,650 |
| Gorff-12 | 196,816 | 163,224 | 116,150 |
| Awst-12 | 179,666 | 150,738 | 109,500 |
| Medi-12 | 201,333 | 167,302 | 117,650 |
| Hyd-12 | 210,000 | 171,396 | 119,983 |
| Tach-12 | 212,500 | 174,638 | 116,983 |
| Rhag-12 | 190,000 | 158,822 | 108,000 |
| Ion-13 | 178,333 | 149,800 | 103,000 |
| Chwef-13 | 172,500 | 149,629 | 108,000 |
| Maw-13 | 168,333 | 148,685 | 106,448 |
| Ebr-13 | 186,666 | 161,604 | 102,114 |
| Mai-13 | 193,000 | 159,154 | 97,781 |
| Meh-13 | 204,666 | 167,008 | 106,333 |
| Gorff-13 | 187,333 | 157,528 | 110,666 |
| Awst-13 | 184,333 | 163,146 | 112,500 |
| Medi-13 | 176,000 | 161,854 | 109,666 |
| Hyd-13 | 179,000 | 163,368 | 112,000 |
| Tach-13 | 181,666 | 161,295 | 109,166 |
| Rhag-13 | 188,333 | 160,354 | 101,333 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ion-14 | 190,500 | 162,991 | 103,666 |
| Chwef-14 | 181,166 | 161,040 | 103,666 |
| Maw-14 | 174,250 | 163,921 | 109,500 |

(Ffynhonnell Hometrack 2014)

Dengys y map isod yr amrywiaeth yng nghyfartaledd y prisiau fesul ward ar draws yr ynys ym mis Mai 2014, gyda'r mannau tywyllach yn dangos y mannau prisiau uchel. Mae prisiau cyfartalog yn amrywio rhwng mwy na £224,000 i lai na £117,872. Mae'r prisiau isaf i'w gweld yn yr ardaloedd mwyaf poblog – h.y. Caergybi, Amlwch Llangefni.




**Angen o ran Tai ym Môn**

<u>Asesiad o'r Farchnad Dai Leol</u>

Cynhaliwyd arolwg yn 2012 o'r anghenion o ran tai ar gyfer y cyfan o Fôn ac, yn eu tro, defnyddiwyd canlyniadau hwn i gynhyrchu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sy'n rhoi llun cynhwysfawr o'r farchnad dai leol ac asesiad o'r angen o ran tai ar yr ynys.

Mae'r Asesiad yn dangos bod fforddiadwyedd tai yn broblem i nifer o aelwydydd ar yr Ynys. Er enghraifft, roedd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn gwario, ar gyfartaledd, 34% o incwm yr aelwyd ar eu rhent. O ran darpar aelwydydd newydd (sy'n debygol o fod yn bobl ifanc) ni fyddai 43.4 % yn medru fforddio tai ar y farchnad pan fo fforddiadwyedd yn seiliedig ar 25% o incwm.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (yr Asesiad) yn asesu niferoedd y tai fforddiadwy ychwanegol sydd eu hangen yn seiliedig ar fethodoleg y mae Llywodraeth Cymru'n ei ffafrio. Mae'n seiliedig ar lefelau cyfredol o anghenion o ran tai, ffurf aelwydydd newydd yn y dyfodol a nifer y stoc tai sydd ar

gael ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gwrdd â'r angen hwn o ran tai. Ystyr y term Angen o ran Tai yw'r sefyllfa lle nad oes gan aelwyd ei dŷ ei hun neu mae'n byw mewn tŷ sy'n cael ei ystyried yn annigonol neu anaddas **ac** nid oes modd iddo gael tŷ addas am bris y farchnad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr asesiad hwn yn seilio'r asesiad ar y rhagdybiaeth na ddylai aelwyd wario dim mwy na 25% o'i incwm ar dŷ. Mae hyn yn arwain at y casgliad - dros y pum mlynedd er 2012.

1. **Pan ddefnyddir 25% o incwm yr aelwyd, bod angen blynyddol am 635 o dai fforddiadwy**

Defnyddiwyd y cyfrif hwn eto, gan ragdybio bod modd i aelwydydd fforddio i wario hyd at 30% o'u hincwm ar dŷ rhent ac mae hefyd yn cynnwys y rhagdybiaeth bod modd i'r sector rhentu preifat ddarparu llety addas

2. **Gan ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, bod angen blynyddol am 134 o dai fforddiadwy**

Rhestri aros am dai

Ceir rhagor o wybodaeth am yr Anghenion o ran Tai yng nghofrestri tai Môn. Mae'r rhestr aros am Dai Cymdeithasol y Cyngor yn dal y rhai hynny sydd wrthi'n chwilio am dŷ gyda'r Cyngor a chymdeithasau tai (gall gynnwys pobl heb gysylltiad lleol a thenantiaid cyfredol tai cymdeithasol sy'n ceisio trosglwyddo).Ym mis Chwefror 2014 roedd 1,467 o aelwydydd ar y rhestr aros. Roeddynt yn chwilio am dai o'r meintiau a ganlyn:

**Tabl 10**

| | 1 llofft | 2 lofft | 3 llofft | 4 llofft | 5 llofft | 6 llofft |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | 430 | 725 | 257 | 45 | 9 | 1 |

Yn ogystal â hyn, sefydlwyd cofrestr Tai Teg yn 2012 i bobl oedd â diddordeb mewn bod yn berchen ar dŷ, nad oedd yn medru fforddio prisiau'r farchnad ond oedd yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer dewis o fod yn berchen ar dŷ gyda chymorth. O fis Rhagfyr 13 ymlaen, cofrestrwyd 464 o bobl o Fôn. Roeddynt yn chwilio am dai ar draws yr Ynys. Roedd 61% yn chwilio am gartref dwy neu dair llofft. Roedd 64% o'r rhai oedd yn ymateb yn benodol o'r farn bod £90-130,000 yn bris fforddiadwy ar gyfer eu haelwyd.

### Y Stoc Tai Cyfredol

Proffil y stoc

O gymharu â'r proffil stoc cenedlaethol ar gyfer Cymru, mae gan Fôn gyfran uchel o dai a byngalos ar wahân a chyfran is o dai teras, tai pâr a fflatiau.

**Tabl 11**

| | Tai ar wahân | Tai Pâr | Tai Teras | Fflatiau |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 47.5 | 22.5 | 22.6 | 7 |
| Cymru | 27.8 | 31.9 | 27.7 | 12.3 |

(Cyfrifiad 2011)

**Tabl 12 - Nifer y llofftydd o gymharu â nifer y bobl sy'n byw yn y tŷ**

| | Cyfanswm nifer y cartrefi | Cartrefi gyda dwy loft sbâr neu fwy | Cartrefi gydag un llofft sbâr neu fwy | Cartrefi gyda dim llofft sbâr | Cartrefi gydag un llofft neu fwy yn llai'r na'r hyn sydd ei angen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob cartref** | 30,594 | 13,537 | 10,865 | 5,517 | 675 |
| **%** | | 44% | 36% | 18% | 2% |
| **Nifer sy'n berchen arno neu sydd â pherchenogaeth a rennir (rhannol berchen a rhannol rentu)** | 21,034 | 11,362 | 6,937 | 2,413 | 322 |
| **%** | | 54% | 33% | 11% | 2% |
| **Rhentu cymdeithasol (nifer)** | 4,487 | 795 | 1,821 | 1,705 | 166 |
| **%** | | 18% | 41% | 38% | 4% |
| **Rhentu preifat neu'n byw gyda rhent yn rhad ac am ddim (nifer)** | 5,073 | 1,380 | 2,107 | 1,399 | 187 |
| % | | 27% | 42% | 28% | 4% |

Mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd mwy o lofftydd na sydd eu hangen ar gyfer nifer y bobl yn y tŷ. Mae gan 80% o aelwydydd 1 + llofft yn fwy na sydd eu hangen. Nid oes gan 2% o aelwydydd ddigon o lofftydd ar gyfer nifer y bobl sy'n byw yn y tŷ. Mae'r ffigyrau hyn yn amrywio ar draws y deiliadaethau. Mae perchen-feddianwyr yn sylweddol fwy tebygol o gael llofftydd sbâr na phobl sy'n rhentu yn y sector preifat neu gymdeithasol lle nad oes gan 4% o aelwydydd ddigon o lofftydd.

**Cyflwr y Stoc**

Yn yr arolwg a gynhaliwyd yn 2008 o gyflwr Tai'r Sector Preifat ceir gwybodaeth am yr 84% o stoc yn y sector preifat.

Cafodd hwn bod perygl Categori 1 o fewn y System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai* mewn 22.3% o dai'r sector preifat. Cododd hwn i 35.4% o dai rhentu preifat.

Gan ddefnyddio'r camau blaenorol o ran cyflwr y stoc (cyn 2004), byddai 2% o anheddau preifat yn cael eu hystyried yn "anaddas" gan godi i 5.7% o'r stoc rhentu preifat.

(Daeth y *System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai (yr HHSRS) yn system genedlaethol ar gyfer asesu cyflwr tai dan y Ddeddf Tai (2004). Perygl categori 1 yw perygl sydd ar restr o 29 o beryglon a restrir mewn tai lle ystyrir hefyd bod risg uchel o niwed difrifol)

**Amrywiaeth leol o fewn yr Ynys**

Mae'r ffynonellau data sydd ar gael yn cadarnhau bod angen cydnabod amryfal anghenion gwahanol leoliadau ar yr ynys ac y dylid defnyddio, lle bynnag y bo modd, ddata sydd ar gael yn fwy lleol, gan gynnwys mewn wardiau ac ardaloedd y cyngor cymuned, er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn ddealladwy ac yn cael eu cydnabod wrth ddarparu tai.

## Thema 1 – Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol Môn

**Pam fod hyn yn fater pwysig i Fôn?**


**a) Yr effaith y mae prinder tai fforddiadwy'n ei chael ar unigolion a chymunedau**

i. Mae prinder tai addas y mae pobl leol yn medru eu fforddio yn fater sy'n cydgysylltu â nifer o'r materion tai eraill yr edrychir arnynt yn y strategaeth hon (h.y. Digartrefedd, argyfwng tai, tai addas ar gyfer pobl ag anghenion cefnogi a phobl hŷn). Fe'i codir fel mater allweddol mewn ymgynghoriadau ynghylch y blaenoriaethau tai ar gyfer yr ynys.

ii. Mae cynaliadwyedd cymunedau dan fygythiad. Mae cyflenwad annigonol o dai fforddiadwy addas yn cyfrannu at bobl ifanc yn gadael yr ardal a gall gyfyngu ar dwf economaidd. Mae cyfleusterau lleol (megis siopau) yn cael eu rhoi mewn perygl. Gellir tanseilio rhwydweithiau cymdeithasol pan fo pobl leol yn symud i ffwrdd oherwydd prinder tai addas. Mae dyfodol y Gymraeg yn cael ei lastwreiddio pan nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mor gyffredin wrth ryngweithio'n gymdeithasol, gan fod pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn medru prisio'n uwch na phobl leol.

Yn y tabl isod dangosir sut y bu i brisiau tai'r chwartel isaf godi o 2003 tra bu i'r incwm cymedrig newid fawr ddim. Gwnaeth hyn hi'n fwyfwy anos i bobl oedd yn chwilio am eu cartref cyntaf.


**Môn : Incwm cymedrig wedi'i luosogi (x3.5) o gymharu â phrisiau chwartel isaf**




(Asesiad Môn - Ffynhonnell: Gofrestrfa Dir ac Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion)

O Fehefin 2014, £110,800 yw pris y chwartel isaf am gartref ym Môn sy'n golygu bod y pris 6.1 gwaith yn uwch nag enillion cymedrig person sengl ar yr ynys (ffynhonnell Hometrack ).

iii. Mae canran y boblogaeth sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol, lle caiff lefelau rhent eu rheoli i'w cadw ar raddfeydd, wedi syrthio rhwng 2001 a 2011. Tra bo tai newydd ychwanegol wedi'u codi gan y Cymdeithasau Tai sy'n gweithio ym Môn, mae'r gyfradd dwf yn arafach nag yn y sector preifat ac mae nifer fechan o dai Cyngor yn parhau i gael eu colli fel tai rhent trwy Hawl i Brynu.




Dengys y tabl uchod nifer yr holl dai newydd a gwblhawyd ym Môn dros y blynyddoedd o 2005 i 2013. Bu adferiad yn y niferoedd er 2011.

iv. Oherwydd bod pobl yn methu fforddio bod yn berchen ar gartref, ac oherwydd rhestri aros am dai cymdeithasol, mae mwy o bobl wedi cael tai yn y sector rhentu preifat. Fel arall, gallai pobl aros yng nghartref eu rhieni'n hirach neu os aiff pethau i'r pen, lle nad oes gan bobl fawr ddim adnoddau i'w cynorthwyo i gael llety diogel, gallant fod mewn perygl o fod yn ddigartref.

v. Ffactorau eraill sydd wedi cyfrannu at gael trafferth i gael tai addas yw'r cwymp yng nghyfartaledd y cyflogau ym Môn a darpariaethau diwygiad lles sydd wedi cyfyngu ar faint cartrefi y telir budd-daliadau tai ar eu cyfer yn y sector cymdeithasol a chynnydd bychan yn raddfa'r Lwfans Tai Lleol yn y sector rhentu preifat. Mae nifer yr aelwydydd yn codi'n anghyfartal â'r boblogaeth oherwydd bod maint aelwydydd yn llai. Ymhlith y rhesymau mae: pobl yn byw'n hŷn a thwf mewn teuluoedd un rhiant.

**b) Tai Gwledig**

Mae yna faterion penodol mewn perthynas â chyflenwi tai y tu allan i'r prif ganolfannau gwasanaeth ym Môn (Caergybi, Llangefni ac Amlwch) lle mae prisiau tai yn tueddu i fod yn uwch a dim cymaint o hynny o dai ar gael i'w rhentu yn y sector cymdeithasol na'r sector preifat. Yn yr un modd, gall y cyfle i godi tai fod yn anodd oherwydd y tir sydd ar gael a gallai'r costau fod yn uwch.

**c) Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Mae Bil Tai (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud darpariaeth ar gyfer gofynion safle Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'u sefydlu trwy Asesiad o Anghenion. Sefydlodd Asesiad o Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru 2013 bod angen 11 o safleoedd preswyl ym Môn.

**Meysydd gwaith allweddol a fydd yn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy**

a) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae yna draddodiad cryf o fod yn berchen ar gartref yn y Deyrnas Gyfunol ac er bod canran nifer y perchen-feddianwyr bellach yn syrthio, bod yn berchen ar dŷ yw'r ddeiliadaeth a ddymunir ac a ddisgwylir gan fwyafrif y bobl. Mae gallu'r sector datblygu preifat i gwrdd â galwad a gyfyd o ffactorau demograffig, newid cymdeithasol a thwf economaidd, yn un rhan allweddol o sicrhau bod y tai cywir ar yr ynys, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (y Cynllun) y bwrir ymlaen ag o ar gyfer Môn a Gwynedd yn elfen hanfodol o sicrhau bod tir ar gael a bod polisïau cynllunio yn eu lle i gyflawni hyn. Byddir yn parhau i gydweithio rhwng adrannau er mwyn cefnogi gwaith mabwysiadu'r Cynllun erbyn 2016 .

Hyd oni bydd y Cynllun newydd wedi'i fabwysiadu, bydd y Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2009 yn parhau i gael ei ddefnyddio fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac mae'n cefnogi gwaith darparu tai fforddiadwy ychwanegol tu draw i'r hyn a gyflawnwyd gydag arian cyhoeddus. Mae'n ei gwneud yn ofynnol y dylai 30% o dai mewn datblygiadau o ddeg neu fwy, fod yn fforddiadwy, os yw'n ymarferol.

b) Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio cynyddu ei stoc dai ei hun.

Yn dilyn cytundeb terfynol a thynnu allan o'r system gymhorthdal cyfredol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai fel y bwriedir ac fel yr oedd modd gwneud yn sgil Deddf Tai Cymru 2014, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cychwyn cynyddu ei stoc ei hun trwy ddatblygu cartrefi newydd ac o bosib prynu cartrefi cyfredol.

c) Rhaglen Codi Tai Fforddiadwy

Mae'r Cyngor yn gwybod faint o Grant Cyfalaf Cymdeithasol y bydd yn ei gael am y tair blynedd nesaf. Ar gyfer cartrefi ar rent cymdeithasol, mae'r grant yn ariannu 58% o gost y codi, gyda'r gymdeithas tai'n sicrhau'r gweddill trwy fenthyca. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid er mwyn rhoi'r gwerth gorau o'r gronfa hon. Yn y blynyddoedd diweddar mae nifer o ffrydiau ariannu eraill wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan bob un delerau ac amodau ynghlwm wrtho sy'n golygu y bydd raid i Gyngor Sir Ynys Môn gynllunio a medru gweithio'n ymaddasol er mwyn cael y budd ariannol mwyaf.

d) Galluogi yn y maes Tai Gwledig

Mae Galluogwr Tai Gwledig y Cyngor wedi cyfrannu'n sylweddol wrth hwyluso datblygiadau posib ac, yn enwedig, wrth weithio'n agos gyda chynghorau cymuned i danlinellu bod angen tai mewn ardaloedd mwy gwledig ar yr ynys lle mae'n fwy heriol yn aml iawn i ddarparu tai fforddiadwy. Mewn nifer o'r ardaloedd mwy gwledig, ceir llai o gyfleoedd i brynu am bris sy'n addas i brynwr tro cyntaf a hefyd brinder eiddo i'w rhentu'n breifat. Weithiau mae'r gost o ddarparu cartrefi fforddiadwy mewn ardal wledig yn uwch nag yng nghanolfannau gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gwerth darparu tai fforddiadwy yn uwch dros y tymor hwy o ran cwrdd ag anghenion tai, cadw teuluoedd mewn cymunedau a'u cyfraniad i'r economi leol.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019**

1. Bydd y Gwasanaethau Tai a'r Uned Cynlluniau Datblygu ar y Cyd yn parhau i weithio'n agos i sicrhau bod y Cynllun yn darparu cartrefi sy'n diwallu'r angen a dystiolaethwyd am dai fforddiadwy ac i niferoedd mwy o bobl y gallai bod arnynt angen tai arbenigol/wedi'u haddasu.
2. Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cadw tystiolaeth gyfredol o lefel y tai fforddiadwy sydd ei hangen, a math a maint y cartrefi sy'n ofynnol. Bydd yn defnyddio'r dystiolaeth hon i roi arweiniad brwd fel bod y cartrefi cywir yn cael eu codi yn y lleoliadau cywir.
3. Bydd y Cyngor yn gweithredu ar y dystiolaeth o angen am fwy o dai llai yn ei raglen ddatblygu
4. Bydd yr angen am dai gwledig, a all fod yn arbennig o heriol wrth adnabod tir fforddiadwy a lle mae'n anos cyflawni arbedion maint, yn parhau i gael sylw penodol gan adeiladu ar arfer da cyfredol Galluogwr Tai Gwledig Môn.
5. Bydd y Cyngor yn parhau i geisio gwerth gorau o adnoddau sydd ar gael o ran tir ac arian, gan gynnwys chwilio i fodelau eraill o ddarparu cartrefi (ee. Tai cydweithredol, croesgymhorthdal lle gall rhai tai ar y farchnad fod o gymorth wrth godi tai fforddiadwy ar safleoedd eithrio pan fo'r canlyniadau'n briodol). Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda chymdeithasau tai, datblygwyr y sector preifat a chymunedau lleol yn hwyluso hyn. Bydd Partneriaeth Tai Môn newydd (gweler Thema 6) hefyd yn cefnogi'r nod hwn
6. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud y defnydd gorau o ryddid ariannol yn sgil dod allan o'r system gymhorthdal ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai i gychwyn ar raglen o ddatblygu a phrynu.
7. Er mai cerrig milltir dros dro yn unig sydd ar gyfer codi'r Wylfa Newydd a datblygu prosiectau economaidd mawr eraill, mae'n amcan allweddol y bydd anghenion o ran tai fforddiadwy yn y tymor byr a'r tymor hir yn gysylltiedig â'r prosiectau hyn sy'n datblygu. Dylai tai a'r seilwaith i wasanaethu tai fod yn waddol canolog y prosiectau hyn.
8. Byddir yn darparu llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, safleoedd parhaol a darpariaeth cludo addas.
9. Wrth alluogi datblygiad newydd, byddir yn ceisio arfer gorau o ran cynaliadwyedd. Golyga hyn safonau uchel o effeithlonrwydd ynni, dyluniad sy'n cyfrannu at ostwng trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chymunedau cytbwys sy'n diwallu'r amrywiaeth o anghenion lleol.

## Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai cyfredol a gwella tai a chymunedau

**Pam fod hyn yn fater pwysig i Fôn?**

1. **Mae angen mwy o dai ar yr ynys i gwrdd â galw am dai ar y farchnad a thai fforddiadwy ond, yr un pryd, mae gormod yn sefyll yn wag**

a) Roed dros 765 o gartrefi oedd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy ym Môn (Ebrill 2014), sydd oddeutu 2.2% o gyfanswm stoc tai'r ynys. Wrth ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chartrefi gwag gan gynnwys cyflogi Swyddog Cartrefi Gwag, a chymorth pwrpasol Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a chymhorthfa Cartrefi Gwag rheolaidd, cafwyd llwyddiant mawr gan ei gwneud yn bosib i brynwyr tro cyntaf fyw yn y tai hyn. At hyn, mae wedi ychwanegu mwy o unedau at y stoc rhentu preifat.

b) Mae modd dod ar draws cartrefi gwag mewn lleoliadau ar draws yr ynys ac maent yn cynnwys fflatiau bychain a thai mawr. Yn aml iawn mae'r cartrefi gwag yn ddolur i'r llygad ond hefyd maent wedi dod yn darged i fandaliaeth neu weithgaredd anghymdeithasol. Gall eiddo sy'n sefyll yn wag a heb eu cynnal a'u cadw am gyfnodau hir ddechrau mynd â'u pennau iddynt gan wneud y gwaith o'u hailfeddiannu yn sylweddol anos.

2. **Mae nifer y bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat ym Môn yn codi. Rhaid mynd i'r afael â'r problemau sydd ar brydiau'n gysylltiedig â'r sector hwn er mwyn sicrhau bod gan denantiaid preifat lety o ansawdd ac y caiff eu hawliau o ran tai eu parchu.**
   a) Mae cyfanswm y nifer sy'n byw yn y sector hwn bellach yn fwy na'r nifer sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar yr ynys. Mae'r trosiant araf o ran tai cymdeithasol a chyflenwad o dai newydd nad yw'n cwrdd â'r galw yn golygu mai, i nifer o aelwydydd, y sector rhent preifat sy'n cynnig y cyfle gorau am gartref addas pan fyddant yn chwilio am gartref cyntaf neu angen symud tŷ.
   b) Er mwyn darparu fframwaith cryfach i sicrhau safonau sy'n gyson uchel yn y sector, bydd y Bil Tai (Cymru) yn cyflwyno cynllun trwyddedu cenedlaethol ar gyfer asiantaethau gosod a landlordiaid preifat. Bwriad hyn yw cael safonau gwell, mwy o wybodaeth i awdurdodau lleol a thenantiaid am landlordiaid lleol ac i landlordiaid a thenantiaid ddeall mwy am ei hawliau a'u cyfrifoldebau.
   Roedd y Bil Ynni (2011) yn cynnwys darpariaeth bod raid i bob eiddo a rentir yn breifat o Ebrill 2018, fod â sgôr effeithlonrwydd ynni 'E'. Bydd y ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn anghyfreithlon rhentu tŷ neu eiddo busnes nad yw'n cyrraedd y safon sylfaenol hon.
   c) Cafodd yr arolwg diwethaf o gyflwr y stoc (2008) ym Môn bod gan 35% o dai a rentir yn breifat berygl* categori 1 o gymharu â 22% o'r holl stoc tai. Mae problem genedlaethol o ran safonau atgyweirio gwael ac effeithlonrwydd ynni yn y sector.
   d) Ar gyfartaledd mae pobl yn symud yn amlach yn y sector hwn ac mai llai o ddiogelwch deiliadaeth. O'r herwydd, ceir risg benodol y gallai nifer gynyddol y gweithwyr sydd eu hangen ar gyfer Wylfa Newydd a phrosiectau economaidd mawr eraill ar yr ynys.

3. **Mae yna dai hefyd lle mae perchen-feddianwyr yn byw ynddynt sydd mewn cyflwr drwg a hynny oherwydd incwm isel neu afiechyd/analluedd. Mae peidio â chynnal a chadw eiddo hefyd yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd cyflwr yr eiddo'n gwaethygu ac y byddai'n ddrutach i'w atgyweirio.**
   Mae cyflwr gwael tai preifat yn risg i iechyd a diogelwch meddianwyr. Gall hyn fod yn hynod wir gyda phobl hŷn nad oes ganddynt yr incwm i gynnal a chadw eu cartref yn ddigonol neu wneud addasiadau y mae eu hangen am resymau iechyd. Cafodd yr arolwg diwethaf o gyflwr y stoc (2008) ym Môn bod gan 21% o dai yr oedd y perchen-feddiannwr yn byw ynddynt berygl* categori 1. [1] Ystyriwyd bod 16% o'r aelwydydd hyn yn fregus (wedi'u diffinio yn derbyn budd-dal neu incwm is na £8000).

[1] **( Dan y System Sgorio iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS) perygl Categori 1yw risg yn y cartref sy'n ddigon difrifol y byddai'n ddyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i gymryd rhyw fath o gamau gorfodi)*

## 4. Tlodi Tanwydd ar yr Ynys

Mae tlodi tanwydd yn digwydd pan fo raid i aelwyd wario mwy na 10% o'i incwm ar holl danwydd yr aelwyd er mwyn cynnal lefel foddhaol o wres.

Amcangyfrifir bod 30% o aelwydydd a 33% o aelwydydd bregus yng Nghymru yn ei chyfanrwydd mewn tlodi tanwydd (Rhagamcan 2012 yn seiliedig ar wybodaeth waelodlin 2008 - Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)). Er nad oes ffigwr ar gael ar lefel yr awdurdod lleol mai'r ffaith nad oes cyflenwad nwy mewn rhannau o'r ynys ac oedran y stoc tai'n golygu bod y lefel yn debygol o fod yn uwch ym Môn.

Ym Môn, nid oes gan 5.3 % o gartrefi wres canolog. Golyga nad oes, ychwaith, fawr ddim nwy ar yr ynys bod canran uchel o gartrefi'n dibynnu ar ddull gwresogi drutach - olew neu wres canolog.

| **Math o wres 2011** | **Môn %** | **Cymru%** |
|---|---|---|
| Pob categori: Math o wres canolog yn yr aelwyd | 100.0 | 100.0 |
| Dim gwres canolog | 5.3 | 2.3 |
| Gwres canolog nwy | 50.3 | 76.3 |
| Gwres canolog trydan (yn cynnwys stôr-wresogyddion) | 10.8 | 5.5 |
| Gwres canolog olew | 23.3 | 8.7 |
| Gwres canolog tanwydd solet (er enghraifft, coed neu lo) | 2.7 | 1.9 |
| Gwres canolog arall | 1.1 | 0.9 |
| Dau neu fwy o fathau o wres canolog | 6.5 | 4.4 |

*(Ffynhonnell Cyfrifiad 2011)*

**Mae mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel yn eu cymunedau.**

Mae byw mewn tŷ saff a diogel yn bwysig i'r iechyd corfforol a meddyliol. Yn ogystal â'r materion o ran cyflwr gwael tai a grybwyllwyd uchod, parhau mae'r angen i weithredu ar y materion a all grebachu diogelwch yn nhai Môn. Gall y modd y caiff cartrefi eu dylunio a gwaith adfywio sy'n rhoi cyfleoedd i ailfodelu mannau preswyl, wneud gwahaniaeth sylweddol i gyfraddau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymdeimlad pobl o ddiogelwch. Mae'r modd y mae landlordiaid tai cymdeithasol yn rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymdogaeth hefyd yn fater allweddol gan y gall pobl sy'n profi ymddygiad gwrthgymdeithasol gael eu gadael yn teimlo'n ofnus yn eu cartrefi eu hunain.

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gymryd sawl ffordd gan gynnwys: graffiti, fandaliaeth, cerddoriaeth uchel, niwsans sŵn, dympio gwastraff, niwsans a achosir gan anifeiliaid anwes(megis sŵn neu faeddu), ymddygiad troseddol, ymddygiad treisgar neu fygythiol, trosedd casineb(fel aflonyddu hiliol), camdriniaeth ddomestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol.

Mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona yn darparu sail newydd ar gyfer partneriaeth rhwng asiantaethau i sicrhau bod y grymoedd sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n

briodol a'u heffeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn gynted ag y bo modd ac i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth.

**Cydlyniant Cymunedol**

Nod y rhaglen Cydlyniant Cymunedol yw sicrhau y perchir gwahaniaethau ac y gellir mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n creu tyndra mewn cymunedau. Mae'n faes gwaith y mae'n bwysig i ddarparwyr tai eu wreiddio o fewn eu gwasanaethau a'i gefnogi. Yn achos Ynys Môn mae hynny'n golygu sicrhau ein bod yn deall ac yn gynhwysol o ran sut rydym yn trin grwpiau lleiafrifol (Sipsiwn a Theithwyr, mewnfudwyr). Efallai y bydd yr Ynys yn wynebu heriau newydd yn sgil nifer gynyddol o bobl, gan gynnwys mewnfudwyr yn gweithio ar y prosiectau Ynys Ynni ac yn sgil newidiadau i ddemograffi cymunedau.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

**Cartrefi Gwag**

1. Mae angen i Wasanaethau Tai barhau i osod targedau heriol i hwyluso'r gwaith o ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Ar hyn o bryd gosodir hyd ar 75 tŷ'r flwyddyn. Bydd yn adolygu'r Strategaeth Cartrefi Gwag i sicrhau bod y dulliau gweithredu ar y blaenoriaethau cywir yn eu lle er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ariannol a staffio sydd ar gael. Rhoddir ystyriaeth i fylchau yn y gallu i fynd i'r afael â chartrefi gwag e.e. darparu rheolaeth brosiect pan fo perchen-feddianwyr yn gyndyn o drefnu gwaith sydd ei angen heb gefnogaeth ychwanegol.
2. Mae'r pŵer newydd i godi Treth y Cyngor ychwanegol ar gartrefi sy'n wag am fwy na 12 mis ym Mesur Tai (Cymru), yn cynnig rhwystr ychwanegol i gartrefi sy'n wag yn y tymor hir. Bydd angen penderfyniad yn y Cyngor ar sut i ddefnyddio'r pŵer hwn a sut i ddefnyddio unrhyw refeniw a godir.

**Gweithio gyda'r Sector Rhentu Preifat**

1. Bydd y Cyngor yn gweithio i gefnogi gwaith cyflwyno cynllun Trwyddedu Cofrestriad Landlordiaid Preifat sy'n cael ei gyflwyno ym Mil Tai (Cymru). Yn ogystal â chynorthwyo i sicrhau bod landlordiaid yn gweithredu'n gyfrifol, bydd hyn yn rhoi i awdurdodau lleol wybodaeth llawer gwell am niferoedd y landlordiaid sy'n gweithredu yn eu hardal a'r cyfle i wella rhyngweithio a chefnogi.
2. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi Fforwm Landlordiaid ac adnabod yr arfer gorau wrth weithio gyda Landlordiaid Preifat yn unol â'r hyn sydd yn well ganddynt.
3. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â landlordiaid i greu perthynas fydd yn gymorth i aelwydydd ar incwm isel gael mynediad at y sector hwn a cheisio sicrhau nad yw aelwydydd lleol sy'n byw yn y sector hwn yn cael eu heithrio gan weithwyr dros dro sy'n dod i mewn.

**Rhoi cefnogaeth briodol i adnewyddu tai yn y sector preifat**

Oherwydd y peryglon i iechyd a'r effaith ar safon bywyd, mae'n bwysig bod perchenogion tai preifat yn parhau i gael eu hannog i gynnal a chadw eu heiddo. Ar adeg pan fo'n debygol y bydd arian grant sydd ar gael i gynorthwyo gyda hyn yn debygol o syrthio, rhaid medru cael at gynlluniau benthyca. Gall cyllid benthyciadau hefyd gynorthwyo landlordiaid preifat i wella safon cartrefi ar rent.

**Rhoi sylw i dlodi tanwydd a gostwng allyriadau carbon**

**Bydd y Cyngor yn defnyddio'r ddealltwriaeth sydd ganddo o faterion tlodi tanwydd ar yr ynys i ganfod yr atebion gorau posib i gynyddu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yn y sector cyhoeddus a phreifat.**

- Mewn tai Cyngor, lle mae nifer o enghreifftiau o waith effeithlonrwydd ynni sydd eisoes wedi'i wneud, bydd gwaith yn parhau i dargedu cartrefi a allai gael budd o gael insiwleiddio solet ac insiwleiddio'r waliau (yn enwedig felly'r rhai nad ydynt ar rwydwaith y brif bibell nwy) ac i weithio gyda thenantiaid unigol mewn tlodi tanwydd.
- Os oes cyllid ar gael, bydd y Cyngor yn parhau gyda'r defnydd llwyddiannus a wnaeth yn flaenorol o gyllid Arbed i gysylltu mwy o gymunedau â'r brif bibell nwy. Mae hyn o fudd i'r Cyngor ac i aelwydydd preifat.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau bod staff perthnasol yn medru cyfeirio ymgeiswyr cymwys at gynlluniau sy'n cynnig cymorth gyda gwella effeithlonrwydd ynni a gwres fforddiadwy yn y tŷ (h.y. y cynllun NYTH)
- Ceisir ffynonellau ychwanegol o gyllid yn frwd ar gyfer cynlluniau i wneud gwaith effeithlonrwydd ynni

**Cartrefi a chymunedau diogel**

- Bydd materion diogelwch cymunedol yn cadw proffil uchel pan fo cartrefi newydd yn cael eu codi a phan gyfyd cyf leoedd i adfywio ac adnewyddu tai.
- Parhau i ddilyn arferion gorau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn tai cymdeithasol, gan gynnwys gweithredu'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014.

## Thema 3- Atal argyfwng tai a chynyddu dewisiadau tai

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

**a) Mae nifer o ffactorau cefndirol sy'n berthnasol i'r maes gwaith hwn**

i. Mae disgwyl i ddarpariaethau Bil Tai (Cymru) ddechrau dod i rym yn 2015. Bydd angen i Gyngor Sir Ynys Môn weithredu'r polisi a'r newidiadau gweithredol yn sgil y ddeddf ddigartrefedd newydd y bydd hwn yn ei chyflwyno. Disgwylir, yn benodol, y bydd dyletswydd ar yr awdurdod i atal unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref rhag wynebu hynny, a hynny cyn pen 56 diwrnod. Bydd hyn yn ymestyn y dyletswyddau y tu draw i'r cyngor a'r cymorth cyfredol y mae gan nifer hawl iddynt ar hyn o bryd. Mae disgwyl, hefyd, i'r Bil roi i awdurdodau bŵer newydd i roi cartref i'r rhai hynny y mae arnynt ddyletswydd digartrefedd iddynt yn y sector rhentu preifat.

ii. Ar hyn o bryd, mae nifer o ffactorau sy'n ymddangos fel petaent yn creu perygl o gynnydd yn nifer yr aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn eu plith mae

- Ôl-ddyledion rhent a gyfyd yn sgil cymhorthdal yr ystafell sbâr a adwaenir yn gyffredin fel ”treth yr ystafell wely” (h.y. diffyg mewn budd-daliadau a delir i denantiaid cymdeithasol y credir sy'n tanfeddiannu ac ôl ddyledion rhent sy'n codi).
- Effeithiau yn sgil camau diwygiad lles eraill a allai ostwng incwm a'r bwriad i weithredu credyd cynhwysol (taliadau misol o'r holl fudd-daliadau mewn un lwmp swm a llai o daliadau uniongyrchol i landlordiaid)

iii. Yn ogystal, mae effeithiau cyfraddau diweithdra ar fynediad at dai, a chyflenwad yn erbyn galw yn y sector tai preifat yn parhau'n ansicr ond maent yn creu peryglon parhaus. Yn arbennig felly, bydd yr angen am lety i weithwyr yr Adeilad Niwclear newydd a phrosiectau mawr eraill, o bosib, yn cael effaith ar gyflenwad llety yn y sector rhentu preifat. Gallai hyn ddigwydd cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle wrth i landlordiaid geisio cymryd mantais o'r farchnad weithwyr.

b) **Ar hyn o bryd, mae sefyllfa heriol yn wynebu nifer sylweddol o bobl ym Môn sy'n chwilio am eu cartref cyntaf neu sydd angen symud o'u llety presennol.** Amlinellwyd y cefndir i hwn yn adran 1 "Deall y cyd-destun tai ym Môn". Mae'r cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy nad yw, ar hyn o bryd, yn cyfateb i'r galw, yn cynyddu'r perygl bod y rhai mwyaf bregus yn agored i argyfwng tai, gan gynnwys digartrefedd.

i. Yn 2013-14 derbyniwyd 62 o aelwydydd yn ddigartref a bod ganddynt anghenion blaenoriaethol tra cafwyd bod 26 o aelwydydd eraill yn ddigartref ond nid yn syrthio i un o'r categorïau angen blaenoriaethol. Roedd y niferoedd hyn yn debyg i'r ychydig flynyddoedd diwethaf, er bod cynnydd bychan mewn aelwydydd a ddaeth yn ddigartref yn chwarter olaf 2013-14.

ii. Mae dull gweithredu'r Cyngor wedi canolbwyntio fwyfwy ar ymyriadau cynnar a chynorthwyo cleientiaid i gael hyd i lety arall yn gynt. Yn 2013-14 cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf chwe mis mewn 63% o achosion oedd yn mynd i'r Cyngor yn dweud y gallent fod yn ddigartref. Yn 2013-14, mewn achosion lle nad oedd modd atal digartrefedd a bod gan yr aelwyd angen blaenoriaethol, yr achos mwyaf cyffredin am fod yn ddigartref oedd 1) colli'r tŷ a rentwyd yn breifat ; 2) Perthynas yn torri i lawr.

iii. Mae'r gwaith canolbwyntio ar atal digartrefedd a fabwysiadwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gostwng niferoedd y bobl oedd yn statudol ddigartref ar Ynys Môn trwy droi sylw staff ac adnoddau ariannol at weithgareddau atal yn gynt. Nid yw'n adlewyrchu gostyngiad yn yr angen am gyngor ar dai a chefnogaeth iddo.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

Er bod cyflenwad yn ffactor allweddol, mae rhoi gwasanaethau atal digartrefedd rhagorol y mae modd cael mynediad atynt a gwybodaeth am ddewisiadau tai a chyngor ariannol /ar fudd-daliadau cysylltiedig hefyd yn hanfodol i unigolion sy'n cael trafferth cael tŷ. At hyn, mae angen i ddarparwyr tai cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau y defnyddir y cyflenwad o dai fforddiadwy i'r pwrpas gorau er mwyn rhoi cartref i'r rhai hynny mewn angen ond hefyd i greu cymunedau sefydlog a llewyrchus. Bydd yr amcanion a ganlyn yn cefnogi hyn:

a) Bydd rhagor o ddatblygu gwaith partneriaeth rhwng yr asiantaethau sy'n rhoi cefnogaeth i bobl sy'n ddigartref neu'n agored i fod yn ddigartref. Bydd Strategaeth Ddigartrefedd

newydd, dan arweiniad Cyngor Sir Ynys Môn, yn canolbwyntio ar arwain dull gweithredu ar y cyd i atal digartrefedd.

b) Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu gwasanaeth dewisiadau tai sydd

- Yn rhoi i ddinasyddion wybodaeth gyfredol y mae modd cael ati am dai eraill ar yr ynys.
- Ag ystod o ffyrdd o gynorthwyo pobl sy'n wynebu'r perygl o fod yn ddigartref i un ai gadw eu lle cyfredol neu i gael dewis addas.

c) Bydd y gwasanaeth wedi'i ail-lunio i ymateb yn y ffordd orau i'r newid mewn deddfwriaeth ym Mil Tai (Cymru) sy'n rhoi hawl i unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod i gysylltu â'r awdurdod lleol fydd yn gorfod cymryd camau rhesymol i atal digartrefedd

d) Bydd y Cyngor wedi gweithio gyda chymdeithasau tai lleol i adolygu'r ffordd y rhoddir blaenoriaeth i bobl ar gyfer tai rhent cymdeithasol a chanolraddol. Fel hyn sicrheir y ceir system sy'n glir ac yn hawdd ei deall ac sy'n gwneud y defnydd gorau o gyflenwad bychan o stoc mewn modd sy'n derbyn ei fod yn deg a phriodol yn yr amgylchedd tai sydd ohoni.

e) Bydd y Cyngor wedi cryfhau cysylltiadau gyda landlordiaid y sector rhentu preifat i gynorthwyo mwy o bobl i gael hyd i dŷ addas yn y sector hwn. Bydd hyn yn berthnasol i'r rhai hynny mewn perygl o fod yn ddigartref a'r rhai hynny sy'n annhebygol o gael hyd i dŷ yn y sector cymdeithasol.

f) Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn defnyddio'r pŵer newydd ym Mil Tai (Cymru) i ymgymryd â'i ddyletswydd i roi Tenantiaeth ar Rent Preifat lle bo'n briodol i'r rhai sy'n ddigartref a bod ganddynt angen blaenoriaethol.

g) Sicrhau y cynhelir gwasanaethau cefnogi a ariennir gan Gefnogi Pobl sy'n cynorthwyo pobl arbennig o fregus, megis pobl sy'n cysgu allan, pobl â ffyrdd o fyw anhrefnus yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a chydnabod bod y gwasanaethau hyn yn allweddol i atal digartrefedd.

h) Bydd y Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad i flaenoriaethu ymateb cydgysylltiedig i effeithiau diwygiad Lles. Mewn perthynas â digartrefedd, golyga hyn yn arbennig:

  - Arwain gwaith cydgysylltu asiantaethau ar draws yr ynys sy'n rhoi cyngor i aelwydydd cyfredol a rhai'r dyfodol sydd mewn mwyaf o berygl oherwydd eu bod ar incwm isel/ eu dibyniaeth ar fudd-daliadau er mwyn cyfrannu at gostau tai.
  - Cydnabod bod bwlch ar hyn o bryd rhwng maint a chost dewisiadau tai sydd ar gael ar yr ynys a maint / cost llety y mae'n rhaid i drigolion ar incwm is ei ganfod dan ddiwygiad lles. Cynorthwyo i bontio'r bwlch trwy ddarparu tai llai yn y rhaglen ddatblygu, gweithio gyda landlordiaid preifat i wneud y gorau o dai yn y cyfraddau lwfans tai lleol a chynorthwyo tenantiaid cyfredol y mae treth yr ystafell wely yn cael effaith arnynt.
  - Rhoddir blaenoriaeth i'w gwneud yn bosib i ddewisiadau llety ddiwallu anghenion ceiswyr tŷ sengl ar incwm isel oherwydd prinder tai un llofft ac ystafelloedd mewn tai a rennir sy'n syrthio y tu mewn i gyfraddau Lwfans tai Lleol. Ymhlith y dewisiadau mae annog tai mawr i gael eu rhannu'n llai a hwyluso dewisiadau tai a rennir.

i) Byddir yn edrych ar ddewisiadau i ddatblygu rôl Asiantaethau Gosod Cymdeithasol i ddiwallu anghenion tai.

j) Bydd y Cyngor yn gostwng y cyfnod y bydd aelwydydd digartref yn ei dreulio mewn llety dros dro a sicrhau bod y llety dros dro a roddir o safon ddigonol.

k) Bydd y Cyngor wedi ymchwilio i effeithlonrwydd Cynllun Achredu Tenantiaid y mae Cyngor Sir Ddinbych wrthi'n arbrofi ag o.

## Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

a) Ar adegau penodol yn eu bywydau mae ar nifer o bobl angen cymorth priodol fel eu bod yn medru llwyddo i fyw'n annibynnol. Gall y rhain fod yn bobl o bob oedran. Ymdrinnir ag anghenion cefnogi pobl hŷn, grŵp sy'n tyfu ar yr ynys, yn yr adran nesaf, "Cartrefi ar gyfer Byw'n Hirach".

Rhoddir y rhan fwyaf o'r gefnogaeth hon dan y rhaglen Cefnogi Pobl ond mae gweithwyr cynhwysiad ariannol hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig. Nid yn unig y mae rhaglen Cefnogi Pobl leol, lwyddiannus yn grymuso unigolion ond gall hefyd gael ei gweld yn gostwng gwariant a chynorthwyo i gyflawni amcanion polisi ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau diogelwch cymunedol. Gall y math o gefnogaeth a fydd yn amrywio yn ôl ag angen grŵp cleient ymwneud yn nodweddiadol â chynorthwyo unigolion i ddelio'n fwy effeithiol gyda

- Rheoli arian
- Sefydlu cartref newydd
- Cynnal rhwydweithiau cefnogi
- Perthynas gyda chymdogion
- Symbyliad i ymdopi â gwaith cynnal yr aelwyd

b) Ar hyn o bryd ac yn ystod oes y strategaeth hon bydd gan raglenni cefnogi, yn benodol, rôl i gynorthwyo pobl y mae'r diwygiad lles ac amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn cael effaith arnynt. Nid rôl ataliol yn unig yw hon ond gall hefyd gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyfleoedd gwaith a hyfforddi.

c) Ceir gorgyffwrdd penodol gyda'r nod o atal argyfwng tai. Mae gan cefnogi tai rôl hanfodol i atal digartrefedd trwy, er enghraifft, gefnogi pobl gyda thenantiaethau i ymdopi â'u materion ariannol ac i ofalu am eu cartrefi. Gall cefnogaeth ddwys a roddir i bobl sy'n cysgu allan eu hailsefydlu yn y gymuned.

d) Mae'r fframwaith Cefnogi Pobl cenedlaethol wedi'i drawsnewid yn llwyr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fel ei fod yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau penodol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofyn ariannol bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar y gwasanaethau a ganlyn fel canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth:

- Hyrwyddo Diogelwch Personol a Chymunedol
- Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth
- Hyrwyddo Cynnydd Economaidd a Rheolaeth Ariannol
- Hyrwyddo Iechyd a Lles

e) Bydd yr arian sydd ar gael dros y pum mlynedd nesaf yn parhau i ostwng gan roi her sylweddol i gynhaliaeth gwasanaethau cyfredol.

f) Cesglir data mapio anghenion yn barhaus ac fel hyn bydd modd cofnodi'r materion mwyaf cyffredin sydd angen cymorth a newid yr anghenion hyn ac, felly, adnabod bylchau mewn gwasanaethau. Adnabyddir angen "arweiniol" ar gyfer pob cleient sy'n ceisio cymorth. Yn ystod 2012-13 roedd dros 80% o angen arweiniol yn y categorïau a ganlyn

| | |
|---|---|
| Digartrefedd | 57% |
| Trais yn y cartref | 21% |
| Camddefnyddio Alcohol | 10.6% |

Mae gan nifer o bobl fwy nag un broblem sydd angen cefnogaeth. Wrth gofnodi'r rhain dangosir ystod o faterion sydd angen cefnogaeth. Ymhlith y rhain mae iechyd meddwl, troseddu, camddefnyddio cyffuriau a materion sy'n ymwneud â bod yn ifanc a bregus.

g) Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais mawr ar barhau i weithio i fynd i'r afael â Thrais yn y cartref ac yn 2014 mae'n cyflwyno Bil Trais yn erbyn Menywod, Trais yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae sefydliadau tai a Chefnogi Pobl yn bartneriaid allweddol mewn ymateb cydgysylltiedig i ddatblygu diwylliant sy'n gwrthwynebu Trais yn y Cartref ac sy'n cefnogi dioddefwyr.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu ymagwedd arwyddocaol newydd tuag at ofal cymdeithasol gyda phwyslais ar adeiladu cryfderau a chapasiti unigolion a'u galluogi i aros yn annibynnol trwy roi iddynt y gefnogaeth iawn. Bydd gan Tai rôl bwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at y canlyniadau a ddeisyddir.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

1. Mae angen amddiffyn ansawdd nifer o Wasanaethau Cefnogi tra hefyd yn cydnabod bod rhaid edrych ar ffyrdd newydd o weithio a allai olygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, a hynny er mwyn i arian bychan fynd ymhellach.
2. Rhoddwyd sylw i fylchau mewn gwasanaethau a adnabyddir trwy anghenion mapio. Adnabuwyd hyd yn hyn
   - Y dylid gwella gwasanaethau ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
   - Bod angen ymestyn gwasanaethau cefnogi addas i bobl hŷn o bob deiliadaeth.
3. Bydd cydweithio agosach rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Tai. Gall hynny wella gwasanaethau i gwsmeriaid sydd yn aml yn gyffredin i'r ddau wasanaeth ac er mwyn effeithlonrwydd ariannol. Bydd y ddau Wasanaeth yn ceisio gwella'r berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd er budd sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rheini sy'n defnyddio eu gwasanaethau.
4. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i adnabod unrhyw ofynion cefnogi penodol ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a pha fodelau fyddai'n briodol i ddiwallu'r anghenion hyn.
5. Mae Cofrestr Tai Addas Addasedig (yn wreiddiol ar gyfer Tai Cyngor) wedi'i datblygu ac mae'n cynorthwyo pobl ag anableddau i gael cartrefi sy'n addas i'w hanghenion.

## Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

a) Mae pobl yn byw'n hirach ac, fel y cyfryw, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o oddeutu 70% yn nifer y bobl dros 85 yn byw ar yr ynys yn y deg mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cael effaith ar y mathau o gartrefi sydd eu hangen, yn enwedig felly gan y bydd gan bobl hŷn, fel arfer, gyflwr iechyd tymor hir. Dengys rhagamcanion y bydd niferoedd dros 75 gyda salwch tymor hir sy'n cyfyngu, yn cynyddu 75% erbyn 2030 (Ffynhonnell OPNA- Imogen Blood Associates).

b) Nid yw'r bywydau hir a'r safon byw y mae pobl yn hwyrach yn eu bywydau yn dyheu amdano yn cael ei adlewyrchu yn y modd y mae tai a chymunedau wedi'u cynllunio. Bellach mae hyn yn ystyriaeth lawer mwy canolog. Mae dinasyddion hŷn eu hunain a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi e.e. gweithwyr gofal ac iechyd a'r sector gwirfoddol yn cael eu cydnabod fel partneriaid hanfodol i ganfod yr atebion cywir i anghenion sy'n newid. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor eisoes wedi nodi trawsnewidiad Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn yn faes gwaith allweddol. Mae llwyddiant gweledigaeth y Cyngor yn golygu bod angen i wasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys y tŷ cywir, weithio gyda'i gilydd i roi i ddinasyddion hŷn ddewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

c) Cynhaliwyd asesiad manwl o anghenion tai a chefnogi'r boblogaeth hŷn ar ran Cyngor Sir Ynys Môn yn 2013. Ymhlith y dystiolaeth ar gyfer yr asesiad roedd cyfweliadau gyda dinasyddion hŷn ar yr ynys ynghylch eu barn a'r hyn y byddai'n well ganddynt o ran dewisiadau tai posib yn y dyfodol i bobl hŷn. Mae'r asesiad, yn gywir, yn edrych yn gyfannol ar dai, cefnogaeth a gofal fel yr holl elfennau y mae gofyn eu cael yn eu lle fel bod modd i bobl aros yn annibynnol yn eu cymunedau. Bydd y Strategaeth Dai hon yn cyfrannu at gyflawni'r gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai annibynnol a thai cysylltiedig sydd eu hangen.

d) Mae tystiolaeth nad yw'r stoc tai, sydd â nod o ddarparu ar gyfer pobl hŷn, wastad yn cyfateb anghenion â dewisiadau pobl hŷn yr ynys. Yn gryno, dyma yw'r sefyllfa bresennol:
   - Cyngor Sir Ynys Môn sy'n darparu'r rhan fwyaf o gartrefi ar yr ynys sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Mae'r stoc hwn yn cynnwys dros 700 o gartrefi (fflatiau a byngalos yn bennaf) a gedwir ar gyfer pobl hŷn ond nad oes â gwasanaethau cefnogi cysylltiedig, a 556 tŷ gwarchod.
   - Agorodd cynllun tai Gofal Ychwanegol cyntaf yr ynys – cynllun sy'n cael ei redeg gan gymdeithas tai Grŵp Cynefin - yng Nghaergybi. Er hynny, mae angen codi llawer mwy o gartrefi arbenigol a all gynnig gwahanol lefelau o ofal a chefnogaeth er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n dymuno byw'n annibynnol ond y mae arnynt angen cymorth gydag amrywiaeth o dasgau beunyddiol. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o dai ymddeol preifat ac mae'n debygol bod angen i hyn gynyddu er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o bobl hŷn y gallai bod arnynt angen tai gyda chefnogaeth ychwanegol yn berchen-feddianwyr.

e) Cydnabyddir bod hwn yn faes gwaith cymhleth lle mae'r galw sylfaenol am wahanol fathau o dai yn cynnwys tai gwarchod, Gofal Ychwanegol a chartrefi'r prif lif, yn dibynnu ar ffactorau'n cyd-adweithio - ffactorau sy'n cynnwys anghenion iechyd pobl hŷn, y dymuniad i gael dewis (y dewis y mae pobl, felly, yn ei wneud) a bod gwasanaethau ar gael - gwasanaethau megis cefnogi, gofal a chludiant. Mae rhaid cydbwyso'r agweddau hyn yn erbyn ei gilydd wrth wneud penderfyniadau ynghylch darparu tai i ddinasyddion hŷn.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

a) Bydd tri cynllun Gofal Ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer rhent cymdeithasol yn bennaf.
b) Bydd Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn, y mae disgwyl iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, yn arwain dull gweithredu sy'n ailfodelu cefnogaeth a gofal cartref sy'n gysylltiedig â thai fel ei fod yn medru diwallu'n well anghenion pobl hŷn sy'n byw

ym mhob deiliadaeth. Bydd cefnogaeth yn cael ei threfnu o amgylch canolfannau cymunedol a'r Cynlluniau Gofal Ychwanegol newydd. Byddai'r gwasanaeth yn medru cynnig cefnogaeth briodol ar draws sbectrwm o anghenion yn cynnwys hen bobl fusgrell a'r rhai â dementia.

c) Bydd Gwasanaethau Tai'r Cyngor wedi adolygu ei ddull gweithredu o ran tai i bobl hŷn. Bydd, yn arbennig, wedi ystyried y tai gwarchod y mae'n eu darparu i sicrhau bod yr adnodd tai hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn diwallu orau anghenion tai'r ynys.

d) Bydd ymgynghori gyda phobl hŷn yn rhan annatod o'r gwaith o ail-siapio'r ddarpariaeth dai. Bydd canlyniadau a gwaith a gomisiynwyd eisoes gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ymgynghoriadau gyda thenantiaid yn allweddol bwysig.

e) Bydd cyngor addas ar gael pan fydd ar bobl hŷn ei angen er mwyn cynorthwyo wrth weithiau wneud penderfyniadau anodd ynghylch tai.

f) Bydd pobl hŷn sy'n byw yn y sector preifat yn parhau i gael eu cefnogi i aros yn saff ac yn ddiogel yn eu cartref eu hunain trwy gymorth i drefnu atgyweiriadau, gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n rhoi Grantiau Cyfleusterau Anabl a gwasanaeth 'dyn pob dim' sy'n cynorthwyo gyda mân atgyweiriadau / tasgau cynnal a chadw.

## Thema 6 – Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

a) Gall tai fod yn offeryn ar gyfer gwaith adfywio. Gall tai newydd a thai sydd wedi'u hadnewyddu ddod â budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda Gwynedd wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae disgwyl iddo gael ei fabwysiadu yn 2016/17. Bydd yn cynnig cyfleoedd newydd i godi tai lleol.

b) Mae angen codi tai fforddiadwy a thai ar y farchnad yn briodol er mwyn cefnogi twf economïau trefi a'r cefn gwlad.

c) Mae yna wahaniaethau sylweddol rhwng y ffyniant economaidd a lefelau amddifadedd cymdeithasol mewn rhai o'r cymunedau mwyaf llewyrchus a rhai mwy amddifad. Dylid gwella tai i ychwanegu a chyfrannu at waith a wneir gan y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ym Môn.

d) Gall y farchnad dai leol fod yn sbardunwr mawr o ran twf yr economi. Er enghraifft, gall greu cyflogaeth a chynorthwyo i sicrhau bod tai a lleoedd atyniadol ar gael i gadw pobl ifanc a gweithwyr medrus yn yr ardal. Gall tai newydd hefyd gynyddu refeniw treth leol a gwerthiannau cyflenwadau adeiladu.
   Yn yr un modd, mae'r isod hefyd yn ffynhonnell o arian ychwanegol i'r economi lleol a gall, o bosib, gynyddu gan agwedd yr awdurdod lleol at y strategaeth dai
   - Mae'r sector tai cymdeithasol yn rhoi symiau mawr o arian yn yr economi lleol trwy ei raglen cynnal a chadw a gwella parhaus. Mae'r modd y mae'n caffael gwasanaethau'n cael effaith ar ganlyniadau lleol.
   - Yn aml iawn mae addasiadau tai y mae ar bobl hŷn a phobl ag anableddau eu hangen, yn creu gwaith i adeiladwyr a chrefftwyr lleol.
   - Gallai annog unigolion a landlordiaid i ddefnyddio camau Effeithlonrwydd Ynni hefyd roi cyfleoedd i gontractwyr lleol a gall ddod ag arian grant cyhoeddus i'r ardal.

e) Bydd goblygiadau a gyfyd yn sgil codi adeiladau niwclear newydd a phrosiectau Ynys Ynni eraill yn ymestyn ymhell y tu draw i oes y strategaeth hon. O'r cychwyn cyntaf roedd ymwybyddiaeth glir o'r budd economaidd i unigolion a'r cyfleoedd o waddol tai cadarnhaol tra bo hefyd ddealltwriaeth o'r peryglon tymor byr i dai lleol yn sgil mewnlifiad o weithwyr dros dro. Rhaid i'r

Strategaeth hon roi ‘r peirianwaith yn ei le er mwyn cymryd mantais o’r cyfleoedd a’r cynllun i wrthsefyll y peryglon i gyflenwad o dai fforddiadwy yn y tymor byr.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

a) Bydd Partneriaeth Dai i Fôn yn cael ei sefydlu gyda phartneriaid allweddol o’r tai cymdeithasol, tai sector preifat, iechyd a gwasanaethau cymunedol. Dylai’r Bartneriaeth hon fod â rôl allweddol yn sicrhau bod y cyfeiriad strategol ar gyfer tai’n cael ei gyfuno gyda thyfu economi’r ynys a’i fod yn cynnwys holl boblogaeth yr ynys gan gynnwys y rhai hynny allai fod yn fwy bregus.

b) Bydd y Cyngor yn parhau i annog mentrau sy’n cefnogi busnesau lleol i dendro am gontractau am waith ar dai cymdeithasol cyfredol a newydd. Er enghraifft, Mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn wedi gosod targed y bydd nifer sylfaenol o gynlluniau cynnal a chadw cynlluniedig, traddodiadol yn cael eu caffael trwy Sell2Wales ac mae nifer o gontractau eisoes wedi’u hennill gan gwmnïau lleol. Mae Coleg Menai yn rhoi hyfforddiant sgiliau yn y maes adeiladu ac effeithlonrwydd ynni.

c) Rhoddir blaenoriaeth i wneud y mwyaf o’r budd a geir o gyllid sydd ar gael gan raglenni cyllido effeithlonrwydd ynni cenedlaethol, megis ARBED ac o gyllid ECO sy’n cynorthwyo gyda chynlluniau cartrefi lluosog. Bydd unigolion sy’n byw yn y sector preifat yn parhau i gael cyngor priodol ar effeithlonrwydd ynni.

d) Bydd arian adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn:
   - Rhoi manteision mawr i dai yng Nghaergybi, gan gynnwys tai marchnad o ansawdd, tai fforddiadwy, tai gwag yn cael eu hailddefnyddio eto a gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi sydd wedi’u targedu.
   - Bydd prosiectau tai yn creu cyflogaeth ac yn cynorthwyo i helpu pobl yn ôl i waith.

e) Mewn perthynas â phrosiectau parhaus Ynys Ynni, yn enwedig felly Wylfa Newydd, bydd y Cyngor yn
   - Mynd ati’n frwd i sicrhau manteision tymor hir buddsoddi mewn seilwaith a thai sydd wedi’u hanelu at adeiladwyr
   - Parhau i ymchwilio i sgil-effeithiau gweithwyr dros dro a ddaw i’r ynys ar gyflenwad y tai fforddiadwy a monitro hyn. Bydd yn mynd ar drywydd gwaith lliniaru effeithiau negyddol trwy, er enghraifft, ystyried hyb tai i arwain cyflenwad o letyau i weithwyr dros dro.
   - Gwaith i liniaru’r peryglon a gyfyd o brosiectau, yn cynnwys gwaith gyda datblygwyr a diogelu peirianwaith priodol er mwyn sicrhau bod anghenion llety contractwyr o ansawdd da ac yn fforddiadwy.

f) Parhau i weithio gyda Chymunedau’n Gyntaf er mwyn sicrhau bod manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu rhannu gyda’r wardiau mwyaf difreintiedig ar yr ynys.

g) Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael cyllid Ewrop, gan gynnwys Cyllid Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a’r Cynllun Datblygu Gwledig i gynorthwyo i roi sylw i’r agenda gwrthdlodi trwy gamau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd.

# CYNLLUN GWEITHREDU – STRATEGAETH DAI LEOL YNYS MÔN

| | **Thema 1 Datblygu'r cartrefi iawn ar gyfer dyfodol Ynys Môn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Prosiect/Tasg** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Amserlenni** | **Allbynnau** | **Adnoddau/Cyllid** |
| 1 | Yn dilyn dod allan o'r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, bydd y Cyngor yn cychwyn cynyddu ei stoc o dai Cyngor trwy ddatblygu neu brynu tai. | Gwasanaeth Tai CSYM | 2015-16<br>2016-17<br>2017-18<br>2018-19 | 10 cartref<br>40<br>15<br>(Ffigyrau'r cynllun busnes cyfredol) | Cyfrif Refeniw Tai a Benthyciadau |
| 2 | Bydd rhaglen ddatblygu mewn partneriaeth gyda LCC yn gwneud y defnydd gorau o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu tai fforddiadwy i gwrdd â'r anghenion a nodwyd. | Gwasanaeth Tai CSYM; Partneriaid LCC; Datblygwyr sector preifat | 2014 – 15<br>2015-16<br>(yn cynnwys Gofal Ychwanegol) | 42 cartrefi wedi'i cyflawni<br>37 cartrefi wedi'i cyflawni*<br>(ffigwr rhagamcaniadol)<br><br>* rhan-ariannu 12 trwy arian VVP.<br><br>ON. Pennir targedau ar gyfer blynyddoedd dilynol pan fo manylion ynghylch y grant ar gael | Gwyddys bod y cyllid a ganlyn ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu tuag at y rhaglen ddatblygu.<br>Grant Tai Cymdeithasol<br>2016-17 = 934k<br>Grant cartrefi bychan<br>2014-2016 = 700k<br>Mae Grant Cyllid Tai (sy'n cynorthwyo LCC gyda chostau benthyca) ar gael yn 2014-15 ac unwaith eto yn 2017-18<br>(ON Bydd GTC yn 2015-16 yn cyfrannu tuag at ddarparu tai Gofal Ychwanegol). |
| 3 | Bydd y Gwasanaeth Tai a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cydweithio'n agos i gefnogi mabwysiadu cynllun lleol sy'n cefnogi datblygu cartrefi fforddiadwy a thai sy'n cwrdd ag anghenion lleol. | Gwasanaeth Tai CSYM a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn Rhagfyr 2016 | - Nodi cyflenwad tir i gwrdd ag anghenion twf tai hyd at 2026<br>- sefydlu polisïau cynllunio sy'n cefnogi tai fforddiadwy a thai sy'n cwrdd ag anghenion lleol (10-30% o gartrefi mewn canolfannau gwasanaeth i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 o unedau neu fwy, ac ar safleoedd o 3 uned neu ragor mewn pentrefi | Amser staff. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwasanaeth. | |
| 4 | Bydd CSYM yn datblygu cynlluniau arloesol i ddarparu tai fforddiadwy trwy fodelau datblygu amgen gyda llai o gymhorthdal cyhoeddus. | CSYM yn gweithio gyda phartner datblygu | Cartrefi cyntaf 2016 -17 | Mwy o dai marchnad a thai fforddiadwy | Gallai'r cynlluniau ddefnyddio tir sector cyhoeddus a buddsoddiad gan bartner sector preifat |
| 5 | Safle preswyl parhaol a llecynnau aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr yn unol ag anghenion a nodwyd. | Gwasanaeth Tai CSYM; UPPC; cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr | 2016-17 | Datblygu llecynnau sy'n cwrdd â'r angen am fannau aros parhaol a dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr. | Disgwylir defnyddio cyfuniad o'r isod: Cais am gyllid i Lywodraeth Cymru;<br>Cronfa Gyfalaf CSYM. |
| 6 | Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy a chyfredol ar gael ynghylch lefel yr anghenion am dai mewn cymunedau yn Ynys Môn er mwyn cefnogi bidiau am gyllid a rhaglenni datblygu | Gwasanaeth Tai CSYM; LCC. | Diweddaru Asesiad o'r Farchnad Dai Leol(AFDL) yn 2015<br><br>Sefydlu Polisi Gosod Cyffredin newydd ar gyfer tai cymdeithasol yn 2015-16<br><br>Asesiad o Anghenion Tai Lleol | Gwybodaeth ddibynadwy ynghylch anghenion am dai yn Ynys Môn ar gael o<br><br>- AFDL wedi ei ddiweddaru<br>- gwybodaeth ar y Gofrestr o Dai Cymdeithasol wedi ei diweddaru yn unol â'r polisi gosod cyffredin. | Adnoddau staff mewnol.<br>Cyllid CRT |



| | **Thema 2 Gwneud y defnydd gorau o'r stoc gyfredol a gwella cartrefi a chymunedau** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiect/Tasg** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Amserlenni** | **Allbynnau** | **Adnoddau/Cyllid** |
| 7 | Bydd y Cyngor yn cyflawni targed blynyddol mewn perthynas â dod a chartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd. | Swyddog Cartrefi Gweigion yn cydlynu gwaith trawsadrannol yn CSYM (gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio, Treth Gyngor, Cyfreithiol) a hefyd yn gweithio gyda datblygwyr preifat ac LCC. | Targed Blynyddol – yn parhau | O leiaf 75 o gartrefi yn dod yn ôl i ddefnydd | Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi; Cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid |
| 8 | Caiff Strategaeth y Cyngor ar gyfer Cartrefi Gweigion ei hadolygu a'i | Swyddog Cartrefi Gweigion mewn ymgynghoriad gyda'r cydranddeiliaid | 2015 | Strategaeth addas i'r pwrpas ar gyfer Cartrefi Gweigion | Amser staff. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | diweddaru i gymryd i ystyriaeth newidiadau i'r trefniadau cyllido, grym i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfer cartrefi gweigion er mwyn gwneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ariannol. | | | sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor. | |
| 9 | Cyflawni'r rhaglen o welliannau i stoc y Cyngor | Gwasanaeth Tai yn gweithio gyda chontractwyr allanol. | Targed Blynyddol | Gwneir gwaith amgylcheddol/allanol sylweddol ar o leiaf 120 o gartrefi y mae'r Cyngor yn berchen arnynt | Cyfrif Refeniw Tai |
| 10 | Rhaglen o welliannau i gartrefi Cymdeithasau Tai | LCC sydd yn gweithio ar Ynys Môn – Grŵp Cynefin, Clwyd Alun, Cymdeithas Dai Gogledd cymru | | I'w gytuno | Cyllid Refeniw LCC |
| 11 | Bydd rhaglen o waith gwella y mae tenantiaid wedi dweud bod angen ei wneud ar stadau'r Cyngor yn parhau (e.e. gwell darpariaeth ar gyfer parcio) | Gwasanaeth Tai CSYM yn gweithio gyda Thenantiaid | 2016-17<br><br>Blynyddoedd yn y dyfodol | Gwario oddeutu £250,000 ar waith gwella ffyrdd a pharcio.<br>Gwelliannau ychwanegol mewn rhaglen i'w chytuno arni gyda'r Tenantiaid a Phriffyrdd | Cyfrif Refeniw Tai. |
| 12 | Rhoddir cymorth i annog gwaith wella ar stoc sector preifat trwy Gynllun Benthyciadau'r Cyngor (y disgwylir iddo gychwyn yn 2015) | Gwasanaeth Tai CSYM, yn gweithio gydag asiantaethau eraill gan gynnwys Gofal a Thrwsio | Yn parhau ar sail flynyddol | Gwella o leiaf 30 o gartrefi bob blwyddyn trwy fenthyciadau. | Cynllun Benthyciadau ar gyfer Gwella Cartrefi gan Lywodraeth Cymru a weinyddir gan CSYM. |
| 13 | Bydd rhaglen Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i ddarparu addasiadau i sicrhau bod pobl gydag anableddau'n gallu byw'n annibynnol.<br><br>(Yn 2013-14 roedd hi'n cymryd 213 o ddyddiau ar gyfartaledd yn Ynys Môn i gyflawni GCA o gymharu â chyfartaledd o 239 o ddyddiau yng Nghymru) | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn CSYM. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gofal a Thrwsio Môn. | Targed Blynyddol | CSYM yn cadw ei le yn y chwartel uwch o berfformwyr yng Nghymru o ran amserlen. | Grant Cyfalaf(CSYM).<br><br>Cyllid gan y Cymdeithasau Tai ar gyfer eu tenantiaid eu hunain<br><br>Cyllid gan Lywodraeth Cymru'n cefnogi Gofal a Thrwsio.<br><br>Hefyd wedi derbyn Arian Rhaglen Addasiadau Brys gan Llywodraeth Cymru. |
| 14 | Bydd CSYM yn gweithio mewn | Gwasanaeth Tai CSYM yn gweithio | Bob blwyddyn | Bidiau cyllido llwyddiannus | Cyllid Arbed ac Eco (bydd angen |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill (e.e. wedi cydweithio'n ddiweddar gyda Chyngor Sir Y Fflint) er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i gael cyllid a fydd yn sicrhau cynlluniau effeithlonrywdd ynni mewn cartrefi sector preifat a chyhoeddus ar yr ynys. | mewn partneriaeth gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru | | yn golygu y bydd grwpiau o dai yn fwy ynni effeithlon ar yr ynys | sicrhau'r cyllid hwn drwy gyflwyno bidiau llwyddiannus).<br><br>Amser staff |
| 15 | Cryfhau trefniadau cydweithio gyda landlordiaid preifat yn Ynys Môn. | Timau Tai, Iechyd yr Amgylchedd a Budd-dal CSYM; Landlordiaid Lleol ac Asiantaethau Gosod | Yn parhau bob blwyddyn | O leiaf 1 fforwm Landlordiaid; 2 digwyddiad diweddaru; 4 cyfarfod o'r is-grŵp Landlordiaid bob blwyddyn i'w hwyluso gan y Cyngor. | Amser staff; cyllidebau adrannol cyfredol; cyllid trawsnewid gan Lywodraeth Cymru( i gynorthwyo gyda chyflwyno Deddf Tai(Cymru). |
| 16 | Bydd CSYM yn gweithio gyda darparwyr tai i hyrwyddo cymunedau lle mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. | | | | |
| a) | Bydd darparwyr tai cymdeithasol yn gwella<br>a) Eu dealltwriaeth o faterion sy'n cryfhau cydluniant cymunedol (e.e. mewnfudo, troseddau casindeb)<br>b) A byddant â pholisïau priodol ar gael i roi sylw i'r rhain a'u hatal | Gwasanaethau Tai CSYM ac LCC yn gweithio gyda chydranddeiliaid eraill gan gynnwys yr Heddlu a chefnogi darparwyr gyda chymorth gan y Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol | Yn barhaus drwy gydol cyfnod y Strategaeth | Bydd y rhain yn cynnwys<br>- Bydd sefydliadau tai yn defnyddio ac yn diweddaru'r data ar droseddau casineb y cafwyd gwybod amdanynt, mewnfudo a demograffeg cymunedol sy'n newid er mwyn rhoi sylw i densiynau yn fuan<br>- Staff Tai i dderbyn hyfforddiant mewn perthynas â nodi ac ymateb i Trosedd | Amser Staff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Casineb<br>- Gweithwyr tai yn fwy ymwybodol o'r risg o gaethwasiaeth fodern | |
| | (c) Gwasanaethau Tai CSYM i weithredu Polisi Trais Teuluol yn stoc tai eu hunain. | Gwasanaethau Tai CSYM | Gweithredu'r Polisi yn 2015 | Holl staff rheng flaen wedi'i hyfforddi cyf. Trais Teuluol. Cyfeirlyfr o wasanaethau i gefnogi dioddefwyr | Cyllideb CRT sy'n bodoli. |
| b) | Gweithredir y Ddeddf Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. | Gwasanaethau Tai CSYM | Erbyn Gorffennaf 2015 | Bydd Polisïau a Gweithdrefnau newydd sy'n adlewyrchu dull y Cyngor o ran rhoi sylw i YG ac ymgorffori pwerau newydd Deddf 2014 yn cael eu sefdylu | Amser Staff |



| | **Thema 3 Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiect/Tasg** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Amserlenni** | **Allbynnau** | **Adnoddau/Cyllid** |
| 17 | **Bydd gwasanaethau cynghori ar faterion tai a ddarperir gan y Cyngor yn ymateb i'r dyletswyddau newydd i atal digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 ac yn gwella'r profiad i gwsmeriaid trwy:** | | | | |
| a) | Adolygu strwythur y tîm Opsiynau Tai i ddarparu cyngor yn well ar gyfer yr holl gwsmeriaid. | Gwasanaethau Tai CSYM | Strwythur newydd ar gyfer y tîm opsiynau tai erbyn yn gynnar yn 2015 | Strwythur sy'n sicrhau<br>- Bod yr holl gwsmeriaid sy'n gofyn am eu hopsiynau tai yn cael cyngor cyn pen 5 niwrnod gwaith i'r cyswllt cyntaf<br>- Cyfweliad opsiynau tai strwythuredig ar gael i bob | Adnoddau presennol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cwsmer sydd angen cyngor neu gymorth i ddod o hyd i dai addas. | |
| b) | Sicrheir mwy o fynediad i'r sector rhent preifat trwy becyn o fesurau i gefnogi ac annog landlordiaid preifat i ddarparu llety. | Tîm Opsiynau Tai CSYM yn gweithio gyda landlordiaid sector preifat | Adroddiadau blynyddol o 2015 | Bydd canran y rheini sy'n gofyn am gymorth digartrefedd ac sy'n cael tenantiaethau yn y sector rhent preifat yn codi.<br><br>Bydd y niferoedd sy'n cael blaendal/bondiau yn codi. | Adnoddau cyfredol; cynllun trawsnewid gan Lywodraeth Cymru (i gynorthwyo gyda chyflwyno Deddf Tai(Cymru)). |
| 18 | Bydd adolygu'r system gosod tai yn golygu y bydd pobl yn medru cofrestru<br>• Yn rhwydd ar gyfer tai cymdeithasol, tai rhent canolraddol neu gynlluniau perchenogaeth tai fel sy'n briodol i'w hamgylchiadau.<br>• Gwell dealltwriaeth o'u rhagolygon o gael cartref | CSYM yn gweithio gyda phartneriaid LCC a Chyngor Gwynedd (Tai Teg) | Sefydlu polisi gosod cyffredin erbyn 15-16. | Gostyngiad mewn costau a'r amser a dreulir gan staff ar gynnal y rhestr aros a gosod tai cymdeithasol.<br><br>Niferoedd sydd wedi eu cofrestru ar gyfer gwahanol fathau o gartrefi fforddiadwy. | Adnoddau cyfredol; Cyfraniadau gan LCC. |
| 19 | Gostwng y risg y bydd mesurau Diwygio Lles yn cael effaith negyddol ar allu trigolion Môn i gael a chadw tai diogel. Gwneir hyn trwy barhau gyda chynlluniau sydd yn :<br><br>Gwella gwybodaeth cwsmeriaid am newidiadau diwygio lles, yn unol â chyflwyno camau allweddol<br>• Credyd Cynhwysol<br>• Meini Prawf Maint Cymdeithasol<br>• Cap Budd-daliadau<br>• Taliadau Annibyniaeth | CSYM – Rheolydd Prosiect Diwygio Lles, Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaeth Budd-dal Tai. Sefydliadau trydydd sector.<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Iechyd<br>Cymdeithasau Tai | Cesglir gwybodaeth bob chwarter yn erbyn y Cynllun Prosiect Diwygio Lles 2012-2017. | Bydd y Gwasanaethau Tai yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Prosiect a Fforwm Cydranddeiliaid Prosiect Diwygio Lles CSYM<br>Bydd y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi a Chynhwysiad Ariannol yn cyfrannu at bobl yn | Bydd cyllideb gyfredol y Prosiect Diwygio Lles a bidiau am gyllid ychwanegol yn cefnogi ffrydiau gwaith newydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bersonol<br><br>. | Landlordiaid y Sector Breifat | | gallu rheoli eu costau tai eu hunain.<br>• Nifer y digwyddiadau ar y cyd a gynhelir yn Ynys Môn i roi cyhoeddusrwydd i newidiadau Diwygio Lles.<br>• Gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr sy’n ailymgeisio am daliadau tai dewisol<br>• Gostyngiad yn nifer y Tenantiaid Cymdeithasol sydd â dyledion rhent oherwydd Diwygio Lles.<br>• Uchafu incwm | |
| 20 | Cwblhau Strategaeth Digartrefedd newydd ar gyfer Ynys Môn.<br>Yn unol â Deddf Tai(Cymru) 2014 rhaid i Awdurdodau Lleol sefydlu strategaeth erbyn 2018. | Timau Tai a Chefnogi Pobl CSYM yn gweithio gyda Fforwm Digartrefedd Ynys Môn, LCC partneriaid trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth. | Datblygu a chwblhau yn 2015. | Strategaeth a Chynllun Gweithredu a fydd yn cynnal gostyngiadau yn nifer y bobl ddigartref. | Defnyddio’r adnoddau cyfredol yn fwy effeithiol. |
| 21 | Adolygu swyddogaeth y Fforwm Digartrefedd i sicrhau y gall roi arweinyddiaeth strategol gref i atal digartrefedd ar yr Ynys. | Uwch Reolwyr o’r asiantaethau sy’n rhoi cymorth i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. | Rhagfyr 2015 | O leiaf 3 chyfarfod o’r fforwm newydd bob blwyddyn.<br><br>Y fforwm yn datblygu a gweithredu cynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd newydd. | O fewn yr adnoddau cyfredol. |
| 22 | Gwaith atal digartrefedd yn cynnal y lefel isel gyfredol o achosion digartrefedd y mae gan y Cyngor brif | | Targed blynyddol – yn parhau | Niferoedd yr achosion digartrefedd y mae gan y Cyngor brif ddyletswydd tuag | Ailfodelu’r adnoddau staffio cyfredol a chyllid trawsnewid gan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddyletswydd tuag atynt. | | | atynt yn parhau i fod yn 70 neu'n llai bob blwyddyn. | Lywodraeth Cymru. |

| | Thema 4 Cymorth i hyrwyddo annibyniaeth tai | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiect/Tasg** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Amserlenni** | **Allbynnau** | **Adnoddau/Cyllid** |
| 23 | Atal digartrrefedd trwy ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn y tymor byr | Deiliaid contractau Cefnogi Pobl | Targed Parhaus adroddiad pob 6 mis<br><br>Canran o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn symud ymlaen mewn ffordd sydd wedi ei chynllunio yn hytrach nag ymadael heb unrhyw gynllun | Ymyrraethau llwyddiannus yn caniatáu i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ddod o hyd i lety neu ddelio gyda'r broblem heb eu rhoi mewn perygl o ddigartrefedd | Y gyllideb CP gyfredol |
| 24 | Cynnal y ddarpariaeth o lety diogel ar gyfer dioddefwyr trais domestig | Cydweithio rhwng timau Cefnogi Pobl Gwynedd ac Ynys Môn.<br>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Chydlynydd TD | Targed Parhaus - adroddiad pob 6 mis | Cydlynydd TD yn parhau i gynorthwyo o leiaf 25 o bobl ar gyfartaledd ar unrhyw un adeg | Defnyddio'r gyllideb CP yn wahanol. |
| 25 | Gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gael i fwy o bobl gydag anghenion iechyd meddwl | Tîm Cefnogi Pobl CSYM yn gweithio gyda deiliaid contractau Cefnogi Pobl | Wedi ei ailfodelu o 2016-17 | 50 o bobl ar gyfartaledd gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael cymorth i gynnal eu tenantiaid a'u hannibyniaeth bob 6 mis. | Defnyddio'r gyllideb CP yn wahanol. |
| 26 | Gwell cymorth tai ar gyfer pobl sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yng Ngogledd Cymru | Elusen Alabaré yn gweithio gyda Grŵp Cynefin, CC Conwy ac awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru. | 2015-16 | Cymorth llety ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog gydag anghenion canolig/isel i'w ddatblygu yn ardal Conwy | Defnyddio'r gronfa ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog (Libor) creu 72 o lecynnau gwely ar gyfer cyn-filwyr ar draws Cymru) |
| 27 | Bydd prosiect ymyrraeth gynnar ar gyfer troseddwyr yn gostwng digartrefedd ymysg y rheini sy'n gadael carchar ac yn cynorthwyo i ostwng lefelau aildroseddu. | Cymorth Tai CSYM<br>Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol<br>Cwmni Adsefydlu Cymunedol | 2014-15 – 10 o bobl yn cael cymorth ar unrhyw adeg<br>2015-16 – 20 o bobl yn cael cymorth ar unrhyw | Troseddwyr sy'n dod i mewn i'r system garchar yn cael cymorth i gadw eu llety ac yn llai tebygol o fod angen cymorth fel pobl | Adnoddau cyfredol.<br><br>Cais am gyllid i Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Drawsnewid |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Heddlu | adeg os bydd y cais am gyllid yn llwyddiannus | ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau. | |

| | **Thema 5 Cartrefi ar gyfer bywydau hirach** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiect/Tasg** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Amserlenni** | **Allbynnau** | **Adnoddau/Cyllid** |
| 28 | Cychwyn rhoi cymorth yn y maes tai ar gyfer pobl hŷn o hybiau lleol – cyngor a fydd ar gael i bobl sy'n byw mewn pob math o ddeiliadaethau. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. | Tim Cefnogi Pobl CSYM;<br>Tîm Rheoli Tai CSYM;<br>Tenantiaid cynlluniau tai gwarchod cyfredol | Gwasanaeth wedi ei ailfodelu yn cychwyn gweithredu yn 2015-16 | O leiaf 200 o bobl yn derbyn cymorth bob blwyddyn i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. | Ailfodelu'r defnydd o'r cyllid cefnogi pobl. |
| 29 | Datblygu tri o gynlluniau gofal ychwanegol yn Ynys Môn. | Gwasanaethau Tai a Gofal Cymdeithasol i Oedolion CSYM.<br>Partneriaid LCC | Gweithredol yn ystod:<br>2017 -<br><br>2018 - | Cynlluniau Gofal Ychwanegol yn:<br>• Amlwch<br>• Llangefni<br>• De'r Ynys | Grant Tai Cymdeithasol, Tir yr Awdurdod Lleol, gwariant cyfalaf yr Awdurdod Lleol a benthyciadau a benthyciadau cymdeithasau tai. |
| 30 | Bydd cynlluniau Gofal Ychwanegol newydd yn cefnogi pobl gydag ystod o anghenion gofal, gan gynnwys traean gydag anghenion uwch a fyddai fel arall wedi mynd i gartrefi preswyl. | Gwaith partneriaeth rhwng Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol CSYM, Awdurdod Iechyd a'r LCC sy'n rheoli'r cynllun. | Ei gyflawni wrth i gynlluniau ddod yn weithredol | Cynlluniau Gofal Ychwanegol yn darparu'r budd mwyaf o ran cefnogi byw'n annibynol. | Amser staff. |
| 31 | Bydd y cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael i bobl hŷn yn cael eu hadolygu i sicrhau fod pobl â mwy o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael ac y gallant gael at y wybodaeth y maent ei hangen. Ystyrir hyn ochr yn ochr â datblygu hybiau cymunedol. | Gweithgor yn cynnwys Cefnogi Pobl;<br>Opsiynau Tai; sefydliadau trydydd sector yn gweithio gyda phobl hŷn.<br>Ymgynghori gyda phobl hŷn | Erbyn 2016 | Cyngor a gwybodaeth mwy cydlynol a hwylus mewn perthynas ag opsiynau tai i bobl hŷn | Amser staff |



| | **Thema 6 Gwireddu'n llawn y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiect/Tasg** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Amserlenni** | **Allbynnau** | **Adnoddau/Cyllid** |
| 33 | Llety ar gyfer gweithwyr Wylfa Newydd; | Horizon; Rheolydd | Gorffennaf 2015 | Cam 1 y prosiect | Grant Arloesedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Prosiect Hyb Tai yn sefydlu asiantaeth i reoli'r llif o weithwyr dros dro. | Prosiect Hyb Tai CSYM a'r Tim Ynys Ynni; Cydraddeiliaid gan gynnwys LCC, Asiantaethau Gosod, Prifysgol Bangor | Erbyn 2017 | Sefydlu model ar gyfer yr hyb erbyn 2017. | Cymunedol/Grant gan Horizon. |
| 34 | Rhaglen LlLlA yn sicrhau adfywiad tai yng Nghaergybi trwy adeiladu o'r newydd, dod ag eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd a moderneiddio cartrefi is-safonol. | CSYM – Timau Tai a Datblygu Cynaliadwy yn gweithio gyda datblygwyr preifat ac LCC. | Erbyn Mawrth 2017. | Dod a 14 o gartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd. 39 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol | Mae £2.6m o'r cyllid LlLlA gan Lywodraeth Cymru ar gyfer galluogi cartrefi newydd a gwella'r stoc gyfredol rhwng 2014-2017 |
| 35 | Datblygu Cynllun Meistr ar gyfer tai yn ardal Caergybi gan gynnwys:<br>• Nifer a math y tai sydd eu hangen yng Nghaergybi<br>• Blaenoriaethau adfywio tai | Gwasanaethau Tai CSYM, Datblygu Economaidd, Trigolion a Chynghorwyr Lleol, Cymdeithasau Tai, Cymunedau'n Gyntaf Môn | I'w gytuno | Sylfaen wybodaeth well ar gyfer prosiectau tai newydd a sicrhau'r buddsoddiad mwyaf effeithiol yng Nghaergybi | VVP |
| 36 | Sicrhau buddion gwaddol yn sgil adeiladu llety pwrpasol ar gyfer gweithwyr Wylfa Newydd. | Timau Tai a Chynllunio CSYM | Sefydlu cytundebau 106 ar gyfer llety pwrpasol cyn y prif waith adeiladu o 2017 ymlaen. | Cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol ar ôl i'r gwaith adeiladu yn Wylfa Newydd ddod i ben. | Adnoddau staff cyfredol. |
| 37 | Rhaglen LlLlA yn cyflawni buddion cymunedol/cyflogau o ganlyniad i fuddsoddiad ychwanegol mewn tai yn ardal Caergybi | CSYM mewn partneriaeth gyda'r sector preifat a phartneriaid trydydd sector. | Adroddiad blynyddol hyd at 2017 | 60 mwy o gartrefi ynni-effeithlon.<br>70 o gyfleon ar gyfer swyddi/hyfforddiant sy'n gysylltiedig a thai.<br>Buddsoddiad o £21,220k mewn prosiectau tai o du'r sector preifat(yn ogystal â chyllid grant). | Cyllid LlLlA a buddsoddiad gan y sector preifat |
| 38 | Landloriaid cymdeithasol yn Ynys Môn i ddilyn | Gwasanaeth Tai CSYM | Blynyddol | Nifer a gwerth y | Gwariant cyfredol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru gan Lywodraeth Cymru i sicrhau buddion lleol o ran swyddi a buddsoddiad trwy wariant ar dai | | | contractau a ddyfarnwyd i gwmnïau lleol.<br>Gwerth Cymru yn cael ei ddefnyddio fel teclyn mesur. | |

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

**Rhan A – Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Dyddiad cychwyn: Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2014

**RHAN A – Cam 1: Paratoi**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth sy'n cael ei asesu? | Strategaeth Dai Leol CSYM 2014-2019 |
| 2. | Ydy'r polisi yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Yn disodli'r Strategaeth Dai Leol flaenorol ar gyfer Ynys Môn |
| 3. | Beth yw nodau a phwrpas y polisi yma? | Mae'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn yn cwrdd â dyletswydd statudol y Cyngor i roi arweiniad o ran gwella gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer yr ynys. Mae'n egluro'r sail tystiolaeth ar gyfer anghenion tai'r sir a'r canlyniadau blaenoriaeth i'r Cyngor o ran cwrdd â'r rhain. |
| 4. | Pwy sydd yn gyfrifol am y polisi sy'n cael ei asesu? | Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygu |
| 5. | Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr AEC yma? | Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygu |
| 6. | Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr AEG yma? | Rheolwyr eraill sy'n gyfrifol am feysydd gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | Oes yna gyswllt rhwng y polisi yma a pholisïau/meysydd gwaith eraill? | Mae'r Strategaeth Dai'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn. |
| 8. | Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? | Holl ddinasyddion Ynys Môn o bosib, ond yn enwedig y rheini sy'n fregus ac / neu sy'n cael trafferth i gwrdd â'u hanghenion tai ar y farchnad agored. Mae grwpiau y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt yn cynnwys pobl hŷn, pobl gydag anableddau a'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan amddifadedd cymdeithasol.<br><br>Mae partneriaid allweddol o ran darparu tai gwell yn cynnwys darparwyr tai (cymdeithasau tai, landlordiaid preifat), sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth tai a chynorthwyo'r digartref, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd lleol. |



| 9 - Ydy'r polisi'n berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod ar sail oed; anabledd; rhyw; newid rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, ethnigrwydd neu genedligrwydd; crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol? | Ydy' | Nac ydy' |
|---|---|---|
| Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | **Y** | |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | **Y** | |
| Meithrin perthynas dda | **Y** | |
| Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | **Y** | |

**RHAN A – Cam 2: Casglu gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| 10 - A yw'r polisi / maes gwaith yma'n sicrhau cydraddoldeb i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor? | Bydd yn bwysig sicrhau fod y ddarpariaeth neu'r gwasanaethau tai sy'n newid neu sy'n cael eu datblygu drwy'r Strategaeth yn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith y Cyngor er mae'n annhebygol y bydd y strategaeth yn peri risg uniongyrchol iddo. |
| 11 - Oes cyfle drwy'r polisi / maes gwaith i gynnig  mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Bydd y Strategaeth o gymorth i gefnogi'r Iaith Gymraeg mewn cymunedau yn Ynys Môn drwy helpu i fynd i'r afael â'r prinder o dai fforddiadwy mewn nifer o gymunedau sydd, ar hyn o bryd, yn golygu na fedr pobl ifanc leol barhau i fyw yn eu cymunedau genedigol. Dylai hynny yn ei dro gryfhau'r Iaith Gymraeg mewn cymunedau a chefnogi ei defnydd mewn ysgolion a gweithgareddau cymunedol.<br><br>Mae'r Strategaeth yn offeryn pwysig i gryfhau a balansio cymunedau drwy geisio sicrhau bod tai o'r maint a'r math iawn yn cael eu datblygu neu eu hadnewyddu i gwrdd â demograffeg sy'n newid.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, cynhelir asesiadau o'r effaith y mae polisïau unigol y sonnir amdanynt yn y Strategaeth megis newidiadau i'r system gosod tai a moderneiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn ei chael ar yr Iaith Gymraeg. |
| 12 - Pa gyfraniad posibl sy'n cael ei gynnig drwy'r polisi / maes gwaith yma tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn ffynnu ac yn llwyddo? | Mae'r Strategaeth yn offeryn pwysig i gryfhau a balansio cymunedol drwy geisio sicrhau bod tai o'r maint a'r math iawn yn cael eu datblygu neu eu hadnewyddu i gwrdd â demograffeg sy'n newid.<br><br>Bydd hyn, yn ychwanegol at y pwyntiau y sonnir amdanynt yn 11) uchod o gymorth i gefnogi gwerthoedd diwylliannol lleol ac ymateb yn rhagweithiol i risgiau megis y mewnlifiad o weithwyr mewn perthynas â gorsaf bŵer Wylfa Newydd. |
| 13 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol?<br>Os oes, beth yw'r materion yma?<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol sydd yn y Ddeddf Hawliau Dynol wedi'u rhestru yn Atodiad | Ni fyddai'r strategaeth yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol.<br><br>Dylai gefnogi Erthygl 8 – hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol drwy sicrhau llety digonol a phriodol ar gyfer pob aelwyd. |

| | |
|---|---|
| 1) . | |
| 14 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r polisi yma? | Cafodd y Strategaeth ddrafft ei datblygu drwy drafod gyda staff sy'n cynrychioli'r gwahanol elfennau sy'n ymwneud â thai drwy'r Cyngor (e.e. Cefnogi Pobl, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Iechyd yr Amgylchedd, Opsiynau Tai, Swyddog Cydlyniant Cymunedol). Gwahoddwyd yr holl Gynghorwyr Sir i weithdy. Ymgynghorwyr hefyd gyda LCC Lleol a chyda Fforwm Digartrefedd yr Ynys.<br><br>Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 2 fis ar wefan y Cyngor, rhoddwyd dolenni ar wefannau cydranddeiliaid, dosbarthwyd taflenni i lyfrgelloedd ac yn Sioe Môn, anfonwyd llythyrau/e-byst at Gynghorau Cymuned ac amrediad o gydranddeiliaid sector cyhoeddus a sector gwirfoddol.<br><br>Roedd yr ymatebion yn cefnogi'n gyffredinol ganlyniadau'r Strategaeth a gofynnodd eraill am waith/pwyslais ychwanegol ar rai agweddau o'r Strategaeth gan gynnwys<br>• Sicrhau fod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol a thrwy hynny, warchod gwasanaethau cymunedol a diwylliant lleol<br>• Pwysigrwydd cael y cartrefi iawn i bobl hŷn<br>• Risgiau o ran cynyddu anghydraddoldeb ac amddifadedd cymdeithasol sydd yn cael eu heffeithio yn eu tro gan doriadau i wariant a risgiau i wasanaethau<br><br>Gwnaed ymchwil penodol hefyd i nifer o feysydd tai y soniwyd amdanynt yn fras yn y Strategaeth, yn arbennig y rhaglen ar gyfer trawsnewid gwasanaeth i oedolion hŷn, darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, datblygu Cynllun Lleol Ynys Môn, effeithiau Wylfa Newydd ar Ynys Môn. |
| 15 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Mae gan Tai yn gyffredinol sylfaen wybodaeth gref oherwydd mae asesiad cyfredol ar gael o'r Farchnad Dai Leol ac mae wedi comisiynu ymchwil i effeithiau penodol datblygiadau megis Wylfa Newydd a phrosiectau economaidd mawr cysylltiedig.<br>Bydd yn bwysig parhau â hyn er mwyn sicrhau fod data ar gael ar gyfer ardaloedd allbwn lefel isel (h.y. lefel Cyngor Cymuned a Ward) oherwydd yr amrywiadau mewn anghenion tai a chymdeithasol mewn gwahanol rannau o'r ynys. O ran rhai o'r nodweddion a warchodir, dim ond data cenedlaethol sydd ar gael weithiau. Yn enwedig o ran polisïau sy'n ymwneud yn benodol â'r cwsmer (e.e. gosod tai, mynediad i wasanaethau megis GCA, benthyciadau ac ati), bydd yn bwysig parhau i fonitro cydraddoldeb ac, mewn rhai achosion, ei wella er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad. |

**RHAN A – Cam 3: Ystyried yr effaith debygol**

*Ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir, manylwch yn y golofn ar y dde yn y tabl isod, os gwelwch yn dda:

(1) unrhyw adroddiadau, ystadegau, gwefannau, linciau ayyb sy'n berthnasol i'ch dogfen / cynnig ac sydd wedi cael eu defnyddio fel rhan o'ch asesiad; a/neu

(2) unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth neu staff; a/neu

(3) unrhyw wybodaeth arall sydd wedi'i gynnwys yn eich asesiad o'r effaith debygol

**Er mwyn penderfynu beth yw'r effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda:
Negyddol - uchel; Negyddol - canolig; Negyddol - isel; Niwtral; Cadarnhaol - isel; Cadarnhaol - canolig; Cadarnhaol – uchel; Dim effaith/ddim yn berthnasol

| **Y grŵp a warchodir** | ****Yr effaith debygol** | ***Manylion** |
|---|---|---|
| Oed | **Uchel Cadarnhaol** | Data a ddefnyddiwyd: Data Cyfrifiad 2011<br>Ystadegau Cymru – yn arbennig felly o ran y rhagdybiaethau o'r newid yn y boblogaeth<br>Asesiad Anghenion Pobl Hŷn Ynys Môn 2013-2033 (Tai, Llety a Chymorth cysylltiedig)<br><br>Bydd nifer o dasgau yn y Strategaeth (darparu 3 o Gynlluniau Gofal Ychwanegol, Model Hyb Cymunedol ar gyfer darparu cymorth tai i bobl hŷn) yn ychwanegu at y dewis ac yn gwella ansawdd y llety i bobl hŷn. |
| Anabledd | **Canolig Cadarnhaol** | Data a ddefnyddiwyd: Cyfrifiad 2011<br>Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol<br><br>Mae'r Strategaeth yn tanlinellu pwysigrwydd gwarchod gwasanaethau i bobl gydag anableddau er bod toriadau o ran gwariant cyhoeddus yn gwneud hyn yn anodd. Yn ychwanegol at hyn, rhoddir sylw i anghenion penodol megis anabledd corfforaethol wrth godi tai newydd neu adnewyddu tai. |
| Rhyw | **Niwtral** | Data a ddefnyddiwyd: Cyfrifiad 2011<br>Ystadegau Cymru<br><br>Dim arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Wrth ganolbwyntio ar nodi ac ymateb i angen, dylid sicrhau cydraddoldeb cyfle. |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion |
|---|---|---|
| Newid Rhyw | **Niwtral** | Nid yw gwybodaeth benodol am y grŵp hwn ar Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes arwydd o unrhyw effaith negyddol ar y grŵp hwn. Wrth ganolbwyntio ar nodi ac ymateb i angen, dylid sicrhau cydraddoldeb cyfle. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Niwtral** | Nid yw gwybodaeth benodol am y grŵp hwn ar Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes arwydd o unrhyw effaith negyddol ar y grŵp hwn. Wrth ganolbwyntio ar nodi ac ymateb i angen, dylid sicrhau cydraddoldeb cyfle. |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Canolig Cadarnhaol** | Data a ddefnyddiwyd: Cyfrifiad 2011<br>Ystadegau Cymru<br><br>Dim ond 1.8% o'r boblogaeth ar adeg cyfrifiad 2011 oedd o gefndir ethnig nad oedd yn wyn. Mae'r nifer hwn wedi tyfu ers y cyfrifiad hwnnw.<br>Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r rhaglen cydlyniant cymunedol sy'n cynnwys cydnabod y pwysigrwydd o fod yn rhagweithiol i annog goddefgarwch a pharch yn arbennig felly yn wyneb y posibilrwydd o fewnfudo cynyddol. Gallai hyn fod yn gynyddol berthnasol gyda dyfodiad nifer o weithwyr ychwanegol yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. |
| Crefydd neu Gred | **Canolig Cadarnhaol** | Data a ddefnyddiwyd: Cyfrifiad 2011<br>Ystadegau Cymru<br><br>Yr un modd â'r uchod, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynhwysiad yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Canolig Cadarnhaol** | Data a ddefnyddiwyd: Cyfrifiad 2011<br>Ystadegau Cymru<br><br>Yr un modd â'r uchod, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynhwysiad yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. |
| Yr iaith Gymraeg | **Canolig Cadarnhaol** | Data a ddefnyddiwyd: Cyfrifiad 2011<br>Ystadegau Cymru<br><br>Fel yr amlinellir yn 11) uchod, bydd datblygu rhagor o gartref fforddiadwy sy'n cwrdd ag anghenion y gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg. |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion |
|---|---|---|
| Hawliau Dynol | **Canolig Cadarnhaol** | Gweler 13) uchod. |

---

**RHAN A – Cam 4: Canlyniad yr asesiad cychwynnol**

| | |
|---|---|
| Ydy' Canlyniad yr asesiad cychwynnol yn mynd i symud ymlaen i Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn? | Nac Ydyw |
| | Nodwch y rhesymau dros y penderfyniad:<br>Mae'r Strategaeth Dai Leol yn seiliedig ar sail dystiolaeth sy'n ceisio deall yr angen am dai fforddiadwy a thai arbenigol a gwasanaethau tai holl ddinasyddion yr ynys. Mae'r sail dystiolaeth hon ar y cyfan yn gryf ac mae'r Strategaeth yn cynnwys yr amcan i sicrhau fod y sail dystiolaeth yn cael ei diweddaru a'i gwella. Yn ychwanegol at hyn, er bod y Strategaeth yn nodi newidiadau ac ychwanegiadau posibl i wasanaethau tai, byddai'n rhaid i newidiadau mawr gael eu sgriwtineiddio ymhellach a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys ystyried yr effaith ar Gydraddoldeb. |
| Os na, oes yna unrhyw faterion sydd angen sylw? | Bydd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth yn cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Fel y dywedwyd uchod, bydd unrhyw newidiadau mawr i wasanaethau yn agored i ymgynghori a sgriwtini pellach cyn cael eu mabwysiadu. |
| | Nodwch y manylion: |

Os rydych wedi penderfynu **bod angen cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llawn,** ewch ymlaen i **Rhan B** os gwelwch yn dda.

Os rydych wedi penderfynu **peidio symud ymlaen i Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llawn,** ewch ymlaen i **Rhan C – Adroddiad ar y Canlyniad.**

# Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) - CANLYNIAD

**RHAN C – Cam 1: Adroddiad ar y Canlyniadau**

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Cyngor Sir Ynys Môn |
| | |
| | |
| Beth sy'n cael asesiad:<br>(Rhan A – cam 1) | Strategaeth Dai Leol Cyngor Sir Ynys Môn 2014-2019 |
| | |
| Amlinelliad byr o'r nodau ac amcanion:<br>(Rhan A – cam 1) | Mae'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn yn cwrdd â dyletswydd statudol y Cyngor i roi arweiniad o ran gwella gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer yr ynys. Mae'n egluro'r sail tystiolaeth ar gyfer anghenion tai'r sir a'r canlyniadau blaenoriaeth i'r Cyngor o ran cwrdd â'r rhain. |
| | |
| A symudwyd ymlaen i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn o ganlyniad i'r asesiad cychwynnol?<br>(RHAN A – Cam 4) | Naddo |
| | Nodwch y rhesymau dros y penderfyniad:<br><br>Mae'r Strategaeth Dai Leol yn seiliedig ar sail dystiolaeth sy'n ceisio deall yr angen am dai fforddiadwy a thai arbenigol a gwasanaethau tai holl ddinasyddion yr ynys. Mae'r sail dystiolaeth hon ar y cyfan yn gryf ac mae'r Strategaeth yn cynnwys yr amcan i sicrhau fod y sail dystiolaeth yn cael ei diweddaru a'i gwella. Yn ychwanegol at hyn, er bod y Strategaeth yn nodi newidiadau ac ychwanegiadau posibl i wasanaethau tai, byddai'n rhaid i newidiadau mawr gael eu sgriwtineiddio ymhellach a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys ystyried yr effaith ar Gydraddoldeb. |
| Os na, oes yna unrhyw faterion sydd angen sylw? | |
| | Nodwch y manylion: |

| | |
|---|---|
| Os do, beth oedd canlyniad yr asesiad llawn? | |

| | |
|---|---|
| A fydd y polisi' n cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo ar 12 Ionawr a'r Cyngor ar 26 Chwefror 2015. |
| | Os na, nodwch, os gwelwch yn dda, beth yw'r rheswm dros hynny, ynghyd ag unrhyw weithredu pellach sydd angen ei wneud: |

| | |
|---|---|
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Bydd Partneriaeth Dai Ynys Môn yn monitro'r Strategaeth Dai Leol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni. |

| | | |
|---|---|---|
| Pwy yw'r Swyddog Arweiniol? | Enw: | Lucy Reynolds |
| | Teitl: | Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygu |
| | Adran: | Gwasanaethau Tai |
| Dyddiad adolygu'r polisi a'r asesiad effaith: | Byddai'r cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth a'r AEG yn cael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2015. | |

| | | |
|---|---|---|
| Enwau'r holl bartïon a gymerodd rhan yn yr asesiad yma | Enw | Teitl |
| | Lucy Reynolds | Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygu |
| | | |

Noder os gwelwch yn dda: Dylid atodi Cynllun Gweithredu at yr Adroddiad yma ar Ganlyniadau cyn ei gwblhau.

**RHAN C – Cam 2 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r AEG. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## ATODIAD 1 – HAWLIAU DYNOL

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth.  Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'.  Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **Dyddiad:** | **26 Chwefror 2015** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad ar yr Adolygiad o Bolisi Masnachu ar y Stryd yr Awdurdod** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. John Arwel Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Jim Woodcock** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Merfyn Jones**<br>**01248 752847**<br>**dmjpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| **I gymeradwyo'r adroddiad a mabwysiadu'r Polisi diwygiedig - yn dilyn Adolygiad o Bolisi Masnachu ar y Stryd yr Awdurdod** |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Roedd y polisi cyfredol yn hen ac yn gyfyngol ac oherwydd bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu’r Ddeddfwriaeth ers 1982, yr opsiwn gorau oedd adolygu, diwygio a moderneiddio’r Polisi cyfredol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae unrhyw beth sy’n ymwneud â Masnachu ar y Stryd yn fater i’r Cyngor Llawn. |

| CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy – Mae unrhyw weithgareddau sy’n ymwneud â Masnachu ar y Stryd dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 gan gynnwys mabwysiadu’r ddeddfwriaeth dan adran 3 a dynodi strydoedd dan baragraff 2 Atodlen 4, yn swyddogaethau i’r Cyngor yn hytrach na’r Pwyllgor Gwaith – a hynny’n unol â rheoliad 3 a pharagraff 17 Rhan B Atodlen 1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007/399. |

CC-14562-LB/193934

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nid oes unrhyw gost ychwanegol i'r Awdurdod a gallai'r Policy arwain at gynnydd mewn incwm. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Wedi cymeradwyo'r polisi. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | Cytunwyd i asesu ceisiadau ar eu rhinweddau eu hunain. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ni dderbyniwyd sylwadau |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Priffyrdd – Wedi cytuno i werthuso pob cais ar ei rinweddau ei hun.<br><br>Asiantaeth Priffyrdd y DU – Wedi cytuno ar y diffiniad o ardaloedd lle na fedrir masnachu ar y stryd o gwbl.<br><br>Heddlu – Dim sylwadau |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Y Weledigaeth ydyw creu profiad masnachu ar y stryd sydd yn amrywiol a bywiog, yn ychwanegu gwerth i wead economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Môn, ac yn diogelu a gwella ein hamgylchedd, ac yn hyrwyddo cynnyrch a nwyddau lleol yr Ynys |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Gwrthdlodi** | Darparu cyfleon i entrepreneuriaid lleol sefydlu busnesau bychain. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Mae'r Polisi newydd wedi arwain at well reolaeth o fasnachu ar y stryd ac eitemau eraill y gellir eu gwerthu neu eu cynnig i'w gwerthu ar yr Ynys. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Yr amgylchedd lleol yn cael ei warchod gydag Amodau. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | Cynorthwyo Safonau Masnach a Phriffyrdd mewn perthynas â gwerthu cerbydau ar ochr y lôn. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A –<br>Atodiad B – Y Polisi cyfredol |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982<br>Deddf Priffyrdd 1980<br>Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982<br>Deddf Pedleriaid 1871 & 1881<br>Cyfarwyddyd Gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd 2006/123/EC<br>Deddf Gwerthu Nwyddau 1979<br>Deddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau 1994<br>Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Gwsmeriaid 2002<br>Adolygiad yr Adran Fusnes, Arloesedd a Sgiliau 2014/15<br>Deddf Mewnfudo, Ceisio Lloches a Chenedligrwydd 2006<br>Deddf Trwyddedu 2003 |

# **ATTODIAD A** Cyngor Sir Ynys Môn

# Polisi Masnachu ar y Stryd

**Y Weledigaeth**


**1.** Cyflwyniad

**2.** Egwyddorion Masnachu ar y Stryd

**3.** Cyflwyno Cais

**4.** Asesu Safle

**5.** Archwilio'r uned Masnachu ar y Stryd

**6.** Penderfynu ar y Cais

**7.** Gwrthwynebiad i'r Cais

**8.** Cymeradwyo'r Cais

**9.** Mater / Adolygu Caniatadau Masnachu ar y Stryd

**10.** Gwrthod Ceisiadau ac Apeliadau

**11.** Gwybodaeth Gyffredinol ynglŷn â Masnachu ar y Stryd

**12.** Mynediad gan Awdurdod a Swyddogion yr Heddlu

**13.** Gorfodi Masnachu ar y Stryd


**Atodiadau**


**A.** Strydoedd ac Ardaloedd a Waharddwyd

**B.** Cofrestr o'r Ymgyngoreion

**C.** Strwythur Ffioedd

**D.** Amodau Masnachu ar y Stryd

# Polisi Masnachu ar y Stryd Cyngor Sir Ynys Môn

**Y Weledigaeth**

Creu profiad masnachu ar y stryd sydd yn amrywiol a bywiog, yn ychwanegu gwerth i wead economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Môn, ac yn diogelu a gwella ein hamgylchedd, ac yn hyrwyddo cynnyrch a nwyddau lleol yr Ynys.

**Y Polisi**

## 1. Cyflwyniad

Mabwysiadwyd y Polisi hwn er mwyn rheoli masnachu ar y stryd ac mae'n nodi safonau Ynys Môn [yr Awdurdod] ar gyfer penderfynu ar geisiadau am weithgareddau masnachu ar y stryd ym Môn, a'u gorfodi.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 i reoli masnachu ar y stryd ym mhob rhan o'i ardal. Mae'r Awdurdod wedi dynodi'r holl strydoedd ym Môn fel "Strydoedd Caniatâd" i bwrpasau masnachu ar y stryd. Effaith y dynodiad hwn yw bod masnachu ar y stryd mewn unrhyw stryd caniatâd ym Môn wedi'i wahardd, yn amodol ar yr eithriadau cyfreithiol, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd i fasnachu gan yr Awdurdod.

Oherwydd rhesymau diogelwch yn bennaf bydd rhai ardaloedd yn cael eu diffinio fel "strydoedd gwaharddedig" lle na fydd unrhyw fasnachu yn cael ei ganiatáu, ac mae Priffordd yr A55 yn esiampl o hynny. Gellir gweld rhestr lawn yn Atodiad A y Polisi hwn.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r Polisi hwn mewn perthynas â gweithgareddau masnachu ar y stryd yn ei ardal er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, bydd pob cais neu dramgwyddiad yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun fel y gellir, lle mae hynny'n briodol, gymryd amgylchiadau unigol i ystyriaeth.

### 1.1 Amcanion

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd â'i swyddogaethau yng nghyswllt rheoli gweithgareddau masnachu ar y stryd yn ei ardal, er mwyn diogelu'r cyhoedd, drwy hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a ganlyn (ac mae pob un ohonynt o bwysigrwydd cyfartal):

Hyrwyddo ac annog profiad stryd cadarnhaol i'r masnachwr a'r cyhoedd;
Sicrhau bod masnachwyr yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn gweithredu'n deg yn eu hymwneud â'r cyhoedd;
Hyrwyddo delwedd yr Ynys;
Hyrwyddo, diogelu a gwella safonau diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch, a rheolaeth amgylcheddol;
Rhwystro a darganfod pob math o niwsans statudol, arferion anniogel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

Hyrwyddo trefn gyhoeddus, atal niwsans cyhoeddus, diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anhrefn.
Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a diogel i gwsmeriaid a masnachwyr fel ei gilydd.

**1.2 Diffiniad o Fasnachu ar y Stryd**
Diffinnir masnachu ar y stryd fel gwerthu, dangos neu gynnig nwyddau i'w gwerthu ar y stryd. Mae'r diffiniad o "stryd" fodd bynnag, yn eang iawn ac mae'n cynnwys unrhyw ffordd, llwybr troed, traeth neu ardal arall lle y mae gan y cyhoedd hawl mynediad iddynt heb dalu ac ardaloedd gwasanaeth fel a ddiffinnir dan Adran 329 Deddf Priffyrdd 1980.
Bydd angen cael caniatâd ysgrifenedig gan y perchennog i fasnachu ar dir preifat, ac efallai y bydd angen caniatâd cynllunio cyn y gellir ystyried unrhyw gais ynghyd ac, yn ogystal, bydd angen caniatâd a gan yr Adain Eiddo os mai'r Awdurdod yw perchennog y tir.

**1.3 Dim angen cael caniatâd**
Mae rhai mathau o fasnachu wedi eu heithrio'n gyfreithiol o'r angen i gael caniatâd masnachu ar y stryd; maent yn cynnwys:

Unrhyw beth a wneir mewn marchnad neu ffair a weithredir ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod.

Masnach gan berson yn gweithredu fel Pedler o dan Awdurdod tystysgrif pedler a roddwyd, o dan Ddeddf Pedleriaid 1871, gan Heddlu Gogledd Cymru.

Masnachu gan werthwr papurau newydd yn gwerthu papurau newydd a chylchgronau mewn amgylchiadau penodol.

Masnachu a wneir mewn eiddo a ddefnyddir fel gorsaf gwerthu petrol neu a wneir mewn eiddo a ddefnyddir fel siop neu mewn stryd yn gyfagos i'r eiddo a ddefnyddir felly ac fel rhan o'r busnes neu'r siop.

Masnachu a wneir gan "ddosbarthwr": er enghraifft byddai dyn llefrith gyda chwsmeriaid penodol, cylch dosbarthu penodol sy'n danfon nwyddau ar archeb yn cael ei ddiffinio fel masnachwr. ***Ni fydd faniau hufen iâ yn cael eu cynnwys yn y categori hwn a disgwylir iddynt gael caniatâd.***

Deiliaid preswyl yn gwerthu pethau o fewn cwrtil eu heiddo.

**2. Egwyddorion Masnachu ar y Stryd**
Yn unol â'r Amcanion a amlygwyd uchod mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weinyddu'r swyddogaeth masnachu ar y stryd yn unol â'r egwyddorion allweddol canlynol:

(a) Bydd yr Awdurdod yn ystyried pob cais ar ei rinweddau ei hun
(b) Bydd yr Awdurdod yn annog masnachwyr lleol fydd yn gwerthu cynnyrch neu gynhyrchion lleol
(c) Bydd yr Awdurdod yn annog masnachwyr sy'n cynnig opsiynau bwyd iach er mwyn cefnogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau bwyd iach
(d) Ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu masnachu ar y stryd yng nghyffiniau ysgolion yn ystod oriau ysgol
(e) Bydd yr Awdurdod yn cefnogi masnachu ar y stryd sy'n gwella ffyniant a llewyrch lleoliad penodol

(f) Ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu masnachu ar y stryd os gallai hynny gael effaith andwyol ar ddiogelwch y cyhoedd ar y briffordd
(g) Ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu masnachu ar y stryd os bydd hynny'n cael effaith andwyol ar fwynderau oherwydd sŵn, rhwystr, arogleuon, sbwriel neu unrhyw niwsans cyhoeddus arall gan gynnwys ychwanegu at unrhyw broblemau tagfeydd traffig.
(h) Bydd yr Awdurdod yn rheoli masnachu ar y stryd er mwyn sicrhau tegwch i weithredwyr busnesau cyfredol ac i osgoi cystadleuaeth uniongyrchol i gynnyrch neu gynhyrchion sydd eisoes ar gael mewn lleoliad
(i) Bydd yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau na fydd masnachu ar y stryd yn annog nac yn hyrwyddo gweithgaredd anghyfreithlon
(j) Ni fydd yr Awdurdod yn rhagfarnu yn erbyn unrhyw ymgeisydd ar sail hil, rhyw, rhywedd nac anabledd
(k) Bydd yr Awdurdod yn pennu ffi ar gyfer rhoi trwydded a chaniatâd i fasnachu ar y stryd er mwyn cwrdd â'r gost o ddarparu'r system reoleiddio
(l) Ni fydd caniatâd yn cael ei roi ond os yw'r awdurdod neu'r caniatâd sydd ei angen dan unrhyw ddeddfwriaeth arall lle bo hynny'n briodol eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer y gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys; caniatadau cynllunio, trwyddedau lluniaeth yn hwyr gyda'r nos a chofrestru eiddo bwyd. Dylai ymgeiswyr wneud ymholiadau gyda'r awdurdod priodol cyn cyflwyno cais. Mae rhestr o ymgyngoreion ynghlwm yn Atodiad B.
(m) Ni fydd yr Awdurdod fel arfer ond yn caniatáu i un masnachwr ddal caniatâd mewn lleoliad penodol, oni bai bod yr ail ymgeisydd yn dymuno masnachu mewn nwyddau gwahanol neu pan drefnir digwyddiad arbennig ac o bosibl pan fo "masnachwr symudol" yn llonydd am lai na 15 munud ac nad yw'n dychwelyd i'r ardal am o leiaf ddwy awr.
(n) Ni fydd yr Awdurdod yn rhoi trwydded / caniatâd stryd i berson sydd o dan 17 oed.

## 3 Cyflwyno'r Cais

**3.1** Tystysgrif datgelu GDG sylfaenol ddim llai na chwe mis oed ar gyfer pob gweithiwr, i'w chyflwyno gyda phob cais. Bydd unrhyw euogfarnau neu ymddygiad troseddol a brofwyd yn cael eu hasesu yn erbyn polisi euogfarnau'r Awdurdod mewn perthynas â cheisiadau eraill am drwyddedau.

**3.2** Ffi ymgeisio gychwynnol na ellir ei had-dalu ac i'w gweld yn yr Atodlen a restrir yn Atodiad C. Yn dilyn derbyn y caniatâd a chyn ei ryddhau, rhaid talu balans y ffi, neu wneud cytundeb debyd uniongyrchol i dalu drwy gyfraniadau chwarterol.

**3.3** Lle mae'r gweithgaredd masnachu ar y stryd arfaethedig yn un ar safle sefydlog, rhaid cael cynllun safle (i raddfa) yn dangos yr union safle masnachu a pha mor agos ydyw at lefydd adwerthu eraill tebyg o fewn radiws 100 metr.

**3.4** Un ffotograff lliw o unrhyw stondin, van, berfa, cert ac ati fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gweithgaredd masnachu ar y stryd.

**3.5** Copi o'r rhybudd a gymeradwywyd i'w arddangos ar yr uned neu ar y safle arfaethedig.

**3.6** Tystysgrif yswiriant wreiddiol sy'n diogelu'r gweithgaredd masnachu ar y stryd rhag risgiau atebolrwydd cyhoeddus a thrydydd parti hyd at uchafswm o £5,000,000.

**3.7** Caniatâd ysgrifenedig gan berchennog tir os yw'r gweithgaredd masnachu ar y stryd i ddigwydd ar dir mewn perchnogaeth breifat. Os yw'r tir ym mherchnogaeth yr Awdurdod rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan yr Adran Gwasanaethau Eiddo.

**3.8** Unrhyw ganiatadau a roddwyd yn barod yng nghyswllt y gweithgaredd arfaethedig e.e. caniatâd cynllunio, trwydded eiddo, lluniaeth yn hwyr gyda'r nos ac / neu gytundeb cael gwared ar wastraff.

**3.9** Rhestr lawn a chynhwysfawr o'r nwyddau sydd i'w gwerthu neu eu masnachu

Dylai ymgeisydd am y grant, amrywio neu adnewyddu Caniatâd Masnachu ar y Stryd wneud cais, naill ai ar-lein i: www.licensing@caerphilly.gov.uk, neu'n uniongyrchol i:

Yr Adain Drwyddedu, Adran Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW trwyddedu@ynysmon.gov.uk Ffôn 01248 752840
Ni fydd cais am Ganiatâd Masnachu ar y Stryd yn un y gellir rhoddi caniatâd dealledig iddo, oherwydd y mae er budd y cyhoedd bod yr awdurdod hwn yn gorfod prosesu cais cyn y gellir rhoi caniatâd. Ein nod yw prosesu ceisiadau o fewn 28 diwrnod.

Os na fyddwch wedi clywed gennyf erbyn yr amser hwnnw, cysylltwch â'r Awdurdod os gwelwch yn dda.

Ni ellir trosglwyddo Caniatâd Masnachu ar y Stryd. Bydd unrhyw newid a fwriedir yn y math o gerbyd neu stondin i'w defnyddio, y nwyddau sydd i'w gwerthu, yr amseroedd a'r dyddiad gweithredu, neu union leoliad safle'r masnachu, angen cais i amrywio'r Caniatâd Masnachu ar y Stryd.

Cyn y rhoddir Caniatâd Masnachu ar y Stryd neu ei adnewyddu, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori gyda'r awdurdodau priodol a pherthnasol / personau sydd â diddordeb ac a restrwyd yn Atodiad B.

*Bydd ceisiadau i adnewyddu fel arfer yn cael eu prosesu heb ymgynghori oni bai bod newid o ran amgylchiadau, neu fod materion sydd wedi achosi pryder yn ystod tymor y caniatâd*.

## 4. Asesu Safle

Ni fydd Caniatadau Masnachu ar y Stryd o leoliadau sefydlog yn cael eu rhoi fel arfer os oedd unrhyw o'r canlynol yn berthnasol:

**4.1** Y byddai lleoliad y gweithgaredd masnachu neu gwsmeriaid yn ymweld neu'n gadael y safle yn cael effaith arwyddocaol ar ddiogelwch y ffordd,

**4.2** Lle ceir pryderon ynglŷn â'r lefel a gofnodwyd o ddamweiniau niwed personol yn yr ardal lle y bydd y gweithgaredd masnachu ar y stryd yn cael ei gynnal,

**4.3** Y byddai unrhyw debygrwydd o niwsans oherwydd sŵn, goleuadau, arogleuon, sbwriel neu anweddau i gartrefi a busnesau yn ardal y safle masnachu ar y stryd arfaethedig,

**4.4** Lle ceir gwrthdaro gyda Gorchmynion Traffig fel cyfyngiadau aros,

**4.5** Mae'r safle neu'r llecyn yn rhwystro mynediad naill ai i gerddwyr neu gerbydau, llif traffig, yn rhoi cerddwyr mewn perygl pan gaiff ei ddefnyddio i bwrpasau masnachu ar y stryd,

**4.6** Bod yr uned fasnachu yn rhwystro i ddefnyddwyr dramwyo'n ddiogel ar hyd y llwybr troed neu'r gerbydlon,

**4.7** Mae'r llecyn yn tarfu ar linellau gweledig unrhyw berson sy'n defnyddio'r ffordd megis wrth groesffyrdd neu gyfleusterau croesi i gerddwyr,

**4.8** Nad yw'r safle'n caniatáu i Ddeilydd y Caniatâd, staff a chwsmeriaid barcio mewn ffordd ddiogel,

**4.9** Pan mae'r gweithgaredd masnachu ar y stryd i ddigwydd ar ôl iddi dywyllu ac nad yw'r safle wedi ei oleuo'n ddigonol i ganiatáu i bobl fynd i mewn ac allan yn ddiogel o'r safle, yn gwsmeriaid a staff.

## 5 Archwilio'r Uned Masnachu ar y Stryd

Bydd y cerbyd, fan, trelar, stondin neu ddyfais arall sydd i'w defnyddio ar gyfer y gweithgaredd masnachu ar y stryd arfaethedig yn cael ei archwilio gan Swyddog Awdurdodedig o'r Cyngor cyn y rhoddir unrhyw Ganiatâd Masnachu ar y Stryd a rhaid iddynt gydymffurfio ym mhob ffordd gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol.

## 6 Penderfynu ar y Cais

Bydd y Pwyllgor Trwyddedu a Swyddogion ar sail ddirprwyedig yn penderfynu ar bob cais ar ei rinweddau ond yn arbennig, byddant yn rhoi sylw i'r canlynol.

### 6.1 Diogelwch y Cyhoedd

Ni ddylai lleoliad y gweithgaredd masnachu arfaethedig ar y stryd gyflwyno risg sylweddol i'r cyhoedd yn nhermau diogelwch y ffordd, rhwystr a pherygl tân. Mae'r term "cyhoedd" yn cyfeirio at y cwsmeriaid fydd yn mynychu'r gweithgaredd masnachu ar y stryd ac aelodau eraill o'r cyhoedd fydd yn defnyddio'r stryd. Yn benodol, byddir yn rhoi sylw i'r cyfarwyddiadau a nodir yn Adran 2 dan Egwyddorion masnachu ar y stryd.

### 6.2 Trefn Gyhoeddus ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ni ddylai'r gweithgaredd masnachu ar y stryd gyflwyno risg i drefn gyhoeddus dda yn yr ardal y mae wedi ei lleoli. Byddir yn cymryd unrhyw sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru a Diogelwch Cymunedol i ystyriaeth o dan y pennawd hwn.

### 6.3 Atal Niwsans

Ni chaniateir i'r gweithgaredd masnachu ar y stryd gyflwyno unrhyw debygrwydd o niwsans yn codi o sŵn, goleuni, arogleuon, sbwriel nac anweddau i gartrefi a busnesau yn yr ardal lle bwriedir masnachu ar y stryd. Byddir yn cymryd sylwadau gan Swyddogion yr Awdurdod i ystyriaeth o dan y pennawd hwn.

### 6.4 Anghenion yr Ardal

Ni chaniateir i'r gweithgaredd masnachu ar y stryd fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol, o ran y nwyddau a werthir yn bennaf, gyda siopau adwerthu sydd gerllaw na bwytai na siopau sy'n gwerthu prydau poeth, masnachwyr stryd eraill neu farchnadoedd ac ni chaniateir iddynt gael eu lleoli o fewn 100 metr i eiddo o'r fath. Fe all hyn gael ei ganiatáu ar gyfer ceisiadau unwaith yn unig neu dymor byr.

Bydd nifer y masnachwyr mewn unrhyw stryd yn cael ei gyfyngu er mwyn osgoi cael gormod o lefydd gwerthu ac i sicrhau nad fydd masnachu gormodol yn cael effaith ar fwynderau'r ardal.

Ni fydd caniatâd yn cael ei roi ond os yw'r awdurdod neu'r caniatâd sydd ei angen dan unrhyw ddeddfwriaeth arall eisoes wedi ei sicrhau ar gyfer y gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys caniatâd cynllunio, trwydded eiddo lluniaeth yn hwyr gyda'r nos, cofrestriad eiddo bwyd, cytundeb gwaredu gwastraff. Dylai ymgeiswyr wneud ymholiadau gyda'r awdurdod priodol cyn cyflwyno cais i fasnachu ar y stryd.

### 6.5 Sylwadau Ymgyngoreion

Mewn perthynas â'r pwyntiau uchod byddir hefyd yn rhoi ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig gan ymgyngoreion a bydd unrhyw wrthwynebiadau a geir i'r gweithgaredd masnachu arfaethedig ar y stryd yn cael eu hystyried o ran eu perthnasedd a'u priodoldeb i'r cais a wnaed.

### 6.6 Oriau Masnachu a Ganiateir

Ni fydd yr Awdurdod fel arfer ond yn caniatáu masnachu ar y stryd rhwng 6am a 11pm ar unrhyw ddiwrnod a rhwng 8am a 10pm mewn ardaloedd preswyl. Bydd masnachu ar y stryd y tu allan i'r oriau hyn yn cael ei asesu o ran trefn gyhoeddus, diogelwch y cyhoedd, trosedd ac anrhefn ac osgoi niwsans a meini prawf anghenion yr ardal y manylwyd arnynt uchod.

Pe bai'r masnachu yn cynnwys cyflenwi bwyd poeth neu ddiod ar ôl 11pm bydd angen cael trwydded eiddo lluniaeth yn hwyr y nos hefyd. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i bennu'r oriau masnachu a ganiateir sydd yn llai na'r rhai a nodwyd uchod, os bydd amgylchiadau lleol yn mynnu hynny.

## 7 Gwrthwynebiadau i'r cais

Cyfeirir y cais i'r Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd i'w benderfynu fel arfer os derbyniwyd gwrthwynebiadau ysgrifenedig perthnasol gan unrhyw un o'r isod:

- Yr Awdurdod Priffyrdd
- Gwasanaethau Eiddo
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Gwasanaethau Cynllunio
- Datblygu Economaidd
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Perchennog y tir lle bwriedir masnachu ar y stryd
- Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y Ward berthnasol
- Deiliaid eiddo sydd o fewn 100 metr i'r safle arfaethedig

## 8 Cymeradwyo Ceisiadau

Gall y Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd neu swyddogion dirprwyedig gymeradwyo ceisiadau sy'n cwrdd â'r meini prawf a amlinellir yn y Polisi hwn.

Ar ôl cymeradwyo’r cais, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd. Bydd amodau ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw, gan gynnwys telerau penodol megis ar ba ddyddiau ac am ba gyfnodau y gellir masnachu ar y stryd a’r nwyddau y gellir eu gwerthu. Gosodir amodau safonol yr Awdurdod hefyd ar y caniatâd fel sy’n digwydd gyda’r holl Ganiatadau i Fasnachu ar y Stryd.

Mae'r amodau sydd ynghlwm wrth y Caniatâd yn rhan annatod o’r caniatâd i fasnachu ar y stryd a **RHAID** cydymffurfio â nhw bob amser. Gall peidio â chydymffurfio fod yn drosedd, a / neu byddai modd dirymu'r caniatâd neu beidio â’i adnewyddu.

## 9 Cyhoeddi/Adolygu Caniatadau i Fasnachu ar y Stryd

Rhoddir Caniatadau i Fasnachu ar y Stryd am hyd at 12 mis ar y mwyaf a bydd raid eu hadnewyddu ar y dyddiad a benodir yn y Caniatâd. Gellir rhyddhau Caniatadau hefyd am gyfnodau byrrach.

Bydd y Caniatadau penodol hyn yn dod i ben, oni bai y cânt eu hadnewyddu, ar y dyddiad a benodir yn y Caniatâd.

Ym mhob achos pan fo’r Caniatâd wedi dod i ben, ac os na wnaed cais i’r Cyngor i adnewyddu’r Caniatâd, bydd raid gwneud cais o’r newydd. Mewn achosion o'r fath bydd raid i’r cais fynd trwy’r broses lawn a amlinellir yn y Polisi hwn.

Oni fydd banc yn anrhydeddu siec, neu os na fydd debyd uniongyrchol yn cael ei dalu, bydd hynny’n golygu y bydd y Cyngor yn diddymu’r Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd oni bai bod y ddyled yn cael ei thalu mewn arian parod cyn pen 5 niwrnod gwaith.

Gall y Cyngor adolygu caniatâd:

Os yw “parti sydd â diddordeb” neu “awdurdod perthnasol” yn gwneud sylwadau bod deilydd y caniatâd yn torri amcanion polisi Neu

Os yw deilydd y drwydded wedi ei gael yn euog o drosedd neu os ystyrir ei fod yn anaddas am unrhyw reswm arall.

Bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn ystyried y sylwadau ac os bydd yn penderfynu felly, gall ychwanegu amodau neu atal neu ddiddymu’r caniatâd.

## 10 Gwrthod Ceisiadau ac Apeliadau

Os bydd y Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystyried gwrthod cais, hysbysir yr ymgeisydd yn ysgrifenedig o’r rhesymau ac byth siawns ir ymgeisydd dodi manylion neu gwybodaeth ychwanegol i cefnogi y cais ymhellach.

Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar geisiadau bob amser trwy:

1. Ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau.
2. Defnyddio’r Polisi hwn i asesu ceisiadau lle mae’n briodol gwneud hynny.
3. Delio gyda’r gwrandawiad mewn ffordd ddiduedd a chytbwys.
4. Sicrhau bod rheolau cyfiawnder naturiol yn cael eu gweithredu ym mhob gwrandawiad a gynhelir.

5. Rhoi cyfle i'r holl bartïon gyflwyno eu hachosion, gofyn cwestiynau a chyflwyno gwybodaeth i'w hystyried i gefnogi eu cais neu eu gwrthwynebiad.

Nid yw'r Ddeddfwriaeth yn rhoi hawl apêl statudol i'r Llys Ynadon mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wnaed ynghylch caniatâd i fasnachu ar y stryd. Os yw ymgeiswyr yn teimlo eu bod wedi cael cam, gallant ystyried gwneud cais am Adolygiad Barnwrol ynghylch y drefn a'r gofynion ar gyfer penderfyniad teg a'r angen am resymeg glir yn y ffordd y mae'r Awdurdod wedi ystyried y mater a dod i'w benderfyniad.

## 11 Gwybodaeth Gyffredinol am Ganiatadau i Fasnachu ar y Stryd

### 11.1 Ildio neu Ddirymu Caniatâd

Gall y deilydd ildio Caniatâd ar unrhyw adeg, neu fe all yr Awdurdod ei ddirymu ar unrhyw adeg. Os caiff y Caniatâd ei ddirymu, ni fydd yr Awdurdod mewn unrhyw amgylchiadau o gwbl yn gyfrifol am dalu unrhyw iawndal i'r deilydd mewn perthynas â dirymu o'r fath.

Rhaid i'r deilydd ddychwelyd y Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd i'r Awdurdod ar unwaith wedi iddo ei ildio neu ar ôl iddo gael ei ddirymu.

### 11.2 Ad-dalu Ffioedd

Ad-delir y ffi i Ddeilydd Trwydded os yw'n rhoi gorau i fasnachu ac yn ildio'r Caniatâd i'r Awdurdod. Bydd swm yr ad-daliad yn gwbl seiliedig ar y dyddiad pryd y cafodd y Caniatâd ei ildio i'r Awdurdod. Ni fydd y ffi ymgeisio yn cael ei had-dalu a bydd union swm yr ad-daliad yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y dyddiadau masnachu sydd ar ôl yn y Caniatâd.

## 12 Mynediad gan yr Awdurdod a Swyddogion yr Heddlu

Dylai Deilydd Trwydded ganiatáu mynediad i Swyddogion Awdurdodedig yr Awdurdod a Swyddogion yr Heddlu ar bob adeg resymol. Bydd gan Swyddogion yr Awdurdod gardiau adnabod gyda nhw a byddent yn eu dangos, ar gais, fel cadarnhad swyddogol.

## 13 Masnachu ar y Stryd - Camau Gorfodaeth

Bydd yr Awdurdod yn gorfodi darpariaethau'r Cynllun Masnachu ar y Stryd o fewn ei ardal ac mewn modd teg a chyson. Wrth wneud hynny bydd yr holl gamau gorfodaeth yn cydymffurfio gyda Pholisi Gorfodaeth yr Adran Gwarchod y Cyhoedd. Mae copïau o'r polisi ar gael ar wefan yr Awdurdod.

**Nid yw** caniatâd i fasnachu ar y stryd yn:

- Caniatáu masnachu y tu allan i delerau'r Caniatâd.
- Cael blaenoriaeth dros gyfyngiadau parcio neu unrhyw reoliadau traffig eraill.

  Fe ddisgwylir ir ymgeisydd sicirhau bod y caniatad delfydol ger llaw ac

- Awgrymu cymeradwyaeth gan yr awdurdod priffyrdd neu unrhyw berson neu awdurdod arall.
- Awgrymu nad oes angen caniatâd cynllunio.
- Awgrymu nad oes raid i'r uned dalu trethi busnes.

Cwynion am y Gwasanaeth
Mae gan yr Awdurdod drefn gytunedig ar gyfer delio gyda chwynion am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Os ydych yn dymuno cwyno am y Gwasanaethau Masnachu ar y Stryd fe ddylech, yn y lle cyntaf, gysylltu â:

Y Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. Rhif ffôn 01248 752840.

Oni fydd modd datrys y mater, rhoddir cyngor ar sut y gellwch fwrw ymlaen gyda'ch cwyn dan Gynllun Cwynion y Cyngor.

Daw'r Polisi hwn i rym ar 1 Ebrill 2015.

Yn unol ag Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fe gysylltodd yr Awdurdod yn llawn gyda'r cyrff, y busnesau a'r grwpiau a nodir ynddi cyn cyhoeddi'r Polisi hwn.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r Polisi pryd bynnag yr ystyrir bod materion perthnasol wedi codi.

**Atodiad A**

Ystyrir y "strydoedd" a ganlyn fel "Strydoedd/Ardaloedd gwaharddedig" lle na chaniateir unrhyw fasnachu dan unrhyw amgylchiadau fel y gorchmynnir gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mewn cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru.

Ffordd Prosiect DBFO yr A55 o Borthladd Caergybi i Gyffordd 11, Llandygai.

Mae hyn hefyd yn cynnwys yr A5 dros Bont Menai i Gylchfan Britannia, Porthaethwy ac ymlaen heibio’r cilfannau gwylfan i gyffordd 8A yn Llanfairpwll.

**Atodiad B**

Rhestr Ymgynghori

- Yr Awdurdod Priffyrdd
- Gwasanaethau Eiddo
- Safonau Masnach
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Iechyd yr Amgylchedd
- Gwasanaethau Cynllunio
- Datblygu Economaidd
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Perchennog y tir lle bwriedir masnachu ar y stryd
- Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn

Bydd manylion Polisi Masnachu ar y Stryd yn cael ei hysbysesu yn y wasg lleol

**Atodiad C**

| | **Diwrnod** | **Wythnos** | **Mis** | **Tymhorol**<br><br>**3&6 mis** | **Blynyddol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Manwerthu ac Arlwyo Parhaol** | £50.00 | £150.00 | £225.00 | £650.00 & £1,200.00 | £1,800.00 |
| **Unedau Symundol** | | | | | £1,000.00 |
| **Hyrwyddo** | £30.00 | £75 | £150.00 | N/A | N/A |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

*Efallai y bydd modd talu’r ffioedd blynyddol trwy ddebyd uniongyrchol. Mae yna gyfran o’r ffi o £100 nad oes modd ei had-dalu ar gyfer yr holl geisiadau ac eithrio gwerthiannau ar raddfa fechan ac unigolion sy’n gwneud cais am hyrwyddo.*

**Atodiad D**

## Masnachu ar y Stryd – Amodau Cyffredinol

Bydd raid i Ddeilydd y Caniatâd ac unrhyw weithwyr:

- arddangos yr Hysbysiad Caniatâd a gyhoeddir gan yr Awdurdod ar yr uned / cerbyd mewn lle cwbl amlwg.
- rhoi gwybod i'r Rheolydd Trwyddedu ar unwaith am unrhyw euogfarnau neu achosion sy'n codi o’r defnydd neu o’r mwynhad o'r Caniatâd, neu o unrhyw drosedd arall a gyflawnwyd.
- cydymffurfio a glynu wrth unrhyw gyfarwyddiadau mewn perthynas â'r defnydd o’r stryd neu’r llecyn cyhoeddus gan swyddog awdurdodedig yr Awdurdod.
- indemnio'r Awdurdod mewn perthynas â’r holl hawliadau, achosion, galwadau neu gostau sy'n codi o’r Caniatâd hwn, gan na fydd unrhyw beth yn yr amodau hyn yn esgusodi Deilydd y Drwydded neu ei weithwyr neu ei asiant rhag cyflawni unrhyw ddyletswydd neu gyfrifoldeb cyhoeddus.
- cynnal Polisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus Trydydd Parti bob amser er bodd yr Awdurdod a chynhyrchu tystysgrif ddilys o unrhyw yswiriant o'r fath ar unrhyw adeg ar gais swyddog awdurdodedig y Cyngor.
- rhoi tystiolaeth ysgrifenedig foddhaol i'r Awdurdod bod perchennog y tir neu’r lesddeiliad wedi rhoi caniatâd ar gyfer y gweithgaredd i fasnachu ar y stryd.
- Darparu prawf o unrhyw ganiatadau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd masnachu ar y stryd, e.e. caniatâd cynllunio, trwydded lluniaeth gyda’r hwyr, cytundeb cael gwared ar wastraff. Ni chaiff Deilydd y Caniatâd aseinio, is-osod neu gael gwared ar ei ddiddordeb neu ei feddiant dan y Caniatâd hwn neu unrhyw ran ohono, ond gall ei ildio i'r Cyngor ar unrhyw adeg.

Gall y Cyngor amrywio’r Amodau sydd ynghlwm wrth y Caniatâd ar unrhyw adeg.

## Amgylchiadau’r Safle

Pan fydd yn gweithredu ar safle sefydlog bydd raid i Ddeilydd y Drwydded:

- sicrhau nad yw unrhyw fyrddau neu rybuddion hysbysebu ond yn cael eu gosod yn agos iawn i’r safle masnachu ac nad ydynt yn fwy na 750mm x 450mm a bod o leiaf 2m ar gyfer rhwydd hynt i gerddwyr ac nad ydynt yn ymyrryd gyda llinellau gweld neu’n rhwystro mynediad i gerbydau.
- cadw’r safle masnachu a’r ardal o’i gwmpas yn dwt ac yn lân yn ystod yr oriau y caniateir masnachu a gadael yr ardal yn dwt ac yn lân ac yn ddirwystr ar ddiwedd pob diwrnod ac yn unol â thelerau’r Caniatâd hwn.
- darparu a chynnal ar eu cost eu hunain, gynwysyddion gwastraff digonol ar gyfer sbwriel a sicrhau nad ydynt yn cael eu gorlenwi.

- Clirio sbwriel a gwastraff masnachol sy’n codi o’r gweithgareddau ar y safle ac o fewn 100 metr i’r uned fasnachu pob dydd a chael gwared arno trwy gytundeb cael gwared ar wastraff.
- Gwneud darpariaethau sydd raid wrthynt i rwystro gadael gwastraff solet neu hylifol ar unrhyw stryd neu mewn lle cyhoeddus.

Pan fo’n gweithredu ar safle sefydlog, ni chaniateir i Ddeilydd y Caniatâd:

- gael gwared ar unrhyw ddŵr neu elifiant o'r gweithgaredd masnachu ar y stryd i gwrs dŵr neu system ddraenio.
- darparu cerddoriaeth, llais, clychsain neu unrhyw ddarllediadau eraill o safle’r caniatâd ac y gellir eu clywed o bellter sy’n fwy na 5 metr o'r safle.
- gosod byrddau neu rybuddion hysbysebu ar unrhyw golofn golau stryd.
- gwneud unrhyw waith cloddio neu altro, neu osod neu leoli unrhyw offer o unrhyw fath ar wyneb y stryd, neu ar dir ym mherchnogaeth yr Awdurdod sy’n gyfagos i’r stryd.
- rhoi ar y stryd neu mewn lle cyhoeddus, unrhyw ddodrefn neu offer ac eithrio’r rheini a ganiateir gan y Caniatâd, a bydd raid sicrhau bod unrhyw eitemau o’r fath a osodir yn cael eu cadw’n lân ac yn daclus ac ni chaniateir eu gosod mewn man a fydd yn rhwystro mynediad i unrhyw adeiladau.
- caniatáu sŵn o’r offer a ddefnyddir mewn perthynas â’r gweithgaredd i fasnachu ar y stryd i fod yn glywadwy y tu mewn i unrhyw anheddau cyfagos.

**Troseddau**

Mae’n drosedd dan Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol (DA) 1982 i fasnachu heb drwydded neu i dorri telerau trwydded o’r fath a gellir rhoi dirwy o hyd at £1000.

**Amodau Masnachu**

Bydd raid i Ddeilydd y Caniatâd:

- gael gwared ar unrhyw unedau masnachu sefydlog, cerbydau neu gyfarpar arall sy’n gysylltiedig â’r gweithgareddau masnachu ar y stryd o’r safle ar ddiwedd pob diwrnod masnachu.
- talu’r holl ffioedd masnachu ar y stryd pan font yn ddyledus.

Ni chaiff Deilydd y Caniatâd:

- gynnal unrhyw weithgareddau masnachu ar y stryd ac eithrio'r rheini y rhoddwyd Caniatâd ar eu cyfer.
- masnachu y tu allan i'r amser a’r dyddiau a nodir yn y Caniatâd.
- masnachu mewn ffordd sy’n debygol o achosi rhwystr ar unrhyw ran o’r stryd neu’r llecyn cyhoeddus; achosi niwed i unrhyw berson sy'n defnyddio'r stryd neu’r lle cyhoeddus; achosi difrod i unrhyw eiddo yn y stryd neu’r lle cyhoeddus neu achosi niwsans neu flinder i bobl sy'n defnyddio'r stryd neu’r lle cyhoeddus, neu i sŵn o weithgareddau masnachu fod yn glywadwy mewn adeiladau cyfagos.
- caniatáu i unrhyw berson weithredu o fewn telerau'r Caniatâd, ac eithrio unigolion a gyflogir gan ddeilydd y caniatâd ac sy’n gweithredu dan ei gyfarwyddiadau neu ei oruchwyliaeth.

**Masnachu Symudol**

Rhoddir caniatâd ar y sail na chaiff masnachwr symudol fasnachu o safle am fwy na 60 munud a pheidio â dychwelyd i'r un safle cyn pen 2 awr.

Gall unedau symudol sy'n gwerthu hufen iâ ac ati chwarae clychseiniau yn unol â'r Cod Ymarfer ar Sŵn o Glychseiniau Faniau Hufen Iâ ac ati. 1982, ond nid cyn hanner dydd nac ar ôl 7pm ar unrhyw ddiwrnod ac nid pan fo'r cerbyd yn llonydd.

Ni chaiff Unedau Symudol:

- fasnachu o fewn 500 metr i ffin unrhyw ysgol uwchradd.
- achosi niwsans o sŵn, golau, arogleuon, sbwriel neu anweddau i aelwydydd a busnesau tra bônt yn llonydd.
- darparu cerddoriaeth neu unrhyw ddarllediadau eraill pan fônt yn llonydd ac sy'n glywadwy yn bellach na 5 metr o'r safle.
- gweithredu uchelseinyddion mewn stryd rhwng 9pm ac 8am, nac ar unrhyw amser arall ar gyfer hysbysebu unrhyw adloniant, masnach neu fusnes.

**Darpariaethau Cyfreithiol**
Ni fydd unrhyw beth yn yr amodau hyn yn esgusodi neu'n rhyddhau Deilydd y Drwydded neu ei weithwyr neu ei asiantiaid rhag cyflwyno unrhyw ddyletswydd neu gyfrifoldeb cyfreithiol a bydd raid i Deilydd y Drwydded gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a fo mewn grym bob amser.
**Mae Masnachwr Stryd Sefydlog** yn golygu masnachwr sydd wedi cael caniatâd gan yr Awdurdod i fasnachu o leoliad penodol.

**Mae Masnachwr Symudol** yn golygu masnachwr sy'n symud o stryd i stryd.

**Mae Swyddog Awdurdodedig** yn golygu swyddog a gyflogir gan yr Awdurdod ac a awdurdodir gan yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

**Mae Awdurdod Perthnasol** yn golygu'r cyrff neu'r bobl a benodir yn Atodiad B y polisi hwn.

**Gwerthu Cerbydau o fewn ardal ganiatâd** - mae unigolyn nad oes ganddo ganiatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod i werthu, cynnig neu drefnu i werthu nwyddau mewn stryd "ganiatâd" yn cyflawni trosedd dan delerau Deddf 1982. Yn ogystal, gall fod yn cyflawni trosedd dan Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Cymdogaethau Glan a'r Amgylchedd 2005. Gall cynnig cerbyd ar gyfer ei werthu heb nodi ei fod yn cael ei werthu yng nghwrs busnes dorri Ddeddf Reoliadau Diogelu'r Defnyddiwr rhag Fasnachu Annheg (2008)

# ATTODIAD B CYNGOR SIR YNYS MÔN

**(Y “Cyngor”)**

## CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## CANIATAD MASNACHU AR Y STRYD

## AMODAU CYFFREDINOL

1. Rhaid cyflwyno cais am Ganiatad i Fasnachu ar y Stryd yng nghyswllt cerbyd arbennig (‘y cerbyd’) ar ffurflen a ddarperir gan y Cyngor, wedi’i chwblhau ac yn gywir ym mhob manylyn, i’r Cyngor.

   Ni chaniateir i unrhyw berson o dan 17 mlwydd oed wneud cais.

2. Bydd y Caniatad Masnachu ar y Stryd a roddir (“Caniatad Masnachu”) yn un personol i’r ymgeisydd yn unig (“Deiliad y Caniatad”) ac ni fydd modd ei werthu i berson arall nac i berson arall ei ddefnyddio.

3. Bydd Caniatad Masnachu yn ddilys am ddeuddeng mis o’r dyddiad y rhoddir nhw.

4. Rhaid i ddeiliad y Caniatad sicrhau:

   4.1 nad oes masnachu’n digwydd ar y Llecyn Masnachu (diffinir hyn ar y ffurflen gais) y tu hwnt i’r cyfnod rhwng 8.00a.m. a machlud yr haul (yr “Oriau Masnachu”);

   4.2 nad ydy’r cerbyd wedi’i barcio ar y Llecyn Masnachu uchod y tu hwnt i’r Oriau Masnachu;

   4.3 nad oes yna’r un person o dan ddwy ar bymtheg oed yn cael ei gyflogi yn y busnes masnachu ar y stryd nac mewn cysylltiad ag o, ar y llecyn Masnachu uchod;

   4.4 mai bwyd a diod yn unig a werthir ar y Llecyn Masnachu uchod;

   4.5 nad ydy’r costau a godir gan Ddeiliad y Caniatad ar y Llecyn Masnachu yn fwy, ar unrhyw adeg, na’r costau arfaethedig hynny a gyflwynwyd i’r Cyngor hefo’i ffurflen gais oni fydd costau uwch yn cael eu cyflwyno i’r Cyngor a’u caniatad ganddynt, a nes bydd hynny’n digwydd;

   4.6 bod y costau a godir yn cael eu harddangos yn glir ar y cerbyd bob amser, pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio i Fasnachu;

4.7 bod bin sbwriel heb fod yn llai na thair troedfedd ciwbig yn cael ei ddarparu o fewn dwy lath i'r Llecyn Masnachu uchod;

4.8 bod yr holl sbwriel o fewn radiws o bymtheg troedfedd i'r Llecyn Masnachu uchod yn cael ei gasglu ddwywaith bob dydd a'i roi mewn sachau sbwriel plastig i'w ddarparu gan Ddeiliad y Caniatad; rhaid casglu'r sbwriel am y tro cyntaf cyn 2 o'r gloch y prynhawn a'r ail gasgliad yn syth ar ol gorffen gweithio bob dydd; bydd y sbwriel a gasglwyd, gan gynnwys cynhwysion y bin sbwriel, yn cael ei gadw a'i waredu ar gost y Deiliad o dan Ddyletswydd Gofal, Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

4.9 na fydd radio, cassette, chwaraewyr recordiau nac offer sain arall yn cael eu defnyddio yn y cerbyd, nac ar neu ger y Llecyn Masnachu;

4.10 bod yswyriant cyfun wedi'i godi ar gyfer y cerbyd bob amser;

4.11 nad oes bwrdd hysbysebu nac arwydd yn cael eu codi yn unrhyw le ar y briffordd, i hysbysebu'r gwasanaethau a ddarperir ar y Llecyn Masnachu uchod.

5. Os bydd unrhyw un o'r amodau uchod yn cael eu torri ac oni fydd Deiliad y Caniatad yn cymryd camau i gydymffurfio a nhw o fewn pymtheg niwrnod ar ol cael clywed gan y Cyngor ei fod wedi torri amod(au), gall y Cyngor ddod a'r Caniatad Masnachu i ben ar unwaith heb orfod talu unrhyw gyfran o'r ffi a dalwyd gan Ddeiliad y Caniatad, yn ol iddo.

**Codir ffi flynyddol, a bennir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd, am bob Caniatad Masnachu.**

**Y ffi am y flwyddyn yma yw £1706, sydd i'w dalu yn llawn ar dderbyn anfoneb y Cyngor.**

**Rhoddir Caniatad Masnachu yn ol disgresiwn y Cyngor yn unig.**

**Rhaid dychwelyd y ffurfleni, wedi eu cwblhau, i Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, erbyn hanner dydd, Dydd Mercher 5ed Mawrth 2014.**

**A.W. Owen**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd & Gwasanaethau Technegol)**

**Chwefror 2014**

CC-14562-LB/193934

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Cyngor Sir** |
| Dyddiad: | **26 Chwefror 2015** |
| Teitl yr Adroddiad: | **Amseroedd Cyfarfodydd y Cyngor 2015/16** |
| Adroddiad gan: | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** |
| Pwrpas yr Adroddiad: | **Cytuno dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2015/16** |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae'r mater hwn wedi cael sylw mewn adroddiadau blaenorol i'r Cyngor Sir - ar 5 Rhagfyr 2013, 27 Ionawr 2014 a 27 Chwefror 2014.

1.2 Paratowyd asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol ym mis Rhagfyr 2013 ac mae'r casgliadau, a adroddwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2014, wedi'u hamlinellu isod:

*"· ystyried cyfyngu unrhyw effaith negyddol ar aelodau drwy geisio adnabod (drwy aelodaeth pwyllgorau) a fyddai cynnal cyfarfodydd yn hwyrach yn debygol o gael effaith o'r fath;*

*· ystyried a fyddai cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach drwy wella mynediad i gyfarfodydd;*

*· petai'r Cyngor yn penderfynu yn y pendraw i newid amseriad cyfarfodydd, y dylid monitro yn ofalus y trefniadau newydd a'u hadolygu gan na fyddai modd ystyried effaith gwirioneddol unrhyw bolisi tan y cyflwynwyd trefn newydd a'i weithredu."*

1.3 Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2014 na fyddai unrhyw newid i'r amseroedd.

1.4 Fe gyflwynwyd y Rhybudd o Gynigiad canlynol i'r Cyngor Sir ar 8 Mai 2014, pryd y penderfynwyd cyfeirio'r mater i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

*"Ailystyried amseroedd cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Lled-farnwrol a phob pwyllgor neu is-bwyllgor arall o'r Cyngor Sir a rhoi sylw i ofynion mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth*

*Cyfeirio'r mater i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd."*

1.5 Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2014, bu i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad isod a wnaed gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 18 Mehefin 2014:

*"Argymell i'r Cyngor bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yn paratoi cynigion o 2015 ymlaen yn cynnwys opsiynau i gynnal cyfarfodydd ar ddyddiau penodol o'r wythnos, a bod cynrychiolydd ar gyfer pob grŵp yn helpu gyda'r broses hon".*

**2.0 Calendr Cyfarfodydd y Cyngor 2015/16**

2.1 Paratowyd cynigion drafft ar gyfer 2015/16 mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol, ac maent yn seiliedig ar:

- Raglennu'r mwyafrif o gyfarfodydd pwyllgorau ar ddydd Llun - Mercher, gyda dydd Iau a Gwener ar gael i raglennu cyfarfodydd y Cyngor Llawn (dydd Iau) a chyfarfodydd eraill megis cydbwyllgorau, sesiynau briffio anffurfiol ayyb.

- Cychwyn y pwyllgorau sgriwtini bob yn ail, am un ai 2.00 yh neu 3.00 yh.

2.2 Awgrymwyd yr amseroedd cychwyn yma mewn ymateb i adborth a gafwyd bod aelodau'n aml gydag ymrwymiadau gyda'r nos, megis cyfarfodydd tref a chymuned / llywodraethwyr ysgolion. Hefyd, pan ofynnwyd am farn aelodau ac aelodau cyfetholedig, trwy nodi mewn trefn ranc y dewisiadau yr oeddynt yn eu ffafrio, o'r adborth a adroddwyd i'r Cyngor ar 5 Rhagfyr 2013 roedd yn amlwg y byddai'n well gan yr Aelodau i'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn ystod y dydd.

2.3 Mae'r calendr drafft nawr hefyd yn cy nnwys sesiynau briffio misol I aelodau. Bwriedir cynnal y sesiynau hyn ar y dydd Iau cyntaf o bob mis, ag eithrio Mai 2015 (oherwydd yr etholiad gyffredinol) a Chwefror 2016.

2.4 Mae'r calendr drafft o gyfarfodydd y Cyngor ynghlwm yn **Atodiad 1.**

3.0 **Argymhelliad**

3.1 Gofynnir I'r Cyngor fabwysiadu'r dyddiadau a'r amseroedd ar gyfer cyfarfodydd 2015/16 fel y gosodir allan yn y Calendr Cyfarfodydd drafft.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **18 Chwefror 2014**

# CALENDR CYFARFODYDD MAI 2015 – EBRILL 2016

# CALENDAR OF MEETINGS MAY 2015 – APRIL 2016

DRAFT

*Nodyn: Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y calendr uchod yn gywir, mae'n bosib yr ychwanegir dyddiadau eraill, neu y bydd cyfarfodydd yn cael eu gohirio neu eu canslo yn unol ag anghenion yr Awdurdod. Am y wybodaeth ddiweddaraf cysylltwch â'r Adran Bwyllgorau os gwelwch yn dda.*

*Note: That whilst every effort is made to ensure the accuracy of the above calendar, it is possible that meetings may be added, postponed or cancelled according to the needs of the Authority. For up to date information, please contact the Committee Services Section.*

(Fersiwn2 20.2.15)

# DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS MAI 2015
# DATES OF MEETINGS FOR MAY 2015

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| **GWE/FRI** | **1** | |
| **SAD/SAT** | **2** | |
| **SUL/SUN** | **3** | |
| **LLUN/MON** | **4** | **GŴYL Y BANC/BANK HOLIDAY** |
| **MAW/TUES** | **5** | |
| **MER/WED** | **6** | |
| **IAU/THURS** | **7** | **Etholiad GyffredinolGeneral Election** |
| **GWE/FRI** | **8** | |
| **SAD/SAT** | **9** | |
| **SUL/SUN** | **10** | |
| **LLUN/MON** | **11** | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol/Corporate Scrutiny Committee |
| **MAW/TUES** | **12** | 3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership & Regeneration Scrutiny Committee |
| **MER/WED** | **13** | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning and Orders Committee |
| **IAU/THUR** | **14** | 10.30pm Cyngor Sir/County Council<br>2.00pm Cyngor Sir/County Council (AGM)<br>3.30pm (tua/approx.) Ethol Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion – Election of Chairs/Vice-Chairs |
| **GWE/FRI** | **15** | 10.00am Cynnal (Llangefni) |
| **SAD/SAT** | **16** | |
| **SUL/SUN** | **17** | |
| **LLUN/MON** | **18** | |
| **MAW/TUES** | **19** | 10.30am Fforwm Mynediad Lleol/Local Access Forum |
| **MER/WED** | **20** | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| **IAU/THUR** | **21** | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| **GWE/FRI** | **22** | |
| **SAD/SAT** | **23** | |
| **SUL/SUN** | **24** | |
| **LLUN/MON** | **25** | **GŴYL Y BANC/BANK HOLIDAY** |
| **MAW/TUE** | **26** | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| **MER/WED** | **27** | |
| **IAU/THUR** | **28** | |
| **GWE/FRI** | **29** | |
| **SAD/SAT** | **30** | |
| **SUL/SUN** | **31** | |

(Fersiwn2 20.2.15)

## DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS MEHEFIN 2015
## DATES OF MEETINGS FOR JUNE 2015

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| **LLUN/MON** | **1** | 2.00pm Panel Rhiant Corfforaethol/Corporate Parenting Panel |
| **MAW/TUE** | **2** | |
| **MER/WED** | **3** | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| **IAU/THUR** | **4** | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| **GWE/FRI** | **5** | |
| **SAD/SAT** | **6** | |
| **SUL/SUN** | **7** | |
| **LLUN/MON** | 8 | |
| **MAW/TUE** | **9** | |
| **MER/WED** | **10** | 2.00pm Pwyllgor Safonau/Standards Committee |
| **IAU/THUR** | **11** | |
| **GWE/FRI** | **12** | |
| **SAD/SAT** | **13** | |
| **SUL/SUN** | **14** | |
| **LLUN/MON** | **15** | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| **MAW/TUE** | **16** | 2.00pm CYSAG/SACRE |
| **MER/WED** | **17** | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| **IAU/THUR** | **18** | |
| **GWE/FRI** | **19** | |
| **SAD/SAT** | **20** | |
| **SUL/SUN** | **21** | |
| **LLUN/MON** | **22** | |
| **MAW/TUE** | **23** | 2.00pm Ymddiriedolaeth Elusennol/Charitable Trust |
| **MER/WED** | **24** | |
| **IAU/THUR** | **25** | |
| **GWE/FRI** | **26** | 10.30am Cyd-Bwyllgor AAA/SEN Joint Committee (Llangefni) |
| **SAD/SAT** | **27** | |
| **SUL/SUN** | **28** | |
| **LLUN/MON** | **29** | |
| **MAW/TUES** | **30** | |

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS GORFFENNAF 2015**
**DATES OF MEETINGS FOR JULY 2015**

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| MER/WED | 1 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 2 | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 3 | |
| SAD/SAT | 4 | |
| SUL/SUN | 5 | |
| LLUN/MON | 6 | 3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol/Corporate Scrutiny Committee |
| MAW/TUE | 7 | 10.00am Cynnal (C'fon)<br>2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership & Regeneration Scrutiny Committee |
| MER/WED | 8 | 10.30am Pwyllgor Grantiau Cyffredinol/General Grants Committee |
| IAU/THUR | 9 | 2.00pm Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol/Voluntary Sector Liaison Committee |
| GWE/FRI | 10 | |
| SAD/SAT | 11 | |
| SUL/SUN | 12 | |
| LLUN/MON | 13 | |
| MAW/TUE | 14 | 2.00pm Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd/Democratic Services Committee |
| MER/WED | 15 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THUR | 16 | |
| GWE/FRI | 17 | |
| SAD/SAT | 18 | |
| SUL/SUN | 19 | |
| LLUN/MON | 20 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| MAW/TUE | 21 | |
| MER/WED | 22 | 2.00pm Pwyllgor Archwilio/Audit Committee |
| IAU/THUR | 23 | |
| GWE/FRI | 24 | |
| SAD/SAT | 25 | |
| SUL/SUN | 26 | |
| LLUN/MON | 27 | |
| MAW/TUE | 28 | |
| MER/WED | 29 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THUR | 30 | |
| GWE/FRI | 31 | |

(Fersiwn2 20.2.15)

DRAFT

## DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS AWST 2015
## DATES OF MEETINGS FOR AUGUST 2015

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| SAD/SAT | 1 | |
| SUL/SUN | 2 | |
| LLUN/MON | 3 | |
| MAW/TUE | 4 | |
| MER/WED | 5 | |
| IAU/THUR | 6 | |
| GWE/FRI | 7 | |
| SAD/SAT | 8 | |
| SUL/SUN | 9 | |
| LLUN/MON | 10 | |
| MAW/TUE | 11 | |
| MER/WED | 12 | |
| IAU/THUR | 13 | |
| GWE/FRI | 14 | |
| SAD/SAT | 15 | |
| SUL/SUN | 16 | |
| LLUN/MON | 17 | |
| MAW/TUE | 18 | |
| MER/WED | 19 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THUR | 20 | |
| GWE/FRI | 21 | |
| SAD/SAT | 22 | |
| SUL/SUN | 23 | |
| LLUN/MON | 24 | |
| MAW/TUE | 25 | |
| MER/WED | 26 | |
| IAU / THUR | 27 | |
| GWE / FRI | 28 | |
| SAD/SAT | 29 | |
| SUL/SUN | 30 | |
| LLUN/MON | 31 | **GŴYL Y BANC/BANK HOLIDAY** |

DRAFT

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM MEDI 2015**
**DATES OF MEETINGS FOR SEPTEMBER 2015**

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| MAW/TUES | 1 | |
| MER/WED | 2 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion /Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 3 | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 4 | |
| SAD/SAT | 5 | |
| SUL/SUN | 6 | |
| LLUN/MON | 7 | 2.00pm Panel Rhiant Corfforaethol/Corporate Parenting Panel |
| MAW/TUES | 8 | |
| MER/WED | 9 | |
| IAU/THUR | 10 | |
| GWE/FRI | 11 | 10.00am Cynnal (Llangefni) |
| SAD/SAT | 12 | |
| SUL/SUN | 13 | |
| LLUN/MON | 14 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Ch1)/Corporate Scrutiny Committee (Q1) |
| MAW/TUE | 15 | 3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership & Regeneration Committee |
| MER/WED | 16 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits<br>2.00pm Pwyllgor Safonau/Standards Committee |
| IAU/THUR | 17 | |
| GWE/FRI | 18 | 2.00pm Cyd-Bwyllgor AAA/SEN Joint Committee (Llangefni) |
| SAD/SAT | 19 | |
| SUL/SUN | 20 | |
| LLUN/MON | 21 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| MAW/TUES | 22 | |
| MER/WED | 23 | 2.00pm Pwyllgor Archwilio/Audit Committee |
| IAU/THURS | 24 | |
| GWE/FRI | 25 | |
| SAD / SAT | 26 | |
| SUL / SUN | 27 | |
| LLUN/MON | 28 | |
| MAW/TUE | 29 | 10.30am Fforwn Mynediad Lleol/Local Access Forum<br>2.00pm Cyngor Sir/County Council |
| MER/WED | 30 | 2.00pm Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd/Democratic Services Committee |

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM HYDREF 2015**
**DATES OF MEETINGS FOR OCTOBER 2015**

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| IAU/THURS | 1 | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 2 | 2.00pm Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol/Voluntary Sector Liaison Committee |
| SAD/SAT | 3 | |
| SUL/SUN | 4 | |
| LLUN/MON | 5 | |
| MAW/TUES | 6 | 2.00pm CYSAG/SACRE |
| MER/WED | 7 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 8 | |
| GWE/FRI | 9 | |
| SAD/SAT | 10 | |
| SUL/SUN | 11 | |
| LLUN/MON | 12 | |
| MAW/TUES | 13 | |
| MER/WED | 14 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THUR | 15 | |
| GWE/FRI | 16 | |
| SAD/SAT | 17 | |
| SUL/SUN | 18 | |
| LLUN/MON | 19 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| MAW/TUE | 20 | |
| MER/WED | 21 | |
| IAU/THUR | 22 | |
| GWE/FRI | 23 | |
| SAD/SAT | 24 | |
| SUL/SUN | 25 | |
| LLUN/MON | 26 | |
| MAW/TUE | 27 | |
| MER/WED | 28 | |
| IAU/THURS | 29 | |
| GWE/FRI | 30 | |
| SAD/SAT | 31 | |

(Fersiwn2 20.2.15)

## DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS TACHWEDD 2015
## DATES OF MEETINGS FOR NOVEMBER 2015

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| SUL/SUN | 1 | |
| LLUN/MON | 2 | 2.00pm Panel Rhiant Corfforaethol/Corporate Parenting Panel |
| MAW/TUES | 3 | 10.30am Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau/Investments & Contracts Committee |
| MER/WED | 4 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 5 | 10.30am Pwyllgor Adfywio/Regeneration Committee<br>*1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 6 | |
| SAD/SAT | 7 | |
| SUL/SUN | 8 | |
| LLUN/MON | 9 | |
| MAW/TUES | 10 | 2.00pm Ymddiriedolaeth Elusennol/Charitable Trust |
| MER/WED | 11 | |
| IAU/THURS | 12 | |
| GWE/FRI | 13 | 10.00am Cynnal (AGM) (C'fon) |
| SAD/SAT | 14 | |
| SUL/SUN | 15 | |
| LLUN/MON | 16 | 3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Ch2)/Corporate Scrutiny Committee (Q2) |
| MAW/TUE | 17 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership & Regeneration Scrutiny Committee |
| MER/WED | 18 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THUR | 19 | |
| GWE/FRI | 20 | 10.30am Cyd-Bwyllgor AAA/SEN Joint Committee (C'fon) |
| SAD/SAT | 21 | |
| SUL/SUN | 22 | |
| LLUN/MON | 23 | |
| MAW/TUE | 24 | |
| MER/WED | 25 | |
| IAU/ THUR | 26 | |
| GWE/FRI | 27 | |
| SAD/SAT | 28 | |
| SUL/MON | 29 | |
| LLUN/MON | 30 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS RHAGFYR 2015**
**DATES OF MEETINGS FOR DECEMBER 2015**

| DYDDIAD<br>DATE | | |
|---|---|---|
| **MAW/TUES** | **1** | |
| **MER/WED** | **2** | 1.00pm  Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| **IAU/THURS** | **3** | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| **GWE/FRI** | **4** | |
| **SAD/SAT** | **5** | |
| **SUL/SUN** | **6** | |
| **LLUN/MON** | **7** | 2.00pm  Panel Rhiant Corfforaethol/Corporate Parenting Panel |
| **MAW/TUES** | **8** | 2.00pm  Pwyllgor Archwilio/Audit Committee |
| **MER/WED** | **9** | 2.00pm  Cyngor Sir/County Council |
| **IAU/THURS** | **10** | 2.00pm  Pwyllgor Safonau/Standards Committee |
| **GWE/FRI** | **11** | |
| **SAD/SAT** | **12** | |
| **SUL/SUN** | **13** | |
| **LLUN/MON** | **14** | 10.00am  Pwyllgor Gwaith (Cyllideb)/Executive (Budget) |
| **MAW/TUES** | **15** | 2.00pm  LJCC/Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol |
| **MER/WED** | **16** | 9.30am  Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| **IAU/THURS** | **17** | |
| **GWE/FRI** | **18** | |
| **SAD/SAT** | **19** | |
| **SUL/SUN** | **20** | |
| **LLUN/MON** | **21** | |
| **MAW/TUES** | **22** | |
| **MER/WED** | **23** | |
| **IAU/THURS** | **24** | |
| **GWE/FRI** | **25** | |
| **SAD/SAT** | **26** | |
| **SUL /SUN** | **27** | |
| **LLUN/MON** | **28** | |
| **MAW/TUES** | **29** | |
| **MER/WED** | **30** | |
| **IAU/THURS** | **31** | |

DRAFT

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS IONAWR 2016**
**DATES OF MEETINGS FOR JANUARY 2016**

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| GWE/FRI | 1 | |
| SAD/SAT | 2 | |
| SUL/SUN | 3 | |
| LLUN/MON | 4 | |
| MAW/TUES | 5 | |
| MER/WED | 6 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 7 | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 8 | |
| SAD/SAT | 9 | |
| SUL/SUN | 10 | |
| LLUN/MON | 11 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol /Corporate Scrutiny Committee |
| MAW/TUES | 12 | |
| MER/WED | 13 | |
| IAU/THURS | 14 | |
| GWE/FRI | 15 | 2.00pm Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol/Voluntary Sector Liaison Committee |
| SAD/SAT | 16 | |
| SUL/SUN | 17 | |
| LLUN/MON | 18 | |
| MAW/TUE | 19 | 2.00pm Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd/Democratic Services Committee |
| MER/WED | 20 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THURS | 21 | |
| GWE/FRI | 22 | |
| SAD/SAT | 23 | |
| SUL/SUN | 24 | |
| LLUN/MON | 25 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| MAW/TUE | 26 | 10.30am Fforwm Mynediad Lleol/Local Access Forum |
| MER/WED | 27 | |
| IAU/THURS | 28 | |
| GWE/FRI | 29 | |
| SAD/SAT | 30 | |
| SUL/SUN | 31 | |

(Fersiwn2 20.2.15)

## DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS CHWEFROR 2016
## DATES OF MEETINGS FOR FEBRUARY 2016

DRAFT

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| **LLUN/MON** | **1** | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Ch3)/Corporate Scrutiny Committee (Q3) (Budget) |
| **MAW/TUES** | **2** | 3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership and Regeneration Scrutiny Committee |
| **MER/WED** | **3** | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| **IAU/THURS** | **4** | 2.00pm Pwyllgor Archwilio/Audit Committee |
| **GWE/FRI** | **5** | 10.30am Pwyllgor Adfywio/Regeneration Committee |
| **SAD/SAT** | **6** | |
| **SUL/SUN** | **7** | |
| **LLUN/MON** | **8** | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| **MAW/TUES** | **9** | |
| **MER/WED** | **10** | |
| **IAU/THURS** | **11** | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| **GWE/FR** | **12** | |
| **SAD/SAT** | **13** | |
| **SUL/SUN** | **14** | |
| **LLUN/MON** | **15** | 10.00am Pwyllgor Gwaith (Cyllideb)/Executive (Budget) |
| **MAW/TUES** | **16** | 2.00pm CYSAG/SACRE |
| **MER/WED** | **17** | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| **IAU/THUR** | **18** | |
| **GWE/FRI** | **19** | |
| **SAD/ SAT** | **20** | |
| **SUL/SUN** | **21** | |
| **LLUN/MON** | **22** | |
| **MAW/TUES** | **23** | |
| **MER/WED** | **24** | 2.00pm Cyngor Sir/County Council |
| **IAU/THUR** | **25** | |
| **GWE/FRI** | **26** | |
| **SAD/SAT** | **27** | |
| **SUL/SUN** | **28** | |
| **LLUN/MON** | **29** | |

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS MAWRTH 2016**
**DATES OF MEETINGS FOR MARCH 2016**

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| MAW/TUES | 1 | |
| MER/WED | 2 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 3 | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 4 | |
| SAD/SAT | 5 | |
| SUL/SUN | 6 | |
| LLUN/MON | 7 | 2.00pm Panel Rhiant Corfforaethol/Corporate Parenting Panel |
| MAW/TUES | 8 | |
| MER/WED | 9 | 2.00pm Pwyllgor Safonau/Standards Committee |
| IAU/THURS | 10 | |
| GWE/FRI | 11 | |
| SAD/SAT | 12 | |
| SUL/SUN | 13 | |
| LLUN/MON | 14 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive<br>3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol/Corporate Scrutiny Committee |
| MAW/TUES | 15 | |
| MER/WED | 16 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THURS | 17 | |
| GWE/FRI | 18 | 10.30am Cyd-Bwyllgor AAA/SEN Joint Committee (C'fon) |
| SAD/SAT | 19 | |
| SUL/SUN | 20 | |
| LLUN/MON | 21 | |
| MAW/TUES | 22 | |
| MER/WED | 23 | 2.00pm Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd/Democratic Services Committee |
| IAU/THURS | 24 | |
| GWE/FRI | 25 | **GŴYL Y BANC/BANK HOLIDAY** |
| SAD/SAT | 26 | |
| SUL/SUN | 27 | |
| LLUN/MON | 28 | **GŴYL Y BANC/BANK HOLIDAY** |
| MAW/TUES | 29 | |
| MER/WED | 30 | |
| IAU/THURS | 31 | |

DRAFT

(Fersiwn2 20.2.15)

**DYDDIADAU CYFARFODYDD AM FIS APRIL 2016**
**DATES OF MEETINGS FOR EBRILL 2016**

| DYDDIAD DATE | | |
|---|---|---|
| GWE/FRI | 1 | |
| SAD/SAT | 2 | |
| SUL/SUN | 3 | |
| LLUN/MON | 4 | |
| MAW/TUES | 5 | |
| MER/WED | 6 | 1.00pm Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/Planning & Orders Committee |
| IAU/THURS | 7 | *1.00-3.00pm Cyfarfod briffio Aelodau/Member briefing meeting* |
| GWE/FRI | 8 | |
| SAD/SAT | 9 | |
| SUL/SUN | 10 | |
| LLUN/MON | 11 | 2.00pm Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol/Corporate Scrutiny Committee |
| MAW/TUES | 12 | 3.00pm Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio/Partnership & Regeneration Scrutiny Committee |
| MER/WED | 13 | 2.00pm Pwyllgor Archwilio/Audit Committee |
| IAU/THURS | 14 | |
| GWE/FRI | 15 | |
| SAD/SAT | 16 | |
| SUL/SUN | 17 | |
| LLUN/MON | 18 | |
| MAW/TUE | 19 | 2.00pm Ymddiriedolaeth Elusennol/Charitable Trust |
| MER/WED | 20 | 9.30am Ymweliadau Safleoedd/Site Visits |
| IAU/THURS | 21 | |
| GWE/FRI | 22 | |
| SAD/SAT | 23 | |
| SUL/SUN | 24 | |
| LLUN/MON | 25 | 10.00am Pwyllgor Gwaith/Executive |
| MAW/TUE | 26 | |
| MER/WED | 27 | |
| IAU/THURS | 28 | |
| GWE/FRI | 29 | |

(Fersiwn2 20.2.15)

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad/Title of Report)    Datganiad Polisi Tâl/Pay Policy Statement2015***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) 13, 14 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae budd i'r cyhoedd wybod am faterion sy'n ymwneud â sefydliad y Cyngor a gweithwyr y Cyngor gan eu bod yn weithwyr cyhoeddus. Mae diddordeb uniongyrchol gan y cyhoedd yng nghostau gwasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd.<br><br>There is public interest in knowing of matters which relate to the Council's establishment as public sector workers. The public have direct interest in the cost of services and efficiency savings. | Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae yna ddisgwyliad rhesymol fod pob mater sy'n ymwneud â gweithiwr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae'r adroddiad hwn â goblygiadau cyflogaeth sy'n ymwneud ag uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor a mae'n bosib adnabod unigolion o deitl y swydd.<br><br>There is a reasonable expectation that all matters relating to an individual employee of the Council are treated confidentially. This report has implications in relation to the remuneration of senior leadership team posts and it will be possible to identify individuals from post titles. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank